



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cyfle ein cenhedlaeth

Sefyllfa'r Gymraeg 2021–25:
Adroddiad 5-mlynedd
Comisiynydd y Gymraeg



Cynnwys

Rhagair y Comisiynydd 4

Cyflwyniad 7

Dyletswydd statudol 8

Nod a strwythur yr adroddiad 8

Cyfrifiad 2021 a dyfodol data am y Gymraeg 9

Prif gasgliadau ac argymhellion 12

Rhan 1: Canlyniadau Cyfrifiad 2021 a'r Gymraeg 26

1. Cefndir 28

2. Cyd-destun Cyfrifiad 2021 28

3. Beth yw poblogaeth Cymru? 29

4. Faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg? 30

5. Ble mae siaradwyr Cymraeg yn byw? 34

6. Oes yna ffyrdd eraill o roi siaradwyr Cymraeg ar fap? 52

7. Beth yw oed siaradwyr Cymraeg? 57

8. Pwy sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant? 75

9. Pa sgiliau ieithyddol sydd gan siaradwyr Cymraeg? 85

10. O ble mae siaradwyr Cymraeg yn dod? Ac i ba grwpiau ethnig maen nhw'n perthyn? 103

11. Pa fath o swyddi sydd gan siaradwyr Cymraeg? 115

Atodiad: Tablau ychwanegol 132

Rhan 2: Creu siaradwyr 155

1. Trosglwyddo iaith 157

2. Y blynyddoedd cynnar 165

3. Addysg statudol 177

4. Y sector addysg drydyddol a dysgu Cymraeg gydol oes 195

Rhan 3: Cynyddu defnydd 210

1. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a chynllunio ieithyddol cymunedol 212

2. Darlledu, y cyfryngau, a thechnoleg 240

3. Economi, tai, a chynllunio gwlad a thref 253

4. Gwasanaethau, gweithleoedd a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg 262

Blaenoriaethau'r Comisiynydd 305

Rhagair y Comisiynydd

Rwy'n cyhoeddi'r adroddiad 5-mlynedd hwn ar drothwy etholiad Senedd 2026. Etholiad arwyddocaol yn ein hanes ni fel cenedl, yn ddi-os. Mae'r polau piniwn yn cyson awgrymu bod newid ar droed. Ac er na fyddwn yn gwybod tan fis Mai pwy fydd yn arwain Cymru am y pedair blynedd nesaf, rydym yn gwybod i sicrwydd y bydd gennym ni, am y tro cyntaf, 96 Aelod Senedd yn cynrychioli pobl Cymru. Bydd yr aelodau hynny wedi eu hethol drwy system bleidleisio newydd ac yn cynrychioli etholaethau newydd. Etholaethau sydd ag enwau Cymraeg yn unig iddynt: arwydd symbolaidd ar drothwy Senedd newydd o hyder a balchder cenedlaethol yn ein hiaith.



Mae cyfleoedd newydd ar y gorwel felly: cyfleoedd i feddwl a gweithredu'n wahanol, er budd sawl maes gan gynnwys y Gymraeg. Nid diystyru ymdrechion clodwiw'r pum mlynedd diwethaf yw fy mwriad wrth ddweud hyn. Gwelwyd datblygiadau polisi a deddfwriaeth hollbwysig yn ystod y pum mlynedd diwethaf fel y mae'r adroddiad hwn yn tystio, **ond rhaid wrth newid pellach.** Mae'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd 680,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y Senedd nesaf. Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio eto mai 538,296 o siaradwyr Cymraeg oedd yng Nghymru yn 2021. Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno ymyraethau beiddgar o blaid y Gymraeg i drawsnewid y sefyllfa hon **os ydyn ni o ddifri am ddyblu'r defnydd dyddiol a chyrraedd y miliwn erbyn 2050.**

Mae gen i syniadau ynghylch sut i gyflawni newid ar sail fy ngwaith bob dydd yn eiriol dros y Gymraeg wrth gwrs, ac rydw i eisoes wedi cyhoeddi **Cynigion Maniffesto 2026** sy'n amlinellu pum cynnig uchelgeisiol ond ymarferol sydd â'r potensial i newid yn sylweddol sefyllfa'r Gymraeg erbyn diwedd cyfnod y Senedd nesaf. Rhaid pwysleisio nad ydw i'n awgrymu y byddai cyflwyno'r pum cynnig maniffesto hyn, na chyflawni amcanion fy **nghynllun strategol newydd**, yn ddigonol ynddynt eu hunain i weddnewid sefyllfa'r Gymraeg. Mae'r darlun yn llawer iawn mwy cymhleth na hynny fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, ac mae'r argymhellion a wneir yma yn fwy cyffredinol ac eang eu natur, fel sy'n gweddu i adroddiad 5-mlynedd. Fy nod yn yr adroddiad hwn yw adnabod ac amlygu'r prif flaenoriaethau a chyfleoedd i'r cyfnod nesaf, gan ymrwymo i drafod glo mân y dulliau a'r datrysiadau â'r Llywodraeth newydd a phartneriaid eraill maes o law. **Bydd yn rhaid i'r Gymraeg fod yn ganolog i bob agenda polisi a deddfwriaeth y bydd Llywodraeth newydd Cymru'n eu cyflwyno er mwyn i ni weld y newid gwirioneddol a pharhaol angenrheidiol**, a chamu'n nes at y miliwn.

Mae angen syniadau newydd, egni newydd ac ymdrechion newydd i gyflawni'r newid rydym yn dyheu amdano. **Fy nod i yn yr adroddiad hwn yw darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer gweithredu ymarferol o blaid y Gymraeg.** Gan dynnu ar ddata Cyfrifiad 2021 ac arolygon cenedlaethol eraill, ynghyd â chynnig trosolwg o'r hyn a wyddom am sefyllfa'r Gymraeg drwy ein gwaith dylanwadu ar bolisi a rheoleiddio, rydym yn ceisio cyflwyno darlun mor gyflawn â phosibl o sefyllfa'r Gymraeg a phrofiadau ei siaradwyr. **Dim ond drwy gael darlun cytbwys a chyflawn o sefyllfa'r Gymraeg y gallwn ni ddeall yn llawn yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ein hiaith yng nghyfnod y Senedd nesaf.**

Mae gen i uchelgais fawr ar gyfer y Gymraeg a'i siaradwyr. Rydw i am weld Cymru lle mae byw yn Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i'w thrigolion, **a byddaf yn gwbl ddiwyro er mwyn gwireddu hynny.** Dyma wahoddiad felly i Lywodraeth newydd Cymru, aelodau Seneddol o bob plaid, llunwyr polisi a phob un ohonom sy'n ymddiddori yn y Gymraeg i ddarllen ein dadansoddiad ni o sefyllfa'r Gymraeg heddiw. Dim ond drwy oedi i ddeall ac ystyried sefyllfa'r Gymraeg heddiw y gallwn ni gynllunio yfory gwell ar ei chyfer.



Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Cyflwyniad



Dyletswydd statudol

Mae adran 5, rhan 2 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu dyletswydd statudol benodol i'r Comisiynydd lunio adroddiad bob pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg. Mae gofynion pellach pan gaiff yr adroddiad ei lunio ar ôl cyfrifiad. Rhaid i adroddiad o'r fath gynnwys dadansoddiad o ganlyniadau'r cyfrifiad a chynnig asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg.

Dyma drydydd adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg sy'n adrodd ar y cyfnod o 1 Ionawr 2021 hyd 31 Rhagfyr 2025. Roedd yr **adroddiad cyntaf** yn adrodd ar y cyfnod rhwng agor drysau swyddfa'r Comisiynydd ar 1 Ebrill 2012 a diwedd Rhagfyr 2015 a'r **ail yn adrodd ar y pum mlynedd llawn** rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2020.

Nod a strwythur yr adroddiad

Nid ymgais i fodloni dyletswydd statudol yn unig yw llunio'r adroddiad hwn i ni. Mae'r cyfrifoldeb unigryw i lunio adroddiad annibynnol a chynhwysfawr am sefyllfa'r Gymraeg yn un rydym wedi ei gofleidio'n llawn. Prif ddiben yr adroddiad yw cynnig dadansoddiad annibynnol o sefyllfa'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Ond nid adrodd er mwyn adrodd yw ein nod. Rydym yn dymuno i'r wybodaeth sydd gennym am sefyllfa'r Gymraeg **ddarparu sylfaen gref ar gyfer gweithredu herfeiddiol ac uchelgeisiol o'i phlaid.**

I gyflawni hyn mae tair prif ran i'r adroddiad. Mae **Rhan 1** yn cynnig dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 a'n canfyddiadau o oblygiadau'r rheini i sefyllfa'r Gymraeg, yn unol â gofynion y Mesur. Mae'r dadansoddiad yn **ymgais i dreiddio'n ddyfnach i'r ystadegau** a holi beth allwn ni ei ddeall am sefyllfa'r Gymraeg a'i siaradwyr yn sgil yr ymatebion i holiadur Cyfrifiad 2021. Mae hefyd yn edrych yn ôl ar ystadegau cyfrifiadau blaenorol i roi trosolwg i ni o sefyllfa'r Gymraeg dros sawl degawd.

Y rhan gyntaf hon am y cyfrifiad yw sail a sylfaen dwy ran nesaf yr adroddiad mewn gwirionedd. Yn y ddwy ran ddilynol rydym yn **mynd y tu hwnt i ffigurau moel y cyfrifiad** i ystyried beth rydym yn ei wybod am y Gymraeg drwy ffynonellau eraill, gan gynnwys adroddiadau ymchwil, arolygon cenedlaethol, ein gwaith craffu ar bolisi a'n dyletswyddau rheoleiddio.

Mae **Rhan 2** wedi ei neilltuo i faes hanfodol Creu Siaradwyr. Wrth gwrs, nid yw canlyniadau Cyfrifiad 2021 – cyfrifiad a gynhaliwyd tua dechrau'r cyfnod adrodd – yn ddigonol i ateb y cwestiwn a oes cynnydd wedi'i wneud yn y maes allweddol hwn yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio. Mae'r rhan hon felly **yn gyfle i graffu mewn rhagor o fanylder ar rai o'r meysydd polisi sy'n ganolog i'r ymdrechion i greu mwy o siaradwyr.** Mae'n rhoi sylw i feysydd strategol bwysig fel trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, rôl allweddol gofal plant ac addysg blyneddol cynnar, y gwaith sylweddol sy'n digwydd o fewn y sector addysg statudol a'r sector drydyddol, a hefyd gyfraniad cynyddol amlwg y sector dysgu Cymraeg i oedolion. Creffir ar bob un o'r meysydd hyn yn eu tro gan ystyried a oes tystiolaeth gennym fod y polisiâu sy'n eu lle yn mynd i arwain at weld cynnydd yn y niferoedd erbyn Cyfrifiad 2031. Tafolir y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod adrodd **cyn amlygu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd mae'r Comisiynydd wedi eu hadnabod ar gyfer y pum mlynedd nesaf.**

Mae **Rhan 3** wedyn yn troi at faes Cynyddu Defnydd: ail amcan strategol *Cymraeg 2050* a thema sy'n ganolog i waith Comisiynydd y Gymraeg **â'n prif nod statudol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg**. Creffir ar ddata ystadegol am ddefnydd sy'n dod o Arolwg Defnydd Iaith (2019–20), sef y brif ffynhonnell awdurdodol o ddata am ddefnydd o'r Gymraeg. Er bod yr Arolwg Defnydd Iaith diwethaf wedi ei gynnal ar ddiwedd cyfnod adrodd yr adroddiad 5-mllynedd diwethaf mewn gwirionedd, ni chyhoeddwyd ei ganlyniadau tan ddechrau'r cyfnod adrodd hwn.

Rhoddir sylw hefyd i ddatblygiadau polisi allweddol sydd â'r bwriad o gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg, gan gynnwys cynllunio ieithyddol, yr economi a thai, a chynllunio gwasanaethau a datblygu gweithleoedd Cymraeg. O ystyried mor ganolog yw'r meysydd hyn i waith beunyddiol y Comisiynydd, mae'n naturiol fod gennym ddata a chanfyddiadau uniongyrchol i'w rhannu yn sgil ein gwaith yn gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Rhan 3 **yn gyfle felly i oedi a holi a yw'r polisïau presennol yn debygol o arwain at ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg** a pha flaenoriaethau a chyfleoedd newydd sydd yna i'r pum mlynedd sydd i ddod.

Wedi eu gwasgaru drwy Rhan 2 a Rhan 3 mae saith astudiaeth sy'n ymgais i gyflwyno profiadau unigolion o'r Gymraeg a phwysigrwydd yr iaith iddyn nhw a'u cymunedau. Wedi'r cwbl, **pobl sy'n siarad iaith a bydd stori iaith bersonol gan bob un o'r 538,296** wnaeth nodi eu bod yn siarad Cymraeg wrth ymateb i holiadur Cyfrifiad 2021. Mae'r astudiaethau achos hyn wedi eu dewis er mwyn amlygu pam ein bod ni wedi dewis canolbwyntio ar dair thema yn ein Cynllun Strategol 2025–30, sef **plant a phobl ifanc, y gweithle, ac iechyd a gofal**. Maent hefyd yn amlygu pam ein bod ni wedi dewis ein cynigion maniffesto penodol, drwy arddangos sut y gall y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio, wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau unigolion a chymunedau.

Cyfrifiad 2021 a dyfodol data am y Gymraeg

Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021 yw conglfaen yr adroddiad hwn ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n eglur mai'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol er mwyn mesur y cynnydd at y miliwn.

Ond nid yw data'r Cyfrifiad heb ei gymhlethdodau na'i gyfyngiadau. Er enghraifft, gwyddom fod y nifer sy'n adrodd eu bod yn siarad Cymraeg yn gyson is na chanlyniadau arolygon aelwydydd eraill, gan gynnwys yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth. Ac yn ystod y cyfnod adrodd ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gynllun gwaith i edrych yn fanylach ar y gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data hyn ac ystyried sut y gellir gwella'r broses o gasglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg yn y dyfodol.

Trafodir canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn yr adroddiad hwn fel pe baent yn disgrifio sefyllfa'r Gymraeg heddiw. Ond cipolwg un diwrnod – a diwrnod neilltuol ar lawer ystyr – yw canlyniadau Cyfrifiad 2021. Dros bum mlynedd ers dechrau pandemig COVID-19, mae bron yn anodd cofio pa mor wahanol oedd bywyd yn y cyfnod digynsail hwnnw.

Rhaid cofio hefyd mai holiadur hunanasesu yw'r cyfrifiad ac mai ateb goddrychol y mae pawb yn ei roi i'r cwestiwn am eu gallu yn y Gymraeg. **Bydd pob un ohonom yn asesu ein sgiliau iaith yn wahanol** ac mae'n debygol iawn y bydd dau unigolyn sydd â sgiliau Cymraeg tebyg yn ateb mewn ffordd gwbl wahanol i'w gilydd. Cofiw'n hefyd y gall unigolyn yn y cartref fod yn cynnig asesiad o sgiliau aelodau eraill yr aelwyd. Er enghraifft, rhieni fydd yn nodi gallu ieithyddol eu plant ac efallai nad ydynt yn gwybod yn iawn pa mor dda y gall plentyn ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg.

Ychwaneger at hyn y ffaith fod **ansicrwydd wedi bod drwy gydol y cyfnod adrodd hwn ynghylch a fyddai Cyfrifiad llawn arall o'r boblogaeth yn cael ei gynnal yn 2031**. Dim ond ym mis Gorffennaf 2025 y gwnaeth Llywodraeth y DU y penderfyniad terfynol i gomisiynu cyfrifiad arall yn unol ag argymhelliad Awdurdod Ystadegau'r DU.

Arolwg arall nad oes sicrwydd gennym ni ynghylch pryd y bydd yn cael ei gynnal eto yw'r Arolwg Defnydd Iaith. Nodwyd yn yr adroddiad 5-mllynedd diwethaf mai ein gobaith cychwynnol oedd y byddai'r adroddiad hwnnw'n un fyddai'n rhoi pwyslais neilltuol ar ddata defnydd, gan dderbyn mai niferoedd fyddai prif bwyslais naturiol pob adroddiad a gyhoeddir yn dilyn cyfrifiad. Er i Lywodraeth Cymru lansio Arolwg Defnydd Iaith yng ngwanwyn 2019, bu'n rhaid dirwyn yr arolwg hwnnw i ben yn annhymig o ganlyniad i gyfyngiadau argyfwng y pandemig. Trafodir canlyniadau'r arolwg hwnnw yn Rhan 3 yr adroddiad hwn, ond nid yw'r data yn ddigonol i ddiwallu'r galw am Arolwg Defnydd Iaith cenedlaethol cyflawn. Nid oedd maint y sampl yn caniatáu dadansoddi fesul awdurdod lleol, er enghraifft. **Rydym yn dal i aros felly am Arolwg Defnydd Iaith cyflawn y gellid ei gymharu'n ystyrlon â'r arolwg a gynhaliwyd ar y cyd rhngom a Llywodraeth Cymru rhwng 2013 a 2015.**

Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn nid oedd cynlluniau cadarn yn eu lle i gynnal Arolwg Defnydd Iaith arall. Mae'r Arolwg Cenedlaethol, sy'n sail i'r Arolwg Defnydd Iaith, yn cael ei ail-ddylunio ar hyn o bryd ac felly ni chynhaliwyd gwaith maes o gwbl yn ystod y flwyddyn ariannol 2025–26. Bydd y gwaith maes yn aildechrau yn 2026–27 ac edrychwn ymlaen at barhau i drafod â Llywodraeth newydd Cymru sut a phryd y gellid cynnwys Arolwg Defnydd Iaith yn rhan o gylch yr Arolwg Cenedlaethol i ddiwallu'r angen cenedlaethol – a statudol bellach – i adrodd am y defnydd o'r Gymraeg.

O ystyried cyfyngiadau data'r arolygon presennol, mae'n dilyn **y dylid ystyried dulliau eraill o fesur sefyllfa'r Gymraeg**. Trafodwyd yn yr adroddiad 5-mllynedd diwethaf y fagl beryglus o ddrychafu ymchwil meintiol goruwch ymchwil ansoddol wrth drafod sefyllfa'r Gymraeg. **Rhan o'r darlun yn unig a gawn o fesur perfformiad drwy ganfod maint neu swm**, nid yw'n rhoi amcan i ni o arferion, defnydd, hyder, nac ymddygiad y bobl dan sylw. Rhaid ychwanegu dulliau ansoddol er mwyn treiddio i wir brofiad unigolion.

Yr anfonlonrwydd hwn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â data'r Gymraeg a arweiniodd ni i gefnogi darn o ymchwil gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ar ddulliau amgen o asesu hyfywedd iaith.¹ Mae'r adroddiad hwnnw'n amlygu gwerth system dangosyddion iaith fel modd o gyfuno amryw o ffynonellau data mewn modd systematig i ddeall sefyllfa iaith, ac yn archwilio potensial Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol i gyplysu data iaith â data perthnasol arall. Mae hefyd yn adnabod bod **angen casglu data mwy gwydn yn rheolaidd am sefyllfa'r Gymraeg**, gan gynnwys data am ddefnydd iaith.

Mae'n anrnod y bydd gan rai o ddarllenwyr yr adroddiad hwn dystiolaeth bellach a fyddai'n cyfoethogi eto ein dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg. **Dyma wahoddiad felly i chi gysylltu â ni os oes gennych chi wybodaeth bwysig am sefyllfa'r Gymraeg** na chynhwyswyd yn yr adroddiad hwn. Buasem wrth ein bodd yn trafod â chi. Wedi'r cyfan, ein huchelgais yw y bydd yr adroddiad hwn yn esgor ar ddeialog fydd er lles sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

¹ E. Royles, Rh. Jones, a H. Lewis, Adroddiad ar ddulliau asesu hyfywedd iaith (Prifysgol Aberystwyth, 2024)

Prif gasgliadau ac argymhellion



Cadarnhaodd canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 nad ydym yn gweld y cynnydd rydym yn ei ddeisyfu yn nifer na chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 a gynigir yn rhan gyntaf yr adroddiad hwn, yn ogystal â'r ffynonellau data eraill a archwilir yn yr ail ran, yn gyfle i ni edrych o dan wyneb datganiad o'r fath ac ystyried ble yn union y mae'r colledion a'r enillion. Ond rhaid cydnabod mai darlun statig a gawn – ar y gorau.

Er i nifer y siaradwyr Cymraeg aros yn weddol gyson dros bedwar degawd, mae'r boblogaeth wedi tyfu'n sylweddol yn yr un cyfnod gan adael sefyllfa'r Gymraeg yn fwy bregus, yn ddi-os. **Yn syml, nid yw'r twf yn y boblogaeth wedi arwain at dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg.** Ac mae'r ffaith mai yn sgil mewnfudo mae'r boblogaeth yn tyfu yn arwain at heriau pellach i hyfywedd yr iaith, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny a ystyriwyd yn draddodiadol yn gadarnleoedd y Gymraeg. Mae cwestiwn gwirioneddol ynghylch am ba hyd y bydd rhai o'r ardaloedd hyn yn teilyngu'r disgrifiad hwnnw.

Mae'n dilyn yn gwbl naturiol bod y newid demograffaid hwn y mae'r Cyfrifiad yn ei ddisgrifio yn cael traweffaith uniongyrchol ar ddefnydd o'r Gymraeg, wrth gwrs, ac mae trydedd ran yr adroddiad hwn yn rhoi sylw penodol i'r pwnc hwnnw; **calon ein cenhadaeth ni yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.** Nid yw data'r Arolwg Defnydd Iaith diwethaf ar gael ar lefel awdurdod lleol yn anffodus, **ond rydym yn gwybod ar sail ymchwil a phrofiad fod y defnydd o'r Gymraeg fel iaith naturiol yn ein cymunedau yn gwanhau.** Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun ein pobl ifanc ni. Mae ein hymchwil ni ac eraill yn pwysleisio bod ein pobl ifanc yn cynyddol fyw mewn cyd-destun lle mai'r Saesneg yw iaith chwarae ac adloniant – yn arbennig yn y byd digidol – a bod perygl gwirioneddol felly bod y cynnydd a welwn drwy'r system addysg yn cael ei gadw o fewn muriau'r ysgol.

Wrth gwrs, does dim o'r canfyddiadau na'r pryderon hyn yn newydd. A thros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gweld y Llywodraeth, a rhanddeiliaid eraill, yn cyflwyno ymyraethau i geisio mynd i'r afael â nhw. Mae hynny felly'n codi'r cwestiwn pwysig: **beth yn rhagor allwn ni ei wneud i wireddu ein huchelgais fawr dros y Gymraeg a'i siaradwyr?**

Gallwn ni ddim parhau i weithredu mewn ffordd debyg os ydyn ni'n dymuno gweld canlyniadau sylfaenol wahanol.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi nodi argymhellion penodol am yr hyn sydd angen ei gyflawni i gael y canlyniadau gorau – canlyniadau fydd yn mynd y tu hwnt i gynnal a thuag at gryfhau – sefyllfa ein hiaith. **Mae deg ohonynt i gyd a gellir gweld y 10 prif flaenoriaeth yn yr adrannau sy'n amlinellu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg ar ddiwedd pob adran.**

Mae gweld y blaenoriaethau hyn yn eu cyd-destun yn hanfodol: nid deg gorchymyn di-sail yw'r rhain. Mae polisi iaith yn wyddor gymhleth a rhaid cael y darlun llawn cyn gweithredu'n gyfrifol a chynllunio'r ymyraethau aml-haenog angenrheidiol.

Ein neges syml felly i Lywodraeth newydd Cymru – ac i bawb sydd am weld y Gymraeg yn ffynnu – yw bod cyfle dros y pum mlynedd nesaf i gyflwyno ymyraethau beiddgar a thrawsnewidiol. Mae'r deg prif flaenoriaeth yn perthyn i dri maes strategol lle mae cyfleoedd gwirioneddol i wneud gwahaniaeth.

Tri phrif gyfle

1. Creu siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r gyfundrefn addysg
2. Cryfhau defnydd cymunedol o'r Gymraeg
3. Creu gweithleoedd sy'n cefnogi'r Gymraeg



Creu siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r gyfundrefn addysg



Cynnyrch ein hysgolion ni fydd cyfran helaeth siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Does dim amheuaeth felly bod angen rhagor o ysgolion cyfrwng Cymraeg arnom. Ac i symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith a gwireddu uchelgais fawr Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 rhaid wrth chwyldro yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae athrawon – a gweddill y gweithlu addysg – yn gwbl ganolog i gyflawni hyn.

Dim ond drwy ymyrryd yn uniongyrchol yn y maes hwn a sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog – gan gynnwys y gweithlu blynnyddoedd cynnar – y gall y Llywodraeth newydd fod ag unrhyw obaith o symbylu newid gwirioneddol yn y niferoedd sy'n gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yn hyderus. Mae'n boenus o amlwg nad yw'r ymdrechion presennol yn ddigon uchelgeisiol na phellgyrhaeddol i ateb y gofyn.

Rydym yn galw felly ar Lywodraeth nesaf Cymru i sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg yn rhan orfodol o hyfforddi, sefydlu a datblygu proffesiynol pob athro yn y dyfodol. Byddai'n darparu cyfle gwych i athrawon y dyfodol ddatblygu eu sgiliau a chyfrannu yn uniongyrchol at chwyldroi cyfundrefn addysg Cymru.



Cryfhau defnydd cymunedol o'r Gymraeg



Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob rhan o Gymru, ac i bob cymuned ynddi. Ond er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo'n naturiol o genhedlaeth i genhedlaeth, a'i bod hi'n cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, rhaid gwarchod yn benodol y cymunedau hynny lle mae dwysedd uwch o siaradwyr. Y cymunedau hyn yw pwerdy'r iaith – y môr yn esgyrn y Gymraeg – ac mae eu meithrin yn hanfodol i iechyd yr iaith ledled y wlad. Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu'n genedlaethol rhaid iddi ffynnu'n gymunedol.

Cydnabuwyd hyn yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad hwn drwy sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg â'r nod o gryfhau cymunedau Cymraeg. Mae cyfle yn awr i Lywodraeth newydd Cymru weithredu ar sylfeini cadarn y gwaith trylwyr a gyflawnwyd ganddo.

Byddai gweithredu argymhellion y Comisiwn ag arddeliad ac uchelgais yn darparu cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i fynd i'r afael â dirywiad y Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno papur gwyn cyn gynted â phosibl yn ystod tymor y Senedd nesaf fydd yn cynnig dull ar gyfer gweithredu'n llawn brif argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Ond mae angen sicrhau hefyd ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg ymhlith y 'cymunedau' o siaradwyr sydd ar wasgar yn ddaearyddol. Mae angen darparu ac ariannu profiadau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae canran gymharol isel ond niferoedd cymharol uchel o siaradwyr. **Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc er mwyn iddynt fwynhau'r Gymraeg a gweld ei pherthnasedd y tu allan i'r ysgol.**

I ymateb i'r her hon, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar gryfhau fframweithiau cynllunio ieithyddol cymunedol, yn unol ag argymhelliad pellach gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae potensial amlwg yma i gryfhau'r safonau hybu fel cerbyd mwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol. Rhaid cynyddu hefyd y buddsoddiad a'r adnoddau sy'n cael eu darparu i bartneriaid allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu gweithgareddau, digwyddiadau, adloniant a chynnwys digidol drwy gyfrwng y Gymraeg.



Creu gweithleoedd sy'n cefnogi'r Gymraeg



Y tu hwnt i'r ysgol a'r gymuned, y gweithle yw un o'r mannau mwyaf dylanwadol ar gyfer defnyddio'r iaith yn ein bywydau beunyddiol. Bydd nifer ohonom yn treulio cyfran helaeth o'n dyddiau mewn lle gwaith o ryw fath – yn gorfforol neu'n rhithiol. Mae'r gweithle felly'n cynnig y cyfle mwyaf cyson, mwyaf naturiol, a mwyaf dylanwadol i gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Dyma gyd-destun perffaith i bobl ifanc werthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg maen nhw wedi ei hennill drwy'r system addysg.

Pan fydd sefydliadau'n creu amgylchedd sy'n croesawu'r Gymraeg, maent yn creu peuoedd ieithyddol newydd pwysig. Drwy annog a chynnal y defnydd o'r iaith yn y gwaith, gall sefydliadau a chyflogwyr chwarae rôl hanfodol yn atgyfnerthu hyder a sgiliau siaradwyr – yn ogystal â chreu siaradwyr newydd. Gall hyder a sgiliau newydd ynghyd â chanfyddiad ffres o werth y Gymraeg ddylanwadu'n sylweddol ar sut mae pobl yn defnyddio'r iaith y tu hwnt i'r diwrnod gwaith.

Mae'r cyfle hwn yn rhy dda i'w golli a'i adael i hap a damwain. Rhaid wrth strategaeth fwriadol os ydym am wneud y gweithle cyfoes yn gonglfaen i'r Gymraeg. Rhaid i ni fod â pholisi cenedlaethol newydd fydd yn arwain at greu gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn naturiol, ac yn cael ei gwerthfawrogi. **Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu buddsoddiad ychwanegol i'r Comisiynydd i ddwysáu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ym maes cynyddu'r defnydd**

o'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Byddai hyn yn ein galluogi i adeiladu ar y gwaith cyfredol, ac i lunio ac arwain proses o weithredu strategaeth gydlynol i dargedu a chefnogi sefydliadau o bob math, gan gynnwys busnesau ac elusennau, i gynllunio'n strategol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd.

Byddai strategaeth o'r fath yn gyfle i fanteisio ar y potensial o gydlynu gweithgarwch ym maes cynllunio gweithleoedd ar lefel genedlaethol gan adeiladu ar y cydweithio strategol sydd eisoes yn digwydd rhwng partneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Ac o sicrhau gweithlu cymwys a sgilgar Cymraeg ar draws pob sector, mae'n dilyn, yn ei dro, y bydd gwasanaethau Cymraeg yn gwella a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg – ynghyd â'i statws – yn cynyddu. Mae hyn yn hollbwysig mewn sectorau allweddol fel ieuchyd, wrth gwrs, lle mae defnyddio'r Gymraeg yn fater o angen clinigol yn hytrach na dewis.

Does dim amheuaeth fod y dyletswyddau ieithyddol statudol sydd ar sefydliadau yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi arwain at werthfawrogi o'r newydd bwysigrwydd y lle gwaith i hyfywedd y Gymraeg – a'r angen am weithlu dwyieithog sgilgar er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn nifer o sectorau. **Ddegawd ar ôl cyflwyno safonau'r Gymraeg, byddai'n amserol eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn adlewyrchu'n deg sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu heddiw ac i'r dyfodol.** Mae cyfle amlwg i Lywodraeth nesaf Cymru gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt gwasanaethau a'r gweithle drwy ystyried sut y gellir dod â sectorau pellach o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg.

Cyfle i dorri'r cylch



Dyma'r cyfleoedd mawr felly. Y tri maes blaenoriaeth y mae'n rhaid gweithredu ynddynt ar fyrder i wyrdroi sefyllfa'r Gymraeg a sicrhau ei bod hi o ddifri yn gallu perthyn i ni gyd. Wrth reswm, mae yna filoedd o bethau bychain y gallwn – ac y dylwn – ni eu gwneud i yrru'r Gymraeg yn ei blaen. Ond dyma'r tri phrif gyfle yn ein barn ni.


Dim ond drwy weithredu yn strategol, yn uchelgeisiol ac yn gydweithredol y gallwn ni dorri'r cylch statig a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw a pherthnasol i genedlaethau'r dyfodol.

Rhan 1: Canlyniadau Cyfrifiad 2021 a'r Gymraeg



3,107,494

o bobl yn byw yng Nghymru



17.8%

o bobl Cymru sy'n dair
oed neu'n hŷn yn gallu
siarad Cymraeg

1 o bob **5**



64.4%

o bobl sy'n dair oed neu'n hŷn yn
siarad Cymraeg yng Ngwynedd a

55.8% yn Ynys Môn

Mwy o siaradwyr
Cymraeg yng
Nghaerdydd

(42,757)

nag yn Ynys Môn

(37,413)



Mwy na hanner
siaradwyr
Cymraeg yn
iau na

33 oed

1. Cefndir

Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei seilio'n rhannol ar ddadansoddiad annibynnol a ddarparwyd i'r Comisiynydd gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth.

Mae hefyd yn pwysu ar ddadansoddiadau awdurdodol a gyhoeddwyd gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chompendiwm Prosiect BRO: **Compendiwm Prosiect BRO o Ystadegau Iaith Cyfrifiad 2021**.

Cyhoeddwyd y bwletin cyntaf ar **Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)** gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi sicrhau bod modd i bawb gael mynediad hwylus at y data a chreu eu dadansoddiadau eu hunain drwy ein **Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?**.

Ein nod yma yw tynnu'r prif ystadegau ynghyd gan dynnu sylw at y rhai mwyaf arwyddocaol i sefyllfa'r Gymraeg yn ein tyb ni. Byddwn hefyd yn troi'r chwyddwydr ar rai tueddiadau rhanbarthol a lleol ac yn gosod canlyniadau Cyfrifiad 2021 yng nghyd-destun cyfrifiadau blaenorol.

2. Cyd-destun Cyfrifiad 2021

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 mewn cyfnod neilltuol a digynsail yn ein hanes. Ar 21 Mawrth 2021 roedd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi dylanwadu ar bob agwedd ar ein bywydau. Roedd sawl agwedd wedi symud ar-lein a'r boblogaeth gyfan wedi bod drwy gyfnodau estynedig o gyfyngiadau symud llym lle caewyd ysgolion, mannau gwaith a mannau cwrdd. Nid oes modd i ni wybod yn iawn sut yr effeithiodd hyn ar y modd gwnaeth pobl adrodd am nifer o bethau yn y cyfrifiad, gan gynnwys eu sgiliau Cymraeg.

Trafodir cyfyngiadau data'r cyfrifiad mewn rhagor o fanylder yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn. Ond serch y cyfyngiadau hyn, y cyfrifiad yw'r ffordd fwyaf awdurdodol a chynhwysfawr sydd gennym ni o ddeall sefyllfa'r wlad.

Disgrifio sefyllfa'r wlad fel ag yr oedd hi ar 21 Mawrth 2021 y mae canlyniadau Cyfrifiad 2021. Bydd llawer wedi newid ers hynny. A bod yn fanwl gywir, dylid rhagymadroddi pob datganiad yn yr adran hon â geiriau tebyg i 'Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, adroddodd X o bobl dair oed neu'n hŷn, sydd fel arfer yn byw yng Nghymru...'. Ond er hwylustod – a hyd nes y cawn ni ganlyniadau Cyfrifiad 2031 – cyfeirir at y canlyniadau hyn yn yr amser presennol, fel pe baent yn disgrifio Cymru heddiw.

3. Beth yw poblogaeth Cymru?

Mae 3,107,494 o bobl yn byw yng Nghymru. Dyma'r boblogaeth uchaf erioed i'w chofnodi mewn cyfrifiad. Mae hyn yn gynydd o 1.4% neu oddeutu 44,000 o bobl ers 2011: cynnydd dipyn yn llai nag a welwyd yn y degawd cynt pan gafwyd twf o 5.3% (tua 153,000 o bobl) rhwng 2001 a 2011. Felly mae poblogaeth Cymru wedi tyfu 6.9% rhwng 2001 a 2021. Mae hynny'n gyfystyr â 197,294 yn fwy o bobl.

Mae mwy o farwolaethau nag o enedigaethau wedi digwydd yng Nghymru rhwng 2011 a 2021. Pobl yn symud i Gymru felly (mudo net positif) sydd i gyfrif am y twf yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2021 (tua 55,000 o bobl).

O'r boblogaeth sy'n byw yng Nghymru heddiw, 71% a anwyd yng Nghymru. Cafodd 21% eu geni yn Lloegr ac 1% eu geni yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Golyga hyn fod 7% o boblogaeth Cymru wedi'u geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig (cyfanswm o tua 215,000 o bobl). Mae hyn yn 28.3% yn fwy o bobl wedi eu geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig nag yn 2011.

O Wlad Pwyl y daw'r mwyafrif o fudwyr rhyngwladol i Gymru, â 24,832 neu 0.8% o holl boblogaeth Cymru yn dod o Wlad Pwyl. Daw 13,000 o India ac 11,000 o'r Almaen. Caerdydd yw'r awdurdod lleol sy'n derbyn y mwyafrif o fudwyr rhyngwladol, ond mae Casnewydd ac Abertawe hefyd yn gartrefi i lawer o fudwyr rhyngwladol.

Mae'r twf mwyaf yn y boblogaeth yn y de-ddwyrain, â'r cynnydd mwyaf i'w weld yng Nghasnewydd (9.5%), Caerdydd (4.7%) a Phen-y-bont ar Ogwr (4.5%). Ar y llaw arall, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y boblogaeth yng Ngheredigion (-5.8%), Blaenau Gwent (-4.2%) a Gwynedd (-3.7%). Er bod cynnydd wedi bod ym mhoblogaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru, **mae'n arwyddocaol bod gostyngiad wedi bod ym mhoblogaeth Ynys Môn, Gwynedd a Cheredigion**, tri o'r awdurdodau lleol a ystyrir yn gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg.

Mae poblogaeth Cymru yn byw ar wasgar. Ar gyfartaledd, roedd 150 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn byw yng Nghymru yn 2021. Mae hyn dipyn yn is na dwysedd y boblogaeth yn Lloegr, lle mae 434 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn byw. Ond mae rhai ardaloedd o Gymru yn fwy poblog na'i gilydd a dweud y lleiaf. Mae 2,572 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn byw yng Nghaerdydd o gymharu â 26 o bobl ym Mhowys.

Dangosodd y cyfrifiad i ni hefyd fod poblogaeth Cymru'n heneiddio â mwy o boblogaeth Cymru'n perthyn i'r grwpiau oedran hŷn nag erioed. Mae 21.3% o'r boblogaeth dros 65 oed (18.4% oedd yn y grŵp oedran yma yn 2011). Ar y pegwn arall, mae canran y boblogaeth dan 15 oed wedi gostwng rhwng 2011 a 2021. Yn 2021 roedd 16.5% (513,800) o'r boblogaeth dan 15 oed sy'n ostyngiad o 0.4% a 5,328 o blant o'i gymharu â 2011.

Casgliadau'r Comisiynydd



Wrth i'r boblogaeth dyfu yn sgil mudo, ac wrth i gyfraddau genedigaethau ostwng, mae angen cyflwyno ymyraethau effeithiol er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg.

Gan fod llai o blant yn cael eu geni yng Nghymru, ni ellir dibynnu ar enedigaethau er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg os yw'r ganran o siaradwyr yn aros yn sefydlog. Golyga hyn fod yn rhaid cynyddu'n sylweddol y ganran o blant sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn gweld cynnydd gwirioneddol yn y niferoedd sy'n medru'r iaith.


Mae 29% o boblogaeth Cymru heddiw wedi eu geni y tu allan i Gymru, ac felly mae angen ystyried o'r newydd yr ymyraethau sydd eu hangen er mwyn cyflwyno'r Gymraeg i'r rhai sy'n mudo yma. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith lle mae'r canrannau o bobl a anwyd y tu allan i Gymru yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond lle hefyd mae'r cyfleoedd i ymarfer defnyddio'r iaith a dod yn siaradwyr hyderus yn niferus.

4. Faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?


Mae 538,296 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru, sef 17.8% o'r boblogaeth sy'n dair oed neu'n hŷn. Mae hyn yn ostyngiad o 1.2 pwynt canran (23,720 o bobl) ers Cyfrifiad 2011 a **dyma'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg i'w chofnodi mewn cyfrifiad erioed.** Ond **nid dyma'r nifer isaf o siaradwyr i'w gofnodi mewn cyfrifiad.** Cymharer â'r 508,197 a gofnodwyd yn 1981.

O fwrw golwg yn ôl dros bedwar degawd, mae modd gweld bod y *nifer* sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru rhwng 1981 a 2021 wedi aros yn weddol statig. Gwelwyd cynnydd sylweddol o 74,270 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2001, ond gostwng yn raddol wnaeth y nifer dros y degawdau dilynol, a'r gostyngiad mwyaf i'w weld rhwng 2011 a 2021. Wedi dweud hynny, roedd y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn dal i fod yn fwy na'r nifer a gofnodwyd yn 1981 (30,099 yn fwy o bobl).

Siart 1: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, 1981–2021



Siart 2: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, 1981–2021



Mae'r boblogaeth yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol ers 1981, fodd bynnag, sy'n golygu bod **y ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng er i'r niferoedd aros yn weddol sefydlog**. Yn 1981, roedd 2,749,640 o bobl yn byw yng Nghymru ac o'r rheini oedd yn dair oed neu'n hŷn roedd 18.9% yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2021, roedd y boblogaeth wedi tyfu i 3,107,494 ag 17.8% yn medru'r Gymraeg.

Mae gwerth pwysleisio felly mai dim ond o 1.1 pwynt canran mae'r ganran wedi gostwng rhwng 1981 a 2021. Mae'r gostyngiad canrannol rhwng 2011 a 2021 o 1.2 pwynt canran hefyd yn llai na'r gostyngiad a welwyd rhwng 2001 a 2011 lle bu gostyngiad o 1.8 pwynt canran.

Tabl 1: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, 1981–2021

Cyfrifiad	Cyfanswm preswylwyr arferol 3 blwydd oed a throsodd	Gallu siarad Cymraeg	
		Nifer	Canran
1981	2,685,390	508,197	18.9
1991	2,723,623	508,098	18.7
2001	2,805,701	582,368	20.8
2011	2,955,841	562,016	19.0
2021	3,018,172	538,296	17.8

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 2: Newid yn nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru (pwynt canrannol), 1981–2021

Cyfrifiad	Newid personau	Newid pwynt canran
1981–1991	-99	-0.2
1991–2001	74,270	2.1
2001–2011	-20,352	-1.8
2011–2021	-23,720	-1.2
1981–2021	30,099	-1.1

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Casgliadau'r Comisiynydd



Mae'r ffaith fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi aros yn weddol gyson ers 1981, er i faint y boblogaeth dyfu'n sylweddol, yn dangos **nad yw'r twf yn y boblogaeth yn trosglwyddo i dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg**. Mae angen ystyried felly sut i elwa ar y cynnydd ym maint y boblogaeth a chreu mwy o siaradwyr Cymraeg.


Mae'n beth gweddol gadarnhaol fod y gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn ostyngiad llai rhwng 2011 a 2021 nag a welwyd yn y degawd blaenorol, ond nid arafu'r dirywiad yw'r nod wrth gwrs, a **bydd angen ymyraethau sylweddol ac uchelgeisiol er mwyn troi gostyngiad yn gynnydd erbyn Cyfrifiad 2031**.

Wrth lunio strategaeth *Cymraeg 2050*, cynigiodd Llywodraeth Cymru amcanestyniad ar gyfer y taflwybr at y miliwn a oedd yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai 580,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021 a hynny yn gyfystyr â 19% o'r boblogaeth. Golyga hyn fod bwlch o 41,700 o bobl a 1.2 pwynt canran rhwng yr amcanestyniad a chanlyniadau Cyfrifiad 2021.

5. Ble mae siaradwyr Cymraeg yn byw?

5.1 Canran y siaradwyr yn ôl awdurdod lleol

Map 1: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol




Mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn dal i fyw yn awdurdodau lleol gorllewin Cymru, fel y gwelwyd yng Nghyfrifiad 2011. **Mae dros hanner y boblogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg**, â 64.4% yn medru'r Gymraeg yng Ngwynedd a 55.8% yn Ynys Môn.

Un awdurdod lleol sy'n syrthio i'r categori 40–55% o siaradwyr bellach â 45.3% o boblogaeth Ceredigion yn medru'r Gymraeg. Mae Sir Gaerfyrddin wedi llithro fymryn islaw'r categori hwn â 39.9% o'r boblogaeth yn medru'r iaith, ac mae Conwy hefyd yn perthyn i'r categori 25–40%.

Mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn is na 25% yn 17 allan o'r 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru.

Siart 3: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

5.2 Nifer y siaradwyr yn ôl awdurdod lleol

Mae'r darlun yn edrych fymryn yn wahanol o edrych ar *niferoedd* siaradwyr ar lefel awdurdod lleol.

Map 2: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol




Mae'r niferoedd uchaf o siaradwyr yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin â dros 70,000 o siaradwyr yn byw ym mhob awdurdod lleol.

Ceir dros 35,000 o siaradwyr yng Nghaerdydd ac yn Ynys Môn; dau awdurdod lleol sydd am y pegwn â'i gilydd o ran canran siaradwyr. Nodwyd eisoes bod 55.8% o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg, ond er mai dim ond 12.2% sy'n medru'r iaith yng Nghaerdydd, mae **mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd bellach nag yn Ynys Môn.**

Mae niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd yn byw mewn awdurdodau lleol eraill ar draws y wlad y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn draddodiadol fel 'y Fro Gymraeg' yn y gorllewin. Mae rhwng 20,000 a 32,000 o siaradwyr Cymraeg i'w cael mewn saith awdurdod lleol. Ceir 20,626 o siaradwyr yn Sir Benfro, er enghraifft, 20,946 yn Sir Ddinbych, 25,986 yn Abertawe, a chynifer â 28,556 yn Rhondda Cynon Taf.

Siart 4: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol



5.3 Newid yng nghanran a nifer y siaradwyr yn ôl awdurdod lleol rhwng 2011 a 2021

Yng Ngwynedd, lle mae'r nifer a'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (64.4%), cafwyd gostyngiad cymharol fach o 1 pwynt canran neu 3,440 o siaradwyr ers 2011. Gwerth nodi yma mai gostwng wnaeth cyfanswm y boblogaeth yng Ngwynedd hefyd dros y degawd. Yn 2011 roedd 121,900 o bobl yn byw yng Ngwynedd; erbyn 2021 roedd y cyfanswm wedi gostwng i 117,400, sy'n ostyngiad o 3.7% neu 4,500 o bobl.¹

Cafwyd sefyllfa debyg yn Ynys Môn ac yng Ngheredigion lle bu gostyngiad yng nghyfanswm poblogaethau'r awdurdodau lleol ers 2011. Efallai nad yw'n ormod o syndod felly bod gostyngiad hefyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Bu gostyngiad o 1,155 o siaradwyr yn Ynys Môn sy'n gyfystyr â 1.4 pwynt canran, tra bu gostyngiad mwy yng Ngheredigion o 2 bwynt canran neu 3,286 o siaradwyr.

¹ [Gwynedd population change, Census 2021 – ONS](#) [Cyhoeddiad ar gael yn Saesneg yn unig].

Er bod yr ail nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg i'w ganfod yn Sir Gaerfyrddin (72,838), dyma lle cafwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer a chanran y siaradwyr, gostyngiad o 5,210 o bobl neu 4 pwynt canran ers 2011. Tyfu wnaeth poblogaeth Sir Gaerfyrddin dros y degawd, a hynny ar raddfa uwch na'r raddfa genedlaethol. Tra bod poblogaeth Cymru wedi tyfu 1.4%, tyfodd poblogaeth Sir Gaerfyrddin o 2.2%.²

O droi at yr ardaloedd lle gwelwyd cynnydd yn nifer neu ganran y siaradwyr Cymraeg ers 2011, mae gwerth craffu ar rannau o'r de-ddwyrain. **Gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr ym mhedwar o awdurdodau lleol Cymru, pob un ohonynt yn y de-ddwyrain:** Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Cynnydd cyfyngedig a welwyd yn nhri o'r awdurdodau lleol hyn, fodd bynnag. Dim ond 51 o siaradwyr ychwanegol a gofnodwyd ym Merthyr Tudful; cafwyd 777 o siaradwyr ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf sy'n gynnydd bychan o 0.1 pwynt canran, a 1,548 o siaradwyr ychwanegol ym Mro Morgannwg, cynnydd o 0.7%.

Gwelwyd cynnydd mwy sylweddol o 6,022 o siaradwyr yng Nghaerdydd, fodd bynnag, a hynny'n gynnydd o 1.1 pwynt canran. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd ym maint poblogaeth Caerdydd. Yn 2011 roedd 346,100 o bobl yn byw yng Nghaerdydd; erbyn 2021 roedd y cyfanswm wedi cynyddu i 362,400, sy'n gynnydd o 4.7% neu 16,300 o bobl.³

Caerdydd yw'r awdurdod lleol â'r trydydd nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg bellach. Nodwyd eisoes y gymhariaeth ag Ynys Môn ond mae gwerth nodi hefyd bod hyn yn golygu **fod gan Gaerdydd 11,079 yn fwy o siaradwyr na Cheredigion** hefyd.

Y tu hwnt i'r cynnydd hwn ym mhedwar o awdurdodau lleol y de-ddwyrain, a'r gostyngiad o 4 pwynt canran a welwyd yn Sir Gaerfyrddin, mae'r gostyngiad canrannol o siaradwyr Cymraeg yng ngweddill awdurdodau lleol Cymru yn lled sefydlog ac yn rhychwantu o ostyngiad 0.2 pwynt canran yn Abertawe i ostyngiad 2.2 pwynt canran ym Mhowys.

Ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful mae'r niferoedd isaf sy'n gallu siarad Cymraeg ar lefel awdurdod lleol. Mae 4,035 o boblogaeth Blaenau Gwent yn gallu siarad Cymraeg, mae hynny'n 6.2% o'r boblogaeth sy'n ostyngiad o 1.6 pwynt canran ers 2011. Gostwng wnaeth cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent hefyd yn ystod y cyfnod. Ceir rhyw fil yn fwy o siaradwyr Cymraeg ym Merthyr Tudful â 5,079 neu 8.9% o'r boblogaeth yn medru'r iaith, sy'n weddol sefydlog ers 2011. Sefydlog fu cyfanswm poblogaeth Merthyr Tudful dros y degawd hefyd.

Casnewydd oedd yr awdurdod a welodd y cynnydd mwyaf yn ei boblogaeth rhwng 2011 a 2021 â chynnydd o 13,900 o bobl neu 9.5%.⁴ Er mai yno y mae'r ail ganran isaf o siaradwyr Cymraeg (7.5% sy'n ostyngiad o 1.8 pwynt canran ers 2011), mae 11,594 o bobl yno sy'n gallu siarad Cymraeg.

² **Carmarthenshire population change, Census 2021** – ONS [Cyhoeddiad ar gael yn Saesneg yn unig].

³ **Cardiff population change, Census 2021** – ONS [Cyhoeddiad ar gael yn Saesneg yn unig].


⁴ **Newport population change, Census 2021** – ONS [Cyhoeddiad ar gael yn Saesneg yn unig].

Tabl 4: Cymhariaeth o'r ganran o bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol, 1981–2021

Awdurdod lleol	Canran				
	1981	1991	2001	2011	2021
Ynys Môn	61.0	62.0	60.1	57.2	55.8
Gwynedd	73.8	72.1	69.0	65.4	64.4
Conwy	31.6	30.6	29.4	27.4	25.9
Sir Ddinbych	28.2	26.9	26.4	24.6	22.5
Sir y Fflint	12.7	13.5	14.4	13.2	11.6
Wrecsam	14.7	13.8	14.6	12.9	12.2
Powys	20.7	20.7	21.1	18.6	16.4
Ceredigion	63.2	59.1	52.0	47.3	45.3
Sir Benfro	18.0	18.3	21.8	19.2	17.2
Sir Gaerfyrddin	59.0	54.8	50.3	43.9	39.9
Abertawe	14.7	13.3	13.4	11.4	11.2
Castell-nedd Port Talbot	19.1	17.9	18.0	15.3	13.5
Pen-y-bont ar Ogwr	8.2	8.3	10.8	9.7	9.2
Bro Morgannwg	5.9	6.8	11.3	10.8	11.5
Caerdydd	5.9	6.6	11.0	11.1	12.2
Rhondda Cynon Taf	9.1	9.0	12.5	12.3	12.4
Merthyr Tudful	8.4	7.5	10.2	8.9	8.9
Caerffili	5.3	6.0	11.2	11.2	10.4
Blaenau Gwent	2.2	2.2	9.5	7.8	6.2
Torfaen	2.5	2.4	11.1	9.8	8.2
Sir Fynwy	2.8	2.2	9.3	9.9	8.7
Casnewydd	2.4	2.3	10.0	9.3	7.5

5.4 Newid yng nghanran a nifer y siaradwyr yn ôl awdurdod lleol dros amser

Siart 5: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 1981–2021



O droi i graffu ar newidiadau mwy hirdymor o ran canrannau siaradwyr Cymraeg **rhwng 1981 a 2021, gwelir eto mai yn Sir Gaerfyrddin y cafwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg**, sef gostyngiad o 19.1 pwynt canran. Gostwng yn gyson wnaeth nifer a chanran y siaradwyr yn Sir Gaerfyrddin bob degawd ers 1981 â'r gostyngiad mwyaf i'w weld rhwng 2001 a 2011 lle disgynnodd y ganran o 50.3% i 43.9% (gostyngiad o 6.4 pwynt canran). Mae'n arwyddocaol mai yn ystod y degawd hwnnw y cafwyd y cynnydd mwyaf ym maint poblogaeth Sir Gaerfyrddin hefyd â 6.3% yn fwy o bobl yn byw yno yn 2011 nag oedd yn 2001. Tyfu wnaeth poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn gyson ers 1981.⁵

Yng Ngheredigion y gwelwyd yr ail ostyngiad mwyaf o ran canran siaradwyr Cymraeg yn yr un cyfnod. Â gostyngiad o 17.9 pwynt canran rhwng 1981 a 2021, dyma'r unig awdurdod lleol arall lle gwelwyd gostyngiad rhwng 10 ac 20 pwynt canran. Ac fel yn achos Sir Gaerfyrddin, gostwng wnaeth y ganran o siaradwyr bob degawd. Er i nifer y siaradwyr gynyddu yng Ngheredigion dros ddau ddegawd rhwng 1981 a 2001, bu'r gostyngiad yn y niferoedd dros y ddau ddegawd dilynol yn fwy na'r cynnydd a fu yn y blynyddoedd cynt gan arwain at 3,479 yn llai o siaradwyr yn 2021 nag oedd yn 1981.


Yr awdurdod lleol â'r trydydd gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn yr un cyfnod oedd Gwynedd â gostyngiad o 9.5 pwynt canran. Nid yw'r gostyngiad canrannol o 1 pwynt canran a welwyd rhwng 2011 a 2021 mor llym â'r gostyngiad a welwyd yn y ddau ddegawd blaenorol. Cafwyd gostyngiad o 3.1 pwynt canran rhwng 1991 a 2001 a gostyngiad o 3.6 pwynt canran rhwng 2001 a 2011.

Ond tyfu wnaeth cyfanswm poblogaeth Gwynedd rhwng 1991 a 2011 (o 8,543 o bobl),⁶ ac o roi hynny ochr yn ochr â gostyngiad o 1,719 o siaradwyr Cymraeg yn yr un cyfnod, mae gostyngiad canrannol uwch i'w ddisgwyl. Roedd colli llai na 1,000 o siaradwyr mewn degawd yn cyfateb i ostyngiad o dros 3 phwynt canran.

⁵ [Carmarthenshire census population profile - 1981 to 2021](#) [Cyhoeddiad ar gael yn Saesneg yn unig].

⁶ [Gwynedd census population profile - 1981 to 2021](#) [Cyhoeddiad ar gael yn Saesneg yn unig].

Siart 6: Newid yn nifer y bobl dair oed neu’n hŷn sy’n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, 1981–2021



Er nad yw'r gostyngiad canrannol yng Ngwynedd mor llym rhwng 2011 a 2021, dyma'r cyfnod lle gwelwyd y cwmp mwyaf yn nifer y siaradwyr. Yn 2021, roedd 3,440 o bobl yn llai yn siarad Cymraeg yng Ngwynedd nag yn 2011. Dyma'r cyfnod cyntaf lle cafwyd gostyngiad ym maint poblogaeth Gwynedd hefyd, wrth gwrs.

O edrych ar yr awdurdodau lleol lle bu cynnydd **rhwng 1981 a 2021, mae'r cynnydd mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd**, cynnydd o 6.3 pwynt canran. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn naw awdurdod lleol arall yn amrywio o 5.9 pwynt canran yn Sir Fynwy i 0.5 pwynt canran ym Merthyr Tudful.

Mae'r deg awdurdod lleol lle bu cynnydd ers 1981 i gyd yn ne-ddwyrain Cymru a gwelwyd cynnydd sylweddol o ran niferoedd a chanrannau ym mhob un o'r awdurdodau hyn rhwng 1991 a 2001. Yn y rhan fwyaf o achosion, dyma'r cynnydd sydd i'w gyfrif am y cynnydd cyffredinol dros y pedwar degawd hyd at 2021. Dim ond dau awdurdod lleol sydd wedi gweld cynnydd cyson yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg dros pob degawd, sef Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ond er nad yw'r cynnydd yn awdurdodau lleol eraill y de-ddwyrain wedi bod yn gyson a bod gostyngiadau wedi bod mewn ambell ddegawd, mae'r cynnydd cyffredinol yn arwyddocaol yn rhai o'r awdurdodau lleol ers 1981. Gwelwyd cynnydd o 9,300 o siaradwyr yng Nghaerffili, er enghraifft, a chynnydd o rhwng 7,800 ac 8,600 o siaradwyr yn Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Chasnewydd.

Efallai mai'r data mwyaf trawiadol o ran newidiadau yn nifer siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol dros y pedwar degawd hwn yw'r **cynnydd o 27,044 yng Nghaerdydd**, sy'n cyd-fynd â'r cynnydd cyffredinol yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain, a'r **gostyngiad o 20,424 yn Sir Gaerfyrddin**.

Mae cryn fwlch rhwng graddau'r gostyngiad yn Sir Gaerfyrddin a'r gostyngiad mewn awdurdodau eraill cyfagos, fodd bynnag, â gostyngiad o 7,308 o siaradwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot a 6,100 yn Abertawe. Hefyd yn ffinio â Sir Gaerfyrddin mae Sir Benfro a welodd gynnydd o 1,772 o siaradwyr ers 1981.


Mae'r un anghysondeb yn bod o gymharu'r gostyngiad yn Sir Gaerfyrddin â'r gostyngiad yn yr awdurdodau lleol eraill sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol yn gadarnleoedd y Gymraeg. Cafwyd gostyngiad dipyn yn llai o 4,989 o siaradwyr yng Ngwynedd, 3,479 yng Ngheredigion a 1,915 yn Ynys Môn ers 1981.

5.5 Niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ar lefel mwy lleol, yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ardaloedd bach)

Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ('ardaloedd bach') yn ardaloedd daearyddol bach sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o gartrefi a rhwng 1,000 a 3,000 o breswylwyr arferol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n pennu'r ardaloedd hyn ar sail nifer y cartrefi a'r preswylwyr, a rhaid pwysleisio nad yw'r ardaloedd yn cyfateb i *gymunedau* fel y cyfryw, felly mae angen ychydig o ofal wrth ddefnyddio'r data i geisio dadansoddi defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Ond mantais mapio ar raddfa ardaloedd bach yw fod modd dirnad newidiadau yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg yn llawer manylach nag ar raddfa awdurdodau lleol.⁷ Gall patrymau ar raddfa awdurdodau lleol guddio patrymau mwy lleol, sy'n arwyddocaol o ran defnydd iaith.

Map 3: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Gyfrifiad 2021, yn ôl ardal fach



⁷ Yn sgil newidiadau poblogaeth ac aelwydydd ers 2011, gwnaed newidiadau i rai ACEHlau erbyn 2021 drwy gyfuno neu rannu rhai ACEHlau i gyrraedd trothwyon penodol. Er mai dim ond cynyddu o 8 wnaeth cyfanswm ACEHlau Cymru o 1,909 i 1,917 rhwng 2011 a 2021, bu newidiadau i ffiniau ACEHlau yn 15 o 22 awdurdod lleol Cymru. Mae angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth geisio cymharu'r ardaloedd hyn rhwng 2011 a 2021. Arhosodd 1,837 o ardaloedd yn gyson rhwng y ddau gyfrifiad, ond byddai canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny yn cyflwyno darlun anghyflawn ac anfodddhaol.

Mae'r patrymau a welir yn Map 3 yn ategu nifer o'r patrymau a welwyd eisoes yn Map 1 â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin. Ond mae hefyd modd gweld pocedi bach o fewn yr awdurdodau lleol hyn lle mae'r Gymraeg yn fwy ffyniannus, lle **mae ardaloedd bach â thros 70% yn siarad Cymraeg, ym Mhen Llŷn, rhannau o Feirionnydd, Arfon a rhannau llai o Ynys Môn.**


Mae'r map hefyd yn dangos pocedi lle mae niferoedd gweddol lewyrchus o siaradwyr Cymraeg mewn awdurdodau lleol sydd, fel arall, â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys rhannau o ogledd Penfro, gogledd-orllewin Powys a gogledd Abertawe.

Yng Nghaernarfon y ceir yr ardal fach â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg lle mae 86.3% o bobl yn medru'r iaith. **Mae'r ardal fach â'r ganran isaf o siaradwyr i'w cael mewn rhan o Lyn Ebwy ym Mlaenau Gwent** lle mae 3.8% yno yn gallu siarad Cymraeg.

Cyfeiriwyd eisoes at y cynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr yng Nghaerdydd, ac o edrych ar yr ardaloedd bach **yn y brifddinas, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w cael mewn ardal ym Mharc Fictoria, Treganna** lle mae 34.7% yn gallu siarad Cymraeg, ac yn rhan o'r Eglwys Newydd a Thongwynlais lle mae 31% yn medru'r iaith.

Mae Map 4 yn dangos ble mae siaradwyr Cymraeg yn byw ar sail niferoedd. Mae'n pwysleisio eto fyth arwyddocâd Gwynedd ac Ynys Môn fel rhai o gadarnleoedd y Gymraeg. Ond mae hefyd yn effeithiol i bwysleisio arwyddocâd ardaloedd eraill o ran niferoedd: arfordir gogledd Cymru; gogledd-ddwyrain Cymru; dwyrain Sir Gaerfyrddin ac Abertawe; Caerdydd a'r cymoedd.

Map 4: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl ardau fach



Tabl 7: Nifer a chanran yr ardaloedd bach, yn ôl nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Canran sy'n gallu siarad Cymraeg											
	Dan 25%		25–39%		40–59%		60–69%		70%+		Cyfanswm	
	Nifer a chanran yr ardaloedd bach											
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Ynys Môn	0	0.0	7	17.1	20	48.8	8	19.5	6	14.6	41	100
Gwynedd	2	2.8	4	5.6	16	22.5	15	21.1	34	47.9	71	100
Conwy	49	69.0	10	14.1	8	11.3	4	5.6	0	0.0	71	100
Sir Ddinbych	40	69.0	10	17.2	8	13.8	0	0.0	0	0.0	58	100
Sir y Fflint	91	98.9	1	1.1	0	0.0	0	0.0	0	0.0	92	100
Wrecsam	82	97.6	2	2.4	0	0.0	0	0.0	0	0.0	84	100
Powys	66	83.5	9	11.4	4	5.1	0	0.0	0	0.0	79	100
Ceredigion	4	8.9	4	8.9	37	82.2	0	0.0	0	0.0	45	100
Sir Benfro	56	78.9	6	8.5	9	12.7	0	0.0	0	0.0	71	100
Sir Gaerfyrddin	21	18.9	32	28.8	53	47.7	5	4.5	0	0.0	111	100
Abertawe	146	97.3	4	2.7	0	0.0	0	0.0	0	0.0	150	100
Castell-nedd Port Talbot	80	88.9	6	6.7	4	4.4	0	0.0	0	0.0	90	100
Pen-y-bont ar Ogwr	91	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	91	100
Bro Morgannwg	82	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	82	100
Caerdydd	211	96.8	7	3.2	0	0.0	0	0.0	0	0.0	218	100
Rhondda Cynon Taf	150	98.0	3	2.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	153	100
Merthyr Tudful	36	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	36	100
Caerffili	110	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	110	100
Blaenau Gwent	46	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	46	100
Torfaen	60	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	60	100
Sir Fynwy	58	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	58	100
Casnewydd	100	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	100	100
Cyfanswm	1581	82.5	105	5.5	159	8.3	32	1.7	40	2.1	1917	100

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

5.6 Canran y siaradwyr yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ardaloedd bach) yn 2021 ac yn 2011


Mae Map 5 yn dangos y newidiadau yng nghanran y boblogaeth sy'n medru siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Mae'n dangos pocedi bach o ddirywiad mewn awdurdodau lleol sydd, fel arall, wedi gweld cynnydd yn y ganran o siaradwyr. Ac, i'r gwrthwyneb, gwelir ardaloedd bach o dwf mewn awdurdodau lleol sydd wedi profi gostyngiad cyffredinol yng nghanran y siaradwyr.

Map 5: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl ardal fach (newid pwynt canrannol), 2011–21

Newid (pwynt canran)



Noder: mae'r data ym Map 5 yn seiliedig ar ardaloedd bach oedd heb newid neu a oedd wedi eu hollti rhwng 2011 a 2021 yn unig. Nid oedd modd cyfrifo newidiadau ar gyfer ardaloedd a gyfunwyd rhwng 2011 a 2021. Mae'r rhain yn ymddangos mewn gwyn.



Tabl 8: Nifer a chanran yr ardaloedd bach yng Nghymru, yn ôl y ganran o'r boblogaeth dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg, 2011–21

Ardaloedd bach (ACHElau)				
% yn gallu siarad Cymraeg	2011		2021	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Llai na 25%	1545	80.9	1581	82.5
Rhwng 25 a 39%	113	5.9	105	5.5
Rhwng 40 a 59%	161	8.4	159	8.3
Rhwng 60 a 69%	41	2.1	32	1.7
70% ac uwch	49	2.6	40	2.1
Cyfanswm	1909	100	1917	100

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystradegau Gwladol)

Gan fod nifer yr ardaloedd bach wedi cynyddu ers 2011 a bod ffiniau rhai o'r ardaloedd wedi newid, amhosibl yw cymharu'r sefyllfa rhwng y ddau ddegawd yn uniongyrchol, ond mae gwerth edrych yn fanylach ar yr ardaloedd bach hyn yn 2011 ac yn 2021 ar wahân er mwyn cael syniad o'r newid a fu.

Mae 70% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg mewn 40 ardal fach yng Nghymru heddiw, sef 2.1% o'r holl ardaloedd bach ar draws y wlad. Mae'r ardaloedd bach hyn i'w canfod mewn dwy sir yn unig: 34 ohonynt yng Ngwynedd a 6 yn Ynys Môn. Yng Ngwynedd, mae hynny'n bron i hanner yr ardaloedd bach yno. Yn 2011 roedd 49 ardal fach â 70% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg: 39 yng Ngwynedd, 8 yn Ynys Môn ac roedd 1 yn Nghonwy ac 1 yn Sir Gaerfyrddin.

O edrych ar yr ardaloedd bach lle mae 60–69% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, mae 32 o'r rheini'n bod. Yng Ngwynedd (15), Ynys Môn (8), Sir Gaerfyrddin (5) a Chonwy (4) mae'r ardaloedd hyn bellach. Yn 2011, roedd modd canfod ardaloedd yn y categori hwn mewn saith awdurdod lleol: yn Sir Gaerfyrddin (12), Gwynedd (11), Ynys Môn (8), Conwy (4), Ceredigion (3), Castell-nedd Port Talbot (2), a Sir Benfro (1).

Mae 159 o ardaloedd bach ar draws Cymru lle mae 40–59% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg â'r nifer uchaf ohonynt yn Sir Gaerfyrddin (53), Ceredigion (37) ac Ynys Môn (20). Mae bron i hanner ardaloedd bach Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn yn perthyn i'r categori hwn, tra bo dros 80% o ardaloedd bach Ceredigion yn perthyn i'r categori. Roedd 161 o ardaloedd bach yn perthyn i'r categori hwn yn 2011 â 55 yn Sir Gaerfyrddin, 33 yng Ngheredigion a 22 yn Ynys Môn. Arhosodd nifer yr ardaloedd yn sefydlog yn Sir Benfro (9), Sir Ddinbych (8), Conwy (8), a Chastell-nedd Port Talbot (4). Roedd 15 ardal fach yn y categori hwn yng Ngwynedd yn 2011 tra bo 16 ardal fach yn 2021, ac roedd 7 ardal fach ym Mhowys yn 2011 tra bo 4 i'w cael yn 2021.

Mae 105 o ardaloedd bach yng Nghymru lle gall 25–39% y cant o'r boblogaeth siarad Cymraeg. Mae'r nifer mwyaf o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin (32), Conwy (10) a Sir Ddinbych (10). Roedd 113 o'r ardaloedd hyn i'w cael yn 2011 â 31 yn Sir Gaerfyrddin, 13 yng Nghonwy a 12 yn Sir Ddinbych. Yn 2011, dim ond 2 ardal fach oedd yn y categori hwn yng Nghaerdydd ac nid oedd yr un ardal i'w cael yn Rhondda Cynon Taf, ond erbyn 2021 mae 7 ardal yn perthyn i'r categori hwn yng Nghaerdydd a 3 yn Rhondda Cynon Taf.

Golyga hyn **fod llai na 25% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 83% o ardaloedd bach Cymru heddiw**, a hynny'n cyfateb i 1,581 o ardaloedd bach. Nid oes yr un o ardaloedd bach Ynys Môn yn perthyn i'r categori isaf hwn. Ceir 2 ardal yn y categori hwn yng Ngwynedd, a'r ddwy mewn rhannau o ddinas prifysgol Bangor. Ar y llaw arall, mae holl ardaloedd bach Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, a Chasnewydd yn perthyn i'r categori hwn.

5.7 Siaradwyr Cymraeg sy'n byw y tu allan i Gymru

Dim ond yng Nghymru mae cwestiynau am y Gymraeg yn cael eu gofyn yn holiadur y cyfrifiad, ac felly nid yw'r cyfrifiad yn dweud llawer wrthym ni am bwy sy'n gallu siarad Cymraeg tu draw i'r ffin.

Ond mae'r holiadur yn holi pobl sy'n byw yn Lloegr beth yw eu prif iaith. Yn 2021, **nododd 7,349 o bobl yn Lloegr fod y Gymraeg yn brif iaith iddynt** (0.01% o'r boblogaeth) o'i gymharu ag 8,248 yn 2011. Nid yw'r cwestiwn na'r data yn cyfleu'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ei hystyried hi'n 'brif iaith' iddynt.



Nododd

7,349

o bobl yn Lloegr fod y
Gymraeg yn brif iaith iddynt

Casgliadau'r Comisiynydd



Mae Gwynedd, Môn a Cheredigion yn parhau i fod yn gadarnleoedd i'r Gymraeg, ac mae'n destun pryder bod poblogaethau'r tri awdurdod lleol wedi gostwng tra bo poblogaeth Cymru gyfan wedi tyfu. Wrth i'r boblogaeth leihau yn yr ardaloedd hyn, heb fod ymdrech fawr i greu mwy o siaradwyr Cymraeg o'r boblogaeth bresennol neu greu cyfleoedd i ddenu neu gadw siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd, mae'n anorfod mai gostwng eto wna nifer y siaradwyr Cymraeg yno.

Mae graddfa'r gostyngiad yn Sir Gaerfyrddin hefyd yn peri pryder wrth i'r boblogaeth dyfu'n sylweddol yno. Nid yw'r twf hwnnw wedi trosglwyddo i gynnydd yn nifer y siaradwyr, ac **mae angen deall rhagor am sut mae'r boblogaeth wedi tyfu er mwyn ystyried yr ymyraethau sydd eu hangen er mwyn gwyrddroi'r sefyllfa yno.**

Mae'n drawiadol fod nifer uwch o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn hyn na sydd yn Ynys Môn neu Geredigion. Mae llawer mwy o bobl yn byw yng Nghaerdydd, wrth gwrs, ac felly mae canran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod yn isel yno. Ond ni ellir anwybyddu'r niferoedd uchel hyn o siaradwyr Cymraeg a **rhaid manteisio ar y sgiliau ieithyddol sydd i'w cael yn y brifddinas erbyn hyn.**

Mae'r ffaith bod ardaloedd bach yng Nghaerdydd lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg na sydd mewn sawl ardal fach arall yng Nghymru hefyd yn brawf o dwf y Gymraeg yn y brifddinas, a gellid dweud bod y Gymraeg bellach yn rhan ddigon naturiol ac amlwg o'r ardaloedd bach hynny er mai Saesneg yw'r iaith fwyafrifol o hyd.

Mae'r cynnydd mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros y degawdau yn cael ei adlewyrchu i raddau llai mewn awdurdodau lleol cyfagos, ac **mae angen parhau i wthio'r cynnydd yn yr ardaloedd hyn yn y de-ddwyrain.**

Mae'n bwysig peidio ag anghofio am y niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg sy'n byw mewn awdurdodau lleol ac ardaloedd penodol sydd y tu hwnt i gadarnleoedd traddodiadol yr iaith. **Siaradwyr sydd â'r un hawliau i ddefnyddio'u Cymraeg â'r siaradwyr sy'n byw mewn ardaloedd o ddwysedd uwch.** Mae'n bwysig hefyd greu cyfleoedd pwrpasol i bobl gymdeithasu a defnyddio'u Cymraeg yn yr ardaloedd hynny lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith y gymuned fel eu bod hwythau'n cael cyfleoedd i'w defnyddio'n naturiol yn rhan o'u bywydau bob dydd.

6. Oes yna ffyrdd eraill o roi siaradwyr Cymraeg ar fap?



Wrth gwrs, nid yw siaradwyr Cymraeg yn aros yn y cyfeiriad lle wnaethon nhw lenwi holiadur y cyfrifiad bob awr o'r dydd a'r nos. Ac mae perygl i'n hawydd ni i roi siaradwyr Cymraeg ar y map greu darlun camarweiniol o boblogaeth sy'n statig iawn.





Rydym ni'n boblogaeth symudol â ffactorau economaidd, cymdeithasol ac addysgol yn dylanwadu ar ein patrymau dyddiol.

Map 6: Mapiau sy'n dangos y newid canrannol a'r newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd bach ar ddiwrnod gwaith o gymharu â'r boblogaeth breswyl

Y newid canrannol o siaradwyr Cymraeg mewn ardal ar ddiwrnod gwaith a'r boblogaeth breswyl



**Y newid rhwng y nifer
o siaradwyr Cymraeg mewn
ardal ar ddiwrnod gwaith
a'r boblogaeth breswyl**



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)


Mae Map 6 yn ymgais i arddangos y patrymau symud hyn. Mae'r ddau fap yn cymharu lleoliad siaradwyr Cymraeg yn ystod y dydd â'u cartref – mae un yn dangos y newid canrannol a'r llall yn dangos y newid yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg.⁸ Yr ardaloedd bach melyn ar y ddau fap yw'r ardaloedd hynny sy'n colli'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ystod y dydd, a'r ardaloedd bach sydd wedi eu lliwio'n frown ar y mapiau yw'r rhai sy'n derbyn y nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ystod y dydd.

⁸ Diolch i Hywel Jones [Ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Chymru - a rhagor am ei gyngor arbenigol er mwyn datblygu'r rhan hwn o'r adroddiad.](#)

At ei gilydd, **ardaloedd gwledig sy'n dueddol o golli siaradwyr Cymraeg yn ystod y dydd ac ardaloedd trefol sy'n eu derbyn. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad oes modd gwneud cysylltiadau** uniongyrchol rhwng yr ardaloedd hynny sy'n colli siaradwyr Cymraeg a'r rheini sy'n eu derbyn. Hynny yw, nid oes modd olrhain siaradwyr penodol wrth iddynt gymudo i'r gwaith neu i'r ysgol, rydym yn damcaniaethu ar sail yr hyn rydym ni'n ei wybod am y cyflogwyr blaenllaw yn yr ardaloedd hynny sy'n derbyn nifer uchel o siaradwyr Cymraeg yn ystod y diwrnod gwaith.


Er mwyn edrych yn fanylach ar y patrymau hyn dyma enghreifftiau o dair ardal wahanol iawn i'w gilydd: Caerdydd a'r cyffiniau; Bangor/Caernarfon a'r cyffiniau; a dwyrain Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r mapiau hyn yn canolbwyntio ar y newid mewn niferoedd gan fod hynny'n amlygu'n well y patrymau cymudo i weithleoedd.

Map 7: Map sy'n dangos y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd bach ar ddiwrnod gwaith o gymharu â'r boblogaeth breswyl (Caerdydd)



(Flynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Y newid rhwng y nifer o siaradwyr Cymraeg mewn ardal ar ddiwrnod gwaith a'r boblogaeth breswyl: Cyd-destun Caerdydd




Mae Map 7 o Gaerdydd a'r cyffiniau yn dangos yn eglur sut mae ardaloedd yng nghyffiniau Caerdydd yn colli siaradwyr Cymraeg yn ystod y dydd ac ardaloedd eraill yn derbyn niferoedd helaeth o siaradwyr Cymraeg: **y Bae a Pharc Cathays yn amlwg yn eu plith.**

O ystyried y sefydliadau mawr a'r cyflogwyr amlwg sydd wedi eu lleoli yn yr ardaloedd hyn – Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd a'r Senedd, er enghraifft – mae'n debygol iawn mai gweithwyr yn cymudo i'w lle gwaith sydd i gyfrif am y niferoedd hyn. **Mae'r cynnydd hwn yn dangos yn eglur y potensial sydd i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn yr ardaloedd penodol hyn o Gaerdydd ar ddiwrnod gwaith.**

Mae patrymau tebyg iawn i'w gweld mewn ardal lle mae yna ddwysedd uwch o siaradwyr, fel yr amlygir yn Map 8 o ogledd-orllewin Cymru. Mae hyd yn oed ardal yr ystyrir ei bod yn perthyn i'r Fro Gymraeg draddodiadol yn profi shiftt ieithyddol ddyddiol. Gwelir yno fod ardaloedd gwledig y rhanbarth yn colli siaradwyr yn ystod y dydd i ardaloedd trefol penodol – **Caernarfon a Bangor yng Ngwynedd, a Llangefni yn Ynys Môn.**

Map 8: Map sy'n dangos y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd bach ar ddiwrnod gwaith o gymharu â'r boblogaeth breswyl (Ynys Môn a gogledd Gwynedd)




Unwaith eto, gellir dyfalu mai patrymau cymudo sy'n gyfrifol am hyn, wrth i siaradwyr Cymraeg deithio i weithio i rai o brif gyflogwyr yr ardal, gan gynnwys Prifysgol Bangor, Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn, a'r ysgolion uwchradd.

Mae Map 9 yn dangos y newidiadau dyddiol yn nosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ardal dwyrain Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Dewiswyd canolbwyntio ar yr ardal hon am ei bod yn cwmpasu ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr – y 'Fro Gymraeg' draddodiadol – yn ogystal ag ardaloedd sydd â dwysedd is o lawer.

Unwaith eto, mae rhai ardaloedd gwledig yn yr ardal hon yn colli siaradwyr Cymraeg yn ystod y dydd tra bo ardaloedd mwy trefol yn eu denu – **Caerfyrddin, Abertawe a Phort Talbot. Mae'n drawiadol sylwi ar y niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg sy'n teithio i Dreforys, a hynny, mae'n debyg o ganlyniad i gyflogwyr blaenllaw yno megis yr ysbty a'r DVLA.**

Map 9: Map sy'n dangos y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd bach ar ddiwrnod gwaith o gymharu â'r boblogaeth breswyl (Abertawe, dwyrain Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot)



Casgliadau'r Comisiynydd



Mae'n bwysig cofio bod siaradwyr Cymraeg yn symud yn ystod y dydd ar gyfer gwaith a hamdden ac y gellid manteisio ar y ffaith bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn ymgasglu mewn canolfannau dinesig neu drefol yn ystod y dydd.

Mae cyfle yma hefyd i **weithleoedd ddenu siaradwyr Cymraeg**, dod â siaradwyr ynghyd a rhoi cyfleoedd i staff sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau iaith.

7. Beth yw oed siaradwyr Cymraeg?


7.1 Canrannau a niferoedd siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran

O edrych ar y boblogaeth fesul categorïau oedran o bum mlynedd yn fras, gwelir bod y canrannau a'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg rhwng 5 a 15 oed. Dyma'r oedran lle mae plant yn derbyn addysg statudol, wrth gwrs. Mae 36.6% o blant 10–15 oed yn gallu siarad Cymraeg a hynny'n gyfystyr â 79,345 o ran nifer, tra bo 31.4% neu 55,328 o blant 5–9 oed yn medru'r iaith.



Gellir dweud felly fod
oddeutu traean y plant
5–15 oed yng Nghymru
yn gallu siarad Cymraeg


Siart 7: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran



Y grŵp oedran â'r drydedd ganran uchaf o siaradwyr yw'r grŵp 16–19 oed lle mae 27.5% yn gallu siarad Cymraeg. Mae hynny'n gyfystyr â 38,818 o bobl. Mae'r ganran yn gostwng i 18.6% yn y categori oed nesaf, 20–24 oed, ac yn sefydlogi rhywfaint o 25 oed ymlaen.


O grwpio gweddill y categorïau â'i gilydd yn ystyrllon, 16% o bobl 25–44 oed sy'n siarad Cymraeg. Mae'r canrannau isaf o siaradwyr yn y grwpiau hŷn; mae 13% o bobl yn y grŵp 45–64 oed ac 13.9% o bobl dros 65 yn gallu siarad Cymraeg. Ond er mai dyma lle mae'r canrannau isaf, ni ellir diystyru'r grwpiau hyn gan fod niferoedd uchel o siaradwyr yn perthyn i'r grwpiau. Mae 107,345 yn y grŵp oedran 45–64 oed a 91,745 o siaradwyr dros 65 oed.

Siart 8: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran



7.2 Cymharu canlyniadau 2011 a 2021 o ran grŵp oedran

Siart 9: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl grŵp oedran, 1981–2021



Er bod y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w cael yn y grŵp oedran 5–15 yn 2021 fel ag yn 2011, dyma lle gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran a nifer y siaradwyr ers 2011. Gostyngodd y ganran o 6 phwynt canran dros y degawd, o 40.3% yn 2011 i 34.3% yn 2021. Mae hynny'n 17,582 yn llai o blant yn medru'r iaith yn 2021.

Gostwng hefyd wnaeth nifer a chanran y plant 3–4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn ystod yr un cyfnod, o 23.3% yn 2011 i 18.2% yn 2021, sy'n ostyngiad o 5.1 pwynt canran neu 4,548 o blant. Gwerth nodi mai cynyddu wnaeth nifer a chanran y plant 3–4 dros y degawdau blaenorol ac felly bod y gostyngiad rhwng 2011 a 2021 yn groes i batrwm y blynyddoedd cynt. Cynyddu wnaeth nifer a chanran y plant 5–15 rhwng 1981 a 2001 hefyd cyn dechrau gostwng yn y blynyddoedd dilynol.


Gwelwyd cynnydd bychan o 0.8 pwynt canran yng nghanran y boblogaeth 16–24 oed sy'n gallu siarad Cymraeg er mai gostwng wnaeth nifer y siaradwyr yn y categori oed hwn. Mae hynny'n adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyfanswm y boblogaeth 16–24 oed yn gyffredinol. **Gwelwyd cynnydd o 1.0 pwynt canran yng nghanran y boblogaeth 25–44 oed sy'n gallu siarad Cymraeg**, a hynny'n gynydd o 5,364 o ran nifer.

Aros yn lled sefydlog wnaeth y grwpiau oedran 45–64 a 65+. Cafwyd gostyngiad canrannol bychan iawn o 0.3 pwynt canran yn y boblogaeth 45–64 sy'n gallu siarad Cymraeg, a hynny'n cyfateb i ddim ond 596 o bobl yn llai yn medru'r iaith yn 2021 nag oedd yn 2011. Cafwyd gostyngiad o 2.3 pwynt canran yn y boblogaeth 65+ sy'n gallu siarad Cymraeg, ond er y gostyngiad canrannol hwn, cynyddu wnaeth nifer y boblogaeth yn y categori hwn o 813 o bobl. Mae hynny'n adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth 65+ oed yn gyffredinol.

Siart 10: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl grŵp oedran, 1981–2021

Blwyddyn

1981 1991 2001 2011 2021



Gostwng wnaeth canran y siaradwyr Cymraeg yn y ddau gategori oed hŷn yma bob degawd ers 1981, ond mae'r gostyngiad canrannol a welwyd rhwng 2011 a 2021 yn dipyn llai na'r gostyngiad a welwyd yn y degawdau blaenorol.

O gymharu canlyniadau nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011, mae patrymau tebyg i'w gweld fesul grŵp oedran. Mae'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yn dal i'w cael yn y plant a phobl ifanc sydd mewn addysg tra bo'r niferoedd yn gostwng yn raddol cyn sefydlogi yn y grwpiau oedran hŷn.

Tabl 10: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran (newid pwynt canrannol), 1981–2021

Grŵp oedran	Newid pwynt canran				1981–2021
	1981–1991	1991–2001	2001–2011	2011–2021	
3–4	2.9	2.6	4.5	-5.1	4.9
5–15	7.6	14.9	-0.5	-6.0	16.0
16–24	2.1	5.1	-0.6	0.8	7.4
25–44	-1.1	0.6	-0.1	1.0	0.4
45–64	-3.3	-1.8	-2.3	-0.3	-7.7
65+	-4.8	-3.1	-3.3	-2.3	-13.5

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)


Tabl 11: Newid yn nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran, 1981–2021

Grŵp oedran	Newid personau				1981–2021
	1981–1991	1991–2001	2001–2011	2011–2021	
3–4	3,834	1,079	3,256	-4,548	3,621
5–15	18,363	70,092	-18,913	-17,582	51,960
16–24	4,186	10,521	10,849	-7,171	18,385
25–44	3,465	3,450	-3,231	5,364	9,048
45–64	-20,249	1,577	-4,801	-596	-24,069
65+	-5,033	-12,449	-7,512	813	-24,181

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

7.3 Oed a rhyw siaradwyr

Siart 11: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran a rhyw




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Mae'r ganran a'r nifer o ferched sy'n gallu siarad Cymraeg yn parhau i fod yn uwch na'r ganran a'r nifer o ddynion, â 18.7% neu 288,546 o ferched Cymru yn medru'r iaith o'i gymharu ag 16.9% neu 249,750 o ddynion.

Mae'r patrwm hwn i'w weld ym mhob grŵp oedran. Ceir y gwahaniaeth canrannol mwyaf yn y grwpiau oedran 10–15 ac 16–19 lle mae tua 5 pwynt canran o wahaniaeth rhwng canrannau'r merched a'r dynion sy'n gallu siarad Cymraeg.

Siart 12: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran a rhyw



(Flynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)



Yn yr un modd, mae nifer uwch o ferched nag o ddynion yn gallu siarad Cymraeg ym mhob grŵp oedran, â'r gwahaniaethau mwyaf yn y grwpiau oedran 85+ lle mae 3,670 yn fwy o ferched, y grŵp oedran 10–15 lle mae 3,103 yn fwy o ferched, a'r grŵp oedran 35–39 lle mae 3,006 yn fwy o ferched.

7.4 Siaradwyr Cymraeg yn ôl oed ac awdurdod lleol

Gall fod yn ddefnyddiol edrych ar ganrannau'r siaradwyr yn ôl oed fesul awdurdod lleol er mwyn cynllunio gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg neu gynllunio ymyraethau er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd.


Siart 13: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran yn awdurdodau lleol gogledd Cymru

Grŵp oedran




Siart 14: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran yn awdurdodau lleol de-orllewin a chanolbarth Cymru

Grŵp oedran




Siart 15: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran yn awdurdodau lleol canol de Cymru



Siart 16: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran yn awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru

Grŵp oedran

3–4 5–15 16–24 25–44 45–64 65+



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Yng nghategoriâu oedran y plant a phobl ifanc mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg ym mhob awdurdod lleol. Mae'n drawiadol fod **88.6% o blant 5–15 oed yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg**, tra mai 20.4% o'r plant yr un oed sy'n medru'r Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ym Mlaenau Gwent hefyd.

Nid yw'n syndod fod canrannau'r plant sy'n gallu siarad Cymraeg yn uchel yn Ynys Môn a Cheredigion hefyd, ac oddeutu tri chwarter y boblogaeth 5–15 oed yn medru'r iaith.

Mae'r canrannau isaf o blant a phobl ifanc sy'n medru'r iaith yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain, a'r ganran o'r plant 5–15 oed o dan 30% ym mhob un o awdurdodau lleol yr ardal (ac eithrio Sir Fynwy), yn ogystal ag yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir y Fflint a Wrecsam. Gostwng wnaeth y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 5–15 ym mhob awdurdod lleol ers 2011. Cafwyd y gostyngiad mwyaf ym Mlaenau Gwent o 13.6%, ac yng Nghasnewydd lle cafwyd gostyngiad o 13.4%.

Wrth edrych ar ganrannau isel y plant 5–15 oed yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain, difyr yw sylwi ar y ganran ychydig yn uwch yn Sir Fynwy lle mae 33.1% o blant 5–15 yn gallu siarad Cymraeg.

Difyr hefyd yw cymharu Sir Fynwy â'r awdurdodau lleol sydd ar y ffin yn y gogledd. Mae canran uwch o blant a phobl ifanc 5–15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Fynwy na sydd yn Sir y Fflint neu Wrecsam.


Nodwyd eisoes bod cynnydd o 1.0 pwynt canran wedi bod yn y siaradwyr Cymraeg 25–44 oed ar lefel genedlaethol, ac mae cynnydd canrannol wedi bod yn siaradwyr Cymraeg y grŵp oedran hwn yn 17 allan o'r 22 awdurdod lleol ers 2011. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o 3.2 pwynt canran yn Rhondda Cynon Taf a 2.7 pwynt canran ym Mro Morganwg. **Ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg 25–44 oed yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd.**

Wrth droi ein golygon at y siaradwyr 65 oed neu'n hŷn, dyma lle mae rhai o'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg i'w cael mewn sawl awdurdod lleol. Gwelwyd gostyngiad canrannol digon tebyg yng Ngwynedd (3.3 pwynt canran) ac yn Ynys Môn (3.7 pwynt canran) tra bu'r gostyngiad ychydig yn fwy yng Ngheredigion (6.5 pwynt canran) ac yn Sir Gaerfyrddin (8.7 pwynt canran).

Yng Ngwynedd heddiw, mae 54.7% o'r boblogaeth dros 65 oed yn gallu siarad Cymraeg, tra bo dan 2% o bobl yr un oed yn medru'r Gymraeg ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd.

Siart 17: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol yn awdurdodau lleol gogledd Cymru (newid pwynt canrannol), 2011–21

Grŵp oedran




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Siart 18: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran ac awdurdodau lleol de-orllewin a chanolbarth Cymru (newid pwynt canrannol), 2011–21


Grŵp oedran

- 3–4
- 5–15
- 16–24
- 25–44
- 45–64
- 65+



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Siart 19: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran yn awdurdodau lleol canol de Cymru (newid pwynt canrannol), 2011–21




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Siart 20: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran yn awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru (newid pwynt canrannol), 2011–21

Grŵp oedran

3–4 5–15 16–24 25–44 45–64 65+



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

7.5 Golwg ar siaradwyr hŷn

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2021 inni **fod poblogaeth Cymru yn heneiddio**, hynny yw bod mwy o bobl hŷn a llai o blant a phobl ifanc yn byw yn y wlad ers 2011. Yn 2011, 18.4% o bobl Cymru oedd dros 65 oed, erbyn 2021 cynyddodd y ganran i 21.3% sy'n golygu bod **un o bob pum person yng Nghymru dros 65 oed erbyn hyn**. Cynyddodd y ganran o bobl 65+ oed o 20% neu fwy yn wyth o awdurdodau lleol Cymru.

Nodwyd eisoes bod cynnydd bychan yn niferoedd y siaradwyr 65+ oed ers 2011, er bod hynny'n cyfateb i ostyngiad canrannol yn sgil y twf cyffredinol ym mhoblogaeth y grŵp oedran.

Mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg 65+ oed ar ei huchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin yn eu trefn, tra bo'r niferoedd uchaf yn ôl trefn i'w cael yn Sir Gaerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn.

Casgliadau'r Comisiynydd



Mae'n naturiol fod canran uwch o blant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg nag unrhyw grŵp oedran arall â nifer ohonynt yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol. **Yr her yw cadw sgiliau iaith y plant a'r bobl ifanc hyn wedi iddynt adael y system addysg, er mwyn iddynt barhau i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus wrth iddynt fynd yn hŷn.**

Mae'r gostyngiad sylweddol yn y ganran o blant 5–15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, fodd bynnag, yn destun pryder, ond anodd yw gwybod i ba raddau y gwnaeth amseru'r cyfrifiad yng nghanol cyfnod pandemig COVID-19 gyfrannu at y gostyngiad. Gwerth cadw mewn cof hefyd fod data o'r sector addysg yn awgrymu bod y sefyllfa'n fwy sefydlog, fel y trafodir yn Rhan 2. Bydd angen cadw golwg ar y grŵp oedran hwn wrth i Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 gael ei gweithredu dros y blynyddoedd nesaf.

Er bod y ganran genedlaethol o blant 5–15 yn is nag ydoedd yn 2011, mae'r sefyllfa yn amrywio'n fawr o awdurdod lleol i awdurdod lleol. Mae'r canrannau'n uchel iawn yng Ngwynedd, Môn a Cheredigion ac **mae'n hanfodol fod sgiliau iaith y plant a'r bobl ifanc yno yn cael eu cadw a'u defnyddio wrth iddynt dyfu'n hŷn.** Mae cadw sgiliau iaith plant a phobl ifanc yr un mor bwysig mewn awdurdodau lleol eraill hefyd, **ond mae angen mwy o bwyslais yno ar greu mwy o siaradwyr Cymraeg 5–15 oed.**

Mae'r cynnydd yn nghanran y siaradwyr Cymraeg 25–44 oed ers 2011 yn rhywbeth i'w ddathlu gan mai dyma'r oed mae pobl mewn gwaith ac yn magu teuluoedd. Mae'r cynnydd hwn yn golygu **bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn y pwll i fod yn ymgymryd â swyddi lle mae gofynion ynghylch gallu siarad Cymraeg.**

Er mai ymhlith y grŵp oedran 65+ mae'r ganran isaf o siaradwyr, mae'n bwysig cofio am y niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg sy'n 65 oed neu'n hŷn, yn enwedig felly wrth i boblogaeth Cymru heneiddio. Mae'r sefyllfa'n amrywio o awdurdod lleol i awdurdod lleol eto, ond mae'n bwysig sicrhau bod cyfleoedd i'r bobl hyn gadw a defnyddio'u sgiliau yn y Gymraeg gan y gallent fod yn cyfrannu at daith iaith wyrion, er enghraifft.


Mae'n bwysig hefyd ystyried yr angen am wasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg wrth feddwl am siaradwyr Cymraeg hŷn a'r ffaith fod y boblogaeth hŷn yn tyfu.

Golwg gychwynnol a ffeithiol ar yr ystadegau a geir yma a **gall fod yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol, ac eraill, ddadansoddi'r sefyllfa yn fanylach eu hunain er mwyn deall canlyniadau'r cyfrifiad yn llawn.** Mae hynny'n hynod berthnasol yng nghyd-destun canran y plant sy'n gallu siarad Cymraeg o'i ystyried ochr yn ochr â chyfrwng iaith ysgolion yr awdurdodau lleol a'u polisïau o ran y Gymraeg ac addysg.

8. Pwy sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant?

Mae modd cael syniad o gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref drwy edrych ar faint o blant 3–4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, cyn i'r plant ddechrau derbyn addysg statudol.⁹

Siart 21: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, 2001–21



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

⁹ Dylid pwysleisio nad dyma'r unig ddull y gellid ei ddefnyddio i ddeall cyfradd trosglwyddo iaith ac mae rhai cwestiynau ynghylch pa mor ddibynadwy ydyw, yn enwedig gan fod cyfyngiadau ar allu ieithyddol plant 3–4 oed yn gyffredinol, a dwysawyd hyn yn ystod cyfnod y pandemig. Gall y ffaith bod oedolyn yn y cartref yn nodi bod eu plentyn 3–4 oed yn siarad Cymraeg wrth lenwi'r holiadur fod yn arwydd o'u bwriad mewn perthynas â gallu ieithyddol eu plant i'r dyfodol. Mae'r ffaith bod 7.2% o'r plant 3–4 oed – sy'n byw mewn cartrefi un rhiant lle nad oes yr un oedolyn yn siarad Cymraeg – yn medru'r iaith, a 7.3% o'r plant 3–4 oed – sy'n byw mewn cartrefi cwpl lle nad oes yr un oedolyn yn siarad Cymraeg – yn medru'r iaith hefyd yn codi cwestiwn ynghylch y fethodoleg.

Nid yw'n syndod mai mewn cartrefi cwpl lle mae dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg mae'r gyfran uchaf o blant 3–4 oed sy'n medru siarad Cymraeg. Mae 80.7% o blant 3–4 oed, sy'n byw mewn cartrefi cwpl lle mae dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, yn medru'r iaith. Dyma 'gyfradd trosglwyddo'r Gymraeg' a dim ond gostyngiad bach a welwyd ers 2011 pan oedd y gyfradd yn 82.2%. Mae'r gyfradd drosglwyddo o dros 80% yn gyson iawn ers 2001 â gostyngiad o 1.1 pwynt canran dros y cyfnod hwn.

Nid yw'n annisgwyl chwaith mai mewn cartrefi un rhiant lle mae un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg mae'r ail gyfradd uchaf o drosglwyddiad iaith. Mae'r ganran dros 50% ers 2001 ond mae'r gyfradd wedi gostwng o 2.9 pwynt canran i 52.2% erbyn 2021. Dyma'r gostyngiad mwyaf ar draws y gwahanol fathau o aelwydydd a drafodir yma yn y cyfnod hwn.¹⁰

Mae'r gyfradd drosglwyddo mewn cartref cwpl lle mae un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg yn 40.4%. Cafwyd cynnydd mewn trosglwyddiad rhwng 2001 a 2011 o 5.6 pwynt canran, a gostyngiad tebyg rhwng 2011 a 2021.

Wrth reswm, mae'r gyfradd ar ei hisaf mewn cartrefi cwpl lle nad oes oedolion yn gallu siarad Cymraeg a chartrefi un rhiant heb oedolion yn gallu siarad Cymraeg. Nid yw'n bosibl i'r Gymraeg gael ei 'throsglwyddo' o genhedlaeth i genhedlaeth ar yr aelwyd yn y sefyllfaoedd hyn, wrth gwrs. Er hynny mae'r gyfradd yn 7.3% mewn cartrefi cwpl ac yn 7.2% mewn cartrefi un rhiant lle nad oes oedolion sy'n medru'r Gymraeg, a hynny o bosibl yn adlewyrchu ffactorau cymdeithasol y tu allan i'r cartref.


¹⁰ Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar gartrefi cwpwl lle mae dau oedolyn yn siarad Cymraeg a lle ma un oedolyn yn siarad Cymraeg, a chartrefi un rhiant lle mae un oedolyn yn siarad Cymraeg. Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried cartrefi un rhiant lle mae dau oedolyn yn siarad Cymraeg.

8.1 Cyfradd drosglwyddo fesul awdurdod lleol

Siart 22: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n medru siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol gogledd Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd

Cyfansoddiad yr aelwyd

- Cartref un rhiant: dim oedolion yn medru siarad Cymraeg
- Cartref un rhiant: un oedolyn yn medru siarad Cymraeg
- Cartref cwpwl: dim oedolion yn medru siarad Cymraeg
- Cartref cwpwl: un oedolyn yn medru siarad Cymraeg
- Cartref cwpwl: dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Siart 23: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy’n medru siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol de-orllewin a chanolbarth Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd

Cyfansoddiad yr aelwyd

-  Cartref un rhiant: dim oedolion yn medru siarad Cymraeg
-  Cartref un rhiant: un oedolyn yn medru siarad Cymraeg
-  Cartref cwpwl: dim oedolion yn medru siarad Cymraeg
-  Cartref cwpwl: un oedolyn yn medru siarad Cymraeg
-  Cartref cwpwl: dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Siart 24: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n medru siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol canol de Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd


Cyfansoddiad yr aelwyd

- Cartref un rhiant: dim oedolion yn medru siarad Cymraeg
- Cartref un rhiant: un oedolyn yn medru siarad Cymraeg
- Cartref cwpwl: dim oedolion yn medru siarad Cymraeg
- Cartref cwpwl: un oedolyn yn medru siarad Cymraeg
- Cartref cwpwl: dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Siart 25: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n medru siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd



Mae'r cyfraddau trosglwyddo yn amrywio o awdurdod lleol i awdurdod lleol. Er enghraifft, **mewn cartrefi cwpl sydd â dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg mae'r gyfradd drosglwyddo dros 80% yn wyth o'r awdurdodau lleol.** Mae ar ei huchaf yng Nghaerdydd (88.9%), Gwynedd (88.7%) a Cheredigion (83.6%). **Ar ei hisaf, mae'r gyfradd drosglwyddo yn 60% yn y cartrefi hyn yn Nhorfaen, ac mae'n is eto ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.** Dylid cadw mewn cof mai niferoedd cymharol isel o gartrefi sydd dan sylw yma, a'r niferoedd mor isel yn rhai o'r categorïau fel nad oes modd nodi canrannau, a hynny er mwyn sicrhau bod unigolion yn anhysbys.

Mae'r gyfradd drosglwyddo yn amrywio'n fwy mewn cartrefi un rhiant lle mae un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, o 77.8% yng Ngheredigion i 22.2% yng Nghasnewydd, ac mae'n is eto ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy. Mae'r gyfradd yn weddol uchel yn y gogledd-orllewin, yn 77% yng Ngwynedd a 65.9% yn Ynys Môn. **Ond mae'r gyfradd drosglwyddo yn y categori hwn yng Nghaerdydd yn drawiadol is (45.8%). Bron i hanner y gyfradd mewn cartrefi lle mae dau oedolyn yn siarad Cymraeg yng Nghaerdydd.**

Mae'r gyfradd drosglwyddo yn is yn achos cartrefi cwpl lle mai dim ond un oedolyn sy'n medru'r Gymraeg â'r cyfraddau uchaf yng Ngwynedd (60%), Sir Gaerfyrddin (52%) a Cheredigion (49.1%). Mae'r gyfradd isaf i'w chael ym Mlaenau Gwent (18.8%).

Mewn cartrefi un rhiant lle nad oes un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, mae'r gyfradd drosglwyddo ar ei huchaf mewn cartrefi yng Ngwynedd (31%), Ceredigion (27.3%), a Sir Gaerfyrddin (15.1%). Yn y categori hwn mae'r gyfradd isaf yng Nghasnewydd (3.6%) a Merthyr Tudful.

Mewn cartrefi cwpl lle does dim un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, unwaith eto mae'r gyfradd drosglwyddo ar ei huchaf yng Ngwynedd (28.6%), Ceredigion (19.6%) ac Ynys Môn (16.7%) ac ar ei hisaf ym Mlaenau Gwent (3.8%). Fel y nodwyd eisoes, nid 'trosglwyddo' ar yr aelwyd sy'n digwydd yn y sefyllfaoedd hyn, wrth gwrs, ond mae'r ystadegau'n ddiddorol er mwyn ystyried pa ffactorau eraill all fod ar waith. Gall plant ddechrau mynd i'r ysgol am ychydig oriau cyn iddynt fod o oed addysg statudol, er enghraifft.

Mewn cartrefi cwpl lle mae dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg, mae cynnydd wedi bod yn y gyfradd drosglwyddo yn 9 o'r 22 awdurdod lleol ers 2001 â'r cynnydd mwyaf yn Sir Fynwy (cynnydd o 27.1 pwynt canran), Sir y Fflint (cynnydd o 19.8 pwynt canran) a Chasnewydd (cynnydd o 15.1 pwynt canran). Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng Nghastell-nedd Port-Talbot (gostyngiad o 15.9 pwynt canran), Pen-y-bont ar Ogwr (gostyngiad o 11 pwynt canran), a Thorfaen (gostyngiad o 5 pwynt canran).

Mewn cartrefi cwpl lle mae un oedolyn yn medru siarad Cymraeg mae cynnydd yn y gyfradd drosglwyddo wedi bod yn hanner yr awdurdodau lleol ers 2001 â'r cynnydd mwyaf yn Sir Ddinbych (cynnydd o 11.2 pwynt canran), Sir Fynwy (cynnydd o 10.7 pwynt canran), a Wrecsam (cynnydd o 9.9 pwynt canran). Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot (gostyngiad o 10.6 pwynt canran), Powys (gostyngiad o 8.3 pwynt canran) a Merthyr Tudful (gostyngiad o 8.1 pwynt canran). Mae gwerth nodi hefyd fod **cynnydd wedi bod yn y math yma o gartref yn 21 o'r 22 awdurdod lleol rhwng 2011 a 2021**.

Mewn cartrefi un rhiant lle mae un oedolyn yn medru siarad Cymraeg mae cynnydd wedi bod yn y gyfradd drosglwyddo yn 9 o'r 22 awdurdod lleol ers 2001 â'r cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint (cynnydd o 17.8 pwynt canran), Wrecsam (cynnydd o 15.5 pwynt canran) a Cheredigion (cynnydd o 11.5 pwynt canran). Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi o'r fath yng Nghasnewydd (gostyngiad o 20.1 pwynt canran) Caerffili (gostyngiad o 16.5 pwynt canran) a Chastell-nedd Port Talbot (gostyngiad o 16.9 pwynt canran).



Mewn cartrefi cwpl lle nad oes oedolion yn medru siarad Cymraeg, mae cynnydd wedi bod yn y gyfradd drosglwyddo mewn chwe awdurdod lleol, â'r cynnydd mwyaf i'w weld yn Sir Ddinbych (cynnydd o 2.8 pwynt canran) a Sir Fynwy (cynnydd o 2.6 pwynt canran). Nid oedd newid mawr yn yr 16 awdurdod lleol arall ond roedd y gostyngiad mwyaf i'w gweld yng Ngheredigion (gostyngiad o 6.4 pwynt canran).

Mewn cartrefi un rhiant lle nad oes oedolion yn medru siarad Cymraeg, mae cynnydd bychan wedi bod mewn tri awdurdod lleol yn unig, yn Wrecsam (cynnydd o 2.6 pwynt canran), Sir Ddinbych (cynnydd o 1.5 pwynt canran) ac ym Mhowys (cynnydd o 0.6 pwynt canran). Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn y cyfraddau trosglwyddo ar draws y ddau ddegawd yn Ynys Môn (gostyngiad o 14.1 pwynt canran), Gwynedd (gostyngiad o 10 pwynt canran) a Cheredigion (gostyngiad o 6.9 pwynt canran).

Mae'n bwysig tynnu sylw at y gwrthgyferbyniad mewn cyfraddau trosglwyddo rhwng 2001 a 2011 a rhwng 2011 a 2021 mewn cartrefi un rhiant lle nad oes oedolion yn medru siarad Cymraeg. Gwelwyd cynnydd yn y gyfradd mewn 20 o 22 awdurdod lleol yn y degawd cyntaf a gostyngiad ymhob awdurdod lleol rhwng 2011 a 2021, gan gynnwys gostyngiad sylweddol mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg wedi bod ar ei chryfaf.

Siart 27: Newid yng nghanran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu, cartrefi un rhiant, sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, fesul awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 2001–21

Cartrefi un rhiant



Casgliadau'r Comisiynydd



Mae cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg yn parhau i fod yn uchel mewn cartrefi lle mae dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, ond mae lle i gynyddu'r gyfradd mewn cartrefi o'r fath yn nifer o awdurdodau lleol y de ac yn Wrecsam a Chonwy yn y gogledd.

Mae cyfleoedd yn cael eu colli i drosglwyddo'r iaith mewn cartrefi un rhiant lle mae un oedolyn yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, dim ond ychydig dros hanner y plant 3–4 oed mewn cartrefi o'r fath sy'n caffael yr iaith yn y cartref. **Gellid cynyddu'r gyfradd hon ym mhob awdurdod lleol, ac mae angen edrych yn benodol ar gynyddu'r gyfradd drosglwyddo yng Nghaerdydd.**

Mae angen rhagor o gefnogaeth hefyd i gynyddu'r gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi cwpl lle mae un oedolyn yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, 40% o blant 3–4 oed mewn cartrefi o'r fath sy'n caffael yr iaith yn y cartref.


9. Pa sgiliau ieithyddol sydd gan siaradwyr Cymraeg?

Nid yw holiadur y cyfrifiad yn gofyn i bobl ddod i farn ynghylch pa mor rhugl maen nhw'n siarad Cymraeg, yn hytrach mae'n holi a yw pobl yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg.

Mae'r gostyngiad o 23,720 ers 2011 yn nifer y boblogaeth sy'n dweud eu bod yn gallu *siarad* Cymraeg eisoes wedi cael cryn sylw. Ond er bod nifer siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2021 wedi gostwng, mae'r ganran o siaradwyr sy'n weddill sy'n adrodd bod ganddyn nhw'r ystod lawn o sgiliau (yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg) yn gadarnhaol.


Mae 14.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gostyngiad bach o'r 14.6% a adroddodd hyn yn 2011).

Siart 28: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn yng Nghymru sy'n medru siarad, deall, darllen neu ysgrifennu Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgîl penodol




Wrth fwrw golwg yn ôl dros y degawdau, er bod niferoedd y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng dros y cyfnod, **mae sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg wedi parhau yn weddol gyson ers 2001**. Ac mae cynnydd wedi bod yng nghanran a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n medru darllen ac ysgrifennu Cymraeg yng Nghymru ers 1981. Roedd 70.6% o siaradwyr Cymraeg hefyd yn gallu darllen ac ysgrifennu'r iaith yn 1981. Cynyddodd hyn i 79.8% erbyn 2021.

Siart 29: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn sy'n medru darllen ac ysgrifennu Cymraeg yng Nghymru, 1981–2021




Siart 30: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yng Nghymru, 1981–2021




9.1 Sgiliau iaith yn ôl awdurdod lleol


Siart 31: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgiliau Cymraeg yn awdurdodau lleol gogledd Cymru




Siart 32: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgiliau Cymraeg yn awdurdodau lleol de-orllewin a chanolbarth Cymru



Siart 33: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgiliau Cymraeg yn awdurdodau lleol canol de Cymru



Siart 34: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgiliau Cymraeg yn awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru




Wrth ystyried sgiliau yn Gymraeg fesul awdurdod lleol, mae'r canrannau uchaf o bobl sy'n meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau iaith yng Ngwynedd, lle mae 55.3% o'r boblogaeth yno yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae 45.2% o boblogaeth Ynys Môn a 37.3% o boblogaeth Ceredigion yn meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau iaith. Ar y llaw arall, mae'r canrannau isaf yn y de-ddwyrain, ym Mlaenau Gwent mae 4.7% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg tra bo'r ganran yn 5.7% yng Nghasnewydd a 6.5% yn Nhorfaen.

Ond, fel y gwelwyd eisoes yn achos sgiliau siarad yn unig, mae trefn yr awdurdodau lleol yn wahanol pan edrychwn ar y *niferoedd* siaradwyr sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae 63,256 o boblogaeth Gwynedd yn meddu ar yr holl sgiliau hyn, 56,493 yn Sir Gaerfyrddin, 35,578 yng Nghaerdydd a 30,316 yn Ynys Môn.

Difyr yw sylwi ar y niferoedd nid annhebyg sydd i'w cael yng Ngheredigion, Conwy a Rhondda Cynon Taf. Dim ond dros 3,000 o wahaniaeth sydd yn niferoedd y *siaradwyr* rhwng Rhondda Cynon Taf a Cheredigion, a Chonwy yn y canol rhwng y ddau. Ac mae'r niferoedd o siaradwyr sy'n meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau hefyd yn ddigon tebyg, â 26,104 yng Ngheredigion, 23,345 yn Rhondda Cynon Taf a 22,605 yng Nghonwy. **Er bod nifer fwy o siaradwyr yng Nghonwy nag yn Rhondda Cynon Taf, mae nifer fwy o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Rhondda Cynon Taf nag yng Nghonwy.** Mae 77.9% o siaradwyr Cymraeg Conwy ac 81.8% o siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf sy'n meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau iaith.

Mae mwy na 74% o'r siaradwyr Cymraeg ym mhob awdurdod lleol yn meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau iaith. Mae 86% o siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, 83.2% o siaradwyr Cymraeg Caerdydd, ac 82.4% o siaradwyr Cymraeg Ceredigion. Difyr yw nodi bod y ganran yn yr wythdegau isel yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Bro Morgannwg ac Ynys Môn hefyd gan olygu fod sgiliau iaith uwch yn yr awdurdodau lleol hyn ymhlith y siaradwyr Cymraeg yno. Ar y llaw arall, 74.1% o siaradwyr Cymraeg Sir y Fflint a nododd eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, 75% oedd y ganran yn Wrecsam, a 75.2% yng Nghasnewydd.

Siart 35: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgiliau Cymraeg, fesul awdurdod lleol



Tabl 21: Nifer a chanran y bobl dair dair oed neu'n hŷn yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgiliau Cymraeg, fesul awdurdod lleol


Awdurdod lleol	Deall Cymraeg llafar yn unig		Gallu darllen Cymraeg		Gallu Ysgrifennu Cymraeg		Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Ynys Môn	7,468	11.1	33,967	50.6	31,479	46.9	30,316	45.2
Gwynedd	8,166	7.1	68,645	60.1	65,639	57.4	63,256	55.3
Conwy	10,707	9.6	27,354	24.5	24,010	21.5	22,605	20.2
Sir Ddinbych	7,429	7.9	19,861	21.3	17,441	18.7	16,459	17.7
Sir y Fflint	7,495	4.9	17,216	11.4	14,315	9.5	12,920	8.6
Wrecsam	7,468	5.5	15,904	12.1	13,368	10.2	11,957	9.1
Powys	8,318	6.4	20,615	15.9	17,523	13.5	16,256	12.5
Ceredigion	5,948	8.5	29,569	42.3	27,137	38.8	26,104	37.3
Sir Benfro	7,359	6.1	19,310	16.1	16,661	13.9	15,617	13.0
Sir Gaerfyrddin	19,995	10.9	6,5745	36	58,885	32.2	56,493	30.9
Abertawe	11,345	4.9	26,801	11.6	21,867	9.4	19,951	8.6
Castell-nedd Port Talbot	8,032	5.8	18,582	13.4	15,238	11.0	14,095	10.2
Pen-y-bont ar Ogwr	5,500	3.9	14,504	10.3	11,385	8.1	10,177	7.2
Bro Morgannwg	4,488	3.5	14,998	11.7	12,802	10	11,946	9.3
Caerdydd	11,157	3.2	44,910	12.8	38,566	11.0	35,578	10.1
Rhondda Cynon Taf	9,261	4.0	30,017	13	25,246	11.0	23,345	10.1
Merthyr Tudful	2,074	3.6	5,462	9.6	4,453	7.8	4,052	7.1
Caerffili	5,266	3.1	18,145	10.6	15,746	9.2	14,502	8.5
Blaenau Gwent	1,508	2.3	4,054	6.3	3,514	5.4	3,048	4.7
Torfaen	2,007	2.3	7,329	8.2	6,435	7.2	5,783	6.5
Sir Fynwy	2,273	2.5	7,916	8.7	6,816	7.5	6,133	6.8
Casnewydd	3,827	2.5	11,510	7.5	9,938	6.5	8,717	5.7

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)


9.2 Newid mewn sgiliau iaith dros amser, yn ôl awdurdod lleol

Cynyddu wnaeth canran y siaradwyr Cymraeg oedd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ym mhob awdurdod lleol ers 2011. Mae'r cynnydd canrannol yn awdurdodau lleol y deddwyrain yn gyson fwy na'r cynnydd yng ngweddill Cymru.

Siart 36: Newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sy'n medru darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 2011–21



Siart 37: Newid yn nifer y bobl dair oed neu'n hŷn, sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol, 2011–21



Yn Nhorfaen y cafwyd y cynnydd mwyaf, o 72.3% yn 2011 i 78.5% yn 2021. Gan fod canran a nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng yn Nhorfaen dros y degawd, mae'n naturiol bod nifer y siaradwyr sy'n meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau iaith wedi gostwng hefyd o 467. Ond er bod llai o siaradwyr yn Nhorfaen heddiw nag oedd yn 2011, mae gan y siaradwyr sydd yno sgiliau uwch yn y Gymraeg nag yn 2011.

Gwelwyd yr ail gynnydd mwyaf yng nghanran y siaradwyr oedd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ym Merthyr Tudful o 73.7% yn 2011 i 79.8% yn 2021, ac yn Abertawe o 70.8% i 76.8%. Yn wahanol i Torfaen, cynyddu wnaeth nifer y siaradwyr hyn hefyd yn y ddau awdurdod lleol. Cafwyd cynnydd o 346 o bobl ym Merthyr Tudful a chynnydd o 1,317 o bobl yn Abertawe.

Ni fu llawer o newid yng nghanran na nifer y siaradwyr Cymraeg ym Merthyr Tudful nac Abertawe rhwng 2011 a 2021. **Mae'r cynnydd o 6.1 a 6 phwynt canran yng nghanran y siaradwyr sy'n meddu ar yr ystod lawn o sgiliau ieithyddol dros y degawd yn gadarnhaol felly ac yn dangos bod sgiliau uwch ymhlith y siaradwyr Cymraeg yn y ddau awdurdod lleol heddiw.**

Cafwyd y cynnydd lleiaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg oedd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yng Ngwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn lle roedd y ganran eisoes yn uchel yn 2011. Gan mai gostwng wnaeth nifer y siaradwyr yn y tair sir hon, gostwng hefyd wnaeth nifer y siaradwyr oedd yn meddu ar yr ystod lawn o sgiliau ieithyddol.

Pedwar awdurdod lleol a welodd gynnydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg fel y nodwyd ar ddechrau'r adran hon (Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful), a gwelodd yr awdurdodau hynny gynnydd cyfatebol yn y niferoedd oedd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg hefyd.

Gwelwyd cynnydd o 419 o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd yn meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau iaith a chynnydd o 90 yn Wrecsam, ond gostwng wnaeth y niferoedd yn yr 15 awdurdod lleol arall ochr yn ochr â'r gostyngiad yn nifer cyffredinol y siaradwyr.

9.3 Siaradwyr goddefol

Mae siaradwyr goddefol – sef pobl sy'n gallu *deall* y Gymraeg i ryw raddau neu'i gilydd – yn gategori arall sy'n teilyngu sylw. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2021 fod **5.2% o boblogaeth Cymru yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig**. Mae hynny'n gyfystyr â 156,762 o bobl. Dyma gategori o bobl sydd ar wahân i'r 17.8% sy'n gallu siarad Cymraeg.

Bwriad canolbwytio ar y grŵp yma yw ceisio deall yn well beth yw potensial y bobl hyn sy'n deall Cymraeg llafar i hwyluso sefyllfaoedd lle gall siaradwyr sy'n meddu ar yr ystod gyflawn o sgiliau eu defnyddio'n hyderus. Er enghraifft, drwy fod yn rhan o sgysiau Cymraeg lle gall y siaradwyr goddefol ddeall popeth er bod angen iddynt gyfrannu yn Saesneg.

Mae'r grŵp yma hefyd yn arwyddocaol gan fod ganddynt fantais ieithyddol a photensial i groesi'r bont yn hwylus i ddod yn siaradwyr Cymraeg.

9.4 Siaradwyr goddefol ar lefel awdurdod lleol

Mae'r canrannau uchaf o siaradwyr goddefol yn yr awdurdodau lleol sy'n draddodiadol wedi bod â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Nododd 11.1% o boblogaeth Ynys Môn eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig. Roedd y ganran yn 10.9% yn Sir Gaerfyrddin, 9.6% yng Nghonwy, 8.5% yng Ngheredigion, a 7.1% yng Ngwynedd.

Tabl 23: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n deall Cymraeg llafar yn unig yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer	Canran
Ynys Môn	7,468	11.1
Gwynedd	8,166	7.1
Conwy	10,707	9.6
Sir Ddinbych	7,429	8.0
Sir y Fflint	7,495	5.0
Wrecsam	7,468	5.5
Powys	8,318	6.4
Ceredigion	5,948	8.5
Sir Benfro	7,359	6.1
Sir Gaerfyrddin	19,995	10.9
Abertawe	11,345	4.9
Castell-nedd Port Talbot	8,032	5.8
Pen-y-bont ar Ogwr	5,500	3.9
Bro Morgannwg	4,488	3.5
Caerdydd	11,157	3.2
Rhondda Cynon Taf	9,261	4.0
Merthyr Tudful	2,074	3.6
Caerffili	5,266	3.1
Blaenau Gwent	1,508	2.3
Torfaen	2,007	2.3
Sir Fynwy	2,273	2.5
Casnewydd	3,827	2.5

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)


Mae canrannau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn arwyddocaol gan fod y ddau awdurdod lleol wedi profi lleihad sylweddol yn y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg mewn cyfrifiadau diweddar, **ond mae canrannau uchel y siaradwyr goddefol yn y ddwy ardal yn awgrymu potensial, o leiaf, i wyrdroi'r shifft ieithyddol hwn.**

Mae'r niferoedd uchaf o siaradwyr goddefol i'w gweld un ai mewn awdurdodau lleol lle mae gostyngiad wedi bod yn nifer y siaradwyr (Sir Gaerfyrddin a Chonwy, er enghraifft) neu mewn awdurdodau lleol ble mae'r niferoedd ar gynnydd (mae Caerdydd a Rhondda Cynon Taf yn enghreifftiau amlwg). **Mae 11,157 o siaradwyr goddefol yng Nghaerdydd a bron i 20,000 yn Sir Gaerfyrddin.**

9.5 Siaradwyr goddefol ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ardaloedd bach)

Rydym eisoes wedi amlygu budd mapio siaradwyr ar lefel ardaloedd bach ac mae Map 10 yn amlygu'r pocedi bach lle mae niferoedd uchel o siaradwyr goddefol yn byw, mewn ardaloedd o ogledd-ddwyrain Cymru, rhannau o Bowys, a dwyrain Sir Gaerfyrddin, er enghraifft.

Map 10: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru deall Cymraeg llafar yn unig yn ôl Cyfrifiad 2021, ar raddfa Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen is (ardaloedd bach)




9.6 Dod â siaradwyr Cymraeg a siaradwyr goddefol ynghyd

O gyfuno'r data am siaradwyr goddefol a'r data am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, gellir ceisio deall yn well botensial siaradwyr goddefol i weddnewid sefyllfa'r Gymraeg.

Ar lefel awdurdod lleol, mae'r patrymau a welir ym Map 11 yn ddigon cyfarwydd ac yn cadarnhau arwyddocâd yr ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ar gyfer datblygu sgiliau ieithyddol siaradwyr goddefol a photensial defnyddio iaith.

Ond mae hefyd yn amlygu'r **potensial i gynyddu sgiliau a defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd megis Sir Gaerfyrddin, Conwy, Abertawe, a Rhondda Cynon Taf**, gan fod niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg a siaradwyr goddefol yn yr ardaloedd hyn.

Map 11: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg a'r bobl sy'n medru deall Cymraeg llafar yn unig yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol



Tabl 24: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg a'r bobl sy'n deall Cymraeg llafar yn unig yn 2021, yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Gallu siarad Cymraeg		Gallu deall Cymraeg llafar yn unig		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Ynys Môn	37,413	55.8	7,468	11.1	44,881	66.9
Gwynedd	73,560	64.4	8,166	7.1	81,726	71.5
Conwy	29,000	25.9	10,707	9.6	39,707	35.5
Sir Ddinbych	20,946	22.5	7,429	7.9	28,375	30.4
Sir y Fflint	17,428	11.6	7,495	4.9	24,923	16.5
Wrecsam	15,953	12.2	7,468	5.5	23,421	17.7
Powys	21,358	16.4	8,318	6.4	29,676	22.8
Ceredigion	31,678	45.3	5,948	8.5	37,626	53.8
Sir Benfro	20,626	17.2	7,359	6.1	27,985	23.3
Sir Gaerfyrddin	72,838	39.9	19,995	10.9	92,833	50.8
Abertawe	25,986	11.2	11,345	4.9	37,331	16.1
Castell-nedd Port Talbot	18,662	13.5	8,032	5.8	26,694	19.3
Pen-y-bont ar Ogwr	13,037	9.2	5,500	3.9	18,537	13.1
Bro Morgannwg	14,737	11.5	4,488	3.5	19,225	15.0
Caerdydd	42,757	12.2	11,157	3.2	53,914	15.4
Rhondda Cynon Taf	28,556	12.4	9,261	4.0	37,817	16.4
Merthyr Tudful	5,079	8.9	2,074	3.6	7,153	12.5
Caerffili	17,837	10.5	5,266	3.1	23,103	13.6
Blaenau Gwent	4,035	6.2	1,508	2.3	5,543	8.5
Torfaen	7,366	8.2	2,007	2.3	9,373	10.5
Sir Fynwy	7,852	8.7	2,273	2.5	10,125	11.2
Casnewydd	11,594	7.5	3,827	2.5	15,421	10.0

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Casgliadau'r Comisiynydd



Mae'r ganran o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg wedi aros yn weddol gyson ers 2011, ac erbyn hyn 14.2% o boblogaeth Cymru sy'n meddu ar yr ystod lawn o sgiliau iaith.

Mae o leiaf tri chwarter y siaradwyr Cymraeg ym mhob awdurdod lleol yn gallu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, ac mae'r ganran o siaradwyr sy'n gallu darllen ac ysgrifennu wedi cynyddu ym mhob awdurdod lleol ers 2011. Mae'r cynnydd canrannol yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain hefyd yn galonogol ac yn gyson fwy na'r cynnydd yng ngweddill Cymru. **Er bod llai o siaradwyr Cymraeg yn bod heddiw nag oedd yn 2011, mae canran uwch o siaradwyr yn meddu ar yr ystod lawn o sgiliau iaith heddiw nag oedd yn 2011.**

Â 156,762 o bobl Cymru yn dweud eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig, mae cyfle yma i ddatblygu eu sgiliau iaith er mwyn eu troi yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r canrannau uchaf o'r siaradwyr goddefol hyn i'w cael yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, ac felly gellid tybio bod cyfleoedd yn yr ardaloedd hynny i siaradwyr goddefol ymarfer a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae hefyd angen ystyried sut mae defnyddio'r siaradwyr goddefol hyn yn y gweithle, er enghraifft drwy eu huwchgsgilio er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau Cymraeg, neu drwy greu sefyllfaoedd lle gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu cwmni.

10. O ble mae siaradwyr Cymraeg yn dod? Ac i ba grwpiau ethnig maen nhw'n perthyn?


10.1 Gwlad enedigol siaradwyr Cymraeg

Mae deall ble cafodd siaradwyr Cymraeg eu geni yn bwysig er mwyn gweld faint o bobl a anwyd yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg, a faint o bobl a anwyd y tu allan i Gymru sy'n cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg maes o law. Nid yw'n syndod fod **y mwyafrif helaeth (87.9%) o siaradwyr Cymraeg wedi eu geni yng Nghymru**, a bod y rhan fwyaf o'r gweddill wedi eu geni yn un o wledydd eraill y Deyrnas Unedig (10.5%).


O edrych ar y boblogaeth gyfan, 71% o boblogaeth Cymru a anwyd yng Nghymru. Ganwyd 21% yn Lloegr, 7% y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ac 1% yn un o wledydd eraill y Deyrnas Unedig.

O'r bobl a anwyd yng Nghymru sy'n dair oed neu'n hŷn, mae 22.3% yn gallu siarad Cymraeg, a hynny'n cyfateb i 473,059 o bobl.

Siart 38: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl gwlad enedigol




Siart 39: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl gwlad enedigol



Mae peth gwahaniaethau o ran ble mae'r rhai a anwyd y tu hwnt i Gymru sy'n siarad Cymraeg yn byw yn ôl awdurdod lleol. Mae'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg sydd heb eu geni yng Nghymru i'w cael yng Ngwynedd (8,072), Powys (6,326) a Chaerdydd (5,894). **Mae'r nifer gweddol uchel o siaradwyr ym Mhowys (6,082) a Sir y Fflint (4,809) sydd wedi'u geni yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn amlygu symudoledd ar draws y ffin yn yr ardaloedd hyn a'r rôl allweddol mae addysg Gymraeg yn ei chwarae wrth ddatblygu siaradwyr Cymraeg.**

Siart 40: Canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl gwlad enedigol, fesul awdurdod lleol



Mae cyfansoddiad poblogaeth awdurdodau lleol a'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio o awdurdod lleol i awdurdod lleol. O ystyried y boblogaeth sy'n dair oed neu'n hŷn yn Ngwynedd, yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, dim ond 65.8% o'r boblogaeth honno a gafodd eu geni yng Nghymru. Golyga hynny **fod oddeutu traean poblogaeth Gwynedd wedi eu geni y tu allan i Gymru**, ac o'r rhai hynny a anwyd y tu allan i Gymru mae 20.7% yn medru'r Gymraeg. **O ran y ddau draean arall a anwyd yng Nghymru, mae 87% o'r rheini yn medru'r Gymraeg.**

Yn debyg iawn i Wynedd, cafodd 65.7% o boblogaeth tair oed neu hŷn Ynys Môn eu geni yng Nghymru, ac mae 75.7% o'r bobl hynny yn gallu siarad Cymraeg. O'r rhai a anwyd y tu allan i Gymru, mae 17.4% yn medru'r iaith yn Ynys Môn. O boblogaeth dair oed neu hŷn Ceredigion, cafodd 53.4% eu geni yng Nghymru ac o'r bobl hynny mae 72% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg tra bod 14.6% o'r rhai a anwyd y tu allan i Gymru yn medru'r Gymraeg. **Mae'n arwyddocaol, wrth gwrs, fod canran uchel o boblogaeth yr awdurdodau lleol hyn, a ystyrir yn draddodiadol yn gadarnleoedd yr iaith, wedi eu geni y tu allan i Gymru.**

Mae mwy o boblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi eu geni yng Nghymru o gymharu â Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion. **Cafodd 73.1% o bobl tair oed neu hŷn Sir Gaerfyrddin eu geni yng Nghymru, ond o'r rheini dim ond 50.4% sy'n gallu siarad Cymraeg.**


Er mai ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful mae'r niferoedd isaf sy'n medru'r Gymraeg, dyma ddau o'r awdurdodau sydd â'r canrannau uchaf o'u poblogaeth tair oed neu hŷn wedi eu geni yng Nghymru. Ym Mlaenau Gwent, cafodd 87.6% o'r bobl yno eu geni yng Nghymru tra bo'r ffigwr yn 87% ym Merthyr Tudful. Ond mae'r ganran o'r bobl hyn sy'n siarad Cymraeg yn isel, yn 6.6% ym Mlaenau Gwent a 9.6% ym Merthyr Tudful.

Yn rhai o awdurdodau lleol y de-ddwyrain mae'r ganran uchaf o bobl sydd wedi eu geni yng Nghymru, ac yno hefyd mae'r ganran uchaf o bobl sy'n ystyried mai hunaniaeth genedlaethol Gymreig yn unig sydd ganddynt. Ond dyma hefyd lle mae'r niferoedd isaf o siaradwyr Cymraeg. Mae 70% o boblogaeth Merthyr Tudful a 68% o boblogaeth Blaenau Gwent yn ystyried eu hunain yn Gymreig yn unig, o'i gymharu â 59.3% yng Ngwynedd a 55.6% yn Ynys Môn.

Mae mudo i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn batrwm hirdymor cyfarwydd ac mae mudo rhyngwladol yn dod yn gynyddol gyffredin hefyd. **Mae cyfran lai o lawer o bobl a anwyd y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig yn siaradwyr Cymraeg**, dim ond 4.7% o blith y rheini a anwyd mewn gwlad arall yn Ewrop a 3.5% o'r rheini a anwyd y tu allan i Ewrop (cyfanswm o 8,709 o bobl) sy'n medru'r iaith.

10.2 Grŵp ethnig siaradwyr Cymraeg


Siart 41: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp ethnig



Mae 97% o siaradwyr Cymraeg yn wyn, 1.4% yn perthyn i grwpiau ethnig cymysg neu luosog, 1% yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu'n Asiaidd Cymreig, 0.3% yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd, a 0.3% yn perthyn i grwpiau ethnig eraill.

Ni ddefnyddiwyd yr un categorïau ar gyfer grwpiau ethnig yng Nghyfrifiad 2021 a 2011 sy'n rhwysr i gymharu'r ffigurau rhwng y ddau gyfrifiad, ond rydym yn gwybod bod cynnydd wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n perthyn i grwpiau ethnig ar wahân i rai gwyn ers 2011 – o bron i 11,000 i dros 16,000.


Siart 42: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp ethnig




Mae 18.4% o boblogaeth gwyn Cymru'n gallu siarad Cymraeg (522,261 o bobl) ac mae 16.4% o bobl sy'n perthyn i grwpiau ethnig cymysg neu luosog yn gallu siarad Cymraeg (7,405 o bobl). Y grŵp Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig sy'n dilyn wedyn â 6.4% yn gallu siarad Cymraeg (5,536 o bobl).

10.3 Ble mae siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn yn byw?

Siart 43: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn) a'r ganran o bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol




Siart 44: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn) a nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol



Mae siart 43 a 44 yn dangos ble mae siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn yn byw â'r canrannau uchaf yn y de-ddwyrain. Mae 12% o siaradwyr Cymraeg Caerdydd yn perthyn i grwpiau ethnig heb fod yn wyn, 13.8% o siaradwyr Casnewydd, a 4.9% o siaradwyr Bro Morgannwg.

Siart 45: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn), yn ôl awdurdod lleol, 2011–21



Yn yr un modd, **mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg sy'n perthyn i'r grwpiau ethnig hyn i'w canfod yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain** (â Gwynedd yn eithriad amlwg). Mae 5,132 yn byw yng Nghaerdydd, sy'n drawiadol uwch na gweddill yr awdurdodau lleol, â 1,598 yng Nghasnewydd a 1,217 yn Abertawe. Yng Ngwynedd, mae 1,049 o bobl o grwpiau ethnig heb fod yn wyn yn siarad Cymraeg.


O gasglu pob grŵp ethnig sydd ddim yn wyn ynghyd yn y modd hwn mae modd edrych ar batrymau ar draws yr awdurdodau lleol rhwng 2011 a 2021. Gwelwyd twf cymharol araf yn nifer y siaradwyr â'r cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd (2,042 yn fwy o bobl), Abertawe (399 yn fwy o bobl), a Chasnewydd (360 yn fwy o bobl).

10.4 Oed siaradwyr Cymraeg sy'n perthyn i grwpiau ethnig heb fod yn wyn

Fel sy'n wir yn achos y grŵp ethnig gwyn, **o edrych ar y grwpiau ethnig eraill, mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn y categori 5–15 oed nag sydd yn unrhyw gategori oedran arall**, ac mae hynny'n wir ym mhob grŵp ethnig. Mae 3.1% o siaradwyr Cymraeg 5–15 oed yn dod o gefndir ethnig cymysg neu luosog. Mae hynny'n gyfystyr â 4,225 o blant 5–15 oed. Mae 2.7% neu 3,587 o siaradwyr Cymraeg 5–15 oed yn dod o gefndir Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig.

Mae'r canrannau a'r niferoedd yn sylweddol is yn y categorïau oedran hŷn, ar ei isaf ceir 23 person dros 65 oed o gefndir Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd sy'n gallu siarad Cymraeg.

Siart 46: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn) yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran



Casgliadau'r Comisiynydd



Yng Ngwynedd, Môn a Cheredigion, mae canran uchel o'r rhai a anwyd yng Nghymru yn medru'r Gymraeg ac felly **er mwyn cynyddu niferoedd y siaradwyr yn y tri awdurdod lleol hyn, gall fod angen canolbwyntio ar y rhai sy'n symud i fyw i'r ardaloedd o tu draw i'r ffin, ochr yn ochr â chynnal y canrannau o siaradwyr sy'n cael eu geni yng Nghymru.**


Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol mewn rhannau eraill o'r wlad, yn Sir Gaerfyrddin ac yn nghymoedd y de-ddwyrain er enghraifft, lle mae canrannau uwch o lawer wedi eu geni yng Nghymru ac yn sgil hynny ganrannau uwch yn uniaethu â hunaniaeth Gymreig yn unig. Ond ar yr un pryd, mae llawer o'r rhai sydd wedi eu geni yng Nghymru yn yr ardaloedd hyn yn nodi nad ydyn nhw'n medru'r Gymraeg, ac nid yw'r hunaniaeth Gymreig ddofn sy'n perthyn i ardaloedd y de-ddwyrain yn benodol yn trosglwyddo i allu ieithyddol. Nid ymyraethau i annog cymhathu i gymunedau Cymraeg a Chymreig sydd eu hangen yma felly, wrth reswm, ond yn hytrach gyfleoedd i ddysgu ac ymfalchïo yn iaith swyddogol y wlad y mae nifer o'r bobl hyn wedi ei geni ynddi.

Canran isel iawn o siaradwyr Cymraeg sy'n dod o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn, ond ceir y canrannau uchaf yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain ac mae mwy o siaradwyr Cymraeg o grwpiau ethnig heb fod yn wyn yn y categori oedran 5–15 oed. Mae'n bwysig sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ar gael i bawb o bob cefndir ethnig a bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith sy'n perthyn i bawb.

11. Pa fath o swyddi sydd gan siaradwyr Cymraeg?

11.1 Galwedigaeth siaradwyr Cymraeg

Siart 47: Canran y bobl 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl galwedigaeth



(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 30: Nifer a chanran y bobl 16 oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl galwedigaeth


Galwedigaeth	Nifer	Gallu siarad Cymraeg	
		Nifer	Canran
Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	143,938	21,228	14.7
Galwedigaethau proffesiynol	249,466	52,283	21.0
Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	161,273	30,248	18.8
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	128,116	19,979	15.6
Galwedigaethau crefftau medrus	166,613	31,761	19.1
Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill	153,029	27,582	18.0
Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	114,559	16,708	14.6
Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau	107,475	12,723	11.8
Galwedigaethau elfennol	143,982	18,884	13.1
Di-waith	1,190,965	160,280	13.5

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)


Mae 59% o siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn mewn gwaith heddiw, a hynny'n gyfystyr â 231,400 o bobl. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys pobl wedi ymddeol na myfyrwyr oni bai eu bod wedi nodi eu bod yn gweithio. **O edrych ar y boblogaeth gyfan sydd mewn gwaith, bu cynnydd yn nifer a chanran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg** ers 2011 ac erbyn hyn mae 16.9% yn medru'r iaith. Mae hynny'n cyd-fynd â'r cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr 25–44 oed dros yr un cyfnod.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn categorïddio swyddi yn ddibynnol ar y lefel o gymhwyster, hyfforddiant a phrofiad sydd ei angen ar gyfer gwneud swydd. **Mewn galwedigaethau proffesiynol y ceir y gyfran uchaf o'r gweithlu sy'n gallu siarad Cymraeg (21%)**, dyma swyddi ar lefel lle mae gofyn am radd prifysgol neu gymhwyster cyfatebol fel arfer. Mae 19.1% o'r rhai sy'n gweithio mewn galwedigaethau crefftau medrus yn gallu siarad Cymraeg, swyddi lle mae rhywun fel arfer wedi hyfforddi am gyfnod wrth eu gwaith. Ac mae 18.8% o'r rhai sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig yn medru'r Gymraeg, dyma swyddi lle mae gofyn am gymhwyster galwedigaethol o lefel uchel a chyfnod o hyfforddiant fel arfer.


Siart 48: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, yn ôl galwedigaeth



Siart 49: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru, yn ôl galwedigaeth




Siart 50: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yng nghanol de Cymru, yn ôl galwedigaeth



Siart 51: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yng ne-ddwyrain Cymru yn ôl galwedigaeth

Galwedigaeth




O edrych ar alwedigaethau ar lefel awdurdod lleol a gan ystyried siaradwyr Cymraeg sydd mewn gwaith yn unig, mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol yn sylweddol uwch nag unrhyw alwedigaeth arall yn awdurdodau lleol y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain. **Yn awdurdodau lleol y gorllewin a'r canolbarth, mae'r canrannau o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol yn dal i fod yn uwch na'r rhan fwyaf o alwedigaethau eraill, ond mae canran yr un mor uchel yn gweithio mewn galwedigaeth crefftau medrus.** Yn wir, mae ychydig mwy yn gweithio yn y crefftau medrus yn awdurdodau lleol gwledig Powys, Ceredigion a Sir Benfro nag sydd mewn galwedigaethau proffesiynol.

Ar y llaw arall, **yn y brifddinas y mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol.** Mae 38.6% o siaradwyr Cymraeg Caerdydd sydd mewn gwaith yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol, tra bod 19.7% yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig. Mae'r 38.6% hwn yn y galwedigaethau proffesiynol dros ddwbl y ganran a geir yng Ngwynedd ac Ynys Môn, er enghraifft, ac **yng Nghaerdydd mae'r nifer uchaf o siaradwyr yn y galwedigaethau proffesiynol hefyd (7,038).**

Mae newid i'w weld yng nghanran a nifer y siaradwyr mewn gwahanol alwedigaethau rhwng 2011 a 2021. Cafwyd cynnydd ymhob awdurdod lleol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn gwaith sy'n gweithio yn y galwedigaethau proffesiynol, y galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig, a'r rheini sy'n gweithio fel rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion. Ac mae'r cynnydd mwyaf yn y categorïau hyn i'w weld, ar y cyfan, yn y de-ddwyrain.

Cafwyd cynnydd hefyd ym mhob awdurdod lleol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y galwedigaethau proffesiynol a'r galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig. Gostwng wnaeth nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn crefftau medrus yn awdurdodau lleol y gogledd, y canolbarth a'r de-orllewin, tra bu cynnydd bychan yn awdurdodau lleol y de-ddwyrain.


Siart 52: Newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2011 a 2021, yn ôl galwedigaeth, fesul awdurdod lleol (newid pwynt canrannol)

Galwedigaethau elfennol

Siart 53: Newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2011 a 2021, yn ôl galwedigaeth, fesul awdurdod lleol

Galwedigaeth


- Galwedigaethau proffesiynol
- Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig
- Galwedigaethau crefftau medrus
- Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill




(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

11.2 Diwydiant


Siart 54: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn ôl diwydiant




Siart 55: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru yn ôl diwydiant



Siart 56: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yng nghanol de Cymru yn ôl diwydiant



Siart 57: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, fesul awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru yn ôl diwydiant




Mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn gweithio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, ac mae hynny'n wir hefyd ym mhob awdurdod lleol. Mae tua hanner y siaradwyr Cymraeg sydd mewn gwaith ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful ac Abertawe yn gweithio yn un o'r meysydd hyn, er enghraifft. Ceir y niferoedd uchaf yn gweithio yn y diwydiannau hyn, ar y llaw arall, yng Ngwynedd (13,874) a Sir Gaerfyrddin (13,661).

Wrth edrych ar y diwydiannau eu hunain yn hytrach na dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg, **ceir mai yn y diwydiant amaethyddiaeth, egni a dŵr y mae'r ganran uchaf o weithwyr sy'n siarad Cymraeg** â 30% o'r gweithlu yn gallu siarad Cymraeg. Mae canran y gweithlu sy'n siarad Cymraeg yn y sector hwn mor uchel ag 84% yng Ngwynedd, 73.4% yn Ynys Môn, a 70.8% yng Ngheredigion.

Yn ail mae'r gweithlu addysg lle mae 27.3% yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran isaf i'w chael yn y maes gweithgynhyrchu, lle mae 10.4% o'r gweithlu yn gallu siarad Cymraeg. Ond er bod y ganran yn isel yn genedlaethol, mae dros hanner y gweithlu gweithgynhyrchu yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Siart 58: Nifer y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a diwydiant



Casgliadau'r Comisiynydd



Mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol. Gellir tybio mai dyma'r math o swyddi sydd i'w cael mewn sefydliadau sydd dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac felly mae cyfle i fanteisio ar sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg yn y mathau hyn o swyddi.

Mae'n arwyddocaol hefyd bod y gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn gweithio ym maes iechyd ac addysg ac **mae angen sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio eu sgiliau iaith yn y meysydd hyn gan fod galw am fwy o athrawon a gweithwyr iechyd sy'n medru'r Gymraeg.**

Wrth ymdrin â sectorau penodol, mae'n bwysig cofio bod canran uchel o weithwyr amaethyddiaeth, egni a dŵr a gweithwyr ym myd addysg yn siarad Cymraeg. **Rhaid felly pwysleisio gwerth adnoddau neu wasanaethau Cymraeg ar gyfer y sectorau hynny a sicrhau eu bod ar gael yn hwylus ac yn rhagweithiol.**

Nid yw'r ffaith bod llai o siaradwyr Cymraeg yn gweithio mewn sectorau neu feysydd penodol eraill yn golygu y dylid diystyru sgiliau iaith y bobl hynny chwaith. **Mae'n bwysig edrych ar bob awdurdod lleol yn unigol er mwyn canfod ble mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio ac annog pob un i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle.** Er mai yn y sector gweithgynhyrchu mae'r ganran isaf o siaradwyr yn genedlaethol, mae'r ganran yn uchel yng Ngwynedd a Môn er enghraifft, a dylid cadw hynny mewn cof wrth ddarparu ar gyfer y sector yn yr ardaloedd hynny yn benodol.

ATODIAD

Tablau ychwanegol

Tabl 3: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol

Cyfrifiad	Cyfanswm preswylwyr arferol 3 blwydd oed a throsodd	Gallu siarad Cymraeg	
		Nifer	Canran
Ynys Môn	67,085	37,413	55.8
Gwynedd	114,307	73,560	64.3
Conwy	111,805	29,000	25.9
Sir Ddinbych	93,059	20,946	22.5
Sir y Fflint	150,556	17,428	11.6
Wreccsam	131,080	15,953	12.2
Powys	129,907	21,358	16.4
Ceredigion	69,917	31,678	45.3
Sir Benfro	120,203	20,626	17.2
Sir Gaerfyrddin	182,718	72,838	39.9
Abertawe	231,888	25,986	11.2
Castell-nedd Port Talbot	138,322	18,662	13.5
Pen-y-bont ar Ogwr	141,306	13,037	9.2
Bro Morgannwg	128,088	14,737	11.5
Caerdydd	351,244	42,757	12.2
Rhondda Cynon Taf	230,325	28,556	12.4
Merthyr Tudful	56,957	5,079	8.9
Caerffili	170,683	17,837	10.4
Blaenau Gwent	64,793	4,035	6.2
Torfaen	89,367	7,366	8.2
Sir Fynwy	90,690	7,852	8.7
Casnewydd	153,872	11,594	7.5

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 5: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 1981–2021

Awdurdod lleol	Newid pwynt canran				1981–2021
	1981–1991	1991–2001	2001–2011	2011–2021	
Ynys Môn	1.0	-1.9	-2.9	-1.4	-5.2
Gwynedd	-1.7	-3.1	-3.6	-1.0	-9.4
Conwy	-1.0	-1.2	-2.0	-1.5	-5.7
Sir Ddinbych	-1.3	-0.5	-1.8	-2.1	-5.7
Sir y Fflint	0.8	0.9	-1.2	-1.6	-1.1
Wreccsam	-0.9	0.8	-1.7	-0.7	-2.5
Powys	0.0	0.4	-2.5	-2.2	-4.3
Ceredigion	-4.1	-7.1	-4.7	-2.0	-17.9
Sir Benfro	0.3	3.5	-2.6	-2.0	-0.8
Sir Gaerfyrddin	-4.2	-4.5	-6.4	-4.0	-19.1
Abertawe	-1.4	0.1	-2.0	-0.2	-3.5
Castell-nedd Port Talbot	-1.2	0.1	-2.7	-1.8	-5.6
Pen-y-bont ar Ogwr	0.1	2.5	-1.1	-0.5	1.0
Bro Morgannwg	0.9	4.5	-0.5	0.7	5.6
Caerdydd	0.7	4.4	0.1	1.1	6.3
Rhondda Cynon Taf	-0.1	3.5	-0.2	0.1	3.3
Merthyr Tudful	-0.9	2.7	-1.3	0.0	0.5
Caerffili	0.7	5.2	0.0	-0.8	5.1
Blaenau Gwent	0.0	7.3	-1.7	-1.6	4.0
Torfaen	-0.1	8.7	-1.3	-1.6	5.7
Sir Fynwy	-0.6	7.1	0.6	-1.2	5.9
Casnewydd	-0.1	8.7	-0.7	-1.8	5.1

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 6: Newid yn nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol (newid personau), 1981–2021

Awdurdod lleol	Newid personau				1981–2021
	1981–1991	1991–2001	2001–2011	2011–2021	
Ynys Môn	1,918	-2,353	-325	-1,155	-1,915
Gwynedd	170	-873	-846	-3,440	-4,989
Conwy	888	-150	-698	-1,600	-1,560
Sir Ddinbych	-396	890	-1,524	-1,290	-2,320
Sir y Fflint	1,739	2,196	-1,256	-1,915	764
Wreccsam	-466	1,745	-1,446	-706	-873
Powys	1,297	2,044	-1,824	-2,632	-1,115
Ceredigion	863	1,898	-2,954	-3,286	-3,479
Sir Benfro	875	4,238	-1,181	-2,160	1,772
Sir Gaerfyrddin	-4,056	-5,010	-6,148	-5,210	-20,424
Abertawe	-3,496	348	-2,606	-346	-6,100
Castell-nedd Port Talbot	-2,208	-358	-2,706	-2,036	-7,308
Pen-y-bont ar Ogwr	209	3,115	-294	-66	2,964
Bro Morgannwg	1,264	5,320	195	1,548	8,327
Caerdydd	2,358	14,433	4,231	6,022	27,044
Rhondda Cynon Taf	-671	7,911	-167	777	7,850
Merthyr Tudful	-669	1,307	-504	51	185
Caerffili	1,196	8,504	1,014	-1,414	9,300
Blaenau Gwent	-86	4,878	-1,133	-1,249	2,410
Torfaen	-50	7,661	-1,139	-1,275	5,197
Sir Fynwy	-371	6,022	1,092	-928	5,815
Casnewydd	-161	10,258	-133	-1,408	8,556

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 9: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl grŵp oedran, 1981–2021

Grŵp oedran	Gallu siarad Cymraeg									
	Nifer					Canran				
	1981	1991	2001	2011	2021	1981	1991	2001	2011	2021
3–4	8,326	12,160	13,239	16,495	11,947	13.3	16.2	18.8	23.3	18.2
5–15	82,713	101,076	171,168	152,255	134,673	18.3	25.9	40.8	40.3	34.3
16–24	55,353	59,539	70,060	80,909	73,738	15.0	17.1	22.2	21.6	22.4
25–44	109,800	113,265	116,715	113,484	118,848	15.6	14.5	15.1	15.0	16.0
45–64	131,414	111,165	112,742	107,941	107,345	20.7	17.4	15.6	13.3	13.0
65+	115,926	110,893	98,444	90,932	91,745	27.4	22.6	19.5	16.2	13.9

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 12: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran

Awdurdod lleol	Gallu siarad Cymraeg					
	Canran					
	3–4	5–15	16–24	25–44	45–64	65+
Ynys Môn	53.3	75.6	68.9	60.5	49.2	45.8
Gwynedd	71.0	88.6	60.2	68.2	60.2	54.7
Conwy	23.2	43.8	36.7	27.2	21.1	19.4
Sir Ddinbych	23.2	37.3	28.5	21.6	18.1	18.4
Sir y Fflint	10.7	27.4	17.2	9.8	7.8	6.7
Wrecsam	11.6	27.6	17.4	10.2	6.9	9.1
Powys	17.5	35.5	24.0	15.4	12.0	11.8
Ceredigion	52.2	74.9	37.9	48.3	40.6	39.9
Sir Benfro	18.0	34.0	24.2	15.6	12.2	13.3
Sir Gaerfyrddin	38.3	57.9	45.6	36.0	32.9	40.1
Abertawe	11.0	25.8	13.7	8.6	6.6	9.8
Castell-nedd Port Talbot	13.6	25.8	17.2	12.2	8.9	11.6
Pen-y-bont ar Ogwr	9.0	20.4	14.6	9.4	5.5	4.7
Bro Morgannwg	15.1	29.2	18.1	10.5	6.6	4.9
Caerdydd	13.4	28.4	13.9	10.6	7.5	5.8
Rhondda Cynon Taf	15.9	27.0	20.4	13.9	6.3	4.2
Merthyr Tudful	8.8	21.7	15.5	9.1	4.0	3.2
Caerffili	13.0	28.5	18.8	10.1	4.6	2.6
Blaenau Gwent	6.0	20.4	14.0	5.3	2.0	1.2
Torfaen	9.8	28.2	16.1	6.1	2.5	1.8
Sir Fynwy	11.6	33.1	17.9	5.5	3.6	2.9
Casnewydd	7.1	25.2	13.9	4.6	2.4	1.7

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 13: Nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran

Awdurdod lleol	Gallu siarad Cymraeg					
	Nifer					
	3–4	5–15	16–24	25–44	45–64	65+
Ynys Môn	757	6,445	3,976	8,428	9,468	8,340
Gwynedd	1,605	12,474	8,588	17,002	18,975	14,918
Conwy	485	5,848	3,416	6,330	6,836	6,085
Sir Ddinbych	467	4,527	2,430	4,334	4,820	4,368
Sir y Fflint	344	5,414	2,386	3,638	3,411	2,235
Wrecsam	344	4,928	2,210	3,424	2,551	2,497
Powys	430	5,288	2,585	4,015	4,645	4,397
Ceredigion	598	5,525	3,977	6,541	7,694	7,343
Sir Benfro	438	5,179	2,543	3,977	4,179	4,310
Sir Gaerfyrddin	1,486	13,518	7,586	14,881	17,124	18,243
Abertawe	530	7,527	4,246	4,930	3,986	4,768
Castell-nedd Port Talbot	417	4,653	2,548	4,173	3,372	3,499
Pen-y-bont ar Ogwr	284	3,798	1,961	3,404	2,180	1,410
Bro Morgannwg	451	5,143	2,088	3,305	2,341	1,407
Caerdydd	1,076	13,332	8,373	10,937	6,018	3,022
Rhondda Cynon Taf	826	8,430	5,094	8,272	3,967	1,967
Merthyr Tudful	125	1,705	885	1,384	624	356
Caerffili	513	6,616	3,128	4,453	2,201	929
Blaenau Gwent	86	1,676	860	883	366	164
Torfaen	207	3,433	1,367	1,411	611	336
Sir Fynwy	196	3,559	1,339	1,063	1,000	693
Casnewydd	284	5,655	2,157	2,063	978	457

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 14: Newid yng nghanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp oedran ac awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 2011–21

Awdurdod lleol	Gallu siarad Cymraeg					
	Newid pwynt canran					
	3–4	5–15	16–24	25–44	45–64	65+
Ynys Môn	-0.8	-4.5	1.7	2.1	-0.7	-3.7
Gwynedd	-2.0	-3.7	1.6	-0.3	0.8	-3.3
Conwy	-8.5	-5.4	3.2	-0.1	0.4	-2.8
Sir Ddinbych	-4.4	-8.6	2.2	-0.6	-0.4	-3.0
Sir y Fflint	-3.7	-8.6	0.5	-0.3	0.5	-1.3
Wrecsam	-3.8	-3.4	2.0	1.7	-1.1	-2.6
Powys	-7.6	-6.8	-1.4	1.4	-0.2	-3.0
Ceredigion	-6.1	-7.1	2.6	1.0	-1.7	-6.5
Sir Benfro	-4.0	-9.6	-0.1	1.8	-1.2	-2.2
Sir Gaerfyrddin	-7.2	-2.1	-0.6	-0.8	-5.2	-8.7
Abertawe	-3.6	-0.2	2.7	1.3	-0.9	-3.1
Castell-nedd Port Talbot	-4.3	-7.1	-1.3	1.5	-1.2	-4.1
Pen-y-bont ar Ogwr	-6.3	-6.7	-0.2	1.8	1.2	-0.5
Bro Morgannwg	-1.6	-2.8	2.5	2.7	1.5	0.0
Caerdydd	-1.7	-0.8	1.5	1.3	1.7	0.8
Rhondda Cynon Taf	-4.4	-5.7	0.9	3.2	1.5	-0.6
Merthyr Tudful	-4.8	-2.8	1.0	2.2	0.5	-1.0
Caerffili	-7.7	-7.8	1.1	1.9	1.2	0.1
Blaenau Gwent	-7.5	-13.6	1.5	1.8	0.1	-0.1
Torfaen	-7.4	-12.1	0.3	1.7	0.3	-0.2
Sir Fynwy	-6.6	-8.9	2.6	1.5	0.3	0.2
Casnewydd	-6.9	-13.4	1.0	1.1	0.2	0.0

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 15: Nifer a chanran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, 2001–21

	2001			2011		2021	
Cyfansoddiad yr aelwyd		Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cartrefi un rhiant	Dim oedolion yn medru siarad Cymraeg	1358	9.8	2012	14.4	1,060	7.2
	Un oedolyn yn medru siarad Cymraeg	1,134	55.1	1,220	53.3	1,240	52.2
	Dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg	12	70.6	16	61.5	20	50
	Cyfanswm	2504	15.7	3,248	19.9	2,320	13.5
Cartref cwpl	Dim oedolion yn medru siarad Cymraeg	3,244	8.6	4,775	13.2	2,335	7.3
	Un oedolyn yn medru siarad Cymraeg	2,822	39.8	3,668	45.4	2,860	40.4
	Dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg	3,890	81.8	3,707	82.2	3,615	80.7
	Cyfanswm	9,956	20	12,150	24.8	8,810	20.3
Pob aelwyd un teulu	Cyfanswm	12,460	19	15,398	23.6	11,130	18.4

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 16: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n medru siarad Cymraeg yn awdurdodau lleol Cymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd

Awdurdod lleol	Cartref un rhiant		Cartref cwpl		
	Dim oedolion yn medru siarad Cymraeg	Un oedolyn yn medru siarad Cymraeg	Dim oedolion yn medru siarad Cymraeg	Un oedolyn yn medru siarad Cymraeg	Dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg
Ynys Môn	11.1	65.9	16.7	42.9	81.2
Gwynedd	31.0	77.0	28.6	60.0	88.7
Conwy	8.8	40.9	8.6	32.4	71.4
Sir Ddinbych	11.2	45.0	9.3	40.7	82.5
Sir y Fflint	5.1	37.5	6.1	23.9	76.5
Wrecsam	7.8	43.8	5.1	35.7	68.8
Powys	9.3	50.0	7.6	31.2	75.0
Ceredigion	27.3	77.8	19.6	49.1	83.6
Sir Benfro	7.2	50.0	8.1	40.0	66.7
Sir Gaerfyrddin	15.1	52.6	14.7	52.0	82.6
Abertawe	5.8	50.0	6.5	43.1	68.4
Castell-nedd Port Talbot	6.3	38.9	7.5	37.3	66.7
Pen-y-bont ar Ogwr	4.8	50.0	4.5	27.4	61.5
Bro Morgannwg	7.1	46.2	8.6	40.9	80.0
Caerdydd	5.2	45.8	6.7	48.3	88.9
Rhondda Cynon Taf	7.7	47.2	6.4	43.2	74.3
Merthyr Tudful	-	33.3	5.2	33.3	-
Caerffili	7.6	30.4	7.6	37.2	71.4
Blaenau Gwent	5.7	-	3.8	18.8	-
Torfaen	6.1	45.5	7.3	28.0	60.0
Sir Fynwy	7.3	-	8.1	33.3	80.0
Casnewydd	3.6	22.2	5.9	28.6	62.5

Tabl 17: Newid yng nghanran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu, cartrefi cwpl, sy'n medru siarad Cymraeg, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, fesul awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 2001–21

Awdurdod lleol	Cartref cwpl								
	Dim oedolion yn medru siarad Cymraeg			Un oedolyn yn medru siarad Cymraeg			Dau neu fwy o oedolion yn medru siarad Cymraeg		
	2001–11	2011–21	2001–21	2001–11	2011–21	2001–21	2001–11	2011–21	2001–21
Ynys Môn	5.1	-3.9	1.2	-1.6	-4.6	-6.2	1.2	1.1	2.3
Gwynedd	0.8	-4.7	-3.8	7.7	-3.4	4.3	0.3	-1.3	-1.0
Conwy	9.4	-10.0	-0.6	1.8	-4.2	-2.4	-1.1	-2.5	-3.7
Sir Ddinbych	7.2	-4.3	2.8	11.4	-0.2	11.2	2.0	0.1	2.1
Sir y Fflint	4.2	-4.6	-0.4	2.7	-4.9	-2.1	2.5	17.4	19.8
Wrecsam	2.9	-5.0	-2.0	14.6	-4.7	9.9	10.6	-11.3	-0.7
Powys	6.9	-8.2	-1.4	5.5	-13.8	-8.3	10.1	-3.8	6.3
Ceredigion	2.5	-8.9	-6.4	5.7	-9.9	-4.2	-4.5	0.3	-4.2
Sir Benfro	2.0	-6.2	-4.2	5.9	0.5	6.4	5.6	-10.0	-4.5
Sir Gaerfyrddin	9.3	-10.4	-1.1	9.1	-5.0	4.1	0.1	-2.3	-2.1
Abertawe	3.1	-3.6	-0.6	7.1	-4.7	2.5	3.0	-7.1	-4.0
Castell-nedd Port Talbot	4.5	-4.2	0.3	-5.6	-5.1	-10.6	-10.7	-5.1	-15.9
Pen-y-bont ar Ogwr	3.5	-5.6	-2.1	5.5	-8.9	-3.4	-1.5	-9.4	-11.0
Bro Morgannwg	2.8	-1.5	1.3	10.0	-3.1	6.9	5.7	-7.3	-1.6
Caerdydd	2.6	-2.1	0.5	8.4	-0.7	7.7	1.1	4.5	5.6
Rhondda Cynon Taf	3.5	-7.3	-3.7	-1.7	-2.5	-4.2	-2.9	7.1	4.2
Merthyr Tudful	2.4	-5.5	-3.0	-5.2	-3.0	-8.1	7.0	-	-
Caerffili	8.1	-9.6	-1.5	10.2	-7.4	2.8	7.3	-1.4	5.9
Blaenau Gwent	5.9	-9.2	-3.3	11.0	-11.5	-0.5	-	-	-
Torfaen	6.3	-8.9	-2.6	4.0	-6.2	-2.2	1.7	-6.7	-5.0
Sir Fynwy	10.4	-7.8	2.6	21.5	-10.7	10.7	-6.2	33.3	27.1
Casnewydd	3.7	-6.6	-2.9	18.9	-9.4	9.5	29.5	-14.4	15.1

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 18: Newid yng nghanran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu, cartrefi un rhiant, sy'n medru siarad Cymraeg, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, feul awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 2001–21

Awdurdod lleol	Cartrefi un rhiant					
	Dim oedolion yn medru siarad Cymraeg			Un oedolyn yn medru siarad Cymraeg		
	2001–11	2011–21	2001–21	2001–11	2011–21	2001–21
Ynys Môn	0.2	-14.3	-14.1	-9.0	5.1	-3.9
Gwynedd	-3.3	-6.6	-10.0	8.1	-4.5	3.6
Conwy	8.9	-12.8	-3.8	-2.9	-5.3	-8.2
Sir Ddinbych	10.3	-8.9	1.5	1.3	-3.1	-1.8
Sir y Fflint	2.5	-5.1	-2.6	5.3	12.5	17.8
Wrecsam	4.2	-1.5	2.6	15.4	0.1	15.5
Powys	11.4	-10.8	0.6	-11.4	10.3	-1.1
Ceredigion	16.8	-23.7	-6.9	-2.7	14.3	11.5
Sir Benfro	6.7	-10.6	-4.0	1.7	1.3	3.0
Sir Gaerfyrddin	7.7	-9.2	-1.5	-4.6	-3.4	-8.1
Abertawe	3.3	-3.4	-0.2	8.0	-4.7	3.3
Castell-nedd Port Talbot	-0.6	-4.3	-4.9	-4.2	-12.7	-16.9
Pen-y-bont ar Ogwr	9.0	-10.2	-1.3	-4.1	-1.7	-5.8
Bro Morgannwg	6.3	-8.2	-1.8	2.3	7.4	9.6
Caerdydd	5.4	-6.4	-1.0	-3.5	7.7	4.2
Rhondda Cynon Taf	0.7	-6.2	-5.6	-11.5	-0.6	-12.0
Merthyr Tudful	2.6	-	-	-5.0	13.3	8.3
Caerffili	2.9	-6.7	-3.8	-11.3	-5.2	-16.5
Blaenau Gwent	0.2	-5.2	-5.1	2.0	-	-
Torfaen	6.5	-8.5	-2.0	-5.0	2.1	-2.8
Sir Fynwy	6.8	-7.2	-0.4	27.1	-	-
Casnewydd	4.9	-9.8	-4.9	-7.5	-12.6	-20.1

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 19: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl sgîl penodol

Sgîl	Nifer	Canran
Yn medru deall Cymraeg llafar yn unig	156,762	5.2
Yn medru siarad Cymraeg ond heb fedru darllen nac ysgrifennu Cymraeg	68,391	2.3
Yn medru siarad a darllen Cymraeg ond heb fedru ysgrifennu Cymraeg	33,971	1.1
Yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	429,313	14.2
Cyfuniad arall o sgiliau yn y Gymraeg	70,718	2.3
Dim sgiliau	2,259,017	74.9
Cyfanswm	3,018,172	100.0

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 20: Cymhariaeth o nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg dair oed neu'n hŷn sy'n medru darllen neu ysgrifennu Cymraeg yng Nghymru, 1981–2021

Nifer					Canran				
1981	1991	2001	2011	2021	1981	1991	2001	2011	2021
358,995	369,609	457,946	430,717	429,313	70.6	72.7	78.6	76.6	79.8

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 22: Newid yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg dair oed neu'n hŷn sy'n medru darllen ac ysgrifennu Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol (newid pwynt canrannol), 2011–21

Awdurdod lleol	Canran sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu			Nifer sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg		
	2011	2021	Newid pwynt canran 2011–21	2011	2021	Newid personau 2011–21
Ynys Môn	79.7	81.0	1.3	30,756	30,316	-440
Gwynedd	85.6	86.0	0.4	65,921	63,256	-2,665
Conwy	75.4	77.9	2.5	23,063	22,605	-458
Sir Ddinbych	75.7	78.6	2.9	16,842	16,459	-383
Sir y Fflint	70.6	74.1	3.5	13,650	12,920	-730
Wrecsam	71.2	75.0	3.8	11,867	11,957	90
Powys	73.9	76.1	2.2	17,724	16,256	-1,468
Ceredigion	81.9	82.4	0.5	28,629	26,104	-2,525
Sir Benfro	72.3	75.7	3.4	16,466	15,617	-849
Sir Gaerfyrddin	74.7	77.6	2.9	58,321	56,493	-1,828
Abertawe	70.8	76.8	6.0	18,634	19,951	1,317
Castell-nedd Port Talbot	70.7	75.5	4.8	14,634	14,095	-539
Pen-y-bont ar Ogwr	74.5	78.1	3.6	9,758	10,177	419
Bro Morgannwg	75.9	81.1	5.2	10,013	11,946	1,933
Caerdydd	78.8	83.2	4.4	28,932	35,578	6,646
Rhondda Cynon Taf	78.4	81.8	3.4	21,774	23,345	1,571
Merthyr Tudful	73.7	79.8	6.1	3,706	4,052	346
Caerffili	75.4	81.3	5.9	14,524	14,502	-22
Blaenau Gwent	70.5	75.5	5.0	3,723	3,048	-675
Torfaen	72.3	78.5	6.2	6,250	5,783	-467
Sir Fynwy	72.6	78.1	5.5	6,373	6,133	-240
Casnewydd	70.4	75.2	4.8	9,157	8,717	-440

Tabl 25: Nifer a chanran y bobl dair oed neu’n hŷn sy’n medru siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp ethnig

Grŵp Ethnig	Cyfanswm preswylwyr arferol 3 blwydd oed a throsodd	Gallu siarad Cymraeg	
		Nifer	Canran
Gwyn	2,835,561	522,261	18.4
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	86,049	5,536	6.4
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	26,282	1,596	6.1
Grwpiau ethnig cymysg neu luosog	45,018	7,405	16.4
Grŵp ethnig arall	25,260	1,498	5.9

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 26: Nifer a chanran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg a'r bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn) yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer y siaradwyr Cymraeg	Canran y siaradwyr Cymraeg	Nifer y siaradwyr Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn)	Canran y siaradwyr Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn)
Ynys Môn	37,413	55.8	426	1.1
Gwynedd	73,560	64.4	1,049	1.4
Conwy	29,000	25.9	453	1.6
Sir Ddinbych	20,946	22.5	316	1.5
Sir y Fflint	17,428	11.6	334	1.9
Wrecsam	15,953	12.2	424	2.7
Powys	21,358	16.4	273	1.3
Ceredigion	31,678	45.3	492	1.6
Sir Benfro	20,626	17.2	346	1.7
Sir Gaerfyrddin	72,838	39.9	847	1.2
Abertawe	25,986	11.2	1,217	4.7
Castell-nedd Port Talbot	18,662	13.5	360	1.9
Pen-y-bont ar Ogwr	13,037	9.2	357	2.7
Bro Morgannwg	14,737	11.5	726	4.9
Caerdydd	42,757	12.2	5,132	12.0
Rhondda Cynon Taf	28,556	12.4	658	2.3
Merthyr Tudful	5,079	8.9	116	2.3
Caerffili	17,837	10.4	372	2.1
Blaenau Gwent	4,035	6.2	97	2.4
Torfaen	7,366	8.2	202	2.7
Sir Fynwy	7852	8.7	234	3.0
Casnewydd	11594	7.5	1,598	13.8

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 27: Newid yn nifer y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n medru siarad Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn), yn ôl awdurdod lleol, 2011–21

Awdurdod lleol	Nifer y siaradwyr Cymraeg 2021	Nifer y siaradwyr Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn) 2011	Nifer y siaradwyr Cymraeg o grwpiau ethnig (ac eithrio'r grŵp ethnig gwyn) 2021	Newid nifer
Ynys Môn	37,413	329	426	+97
Gwynedd	73,560	868	1,049	+181
Conwy	29,000	362	453	+91
Sir Ddinbych	20,946	256	316	+60
Sir y Fflint	17,428	184	334	+150
Wrecsam	15,953	250	424	+174
Powys	21,358	237	273	+36
Ceredigion	31,678	435	492	+57
Sir Benfro	20,626	259	346	+87
Sir Gaerfyrddin	72,838	554	847	+293
Abertawe	25,986	818	1,217	+399
Castell-nedd Port Talbot	18,662	249	360	+111
Pen-y-bont ar Ogwr	13,037	268	357	+89
Bro Morgannwg	14,737	391	726	+335
Caerdydd	42,757	3,090	5,132	+2,042
Rhondda Cynon Taf	28,556	398	658	+260
Merthyr Tudful	5,079	95	116	+21
Caerffili	17,837	254	372	+118
Blaenau Gwent	4,035	68	97	+29
Torfaen	7366	204	202	-2
Sir Fynwy	7852	162	234	+72
Casnewydd	11594	1,238	1,598	+360

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 28: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp ethnig a grŵp oedran

Grŵp ethnig	Canran fesul grŵp oedran								
	3–4	5–9	10–15	16–24	25–34	35–49	50–64	65–74	75+
Gwyn	95.8	93.0	92.6	96.0	98.3	98.8	99.4	99.6	99.8
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	0.9	2.3	3.0	1.6	0.4	0.3	0.1	0.1	0.0
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	0.4	0.8	0.8	0.4	0.1	0.1	0.1	0.0	0.0
Grwpiau ethnig cymysg neu luosog	2.8	3.4	3.0	1.7	1.0	0.6	0.3	0.2	0.2
Grŵp ethnig arall	0.2	0.6	0.7	0.4	0.2	0.2	0.1	0.1	0.0

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 29: Nifer y bobl dair oed neu’n hŷn sy’n medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, yn ôl grŵp ethnig a grŵp oedran

Grŵp ethnig	Nifer fesul grŵp oedran								
	3–4	5–9	10–15	16–24	25–34	35–49	50–64	65–74	75+
Gwyn	11,438	51,484	73,500	70,753	63,136	80,415	80,075	45,726	45,732
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	106	1,244	2,343	1,157	273	254	94	44	20
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd	42	415	597	301	82	76	59	14	9
Grwpiau ethnig cymysg neu luosog	331	1,856	2,369	1,266	669	483	276	85	68
Grŵp ethnig arall	29	329	536	261	94	127	80	32	11

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 31: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, yn ôl galwedigaeth, fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Galwedigaethau								
	Proffesiynol	Proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	Crefftau medrus	Gweinyddol ac ysgrifenyddol	Gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	Elfennol	Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau	Gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill
Ynys Môn	17.1	10.9	16.5	8.4	7.8	9.6	8.8	6.9	13.9
Gwynedd	17.5	10.2	17.2	7.9	7.3	10.6	8.6	7.0	13.7
Conwy	20.1	13.0	16.4	8.1	7.0	8.1	9.8	5.1	12.3
Sir Ddinbych	22.4	12.5	15.1	8.3	6.0	7.7	10.1	6.4	11.4
Sir y Fflint	24.5	14.1	9.9	9.0	7.5	7.3	9.7	5.7	12.3
Wrecsam	23.8	13.7	10.5	9.4	7.4	8.4	7.9	6.4	12.5
Powys	19.9	11.3	20.5	7.7	5.6	8.5	9.6	5.5	11.4
Ceredigion	17.9	10.8	21.7	8.9	6.3	8.7	9.9	5.4	10.5
Sir Benfro	19.2	9.9	20.2	7.4	6.1	9.0	10.2	5.7	12.3
Sir Gaerfyrddin	20.0	11.5	16.7	8.7	7.1	7.9	9.1	6.7	12.2
Abertawe	28.9	14.1	7.5	10.7	8.6	7.7	8.8	3.6	10.1
Castell-nedd Port Talbot	21.2	13.9	10.8	11.1	7.8	7.2	8.4	6.5	13.0
Pen-y-bont ar Ogwr	27.0	15.1	8.1	9.5	7.5	7.0	9.8	4.1	12.0
Bro Morgannwg	29.9	19.1	5.2	8.4	6.5	5.7	11.8	3.1	10.4
Caerdydd	38.6	19.7	3.9	8.3	6.9	4.7	9.8	1.6	6.6
Rhondda Cynon Taf	24.9	15.2	9.5	9.1	8.1	7.1	8.0	5.1	12.9
Merthyr Tudful	23.3	16.2	8.3	8.9	9.4	8.0	7.5	4.5	13.9
Caerffili	25.0	15.9	8.4	9.4	8.0	7.7	7.9	5.3	12.4
Blaenau Gwent	22.7	13.5	7.0	7.6	8.9	8.6	7.9	6.8	17.1
Torfaen	24.1	13.5	9.0	8.2	9.0	7.8	8.1	4.6	15.6
Sir Fynwy	31.2	15.6	6.5	6.6	7.0	9.6	10.8	2.9	9.8
Casnewydd	28.4	17.4	4.9	10.0	9.5	8.5	7.8	3.1	10.5

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 32: Nifer y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, yn ôl galwedigaeth, fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Galwedigaethau								
	Proffesiynol	Proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	Crefftau medrus	Gweinyddol ac ysgrifenyddol	Gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	Elfennol	Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau	Gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill
Ynys Môn	2,942	1,871	2,833	1,449	1,347	1,639	1,517	1,178	2,385
Gwynedd	6,193	3,629	6,095	2,796	2,572	3,738	3,061	2,495	4,836
Conwy	2,722	1,765	2,225	1,102	946	1,092	1,331	687	1,665
Sir Ddinbych	2,136	1,196	1,443	796	575	733	963	608	1,084
Sir y Fflint	1,786	1,029	725	654	550	530	705	414	894
Wrecsam	1,454	836	645	577	456	512	486	392	764
Powys	1,846	1,045	1,900	711	521	788	886	513	1,058
Ceredigion	2,673	1,612	3,244	1,328	935	1,307	1,481	801	1,565
Sir Benfro	1,668	864	1,757	648	531	780	884	500	1,073
Sir Gaerfyrddin	6,418	3,704	5,366	2,807	2,273	2,527	2,926	2,144	3,930
Abertawe	2,664	1,301	693	983	791	713	816	331	930
Castell-nedd Port Talbot	1,569	1,031	796	824	575	530	621	484	965
Pen-y-bont ar Ogwr	1,483	830	445	520	412	385	539	225	658
Bro Morgannwg	1,744	1,110	303	489	377	333	685	180	605
Caerdydd	7,038	3,597	706	1,506	1,254	863	1,789	289	1,206
Rhondda Cynon Taf	3,188	1,946	1,219	1,170	1,031	911	1,026	651	1,651
Merthyr Tudful	487	339	173	186	197	168	157	95	290
Caerffili	1,708	1,089	573	644	548	525	542	364	847
Blaenau Gwent	312	185	96	104	122	118	109	94	235
Torfaen	544	304	203	186	204	176	183	104	351
Sir Fynwy	715	358	148	152	161	220	248	66	224
Casnewydd	993	608	173	349	331	296	272	108	367

Tabl 33: Dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a diwydiant

Awdurdod lleol	Galwedigaethau							
	Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd	Amaethyddiaeth, egni a dŵr	Adeiladu	Dosbarthu, llety a gwasanaethau bwyd	Trafnidiaeth a chyfathrebu	Gweithgareddau ariannol, eiddo tiriog, proffesiynol a gweinyddol	Gweithgynhyrchu	Arall
Ynys Môn	40.9	7.8	10.3	18.3	5.0	8.5	5.4	3.8
Gwynedd	39.2	7.8	10.5	18.8	5.1	8.9	4.7	5.0
Conwy	42.5	8.8	8.3	17.4	4.2	10.2	3.7	4.8
Sir Ddinbych	43.2	8.9	9.1	14.1	4.4	9.7	6.2	4.4
Sir y Fflint	42.7	3.8	6.3	16.5	4.7	11.7	9.6	4.6
Wrecsam	44.0	3.8	6.7	16.4	4.8	10.7	9.2	4.3
Powys	37.5	14.8	8.3	14.4	4.7	9.6	5.6	5.1
Ceredigion	36.9	12.9	9.4	17.0	4.1	9.6	4.0	6.1
Sir Benfro	36.4	12.4	9.4	18.8	4.7	8.7	4.6	5.0
Sir Gaerfyrddin	42.6	8.2	9.7	16.5	4.9	8.3	5.8	4.0
Abertawe	49.3	2.0	5.7	17.2	5.4	11.7	4.3	4.5
Castell-nedd Port Talbot	46.1	2.5	8.6	14.7	5.1	11.0	8.2	3.8
Pen-y-bont ar Ogwr	46.8	1.9	6.3	15.8	5.9	11.1	7.6	4.7
Bro Morgannwg	47.2	1.9	5.0	13.7	7.6	15.0	3.7	6.0
Caerdydd	48.5	1.5	3.5	11.7	9.5	15.8	2.4	7.1
Rhondda Cynon Taf	46.9	2.0	8.2	14.8	5.8	10.7	6.6	4.9
Merthyr Tudful	49.4	3.1	6.9	15.8	6.2	9.7	5.7	3.2
Caerffili	47.6	2.7	7.1	14.5	5.3	11.4	7.2	4.1
Blaenau Gwent	49.7	1.6	6.5	16.0	3.7	9.5	9.0	4.1
Torfaen	48.1	1.6	7.1	17.5	4.5	10.9	5.7	4.6
Sir Fynwy	46.3	3.1	3.4	17.9	6.2	13.0	5.2	4.9
Casnewydd	47.1	1.7	4.0	18.0	5.8	13.5	5.2	4.7

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Tabl 34: Nifer y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021, yn ôl awdurdod lleol a diwydiant

Awdurdod lleol	Diwydiant							
	Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd	Amaethyddiaeth, egni a dŵr	Adeiladu	Dosbarthu, llety a gwasanaethau bwyd	Trafnidiaeth a chyfathrebu	Gweithgareddau ariannol, eiddo tiriog, proffesiynol a gweinyddol	Gweithgynhyrchu	Arall
Ynys Môn	7,018	1,336	1,771	3,142	866	1,450	922	653
Gwynedd	13,874	2,760	3,722	6,674	1,805	3,169	1,657	1,754
Conwy	5,758	1,194	1,128	2,353	567	1,384	505	646
Sir Ddinbych	4,121	851	868	1,341	415	928	588	423
Sir y Fflint	3,111	277	460	1,204	346	856	697	336
Wrecsam	2,690	234	413	1,004	295	653	565	266
Powys	3,472	1,375	769	1,334	432	886	523	475
Ceredigion	5,514	1,928	1,405	2,546	617	1,428	602	906
Sir Benfro	3,171	1,076	821	1,633	411	760	400	432
Sir Gaerfyrddin	13,661	2,637	3,127	5,296	1,572	2,656	1,858	1,288
Abertawe	4,543	184	528	1,582	494	1,075	399	417
Castell-nedd Port Talbot	3,407	184	635	1,089	377	811	609	284
Pen-y-bont ar Ogwr	2,570	102	346	869	325	608	420	257
Bro Morgannwg	2,749	108	289	797	445	875	218	347
Caerdydd	8,853	268	647	2,132	1,726	2,888	442	1,293
Rhondda Cynon Taf	6,006	258	1,052	1,889	737	1,375	847	630
Merthyr Tudful	1,035	65	145	331	129	204	120	66
Caerffili	3,257	185	488	991	364	776	493	283
Blaenau Gwent	683	22	89	220	51	130	123	56
Torfaen	1,085	37	159	394	102	245	129	104
Sir Fynwy	1,061	72	78	411	142	297	119	113
Casnewydd	1,650	58	141	631	202	471	182	165

(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Rhan 2: Creu siaradwyr

Shwmae

Helo



Wrth bwysu a mesur sefyllfa'r Gymraeg heddiw **mae'n anorfod y bydd gwerthuso'r cynnydd sydd wedi'i wneud i greu rhagor o siaradwyr Cymraeg yn cael y sylw blaenaf.** Wedi'r cyfan, cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yw thema strategol gyntaf ac amlycaf strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

Ar un llaw, mae'r dadansoddiad o'r cyfrifiad yn darparu'r ateb syml i'r cwestiwn a oes cynnydd wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y cyfnod adrodd, ai peidio. Fel y gwelwyd eisoes, mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn adrodd bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 562,016 yn 2011 i 538,296 yn 2021. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau arolygon eraill. Er bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cynnig niferoedd gwahanol iawn, mae hefyd yn adrodd bod llai o siaradwyr Cymraeg heddiw nag oedd bum mlynedd yn ôl (836,800 yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Mehefin 2025 o gymharu â 883,600 yn Rhagfyr 2020).

Ond y tu ôl i'r ffigyrau moel hyn gwyddom fod y darlun dipyn yn fwy cymhleth a bod angen ystyried tystiolaeth a chyd-destun llawer ehangach i werthuso sefyllfa'r Gymraeg heddiw. Mae'r rhan hon yn gyfle i graffu mewn rhagor o fanylder ar rai o'r meysydd polisi sy'n ganolog i'r ymdrechion i greu mwy o siaradwyr Cymraeg. Mae'n rhoi sylw i feysydd strategol bwysig fel trosglwyddo iaith ar yr aelwyd; rôl allweddol gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar; y gwaith sylweddol sy'n digwydd o fewn y sector addysg statudol a'r sector addysg drydyddol, a hefyd gyfraniad cynyddol amlwg y sector dysgu Cymraeg i oedolion.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i oedi ac ystyried a oes tystiolaeth gennym fod y polisïau sy'n eu lle yn mynd i arwain at greu rhagor o siaradwyr yn y dyfodol. Gwneir hyn drwy ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd allweddol hyn yn ystod y cyfnod adrodd, cyn amlygu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd mae'r Comisiynydd yn eu hadnabod ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1. Trosglwyddo iaith

Ynghyd ag addysg, trosglwyddo'r iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall yw'r brif ffordd o greu siaradwyr Cymraeg. Er mai yn yr ysgol yn hytrach na'r cartref y mae'r mwyafrif o blant yn debygol o ddysgu Cymraeg heddiw, mae trosglwyddo iaith yn parhau i fod yn un o gonglfeini cynllunio ieithyddol.

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn cydnabod mai rhan o bwysigrwydd trosglwyddo iaith yw bod arolygon a gwaith ymchwil yn 'dangos yn glir bod defnyddio'r Gymraeg yn y cartref yn blentyn yn dylanwadu'n gryf ar amllder defnydd o'r Gymraeg pan yn hŷn'.¹ Mae hefyd yn hanfodol gan na ellir dibynnu ar y system addysg yn unig i greu siaradwyr Cymraeg. Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol yn y tymor hwy rhaid sicrhau ei bod yn cael ei throsglwyddo rhwng y cenedlaethau a'i bod yn cael ei defnyddio'n naturiol wrth i bobl fyw eu bywydau bob dydd.

1.1 Prif ddatblygiadau

Gwelwyd camau pendant i gryfhau polisi a chefnogaeth ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yn ystod y cyfnod adrodd. Y pwysicaf o'r rhain yw'r **Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd** a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ym mis Ionawr 2021. Mae'r polisi'n darparu fframwaith strategol clir a chyfannol, â'r nod cyffredinol o gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn aelwydydd lle mae pobl eisoes yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'n canolbwyntio ar:

- ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg â'u plant yn y dyfodol
- ailgynnu sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddihyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg â'u plant eu hunain
- cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg
- cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant.

¹ Llywodraeth Cymru, [Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo a'i defnydd mewn teuluoedd](#) (Ionawr 2021).

Mae'r polisi, sy'n seiliedig ar egwyddorion gwyddorau ymddygiadol, yn darparu sail ar gyfer rhaglen waith deng mlynedd sy'n cynnwys ystod o ymyraethau i gyflawni'r amcanion uchod.


Mae'r ymyraethau ychwanegol hyn yn adeiladu ar waith sylweddol a wnaed yn y gorffennol yn rhan o gynllun Twf (ddaeth i ben yn 2016), ac yn fwy diweddar, **Cymraeg i Blant** – cynllun sy'n cael ei arwain gan Mudiad Meithrin ac sy'n parhau'n rhan allweddol o'r polisi cenedlaethol cyfannol.

Mae Cymraeg i Blant yn gynllun cenedlaethol sy'n cynnig sesiynau am ddim i rieni a'u plant, â'r nod o gefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant, ac i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg iddynt. Yn ystod 2023–24, er enghraifft, cynhaliwyd 3,503 o sesiynau rhithiol ac wyneb yn wyneb gan gefnogi 26,945 o rieni a 27,312 o blant. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cyfrannu at y maes hwn drwy gynlluniau Cymraeg yn y Cartref a Clwb Cwtsh.

1.2 Y dystiolaeth

Nid yw canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn brawf o lwyddiant y polisi cenedlaethol a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn, wrth reswm, ond mae'n cynnig cyfle i ddeall tueddiadau ym mhatrymau trosglwyddo'r Gymraeg, ac yn gosod cyd-destun pwysig i'r ymdrechion sy'n bodoli i gefnogi trosglwyddo iaith.

Siart 1: Canran y plant 3–4 oed mewn aelwydydd un teulu sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2001–21, yn ôl cyfansoddiad ieithyddol yr aelwyd



Ceir trafodaeth fanwl ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yn Rhan 1, Adran 8. Mae'n seiliedig ar ddadansoddi nifer y plant 3–4 oed sy'n siarad Cymraeg mewn perthynas â chyfansoddiad ieithyddol yr aelwyd. Y rhagdybiaeth yw bod plentyn 3–4 oed sy'n siarad Cymraeg yn debygol o fod wedi dysgu'r iaith yn y cartref ac nid yn yr ysgol.

Fel y gwelir yn Siart 1, yn 2021 roedd 80.7% o blant 3–4 oed, a oedd yn byw mewn cartrefi cwpl lle'r oedd dau neu fwy o oedolion yn gallu siarad Cymraeg, yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r 'gyfradd drosglwyddo' hon yn gymharol gyson â chanlyniadau Cyfrifiad 2001 a 2011, ac yn llawer uwch na chyfraddau trosglwyddo mewn unrhyw fath arall o aelwyd.

Mae cyfran y plant 3–4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn sylweddol is ar aelwydydd lle mai dim ond un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg, boed hynny mewn cartrefi cwpl neu gartrefi un rhiant. Gostyngodd cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg mewn cartrefi cwpl, lle'r oedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, o 45.4% yn 2011 i 40.4% yn 2021. Arhosodd y gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi un rhiant lle'r oedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg yn weddol gyson rhwng 2011 (53.3%) a 2021 (52.2%).

Er bod y gyfradd drosglwyddo yn gymharol uchel mewn cartrefi lle mae dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, canran gymharol fechan o'r cartrefi hyn sy'n bodoli yng Nghymru. Er enghraifft, o'r holl gartrefi sydd â phlant dibynnol yng Nghymru, dim ond yn 10% o'r rhain mae pob oedolyn yn gallu siarad Cymraeg.² 26% o'r holl gartrefi sydd â phlant dibynnol sy'n cynnwys un oedolyn, ond nid pob oedolyn, sy'n gallu siarad Cymraeg.



10%

canran y cartrefi â phlant dibynnol lle mae pob oedolyn yn gallu siarad Cymraeg

26%

canran y cartrefi â phlant dibynnol lle mae un oedolyn, ond nid pob oedolyn, yn gallu siarad Cymraeg

Yn 2022 sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru i wneud argymhellion ar gyfer cryfhau polisi cyhoeddus i wella cynaliadwyedd ieithyddol cymunedau Cymraeg. Yn 2024 cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad cyntaf,³ oedd hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Cydweithiodd y Comisiwn â Phrosiect BRO⁴ i ddatblygu'r dadansoddiad, oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y pedwar awdurdod lleol yng Nghymru lle mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

² Compendiwm Prosiect BRO o Ystadegau Iaith Cyfrifiad 2021.

³ Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg* (Awst 2024).

⁴ BRO: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar rai o'r tueddiadau pwysicaf yn y pedwar awdurdod lleol ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ardaloedd bach), sef ardal ddaearyddol fach sy'n cynnwys rhwng 1,000 a 3,000 o bobl a rhwng 400 a 1,200 o gartrefi. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod sefydlogrwydd y Gymraeg yn y cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr dan fygythiad, a bod hyn hefyd â goblygiadau o ran potensial a thebygolrwydd trosglwyddo'r iaith yn y cartref. Er enghraifft:

- Yn y pedwar awdurdod lleol dan sylw, roedd cyfanswm o **268 ardal fach**. Roedd **194 o'r ardaloedd bach** hyn yn **cynnwys dros 40% o siaradwyr Cymraeg**.
- Mae data am **gartrefi Cymraeg** yn yr awdurdodau lleol hefyd yn dangos y capasiti uwch sydd yn yr ardaloedd hyn ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd. Roedd canran y cartrefi lle mae **pob oedolyn yn gallu siarad Cymraeg** yn **63%** yng Ngwynedd, **48%** yn Ynys Môn, **36%** yng Ngheredigion a **23%** yn Sir Gaerfyrddin. **10% yw'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, a dim ond 5% o beidio â chynnwys y pedwar awdurdod lleol dan sylw.**
- O'r 268 ardal fach yn y pedwar awdurdod lleol, **gostyngodd y siaradwyr Cymraeg o rhwng 1 a 21 pwynt canran yn 252 ohonynt** rhwng 2011 a 2021.

Mae Tabl 1 yn darparu cymhariaeth fwy hir dymor o dueddiadau yng nghanran siaradwyr y pedwar awdurdod lleol hyn sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Tabl 1: Cymhariaeth o ganrannau pobl sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol, 1981–2021

	1981	1991	2001	2011	2021
Ynys Môn	61.0	62.0	60.1	57.2	55.8
Gwynedd	73.8	72.1	69.0	65.4	64.4
Ceredigion	63.2	59.1	52.0	47.3	45.3
Sir Gaerfyrddin	59.0	54.8	50.3	43.9	39.9


(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Mae'r ystadegau yn y tabl yn dangos pwysigrwydd yr ardaloedd hyn o ran trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall. Ar yr un pryd, mae'r ystadegau hefyd yn dangos bod canran – neu ddwysedd – y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn gostwng. Mae hyn yn debygol o olygu llai o gartrefi lle mae pob oedolyn yn siarad Cymraeg, ac felly llai o botensial a thebygolrwydd y bydd y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo ar yr aelwyd.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am drosglwyddo iaith.⁵

⁵ Llywodraeth Cymru, **Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020** (Cyhoeddwyd gyntaf Medi 2021).


Siart 2: Ble a phryd mae siaradwyr Cymraeg wedi dechrau dysgu siarad yr iaith, yn ôl oedran



Mae data'r Arolwg Defnydd Iaith yn ategu canlyniadau'r cyfrifiad, ac yn **amlygu'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn llawer mwy tebygol o fod wedi dysgu'r Gymraeg yn y gyfundrefn addysg**. Er bod bron i 70% o siaradwyr Cymraeg 65 oed a hŷn wedi dysgu'r Gymraeg yn y cartref, dim ond tua 30% o siaradwyr Cymraeg 3–15 oed sydd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'r data yn dangos bod cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn y cartref wedi lleihau'n sylweddol dros yr hanner canrif ddiwethaf.

Mae'r arolwg hefyd yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol o'r berthynas rhwng cyfansoddiad ieithyddol y cartref a rhuglder yn y Gymraeg. Fel mae Siart 3 yn ei ddangos, **roedd gan bron i 80% o'r unigolion oedd yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl o leiaf un rhiant oedd yn siarad Cymraeg**. Ar y llaw arall, dim ond 18% o bobl oedd ag o leiaf un rhiant oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl oedd yn ystyried nad oedden nhw eu hunain yn rhugl.

Siart 3: Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder eu rhieni



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

1.3 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Ar y cyfan mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn ategu'r hyn a wyddom eisoes am drosglwyddo iaith. Gwelwyd tystiolaeth bellach yn ystod y cyfnod adrodd o bwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg fel elfen allweddol o gynllunio ieithyddol, yn enwedig yng nghyswllt y dyhead i greu siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos nad oes newid sylweddol wedi bod yng nghyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg dros yr ugain mlynedd diwethaf. Er hyn, mae **canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn amlygu tueddiadau pryderus yn sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr, a goblygiadau posibl hyn i drosglwyddo iaith yn y dyfodol.**

Mae'n debyg bod y diffyg cynnydd yng nghyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg dros y degawdau diwethaf yn tystio i'r ffaith bod hwn yn **faes polisi cymhleth a bod ymdrechion i gefnogi trosglwyddo iaith yn brwydro yn erbyn grymoedd cymdeithasol a demograffaid pwerus.** Er hyn, does dim dwywaith bod **cyhoeddi'r polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg yn gam pwysig ymlaen** sy'n gosod sylfaen gadarnach ar gyfer cyflwyno ymyraethau yn y maes polisi allweddol hwn yn y dyfodol.

Mae'r polisi cenedlaethol eisoes yn canolbwyntio ar y prif heriau a amlygir gan y dystiolaeth. Mae cyfle amlwg i symbylu **cynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo mewn teuluoedd lle mae un oedolyn yn siarad Cymraeg.** Ar hyn o bryd, nid yw canran sylweddol iawn (tua 60%) o blant 3–4 oed yn gallu siarad Cymraeg er eu bod yn byw mewn cartrefi lle mae un oedolyn yn gallu siarad yr iaith. Pe bai modd cynyddu'r gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi o'r fath, mae potensial amlwg i greu llawer mwy o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol, a'r rheini'n fwy tebygol o fod yn siaradwyr â'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ym mhob agwedd ar fywyd. Mae rôl bwysig gan sefydliadau fel Mudiad Meithrin, y mentrau iaith, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y cyd-destun hwn.

Er nad yw'n ymwneud â throsglwyddo iaith yn uniongyrchol, mae **ceisio dylanwadu ar benderfyniadau rhieni o ran cyfrwng iaith addysg, a maes o law geisio dylanwadu ar bobl ifanc o ran eu defnydd o'r iaith yn y dyfodol,** yn rhan hanfodol o'r her i gynyddu cyfraddau trosglwyddo yn y tymor hwy. Mae'n gadarnhaol felly gweld fod ffocws yn y polisi cenedlaethol ar y genhedlaeth nesaf yn ogystal.

Serch pwysigrwydd y polisi cenedlaethol a'r ffocws ar gefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant, mae hefyd angen cydnabod arwyddocâd a dylanwad meysydd polisi ehangach ar gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Gall **llwyddiant polisiâu mewn meysydd fel addysg, y gweithle a'r economi fod yn fwy dylanwadol** yn y pen draw o ran cynyddu cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg na'r ymyraethau hynny sy'n canolbwyntio yn uniongyrchol ar drosglwyddo iaith. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r dystiolaeth o'r cyfrifiad yn dangos bod y Gymraeg dan bwysau cynyddol yn yr ardaloedd hynny lle mae trosglwyddo iaith wedi bod yn gymharol iach hyd yma. Er mwyn cefnogi trosglwyddo iaith, rhaid sicrhau bod **economi'r cymunedau hyn yn ffynnu, bod pobl ifanc yn aros neu'n dychwelyd i'w cymunedau, bod digon o swyddi da i bobl ifanc aros yn lleol, a bod mwy o'r bobl ifanc yn magu eu teuluoedd eu hunain yn y cymunedau hyn.**

Blaenoriaeth



Rhaid gwella cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall. I wneud hyn mae'n hanfodol cryfhau sefyllfa'r iaith mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr lle mae cyfraddau trosglwyddo yn parhau'n gymharol gadarn. Yn ogystal â gweithredu argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol uwch, rhaid darparu buddsoddiad ychwanegol i Mudiad Meithrin, y mentrau iaith ac eraill yn y maes i'w galluogi i dargedu ymyraethau yn fwy effeithiol ac ar raddfa ehangach.

Yn unol â rhai o argymhellion eraill yr adroddiad hwn, credwn y gallasai'r **safonau hybu a'r strategaethau hybu** y mae gofyn i awdurdodau lleol eu llunio gyfrannu ymhellach at weithrediad y polisi cenedlaethol ac fel fframwaith ar gyfer cynllunio'n fwy strategol ym maes trosglwyddo iaith.

2. Y blynyddoedd cynnar

Os na throsglwyddir yr iaith yn y cartref, trochi plant yn yr iaith Gymraeg mor gynnar â phosibl yn y gyfundrefn addysg a gofal sydd fwyaf tebygol o arwain at greu siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg drochi cyfrwng Cymraeg. Dyma'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd'.⁶ Mae cynyddu darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol felly i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

2.1 Prif ddatblygiadau

Cyflwynwyd un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn y maes yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn y Cytundeb Cydweithio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn 2021.⁷ Ymrwymodd y Llywodraeth i **ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwy flwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant cyfrwng Cymraeg**. Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno'n raddol drwy raglen Dechrau'n Deg, â'r Llywodraeth yn bwriadu cydweithio â phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygu'r gweithlu.⁸ Adroddodd y Llywodraeth yn 2024 fod dros 1,000 o blant wedi cael gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy raglen ehangu Dechrau'n Deg.⁹

Bu datblygiadau pwysig eraill yn y sector blynyddoedd cynnar yng nghyd-destun y Gymraeg. Daeth **Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019** i rym ar 1 Ionawr 2020. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd ymrwymadau'r awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) newydd ar gyfer 2022–32.¹⁰ Mae'r rhain yn cynnwys yr ymateb i'r ddyletswydd sydd ar bob awdurdod lleol bellach i gynllunio i gwrdd â Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Derbyniodd **Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025** gydsyniad brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025, datblygiad arwyddocaol iawn fydd â dylanwad pellgyrhaeddol ar y sector blynyddoedd cynnar. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Bydd yn rhaid i'r fframwaith nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru

⁶ Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Gorffennaf 2017).

⁷ Llywodraeth Cymru, *Y Cytundeb Cydweithio* (Rhagfyr 2021).

⁸ Llywodraeth Cymru, *Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol* | LLYW.CYMRU (Diweddardwyd Rhagfyr 2024).

⁹ Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Adroddiad blynyddol 2023-24* (Tachwedd 2024).

¹⁰ Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032 [HTML] | LLYW.CYMRU.

yn eu cymryd i ddarparu **cyfleoedd i ddysgu Cymraeg drwy ofal plant i'r rheini sydd o dan oedran ysgol gorfodol yn ogystal â thrwy addysg feithrin**. Gosodir gofyniad ar ysgolion meithrin i lunio cynllun cyflawni addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n nodi faint o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol feithrin a chynigion ar gyfer cynnal a chynyddu maint yr addysg honno, yn ogystal â chynigion ar gyfer hybu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol feithrin.

Dengys hyn bwysigrwydd y cyfnod cyn-statudol i strategaeth y Llywodraeth i gynyddu'r nifer sy'n dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith. Mae Mudiad Meithrin wedi pwysleisio na ddylid gwahanu'r sector addysg statudol o'r sector gofal ac addysg blyneddodd cynnar.¹¹ Mae'r **Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi ategu hyn drwy alw am gysondeb mewn polisi iaith yn y sector blyneddodd cynnar ac addysg gynradd statudol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch**. Yn ei adroddiad *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, mae'n argymhell y dylai'r holl grwpiau chwarae a lleoliadau meithrin nas cynhelir yn yr ardaloedd hynny ddilyn polisi o ddarparu yn y Gymraeg ac y dylid buddsoddi yn y gweithlu i gyflawni hynny.¹²

Yn 2019 **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull newydd, cydlynol o gynllunio a darparu addysg a gofal i blant dan bump oed**, sef Addysg a Gofal Plentynod Cynnar. Enw'r dull hwn bellach yw Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar. Yn y **Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru**, a gyhoeddwyd yn 2024, trafodir pwysigrwydd darpariaeth gofal plant ac addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i gynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, a'i botensial ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg i'r cartref. Dywed fod ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yn cefnogi hyn. Mynega'r Cynllun fwriad y Llywodraeth i dyfu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg ac ehangu'r ddarpariaeth, drwy gynllun Sefydlu a Symud Mudiad Meithrin a gwaith consortiwm Cwlwm, er enghraifft.¹³

2.2 Y dystiolaeth

Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae Mudiad Meithrin yn parhau i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan agor cylchoedd meithrin newydd drwy Sefydlu a Symud. Gosododd strategaeth *Cymraeg 2050*, a gyhoeddwyd yn 2017, darged i ehangu darpariaeth Gymraeg y blyneddodd cynnar gan sefydlu 150 yn rhagor o grwpiau meithrin o fewn degawd. Erbyn diwedd 2025 adroddwyd bod **100 cylch meithrin naill ai wedi agor o'r newydd neu wedi ehangu eu gwasanaeth â chefnogaeth y cynllun ers 2017, a bod 12 prosiect arall ar y gweill**.¹⁴


Mae Siart 4 yn dangos na fu newid mawr yn nifer y cylchoedd meithrin na'r lleoliadau ers 2015/16. **Rhwng 2015/16 a 2024/25 bu gostyngiad o 467 i 399 o gylchoedd a chynnydd bach o 358 i 359 o leoliadau**. Fodd bynnag, dylid nodi y gall nifer y cylchoedd leihau wrth i'r math o ddarpariaeth a gynigir newid o ofal sesiynol i ofal dydd llawn, neu wrth i sawl cylch llai gau er mwyn agor un cylch mwy. Yn yr achosion hynny, er enghraifft, ni fyddai'r ddarpariaeth ei hun yn lleihau.

¹¹ Ymateb Mudiad Meithrin i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).


¹² Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg* (Awst 2024).

¹³ Consortiwm sy'n cynnwys Blyneddodd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, National Day Nurseries Association (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.

¹⁴ Data a gafwyd yn uniongyrchol gan Mudiad Meithrin.

Siart 4: Nifer y cylchoedd meithrin a nifer y lleoliadau cylch meithrin

Mae Siart 5 yn dangos cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu'r cylchoedd meithrin yn ystod yr un cyfnod, o 10,724 yn 2015/16 i 11,360 yn 2024/25.¹⁵

Siart 5: Nifer y plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin, fesul blwyddyn

¹⁵ Dylid nodi bod lleoliadau wedi cau yn ystod rhan o'r flwyddyn academaidd 2019/20 oherwydd pandemig COVID-19 a gwelwyd cwmpw amlwg yn y nifer oedd yn mynychu'r cylchoedd. Dylid hefyd nodi bod y boblogaeth o blant 0–4 oed wedi lleihau yn ystod yr un cyfnod. Er enghraifft, yn 2015 mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn nodi bod 174,270 o blant 0–4 oed yng Nghymru. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer 2023 oedd 150,196.

Darparodd Mudiad Meithrin 9,276 o oriau gofal plant wythnosol yn 2024/25, cynnydd o 1,679 o oriau gofal ers 2019/20.¹⁶ Dywedodd yn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2025–30 fod 77.5% o'r plant sy'n mynychu darpariaeth Mudiad Meithrin yn dod o deuluoedd lle nodir mai Saesneg yw iaith y cartref.¹⁷ Gyda **dilyniant o 88.8% o'r cylch meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg yn 2024/25,**¹⁸ mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wrth greu siaradwyr Cymraeg newydd.

Parhaodd Mudiad Meithrin i arwain y cynllun hyfforddiant Cam wrth Gam yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd pwysig i weithwyr yn y sector ennill cymwysterau gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyrsiau Lefel 3 neu 5 yn cael eu cynnig mewn colegau addysg bellach, ac mae Mudiad Meithrin hefyd yn arwain Cynllun Cam wrth Gam mewn ysgolion uwchradd. Mae'r Urdd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Mudiad Meithrin yn parhau i ddarparu **cynllun prentisiaeth cyfrwng Cymraeg** ar gyfer y sector gofal a blynyddoedd cynnar, ac mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'r gweithlu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gynllun Camau. Mae tua 700 o'r sector yn dysgu'r Gymraeg yn flynyddol drwy'r cynllun hwn, gyda chefnogaeth yn cael ei ddarparu drwy rwydwaith o Swyddogion Cwlwm.

Mae Mudiad Meithrin hefyd yn **ehangu ei ddylanwad drwy'r cynllun Plethu**, a sefydlwyd yn dilyn trafodaethau yn 2022 â Blynyddoedd Cynnar Cymru. Gan ddechrau drwy gydweithio ag aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru ac ehangu i gynnwys darparwyr gofal plant eraill, mae'r cynllun yn **cefnogi lleoliadau cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog i ddatblygu'n lleoliadau trochi Cymraeg**. Mae cynyddu nifer y lleoliadau hyn yn un o amcanion Cynllun Strategol Mudiad Meithrin.

Sefyllfa'r Gymraeg ar draws y sector blynyddoedd cynnar

Mae gweledigaeth gadarnhaol o blaid y Gymraeg yn amlwg ar draws y sector cyfan. Gwnaeth partneriaid Cwlwm ddatganiad ar y cyd yn galw am lwybr clir a fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu'n siaradwr Cymraeg.¹⁹ I gefnogi hyn, maent yn cydweithio i uwchsgilio gweithlu'r blynyddoedd cynnar. **Ers 2021 mae dros 2,300 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar wedi dilyn hyfforddiant Cymraeg ar lefelau amrywiol** ac mae Cwlwm wedi darparu dros 500 o adnoddau i'w cefnogi. Mae Cwlwm hefyd yn gweithredu cynllun Addewid Cymraeg. Drwy hyn, mae wedi **gweithio â dros 170 o leoliadau gofal plant** i asesu sut maent yn defnyddio'r Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu **i symud lleoliadau ar hyd y continwwm iaith tuag at gynnig darpariaeth wirioneddol ddwyieithog neu Gymraeg**. Mae'r gwaith hwn yn gosod sylfaen bwysig ar gyfer gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg, a fydd yn dibynnu ar y sector addysg y tu hwnt i'r sector cyfrwng Cymraeg i lwyddo.

¹⁶ Data a gafwyd yn uniongyrchol gan Mudiad Meithrin.

¹⁷ Mudiad Meithrin, **Meithrin iaith: Cynllun strategol 2025-30**.

¹⁸ Data a gafwyd yn uniongyrchol gan Mudiad Meithrin.

¹⁹ **Mae partneriaid Cwlwm yn galw am lwybr sy'n galluogi pob plentyn i dyfu fel siaradwr Cymraeg.** | cwlwm (Cyrchwyd Rhagfyr 2025).

Er gwaethaf pwysigrwydd y datblygiadau uchod yn y sector blynyddoedd cynnar, mae sawl adroddiad diweddar yn tynnu sylw at yr heriau sy'n parhau ym maes gofal plant cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft:

- Mae'r **Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant** yn nodi bod argaeledd cyffredinol darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghapasiti gofal dydd i blant. Serch hyn mae argaeledd gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg wedi lleihau'n sylweddol, sy'n debygol o gyfyngu ar y dewis o ofal plant a mynediad at ddarpariaeth Gymraeg i rieni mewn rhai rhannau o Gymru.
- Mae **Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn Pump (Medi 2021 i Awst 2022)** yn cyfeirio'n benodol at heriau recriwtio a chadw staff mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r **Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 i 2027** yn cyfeirio at ganfyddiad cyffredin ymysg awdurdodau lleol ynghylch diffyg lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg. Nodir bod hyn yn broblem gyffredinol, ond ei fod yn arbennig o amlwg yng nghyd-destun gwarchodwyr plant, gan adlewyrchu canfyddiadau'r adolygiad annibynnol a drafodwyd uchod. Anhawster arall yw oriau gofal annigonol, â darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cynnig gofal sesiynol ar y cyfan. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer yr oriau sydd yn cael eu cynnig gan gylchoedd meithrin wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod angen gwell mynediad **at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**.
- Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith **mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae** a chyhoeddwyd dau adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith yn 2024. Yn ôl **Adroddiad Cam 1**,²⁰ o'r 90% o leoliadau cofrestredig yng Nghymru a ymatebodd i Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2023, dywedodd 15% mai'r Gymraeg oedd prif iaith eu gwasanaeth, â 10% pellach yn dweud mai Cymraeg a Saesneg oedd eu prif iaith. Yn gyffredinol, 21% o'r gweithlu gofal plant a chwarae cofrestredig oedd yn rhugl yn y Gymraeg, â 21% arall yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg. Mae **Adroddiad Cam 2**²¹ yn rhybuddio y bydd angen cynnydd sylweddol ym maint y ddarpariaeth gofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg er mwyn i awdurdodau lleol gyrraedd y targedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a nodir yn eu CSCA. Er hyn, un o **brif gasgliadau'r adroddiad yw bod anawsterau wrth recriwtio a chadw staff Cymraeg eu hiaith yn rhwystr sylweddol** i gyflawni'r targedau hyn. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod **cyflog a thâl annigonol yn ffactor allweddol yn y cyfraddau trosiant uchel** ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd.

Disgrifir rhai o'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i gefnogi'r gweithlu yn y **Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Adolygiad a Diweddariad** a gyhoeddwyd yn 2024. Ymhlith y datblygiadau ers cyflwyno'r cynllun yn 2017 mae'r Llywodraeth wedi rhoi cyllid i gonsortiwm Cwlwm arwain gwahanol brosiectau, gan gynnwys gweithio â

²⁰ Llywodraeth Cymru, **Mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru: adroddiad cam 1** | LLYW.CYMRU (Mawrth, 2024).


²¹ Llywodraeth Cymru, **Mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru: adroddiad cam 2** | LLYW.CYMRU (Gorffennaf, 2024).

cholegau addysg bellach a phrifysgolion i ddenu mwy o bobl ifanc i'r gweithlu gofal plant cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau ethnig lleiafrifol, a threfnu hyfforddiant a chymorth Cymraeg er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau.

Dengys Siartiau 6 a 7 nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae a nifer y lleoedd gofal plant a chwarae yn ôl prif iaith weithredol y gwasanaeth rhwng 2020 a 2025.


Dengys Siart 6 fod nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae wedi lleihau yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae hyn yn wir ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal. Er bod nifer y gwasanaethau wedi lleihau, mae canran y gwasanaethau Cymraeg wedi cynyddu o 13.6% yn 2020 i 15.5% yn 2025.

Siart 6: Nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae yn ôl prif iaith weithredol y gwasanaeth



Fel mae Siart 7 yn ei ddangos, mae cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant wedi lleihau dros y pum mlynedd diwethaf. Er hyn, **gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog**. Fel canran o'r holl leoedd gofal plant a chwarae, mae canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 14% i 15.3%.

Siart 7: Nifer y lleoedd gofal plant a chwarae yn ôl prif iaith weithredol y gwasanaeth



Dengys y data yn glir mai bach iawn fu'r cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac mai drwy gyfrwng y Saesneg y mae rhan fwyaf y ddarpariaeth gofal plant a chwarae. Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu'r pryderon a godwyd yn yr adroddiadau a drafodir uchod.

2.3 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Ychydig o newid a fu yn yr ystadegau am sefyllfa'r Gymraeg yn y sector blynyddoedd cynnar, nid yn unig yn ystod y cyfnod adrodd, ond am flynyddoedd cyn hynny. Mae peth datblygiad a chynnydd ond **rhaidd cyflymu ac ehangu hynny'n sylweddol i gyrraedd targedau Cymraeg 2050 a chyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg**. Bydd cyflawni'r targedau twf addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar ehangu darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod mwy o blant Cymru yn dechrau'r daith mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn llwyddo i gyrraedd yr amcan hwn bydd yn rhaid sicrhau bod gwasanaeth hawdd ei gyrraedd ac oriau gofal digonol ar gael ym mhob rhan o Gymru. Byddai darpariaeth gyson o safon uchel yn **sicrhau statws i'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn genedlaethol**, yn **hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg**, ac yn rhoi **cyfle gwirioneddol i bob plentyn yng Nghymru ddatblygu'n siaradwr Cymraeg hyderus**.

Er mwyn sicrhau bod cynnig gofal plant ac addysg gynnar yng Nghymru yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf y Gymraeg ac Addysg, bydd hefyd angen **cefnogi ac annog pob darparwr i symud ar hyd continwmm ieithyddol**. Yn rhan o hyn, er mwyn symud gweithwyr ar hyd y continwmm o ddysgu'r iaith, bydd angen rhaglen lawn o hyfforddiant dysgu Cymraeg sy'n cynnwys modelau hyblyg ac amrywiol a chyfleoedd dysgu dwys, gan adeiladu ar gynllun Camau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin. Bydd angen felly prif ffrydio'r Gymraeg fel elfen greiddiol o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar drwyddi draw, gan sicrhau bod **pob plentyn yn cael cychwyn ar eu taith i fod yn siaradwr Cymraeg**.

Fel yn achos y gyfundrefn addysg yn fwy cyffredinol, **y rhwystr amlwg i wireddu'r amcanion clodwiw hyn yw diffyg gweithlu dwyieithog**. Fel mae'r dystiolaeth o'r sector yn ei ddangos, mae recriwtio a chadw staff yn broblem sylweddol, ac mae cyflogau isel a'r ffaith bod gyrfaoedd eraill y tu allan i'r sector yn cael eu gweld yn fwy proffidiol yn gosod cyd-destun hynod heriol i'r sector. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y dyhead i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a symud gwasanaethau ar hyd continwmm ieithyddol.

Blaenoriaeth



Rhaid buddsoddi ar raddfa llawer ehangach i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu blynyddoedd cynnar drwy gynyddu'r hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n rhan o gyrsiau hyfforddiant a phrentisiaethau'r sector, a datblygiad proffesiynol parhaus pob gweithiwr. Er mwyn gwireddu cynnydd mewn sgiliau Cymraeg, rhaid hwyluso recriwtio a chadw staff drwy gynyddu adnoddau ehangach y sector.

Mae sylfaen gadarn eisoes yn bodoli o safbwynt ehangu sgiliau Cymraeg y gweithlu, gan gynnwys rhaglen brentisiaethau cyfrwng Cymraeg, cynllun hyfforddi Cam wrth Gam a chynllun dysgu Cymraeg Camau. Byddai **buddsoddi ymhellach yn y cynlluniau hyn yn galluogi uwchsgilio'r gweithlu a chaniatáu ehangu'r ddarpariaeth** y tu hwnt i'r sector cyfrwng Cymraeg, a thrwy'r sector cyfrwng Saesneg sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth.



laith i'w dysgu
a'i defnyddio

Mae Yusuf Yassine yn 16 mlwydd oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Mae'n byw yn ardal Grangetown yng Nghaerdydd ac yn aml yn mynychu Pafiliwn y Grange yno. Mae Pafiliwn y Grange yn ganolfan gymunedol yn y gornel amlddiwylliannol ac amlieithog hon o Gaerdydd sy'n darparu gofod a chartref i nifer o gymunedau a chymdeithasau amrywiol ac yn lleoliad poblogaidd ar gyfer pob math o ddigwyddiadau. Aeth Yusuf i ysgol gynradd Gymraeg hefyd ac mae'n meddwl fod siarad Cymraeg yn bwysig iawn.



Rydw i wedi bod yn ffodus i gael fy addysg i gyd drwy'r Gymraeg mor belled, ac rwy'n teimlo bod hynny wedi cynnig llawer o gyfleoedd newydd i fi na fyddwn wedi cael os nad oeddwn yn medru siarad Cymraeg. Mae'r cyfleoedd hynny, nid yn unig yn yr ysgol, ond tu allan i'r ysgol hefyd wrth gymdeithasu a sgwrsio gyda ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd.

Rwy'n byw mewn cymuned lle mae llawer o ieithoedd yn cael eu siarad a phan oeddwn i'n iau fe wnes i ddysgu Arabeg felly mae dysgu ieithoedd a'u siarad yn rhywbeth hollol naturiol i fi.



Os ydw i'n onest dydw i ddim yn clywed llawer o Gymraeg yn cael ei siarad lle rwy'n byw, ond rwy'n bendant yn teimlo fod agweddau pobl wedi newid tuag at yr iaith. Mae ysgolion Cymraeg newydd wedi dod yn yr ardal, felly mae mwy o bobl o gefndiroedd ethnig yn cael y cyfle i ddysgu'r iaith ac yn manteisio ar hynny. Eto, mae'n rhywbeth digon naturiol erbyn hyn.

Wedi gadael yr ysgol hoffwn gael swydd ym maes gwleidyddiaeth neu falle'r gyfraith. Hoffwn i aros yng Nghymru os yn bosibl, ond os oes rhaid symud ffwrdd byddaf yn gwneud yn siŵr y byddaf yn dod yn ôl er mwyn cadw fy Nghymraeg yn fyw.



3. Addysg statudol

Mae'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg ifanc heddiw yn debygol o fod wedi dysgu Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg. Mae'n dilyn felly y bydd cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn dibynnu, i raddau helaeth, ar lwyddiant y gyfundrefn addysg yn creu siaradwyr Cymraeg dros y degawdau nesaf.

Mae'r taflwybr i'r miliwn wedi ei gyfrifo'n bennaf ar sail cynyddu'n sylweddol y niferoedd fydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod cyfran llawer uwch o ddisgyblion yn gadael y gyfundrefn addysg cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn siaradwyr Cymraeg. I gyflawni hyn bydd hefyd angen cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.1 Prif ddatblygiadau

Does dim dwywaith mai cyflwyno'r **Cwricwlwm newydd i Gymru** oedd un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol i ysgolion dros y cyfnod adrodd. Yn sgil pasio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 bu ysgolion yn prysur gynllunio eu cwricwlwm ac yn paratoi i'w weithredu o fis Medi 2022 ymlaen. **Mae disgwyliad clir bod y Gymraeg yn rhan ganolog o brofiad dysgu pob disgybl yng Nghymru**, ac un o amcanion penodol cyflwyno'r cwricwlwm newydd oedd rhoi mwy o bwyslais ar addysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd felly yn rhan greiddiol o'r ymdrech i sicrhau y bydd cyfran sylweddol uwch o ddisgyblion Cymru yn gadael y sector addysg yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Ochr yn ochr â'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm mewn ysgolion, mae Cymwysterau Cymru a chyrrff dyfarnu wedi bod yn gyfrifol am **ddatblygu cymwysterau newydd**. Bydd pob cymhwyster TGAU newydd a chymwysterau a ariennir gan arian cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog. Penderfynwyd yn ogystal ddisodli'r cymhwyster Cymraeg Ail Iaith â chymhwyster Cymraeg Craidd newydd. Y bwriad yw bod Cymraeg Craidd yn fwy heriol a phriodol i ddysgwyr yn y sector cyfrwng Saesneg, ac felly'n hwyluso proses o symud disgyblion ac ysgolion ar hyd continwrm ieithyddol **drwy gau'r bwloch rhwng cwricwlwm y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg**. Datblygiad pwysig i gefnogi ysgolion a dysgwyr yng nghyd-destun datblygu cwricwlwm a chymwysterau newydd oedd sefydlu Adnodd yn 2022, y corff sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu adnoddau addysgol. Bydd darparu adnoddau dwyieithog o safon yn hanfodol i wireddu amcanion y cwricwlwm o ran datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion ac i alluogi mwy o ysgolion i symud ar hyd y continwrm ieithyddol.

Cerrig milltir allweddol ar y daith tuag at Ddeddf y Gymraeg ac Addysg


2015



Adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm

Cychwyn y gwaith pwysig o ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru

2017



Cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050

Gosod gweledigaeth a thargedau penodol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg

2019

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

Canlyniad adolygiad yn 2017 ar sut y dylid cryfhau sail cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg



2018

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Gosod sail ddeddfwriaethol gadarnach i sicrhau cymorth dysgu ychwanegol yn y Gymraeg



2021



Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Deddf sy'n sefydlu fframwaith statudol ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru

2021



Canllawiau newydd ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Gymraeg
Cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer diffinio ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

2022

Cyhoeddi Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg

Cynllun 10-mlynedd ar gyfer datblygu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog



2022

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn addysg awdurdodau lleol yn dod i rym

Cynlluniau 10-mlynedd yr awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi a'u rhoi ar waith

2025



Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn derbyn cydsyniad Brenhinol

Datblygiad hanesyddol y gellir ei ystyried yn benllanw i ddegawd o ddatblygiadau arwyddocaol ym maes y Gymraeg ac addysg

Yn ogystal â delio â gofynion datblygu cwricwlwm newydd, mae ysgolion hefyd wedi gorfod ymateb i'r newidiadau sylweddol i ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn rhan o **weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**. Datblygiad hynod arwyddocaol yn y cyd-destun hwn oedd penodi arweinydd cenedlaethol ar gyfer cefnogi darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers penodi'r arweinydd yn 2022 mae camau sylweddol wedi'u cymryd i ddatblygu mwy o adnoddau a chefnogaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un o gonglfeini strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yw cynyddu'n sylweddol ganran disgyblion Cymru sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod cyfundrefn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) wedi bodoli ers tro, gwelwyd shifft polisi arwyddocaol yn 2019 wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno **Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019**. Roedd cyflwyno'r rheoliadau newydd yn golygu symud at gyfundrefn cynllunio llawer mwy uchelgeisiol. Y disgwyliad oedd bod awdurdodau lleol yn mynd ati i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg mewn modd rhagweithiol, a thrwy hynny gyfrannu yn uniongyrchol at gyflawni rhai o brif dargedau addysg *Cymraeg 2050*. Yn **2022 cyhoeddwyd cynlluniau strategol cyntaf yr awdurdodau lleol dan y gyfundrefn newydd**. Golyga hyn fod pob awdurdod lleol bellach yn gweithredu cynlluniau deng mlynedd sy'n cynnwys targedau ac ymrwymadau pendant i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

Ochr yn ochr â chyflwyno'r rheoliadau newydd, datblygiad arwyddocaol arall oedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i **ddiwygio'r canllawiau ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**. Prif bwrpas diwygio'r canllawiau oedd symleiddio'r categorïau ieithyddol, gan sicrhau gwell eglurder i rieni a disgyblion, a chreu hefyd gyfundrefn oedd yn hwyluso proses o symud ysgolion yn raddol ar hyd continwmm ieithyddol.

Nid oes amheuaeth bod ehangu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn **un o'r materion mwyaf allweddol i lwyddiant gweledigaeth Cymraeg 2050**. Un o gasgliadau'r adroddiad 5-mlynedd diwethaf oedd bod angen rhoi strategaeth genedlaethol ar waith i ddatblygu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Ymatebodd y Llywodraeth yn gadarnhaol i'r argymhellion drwy gyhoeddi **Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg yn 2022**. Mae'r cynllun yn nodi'r camau y bydd y Llywodraeth a'i phartneriaid yn eu cymryd dros ddeng mlynedd i gynyddu'r niferoedd o athrawon a'r cynorthwywyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i addysgu'r Gymraeg.

Yn rhan o'r cytundeb cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn 2021 ymrwymwyd i gyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg yn ystod oes y Senedd. Roedd pasio **Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025** yn ddatblygiad hynod arwyddocaol, a gellid ei ystyried yn benllanw'r datblygiadau sylweddol sydd wedi digwydd o safbwynt cyfundrefn cynllunio addysg Gymraeg dros y degawd diwethaf. Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys:

- **rhoi sail statudol** i dargedau *Cymraeg 2050*
- **diffinio categorïau ieithyddol** ysgolion mewn rheoliadau

- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi **Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**
- dyletswydd ar ysgolion i lunio a chyhoeddi **cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg**
- creu **cadwyn cynllunio ac atebolrwydd cadarn** rhwng targedau *Cymraeg 2050*, Fframwaith Cenedlaethol Gweinidogion Cymru, cynlluniau strategol ar lefel awdurdod lleol, a chynlluniau cyflawni ysgolion
- datblygu **cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg** yn sylfaen i'r broses o ddiffinio categorïau ieithyddol ysgolion, ac i gefnogi cynllunio strategol ar lefel genedlaethol, awdurdod lleol, ac ysgol
- **sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol** fydd â chyfrifoldeb dros gefnogi pobl i ddysgu'r Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg a chydol oes.

Mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y Ddeddf yn sylweddol, ac yn ymateb i nifer o ddiffygion y gyfundrefn cynllunio bresennol. **Teg dweud bod y Ddeddf yn cynrychioli trobwynt hanesyddol yn natblygiad polisi addysg ac iaith Gymraeg y Llywodraeth.** Am y tro cyntaf, mae rhai o dargedau ac ymrwymadau pwysicaf strategaeth iaith y Llywodraeth wedi'u gosod mewn deddfwriaeth.

3.2 Y dystiolaeth

Er y gwelwyd datblygiadau sylweddol mewn polisi a deddfwriaeth dros y pum mlynedd diwethaf, nid yw'r dystiolaeth ystadegol yn dangos cynnydd mor amlwg dros yr un cyfnod.

Mae prif dargedau addysg *Cymraeg 2050* yn seiliedig ar nifer a chanran y disgyblion 7 oed sy'n cael eu hasesu a'u dysgu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf. Fel y gwelir yn Nhabl 2, mae'r ganran wedi codi yn raddol dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae'r cynnydd yn llawer arafach na'r hyn a ragwelir yn nhargedau *Cymraeg 2050*.

Tabl 2: Nifer a chanran y disgyblion ym mlwyddyn 2 (7 oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf


	Gwaelodlin 2015/16	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Targedau		
							2021	2031	2050
Nifer	7,760	7,700	7,835	7,960	7,660	7,870			
Carfan	34,765	33,750	33,895	33,960	33,090	32,700			
Canran	22.3%	22.8%	23.1%	23.4%	23.2%	24.1%	24%	30%	40%

(Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion)

O edrych ar y data dros gyfnod hirach, gwelir mai cynnydd o 1.9 pwynt canran sydd wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ym mlwyddyn 2 dros y 15 mlynedd diwethaf.


Fel y gwelir yn Siart 8 mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ym mlwyddyn 9 (diwedd Cyfnod Allweddol 3) yn gyson is na'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ym mlwyddyn 6 (diwedd Cyfnod Allweddol 2) dair blynedd ynghynt.

Siart 8: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 2, 6 a 9 sy'n cael eu hasesu neu eu dysgu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf




Yn 2021/22 roedd 21.6% o ddisgyblion blwyddyn 6 yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Dair blynedd yn ddiweddarach, dim ond 18.8% o'r un garfan o ddisgyblion oedd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn amlygu'r ffaith bod dilyniant ieithyddol yn parhau'n broblem o fewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

Siart 9: Gwahaniaeth yng nghanran y disgyblion blwyddyn 2 sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf rhwng 2011/12 a 2024/25, yn ôl awdurdod lleol



(Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion)

Map 1: Canran y disgyblion blwyddyn 2 sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2024/25, yn ôl awdurdod lleol



(Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion)

Mae mwyafrif awdurdodau lleol Cymru wedi gweld cynnydd yng nghanran y disgyblion blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hyn, gwelir bod y cynnydd ers 2011/12 yn gymharol fychan yn nifer o'r awdurdodau lleol, yn enwedig o ystyried y math o gynnydd y byddai ei angen dros y pum mlynedd nesaf i gyrraedd targedau uchelgeisiol *Cymraeg 2050*.

Yn 2023/24 roedd 17.1% o ddisgyblion Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n uwch na'r ffigwr o 16.6% yn 2019/20, 15.9% yn 2014/15, ac 16.3% yn 2009/10. Yn 2023/24 roedd 23.2% o ddisgyblion Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.²² Mae hyn ychydig yn is na'r ffigwr o 23.4% ar gyfer 2019/20, ac ychydig yn uwch na'r ffigwr o 22.7% ar gyfer 2014/15 a 22.5% ar gyfer 2009/10.

Mae canran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf fel pwnc TGAU wedi aros yn gymharol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Er bod canran y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg Ail iaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, a hynny'n bennaf oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu'r cwrs byr TGAU Cymraeg Ail iaith o haf 2018 ymlaen, mae'r ganran

²² Mae'r data hwn yn cyfuno niferoedd sy'n mynychu ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yng Nghymru. Mae ysgolion dwyieithog yn cyfeirio at ysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol yn y sector cynradd, ac yn cyfeirio at ysgolion categori dwyieithog AB, BB, CB a CH ar gyfer ysgolion canol ac uwchradd. Nid oes modd cymharu data ar gyfer 2024/25 gan fod y gyfundrefn categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi newid.

hon wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ganran o ddisgyblion Cymru sydd ddim yn cofrestru ar gyfer arholiad TGAU yn y Gymraeg wedi cynyddu'n raddol yn ystod yr un cyfnod, o 13.70% yn 2019/20, i 19.60% yn 2023/24.



16.3% → 17.1%

Rhwng 2009/10 a 2023/24 gwelwyd cynnydd o 0.8 pwynt canran yng nghyfran disgyblion Cymru oedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.


22.5% → 23.2%

Rhwng 2009/10 a 2023/24 gwelwyd cynnydd o 0.7 pwynt canran yng nghyfran disgyblion Cymru oedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Siart 10: Canran y dysgwyr blwyddyn 11 sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith)

Statws cofrestru


- Heb gofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg
- Cymraeg (ail iaith)
- Cymraeg (iaith gyntaf)



(Fynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru)

Dros y 15 mlynedd diwethaf mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg Ail iaith.

Siart 11: Nifer yr ymgeisiadau ar gyfer Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg Ail iaith (disgyblion 17 oed yn unig)



Fel y dengys Siart 11, yn 2008/9 roedd 304 o ddysgwyr yn astudio Safon Uwch Cymraeg a 489 yn astudio Safon Uwch Cymraeg Ail iaith. Erbyn 2024/25 roedd y ffigyrau wedi gostwng i 165 yn astudio Cymraeg a 117 yn astudio Cymraeg Ail iaith. Yn ôl data CBAC, rhwng 2015/16 a 2023/24 gostyngodd nifer y canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr ar gyfer Safon Uwch Cymraeg o 48 i 45. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd nifer y canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr ar gyfer Safon Uwch Cymraeg Ail iaith o 71 i 55.²³

²³ CBAC, Archif Ystadegau Canlyniadau (cyrchwyd Rhagfyr 2025).

Un o'r ffactorau pwysicaf i sicrhau twf addysg Gymraeg yw gwneud yn siŵr bod mwy o athrawon yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn cynnwys targedau penodol o ran niferoedd yr athrawon y bydd eu hangen ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg i gyrraedd targedau twf addysg cyfrwng Cymraeg. Fel y dengys Tabl 3, mae'r niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd wedi aros yn weddol gyson dros y degawd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod mae'r niferoedd sy'n addysgu yn y sector uwchradd wedi cynyddu'n raddol. Er hyn, mae'r niferoedd yn sylweddol is na'r targedau sydd wedi'u gosod.

Tabl 3: Niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd²⁴

	Gwaelodlin 2015/16	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	Targedau		
						2021	2031	2050
Cynradd	2,875	2,871	2,884	2,874	2,792	3,100	3,900	5,200
Uwchradd	2,292	2,395	2,499	2,555	2,549	2,800	4,100	5,400

(Ffynhonnell: Data'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion)

Wrth edrych ar nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg yn Nhabl 4, gwelir bod y niferoedd yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Er hyn, ymddengys bod y niferoedd sy'n astudio i addysgu yn y sector cynradd wedi cynyddu dros y cyfnod adrodd ond nad yw'r niferoedd sy'n astudio i addysgu yn y sector uwchradd wedi cynyddu'n sylweddol.

Ers 2020 mae cyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) newydd rhan-amser ac ar sail cyflogaeth wedi'u darparu gan y Brifysgol Agored ar gyfer addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd mewn rhai pynciau penodol. Yn 2023/24, er enghraifft, roedd 10 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyfer y TAR rhan-amser cyfrwng Cymraeg, pob un yn y sector cynradd. Yn yr un flwyddyn roedd 10 o gofrestriadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y TAR ar sail cyflogaeth yn y sector cynradd, ac 20 ar gyfer y sector uwchradd.

²⁴ Mae'r ffigurau ar gyfer ysgolion uwchradd yn cynnwys athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ogystal ag athrawon sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 4: Nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg, yn ôl lefel yr ysgol a blwyddyn

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg yn y sector cynradd	150	145	110	95	145	190	210
Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg yn y sector uwchradd	95	90	100	75	90	145	110
Cyfanswm sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg	245	235	210	175	235	355	325
Cyfanswm sy'n hyfforddi ar gyrsiau AGA	1,310	1,245	1,200	1,065	1,080	1,680	1,610


(Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)

Yn rhan o weithredu Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad data manwl i geisio rhagweld nifer yr athrawon y bydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i gyflawni targedau *Cymraeg 2050*.²⁵ Mae'r dadansoddiad yn ystyried nifer o ffactorau gwahanol gan gynnwys y niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, y niferoedd sy'n hyfforddi i ddod yn athrawon yn flynyddol, a'r niferoedd sy'n gadael y proffesiwn yn flynyddol.

Daw'r dadansoddiad hwn i'r casgliad **bod angen 225 o athrawon uwchradd ychwanegol bob blwyddyn i'r rhai sy'n dod drwy AGA a dulliau recriwtio eraill ar hyn o bryd. Ar gyfer y sector cynradd mae angen 153 o athrawon ychwanegol bob blwyddyn**. Dim ond un rhan o'r her yw sicrhau digon o athrawon ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, a bydd cyflawni targedau *Cymraeg 2050* a gweledigaeth Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 hefyd yn gofyn am gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog ym mhob ysgol. Mae'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn dangos nad yw'r nifer o athrawon sy'n nodi eu bod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi newid llawer ers 2019/20.

²⁵ Llywodraeth Cymru, *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data - Diweddariad 2024*.


Siart 12: Nifer yr athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Mae'r cyfrifiad blynyddol hefyd yn dangos nad yw profil sgiliau iaith Gymraeg athrawon a staff cymorth yng Nghymru wedi newid llawer ers 2019/20.

(Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion)


Siart 13: Gallu athrawon yn y Gymraeg

Dim sgiliau

(Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion)

Un peth sy'n amlwg o gymharu proffil sgiliau iaith athrawon a staff cymorth yw bod canran lawer uwch o staff cymorth yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg; ac o blith y rhai sy'n nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg, bod canran uwch ohonynt ar lefelau is. Er enghraifft, yn 2024/25 roedd 25% o athrawon yn nodi eu bod yn hyfedr yn y Gymraeg, tra mai 12% oedd y ffigwr ar gyfer staff cymorth.

Siart 14: Gallu staff cymorth yn y Gymraeg



3.3 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Wrth ddadansoddi ystadegau'r pum mlynedd diwethaf, nid oes tystiolaeth amlwg o gynnydd yn erbyn deilliannau pwysicaf strategaeth *Cymraeg 2050*. Er bod y ganran sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn mynd i'r cyfeiriad cywir, **araf iawn fu'r cynnydd dros y pymtheg mlynedd diwethaf.**

Mae'r ystadegau ynghylch niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc safon uwch yn destun pryder sylweddol, ac yn yr un modd, mae'n amlwg bod **cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn her fawr.**

Y neges syml felly yw bod angen **gweld newid sylweddol, a hynny ar fyrder, os am sicrhau ein bod ar y trywydd cywir i gyflawni targedau hirdymor *Cymraeg 2050*.**

Er hyn, mae'n bwysig nodi nad yw data'r pum mlynedd diwethaf wir yn adlewyrchiad o ddatblygiad polisi yn ystod yr un cyfnod. Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o ddiwygio sylweddol ym maes addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ystod o bolisiau a deddfwriaeth sylweddol i gefnogi'r Gymraeg. Drwy gyflwyno Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 **mae'r Llywodraeth wedi gosod gweledigaeth a chyfeiriad hynod uchelgeisiol a diamwys i'r sector addysg yng Nghymru.** Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod llwybr clir a mecanweithiau deddfwriaethol pwerus er mwyn cyflawni rhai o dargedau pwysicaf strategaeth iaith y Llywodraeth. O'r safbwynt hwn mae sefyllfa'r Gymraeg heddiw yn llawer cryfach nag ydoedd bum mlynedd yn ôl.

Mae rheswm felly i fod yn obeithiol, ac i edrych ar y pum mlynedd nesaf fel cyfnod a allasai arwain at dwf sylweddol yn y niferoedd fydd yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'n gyfnod cyffrous iawn yn hanes addysg Cymru lle bydd deddfwriaeth a pholisi hynod arwyddocaol yn gwreiddio, gan gynnig cyfleoedd arbennig i ddisgyblion ac addysgwyr y dyfodol. Er mwyn sicrhau llwyddiant y rhaglen bolisi arloesol hon, mae angen sicrhau bod **polisi a deddfwriaeth feiddgar yn arwain at weithredu dwys ac effeithiol ar draws y sector addysg.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gweledigaeth a chyfeiriad polisi clir i'r sector cyfan. Does dim amheuaeth y bydd **angen i awdurdodau lleol ac ysgolion, fel y rhai sydd â'r prif gyfrifoldeb dros weithredu gweledigaeth y Llywodraeth, ymateb i'r her sydd wedi'i gosod.** Dros y cyfnod nesaf bydd angen felly i bob awdurdod lleol a phob ysgol yng Nghymru gymryd cyfrifoldeb llawn dros weithredu yn unol â gweledigaeth ac egwyddorion Deddf y Gymraeg ac Addysg.

Wrth reswm, bydd gallu awdurdodau lleol ac ysgolion i weithredu yn dibynnu ar gefnogaeth y sector addysg yn ei gyfanrwydd. Bydd angen cyllid digonol, cymwysterau addas, adnoddau priodol, a chefnogaeth i athrawon a staff cymorth. Y mater pwysicaf oll, fodd bynnag, fydd sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Heb hyn, mae'n anrffod na fydd modd i awdurdodau lleol nac ysgolion weithredu i wireddu gweledigaeth y Llywodraeth.

Mae angen i Lywodraeth Cymru felly arwain y gwaith o **sicrhau bod cynnydd sylweddol yn nifer yr athrawon fydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.** Nid yw nifer y siaradwyr Cymraeg presennol, na'r nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n deillio o'r gyfundrefn addysg gyfredol, yn debygol o arwain at ddigon o athrawon a staff cymorth er mwyn cyflawni amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg. Heb ymyrraeth sylweddol, y tebygolrwydd yw y gwelwn ni gylch

diddiwedd lle bydd prinder athrawon cyfrwng Cymraeg yn rhwystr parhaus i sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Blaenoriaeth



Rhaid mynd i'r afael yn uchelgeisiol ac ar fyrder â'r her o greu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Mae angen ymyrraeth gadarn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yn hyderus. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg yn rhan orfodol o hyfforddi, sefydlu a datblygu proffesiynol pob athro.

Mae sefydlu'r Athrofa fel rhan o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg yn ddatblygiad hollbwysig o safbwynt datblygu cwricwlwm a hyfforddiant iaith Gymraeg i athrawon. Bydd yn gyfle amlwg i adeiladu ar **Raglen Genedlaethol Dysgu Cymraeg y Gweithlu Addysg** sydd o dan arweiniad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant amrywiol a hyblyg i athrawon a chymorthyddion dosbarth ac yn cynnwys cyrsiau sabothol a lleoli tiwtoriaid mewn ysgolion sydd wedi ymrwymo i newid categori iaith. Er mwyn grymuso gwaith yr Athrofa maes o law bydd angen **sefydlu ac ehangu'r rhaglen hyfforddi hon fel ei bod yn rhan greiddiol o hyfforddi a datblygu athrawon yng Nghymru**. I

gyflawni hyn bydd angen adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i addysg gychwynnol athrawon a'r broses o gymhwyso a sefydlu fel athro, ynghyd â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amodau a safonau proffesiynol athrawon. Bydd hefyd angen sicrhau bod y Fframwaith Cenedlaethol fydd yn cael ei ddatblygu yn rhan o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg yn cynnwys darpariaethau addas ynghylch datblygu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog, ac yn amlinellu rôl allweddol awdurdodau lleol ac ysgolion yn y cyd-destun hwn.

Byddai sefydlu'r fframwaith yn cynnig cyfle i ddatblygu trefniadau monitro ac atebolrwydd cadarn, ac yn cynnig eglurder ynghylch cyfraniad partneriaid allweddol gan gynnwys darparwyr AGA, awdurdodau lleol, ysgolion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Medr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Dysgu, a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Dyma'r camau angenrheidiol fydd eu hangen er mwyn sicrhau gweithlu addysg sy'n cwrdd ag anghenion system addysg ddwyieithog yng Nghymru.



laith addysg



Ysgol 3–18 oed yw ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth, Powys. Wedi ei sefydlu yn 2014, mae hi'n draddodiadol wedi bod yn ysgol ddwy ffrwd â ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg ar wahân yno, ond mae bellach ar y ffordd i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Wrth fynd i'r cyfeiriad hwn, mae yna heriau i'w goroesi ond mae'r penderfyniad yn un synhwyrol yn ôl y Pennaeth, Dafydd Jones.



Un o'r rhesymau pennaf am y newid oedd fod ganddon ni niferoedd bach yn y ffrwd Saesneg gyda llai na 15 o blant yn dod i'r ffrwd Saesneg ym mlwyddyn 7 bron pob blwyddyn.

Hefyd, roedd nifer fawr o'r plant yn y ffrwd Saesneg yn gallu siarad Cymraeg yn dda. Fe gafodd dosbarth trochi ei sefydlu yng nghyfnod y cyn-bennaeth lle'r oedd grŵp o tua 12 yn cael athro trochi tan ddiwedd blwyddyn 9. Roedd hyn yn llwyddiant mawr gyda phlant o Loegr heb ddim Cymraeg yn astudio TGAU trwy'r Gymraeg erbyn blwyddyn 11.

Yn naturiol ddigon roedd camau ymarferol angenrheidiol ar hyd y daith oedd yn cynnwys cydweithio cyson â'r awdurdod lleol ym Mhowys, creu cynllun ymgynghori oedd yn darparu cyfle i bawb leisio'u barn a hyrwyddo'r buddiannau.

Roedd hefyd angen cywiro unrhyw ganfyddiadau ffug, yn ôl Dafydd.



Roedd nifer o rieni yn pryderu na fyddai Saesneg yn cael ei dysgu yn yr ysgol o gwbl ac roedd angen i ni bwysleisio fod y syniad o ddwyieithrwydd, ac amlieithrwydd hyd yn oed, yn rhan hanfodol o'n gweledigaeth.

Ond yn bwysicach oedd hyrwyddo'r buddiannau allai ddod yn ei sgil megis diogelu addysg uwchradd yn yr ardal a sicrhau dosbarthiadau hyfyw, heb sôn am y manteision i'r disgyblion o gael lefel uwch o sgiliau sy'n fuddiol wrth ymgeisio am swyddi, er enghraifft."

Yn sgil cyflwyno Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 gallwn ddisgwyl gweld rhagor o ysgolion yn dilyn trywydd Bro Hyddgen ond mae Dafydd yn pwysleisio'r angen i roi seilwaith addas yn ei le er mwyn sicrhau llwyddiant.

Mae'r Ddeddf yn sicr yn gadarnhaol tu hwnt ac yn dangos cyfeiriad clir i addysg yng Nghymru fydd yn y pen draw yn cryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg. Ond ni chaiff y freuddwyd ei gwireddu heb weithlu pwrpasol. Mae gen i enghreifftiau penodol ym Mro Hyddgen o'r heriau sydd ynghlwm â phenodi athrawon Cymraeg a gall hynny, heb os, gael effaith sylweddol ar nodau'r Ddeddf.

Mae angen gweld cynlluniau clir am sut allwn ni lwyddo gyda hynny ond rwy'n hyderus ei fod yn bosibl."

Mae Dafydd yn obeithiol am y dyfodol ac yn barod i annog eraill i ddilyn llwybr Bro Hyddgen.

Fy neges yn syml iawn i eraill fyddai i fynd amdani – drwy gydweithio ac ymgynghori'n bwrpasol mae'n bosibl cael y maen i'r wal ac fe fydd y siwrnai yn werth chweil. Fel athro does dim yn rhoi mwy o wefr i fi na gweld y plant yn llwyddo a pham felly na fydden ni yn rhoi'r sylfaen orau iddynt allu gwneud hynny?

4. Y sector addysg drydyddol a dysgu Cymraeg gydol oes

Un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Gymraeg heddiw yw sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cadw gfael ar eu sgiliau Cymraeg ac yn eu defnyddio a'u datblygu ar ôl gadael yr ysgol. Mae gan y sector addysg drydyddol a'r sector dysgu Cymraeg gydol oes rôl allweddol yn y cyd-destun hwn.

Y sector addysg drydyddol sy'n pontio addysg statudol a'r byd gwaith, ac mae cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gynnal a datblygu eu sgiliau wrth barhau â'u haddysg neu hyfforddiant yn hynod bwysig. Nid yn unig y mae'n cynnig cyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ond gall hefyd ddylanwadu ar ganfyddiad unigolion o bwysigrwydd yr iaith yng nghyd-destun y gweithle yng Nghymru. Gall hyn yn ei dro ddylanwadu ar batrymau defnydd ehangach.

Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd yn un o'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer cryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Rhan allweddol o hyn fydd sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn creu gweithlu â sgiliau Cymraeg i ateb y galw cynyddol, a'u bod wedi'u dosbarthu yn strategol ar draws ac o fewn sefydliadau gwahanol. Rhan arall allweddol o'r darlun hwn fydd ehangu cyfleoedd i unigolion ddysgu'r Gymraeg o'r newydd ac i eraill ddatblygu eu sgiliau drwy gydol eu hoes.

4.1 Prif ddatblygiadau a thystiolaeth

Y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith

Dros y degawd diwethaf gwelwyd pwyslais strategol cynyddol ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Y prif sbardun yn y cyd-destun hwn oedd cyhoeddi Adolygiad o Weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2017. Yn sgil cyhoeddi'r adolygiad penderfynwyd **ymestyn rôl y Coleg i gynllunio'n strategol ym maes addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith** yn ogystal â'r sector addysg uwch. Mae'r *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg* a gyhoeddwyd yn 2019 wedi bod yn sail i waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym maes addysg bellach a phrentisiaethau dros y pum mlynedd diwethaf.²⁶

Yn rhan o'r cytundeb cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn 2021, ymrwymwyd **i fuddsoddi ymhellach yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyfran y prentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg**. Mae'r arian hwn wedi galluogi'r Coleg i ddatblygu rhaglen o grantiau datblygu i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau. Mae'r sefydliadau yn defnyddio'r grantiau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy gyllido tiwtoriaid ychwanegol, sefydlu grwpiau pynciol, datblygu adnoddau, a rhannu arfer da mewn meysydd blaenoriaeth fel iechyd a gofal, gofal blynyddoedd cynnar, gwasanaethau cyhoeddus a chwaraeon a hamdden.

Buddsoddwyd hefyd yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig darpariaeth Dysgu Cymraeg i bobl ifanc 16–25 oed. Mae'r arian hwn wedi galluogi'r Ganolfan i ddatblygu rhaglen o hyfforddiant dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc gan gynnwys y rheini sydd mewn ysgolion, colegau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, prentisiaethau a thrwy weithgareddau allgyrsiol megis Cwrs Dug Caeredin, neu gwrs awyr agored. Mae hefyd wedi caniatáu'r Ganolfan i fewnosod cyrsiau dysgu Cymraeg i gyrsiau addysg drydyddol mewn meysydd o flaenoriaeth megis gofal plant, iechyd a gofal a gwaith yr heddlu.

Yn ogystal â darparu grantiau datblygu er mwyn ehangu darpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau, gwelwyd hefyd **fuddsoddiad ychwanegol i alluogi mwy o staff y sector i dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg**. Ers 2018, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnal rhaglen dysgu Cymraeg Addysg Bellach ac Addysg Uwch sy'n cynnig cyrsiau penodol ar gyfer staff y sector.


Does dim dwywaith fod y datblygiadau polisi uchod wedi cyfrannu at gynyddu'r niferoedd sy'n astudio rhywfaint o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

²⁶ Coleg Cymraeg Cenedlaethol, *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg* (Cyrchwyd Rhagfyr 2025).

Siart 15: Canran y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ôl math o ddysgu a blwyddyn academiaidd

Math o ddysgu

■ Dysgu seiliedig ar waith ■ Addysg bellach




Er bod cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n astudio'n rhannol yn y Gymraeg, mae'n bwysig nodi bod hyn yn bennaf o ganlyniad i gynydd yn y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg'.

Fel mae Siart 16 yn ei ddangos, mae'r ganran o weithgareddau dysgu mewn addysg bellach sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg' wedi cynyddu o **3.9% yn 2015/16 i 15.2% yn 2023/24, cynnydd o 11.3 pwynt canran**. Mae'r categori hwn yn cynrychioli gweithgareddau dysgu lle mae defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach o'r weithgaredd dysgu. Gwelwyd hefyd gynydd yng nghanran y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'cyfran sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg', sef gweithgaredd lle mae Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn cael eu defnyddio mewn sawl rhan o'r weithgaredd dysgu a lle mae'r asesu yn Saesneg yn bennaf.

Ni fu fawr ddim newid dros y degawd diwethaf yn y categorïau 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog'. Gwelwyd lleihad yng nghanran y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg, o **0.3% yn 2015/16 i 0.1% yn 2023/4**. Gwelwyd cynnydd bychan yng nghanran y gweithgareddau dysgu dwyieithog, o **2.3% yn 2015/16 i 2.4% yn 2023/24**.

Siart 16: Gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach, yn ôl cyfrwng iaith y ddarpariaeth, ac eithrio dysgu seiliedig ar waith²⁷

Cyfrwng iaith





²⁷ Mae'r ffigurau ar ochr dde'r graff yn dangos y cynnydd/lleihad yng nghanran y gweithgareddau ym mhob categori rhwng 2015/16 a 2023/24.

Yr un yw'r sefyllfa i bob pwrpas mewn dysgu seiliedig ar waith, lle nad oes fawr ddim wedi newid yng nghanran y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, a chyfran sylweddol o ddysgu cyfrwng Cymraeg. Er hyn, mae cynnydd sylweddol wedi bod yng nghanran y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg'.

Siart 17: Gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn dysgu seiliedig ar waith, yn ôl cyfrwng iaith y ddarpariaeth ²⁸

Cyfrwng iaith



Mae'r data hefyd yn dangos nad yw nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl.

²⁸ Mae'r ffigyrau ar ochr dde'r graff yn dangos y cynnydd/lleihad yng nghanran y gweithgareddau ym mhob categori rhwng 2015/16 a 2023/24.





O'r **35,800** o siaradwyr Cymraeg rhugl oedd mewn addysg bellach yn 2023/24, roedd **20,550** ohonynt yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Mae dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Fel y gwelir yn Siart 18, ac eithrio gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg', does fawr ddim newid wedi bod yn nifer y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cyflwyno i siaradwyr Cymraeg rhugl yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog dros y pum mlynedd diwethaf.

Siart 18: Canran y gweithgareddau dysgu a gyflawnir gan siaradwyr Cymraeg rhugl mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith rhwng 2019/20 a 2023/24, yn ôl cyfrwng iaith dysgu

Cyfrwng iaith



(Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru)

Er ei bod yn anodd cymharu'n uniongyrchol ddata o'r sector statudol â data o'r sector addysg drydyddol, ar lefel gyffredinol mae data o'r sector statudol a'r sector addysg drydyddol yn amlygu bod **gostyngiad mawr yn y niferoedd sy'n astudio cyfran sylweddol o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol o gymharu â'r sector statudol**. Er enghraifft, yn 2021/22 roedd 18% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghymru wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf. Roedd 71% o'r disgyblon hyn wedi eu cofrestru ar gyfer o leiaf 5 cymhwyster Lefel 1 neu 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.²⁹ Mae ystadegau Llywodraeth Cymru ar weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg ôl-16 yn 2021/22 yn dangos mai 5.3% o weithgareddau dysgu oedd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.³⁰ Mae data diweddar a rannwyd gan Medr yn dangos fod y ganran o weithgareddau dysgu mewn addysg ôl-16 oedd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng i 4.4% yn 2023/24. Mae'r data hefyd yn dangos bod mwyafrif y ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg hwn yn cael ei gynnig yn y chweched dosbarth mewn ysgolion. Yn 2021/22 roedd 15.2% o weithgareddau dysgu yn y chweched dosbarth mewn ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg, tra mai 0.2% oedd y ffigur ar gyfer addysg bellach, a 0.5% ar gyfer dysgu seiliedig ar waith.³¹

Dengys y data hefyd fod **cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgol wedi gostwng o 42% yn 2017/18 i 37% yn 2024/25**. Mae cyfran y dysgwyr sy'n dewis mynychu colegau addysg bellach wedi cynyddu o 48% i 56% yn yr un cyfnod.³² Mae data Llywodraeth Cymru hefyd yn dangos bod y niferoedd sy'n mynychu'r chweched dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi bod yn gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf.³³ Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer y dysgwyr sy'n mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol wedi cynyddu'n raddol ers 2018/19.³⁴ Mae llai o ddisgyblion felly'n mynd i'r chweched dosbarth mewn ysgolion lle mae mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a mwy yn mynd i golegau addysg bellach lle, ar y cyfan, mae llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Y sector addysg uwch

Y tu hwnt i'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, mae'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi parhau i ddarparu grantiau i gefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch**. Nid yw'r Coleg yn ariannu swyddi darlithwyr yn uniongyrchol ond yn hytrach yn darparu grantiau pynciol a grantiau sbarduno er mwyn cefnogi prifysgolion i ddatblygu modiwlau a chyrsgau yn y Gymraeg.

Mae **cynllun ysgoloriaethau israddedig y Coleg** yn parhau i gynnig grantiau i fyfyrwyr sy'n astudio cyfran o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg hefyd yn **ariannu tua 10 ysgoloriaeth ymchwil y flwyddyn**, sy'n galluogi myfyrwyr ôl-raddedig i wneud doethuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgoloriaethau ymchwil hyn wedi bod yn gyfrwng allweddol i **feithrin y genhedlaeth nesaf o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg**.

²⁹ Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion; gweler crynodeb yn [Adroddiad Blynyddol Cymraeg 2050, 2022-23](#).

³⁰ Llywodraeth Cymru, [Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 19 i 30 Mehefin 2023 | LLYW.CYMRU](#) (Gorffennaf 2023).

³¹ Eto dylid pwysleisio bod gwahaniaethau yn y ffyrdd mae'r data yn cael ei gofnodi mewn ysgolion o gymharu â'r sector addysg bellach.

³² Medr, [Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025](#) (Chwefror 2025).



³³ Llywodraeth Cymru, [Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 11 i 22 Awst 2025 | LLYW.CYMRU](#) (Medi 2025).

³⁴ Medr, [Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025](#) (Chwefror 2025).

Er bod y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch wedi cynyddu'n sylweddol ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, mae'r sefyllfa wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf, â pheth gostyngiad erbyn 2023/24.

Siart 19: Nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl nifer y credydau³⁵

Nifer y credydau



(Ffynhonnell: Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)

Mae'r niferoedd sy'n astudio yn y Gymraeg wedi gostwng ym mhob un o'r categorïau dros y tair blynedd diwethaf, ac mae hynny'n wir wrth gyfrifo'r niferoedd fel canran o'r holl fyfyrwyr yn ogystal.³⁶ Dylid nodi, fodd bynnag, fod canran y siaradwr Cymraeg sy'n dewis astudio o leiaf 5 credyd neu o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gymharol gyson dros y cyfnod adrodd.

³⁵ Mae'r canrannau'n seiliedig ar holl gofrestrïadau'r flwyddyn honno.

³⁶ Dylid nodi bod Medr yn rhybuddio bod anghysondeb posibl rhwng darparwyr o ran sut maent yn dychwelyd data ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut y caiff modiwlau cyfrwng Cymraeg eu hadnabod ac o ran sut caiff canrannau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg eu cyfrifo. Gall hyn fod yn rhannol gyfrifol am newidiadau yn nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg. Mae Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda darparwyr i wella cysondeb y data hwn.

Yn ôl data 2023/24³⁷ gwnaeth tua 30% o'r myfyrwyr oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl astudio o leiaf 1 credyd yn y Gymraeg. **Golyga hyn fod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg rhugl na astudiodd unrhyw ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Tabl 5: Nifer y credydau a astudiwyd yn y Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn 2023/24 yng Nghymru


	O leiaf 1	O leiaf 5	O leiaf 40	O leiaf 80	O leiaf 120	Pob myfyriwr
Siaradwyr Cymraeg rhugl	2,735	2,635	1,890	990	610	9,060

(Ffynhonnell: Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)

Siart 20: Staff addysgu academiaidd yn ôl p'un a oeddent yn gallu a/neu wedi eu contractio i addysgu yn y Gymraeg

Nifer y credydau

Yn gallu addysgu yn Gymraeg Yn addysgu yn Gymraeg



(Ffynhonnell: Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)

³⁷ Medr, Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2023/24 (27 Tachwedd 2025).

Mae nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg, ac sydd wedi'u contractio i addysgu yn y Gymraeg, wedi aros yn gymharol gyson dros y pum mlynedd diwethaf, â pheth gostyngiad erbyn 2023/24.

Mae'n drawiadol bod cyfran uchel o fyfyrwyr o Gymru yn astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru, tra bod mwyafrif helaeth yr israddedigion o Loegr a'r Alban yn aros yn eu gwledydd i astudio.³⁸



Yn 2023/24 roedd **71%** o fyfyrwyr o Gymru yn astudio mewn prifysgolion yng Nghymru. Roedd **28%** yn astudio yn Lloegr.

Roedd **96%** o fyfyrwyr o Loegr yn astudio yn Lloegr, **94%** o fyfyrwyr o'r Alban yn astudio yn yr Alban, a **78%** o fyfyrwyr o Ogledd Iwerddon yn astudio yng Ngogledd Iwerddon.

Yn ôl ystadegau UCAS, roedd 50% o ddisgyblion oedd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddechreuodd yn y brifysgol yn 2025 wedi gadael Cymru.³⁹ Roedd 49% ohonynt wedi mynd i astudio mewn prifysgolion yn Lloegr, ac 1% i brifysgolion yn yr Alban lle nad oes cyfleoedd iddyn nhw barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dysgu a datblygu sgiliau Cymraeg gydol oes

Dros y cyfnod adrodd mae rôl a chyfrifoldebau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi ehangu'n sylweddol. Mae'r Ganolfan yn chwarae rhan bwysig yn yr ymdrechion i greu mwy o siaradwyr Cymraeg ac i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Roedd **buddsoddi ymhellach yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** yn un o ymrwymïadau cytundeb cydweithio Llafur a Phlaid Cymru yn 2021. Mae'r cyllid ychwanegol wedi galluogi'r Ganolfan i weithredu cynllun Ymlaen Gyda'r Dysgu sy'n cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16–25 oed ac i'r gweithlu addysg. **Yn ystod 2023–24 derbyniodd 1,633 o bobl ifanc 16–25 oed a 500 o'r gweithlu sector addysg wersi Cymraeg am ddim.**⁴⁰

Mae'r Ganolfan hefyd wedi **parhau i ddatblygu rhaglenni dysgu Cymraeg ar gyfer gweithleoedd. Datblygiad arwyddocaol a llwyddiannus yn y cyd-destun hwn oedd y cyrsiau sectorol** lle gwelir nifer o diwtoriaid llawn amser yn gweithio'n strategol i gynyddu sgiliau a defnydd o'r iaith mewn sectorau penodol sy'n amrywio o iechyd a gofal i chwaraeon. Gall y gweithluoedd hyn fanteisio ar gyrsiau ar bob lefel – o gyrsiau blasu i ddarpariaeth codi hyder a chysiau preswyl dwys ar wahanol lefelau. Mae'r hyfforddiant hwn yn cyfrannu at alluogi cyrff i ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'r cyhoedd.


³⁸ Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ynghylch llif trawsffiniol myfyrwyr addysg uwch yn y Deyrnas Unedig (20 Mawrth 2025).

³⁹ Gweler 'Testun pryder' bod 50% o fyfyrwyr Cymraeg wedi gadael Cymru - BBC Cymru Fyw.

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Adroddiad blynyddol 2023-24.

Ers sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2016 gwelwyd cynnydd **amlwg a sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg**. Mae data 2023/24 yn adrodd ar y nifer uchaf o ddysgwyr unigryw a gweithgareddau dysgu ers i'r Ganolfan ddechrau cyhoeddi data yn 2017. Mae'r data yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r holl ddysgwyr (84%) o fewn oedran gweithio (16–64 oed) ac mae'r data diweddaraf o 2023/24 yn dangos cynnydd sylweddol (21%) yn nifer y bobl ifanc 16–25 oed sy'n dysgu Cymraeg.⁴¹

Siart 21: Nifer y dysgwyr unigryw, ar gyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol⁴²




(Ffynhonnell: Ystadegau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, System data Dysgu Cymraeg)

Fel mae Siart 22 yn ei ddangos, mae'r cynnydd cyffredinol hwn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau lefel mynediad. Roedd **6,000** yn fwy o ddysgwyr yn **2023/24 o gymharu â 2017/18**, ac mae bron i **5,000 o'r rhain ar lefel dysgu mynediad**. Mae'r siart yn amlygu bod llawer llai o bobl yn astudio ar lefel sylfaen o gymharu â lefel mynediad, ac ar y cyfan mae'r niferoedd yn parhau i ostwng ar lefelau uwch. Er gwaetha'r cynnydd cadarnhaol mewn niferoedd sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg felly, mae'n destun pryder bod cynifer yn peidio â symud ymlaen i gyrsiau uwch, sef y cyrsiau fyddai'n eu galluogi i ddatblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

⁴¹ Data a gafwyd yn uniongyrchol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

⁴² Nid yw cyfanswm niferoedd y dysgwyr yn adlewyrchu niferoedd y dysgwyr unigryw gan fod modd i ddysgwyr ddilyn mwy nag un cwrs ar lefelau gwahanol yn ystod y cyfnod dan sylw.

Siart 22: Nifer y dysgwyr fesul lefel dysgu⁴³

Yn 2023/24 roedd 62% o'r dysgwyr ar lefel mynediad, 13% ar lefel sylfaen, 10% ar lefel canolradd, 10% ar lefel uwch, a 5% ar lefel hyfedredd. Yn yr un flwyddyn roedd 29% o'r dysgwyr yn dysgu mewn dosbarth wyneb yn wyneb, 41% yn dysgu mewn dosbarth rhithiol, 23% yn hunan astudio, 3% yn dysgu drwy ddulliau cyfunol, a 3% ar gyrsiau preswyl.

Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a dyfodiad Medr

Cyfeiriwyd eisoes at arwyddocâd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yng nghyswllt y sector addysg statudol, ond **mae gan y ddeddfwriaeth oblygiadau pwysig o ran y sector addysg drydyddol yn ogystal**. Mae'r sector addysg drydyddol wedi'i gynnwys yn rhan o'r hyn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei ystyried yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, ac y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ystyried wrth lunio Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg. Mae bwriad hefyd bod y cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio i hwyluso datblygiad unigolion ar hyd y continwwm dysgu Cymraeg gydol oes.

⁴³ Nid yw cyfanswm niferoedd y dysgwyr yn adlewyrchu niferoedd y dysgwyr unigryw.

Mae'r Ddeddf hefyd yn **sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol** fydd yn gyfrifol am ddarparu arweiniad a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg gyfan. Bydd sefydlu'r Athrofa yn adeiladu ar lwyddiannau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac yn ymestyn cyfrifoldebau presennol y Ganolfan yn sylweddol.

Does dim dwywaith mai'r prif ddatblygiad i'r sector addysg drydyddol dros y pum mlynedd diwethaf oedd **dyfodiad Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**. Mae sefydlu'r Comisiwn yn dwyn ynghyd y cyfrifoldeb am gynllunio strategol, goruchwyllo a chyllido addysg drydyddol. Mae'r strwythur newydd hwn yn **creu system addysg drydyddol fwy integredig a chydlynol ac yn cynnig cyfleoedd amlwg i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog** ar draws y sector ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd.

Un o **ddyletswyddau strategol Medr yw annog y galw am, a chyfranogiad mewn, addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg** a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o ddarpariaeth Gymraeg i ateb y galw. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi'i ddynodi fel y corff fydd yn cynghori Medr ar y dyletswyddau hyn.

Mae Medr eisoes wedi cyhoeddi ei gynllun strategol cyntaf ar gyfer 2025–30, ac mae hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r blaenoriaethau strategol. Yn rhan o hyn mae Medr wedi ymrwmo i **ddatblygu a gweithredu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol** yn ei gyfanrwydd. Bydd y **Gymraeg hefyd yn un o amodau cofrestru ac ariannu darpariaeth drydyddol yng Nghymru**, sy'n dangos yn glir fwriad Medr i ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio er mwyn cyflawni ei amcan strategol o safbwynt y Gymraeg.

4.2 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o safbwynt ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dros y pum mlynedd diwethaf, mae ffordd bell i fynd er mwyn sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr wrth iddynt barhau â'u haddysg neu hyfforddiant. **Dros y cyfnod adrodd ni welwyd cynnydd ystyrlon yn nifer y dysgwyr sy'n astudio'n gyfan gwbl neu gyfran helaeth o'u haddysg neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.** Yn gyffredinol, mae **diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol.**⁴⁴

Mae'r sector addysg drydyddol yn cychwyn o waelodlin isel, sy'n golygu bod cyfle **gwirioneddol i fuddsoddi a chynllunio'n strategol mewn ffordd fydd yn esgor ar newidiadau arwyddocaol dros y cyfnod nesaf.** Fel y nodwyd eisoes, mae hwn yn faes strategol hynod bwysig, ac yn rhan hanfodol o'r ateb i'r her o sicrhau dilyniant ieithyddol a chreu amodau mwy ffafriol i gefnogi defnydd iaith unigolion ar ôl iddynt adael addysg statudol.

Er mai cymharol gyfyngedig fu'r cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg drydyddol dros y cyfnod adrodd, gwelwyd datblygiadau hynod arwyddocaol o safbwynt deddfwriaeth a pholisi. Mae bodolaeth Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn golygu bod sail ddeddfwriaethol llawer cadarnach i ddatblygiad addysg Gymraeg yn y sector addysg drydyddol. **Yr her nawr fydd sicrhau bod yr amodau mwy ffafriol hyn yn arwain at gynnydd arwyddocaol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg drydyddol drwyddi draw.** Bydd rôl allweddol gan Medr fel y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio a chyllido addysg drydyddol yng Nghymru i gyflawni hyn a bydd yn hanfodol eu bod nhw'n defnyddio eu grym rheoleiddio i'r eithaf er mwyn ysgogi newid.

Yn hyn o beth, mae **ymrwymiad Medr i greu cynllun cenedlaethol i'r Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol, a'u penderfyniad i gynnwys y Gymraeg yn elfen greiddiol o'u fframwaith rheoleiddio yn ddatblygiad arwyddocaol.** Wrth reswm, mae gwaith sylweddol i'w wneud i ddatblygu'r cynllun cenedlaethol ac i sicrhau bod darparwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i ehangu darpariaeth Gymraeg ac i annog mwy o ddysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Er bod nifer helaeth o faterion i'w hystyried yn y cyd-destun hwn mae rhai o'r blaenoriaethau mwyaf allweddol yn cynnwys:

- **codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddefnyddio eu Cymraeg** wrth iddynt barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant, a **phwysleisio pwysigrwydd a gwerth y Gymraeg i'w gyrfaeod** yn y dyfodol
- ar sail y cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg fydd yn cael ei ddatblygu yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg, sicrhau **dull o fesur sgiliau Cymraeg dysgwyr ar gychwyn addysg neu hyfforddiant trydyddol** i alluogi darparwyr i gynllunio'n briodol i gynnig darpariaeth addas i bob dysgwr ac i fesur cynnydd

⁴⁴ Gweler adroddiad **Comisiynydd y Gymraeg ar addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg**, a hefyd adroddiad diweddar Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16.

- **blaenoriaethu meysydd a sectorau pwysig**, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu mwy o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- **cynyddu capasiti'r gweithlu** sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- **ehangu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg**, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth
- diwygio systemau cyllido a chynllunio rhanbarthol er mwyn cymell cydweithio a sefydlu **partneriaethau strategol rhwng sefydliadau ôl-16 ac ysgolion gan atgyfnerthu'r ddarpariaeth gref sy'n bodoli mewn ysgolion ar hyn o bryd.**

Dros y pum mlynedd nesaf mae angen **manteisio i'r eithaf ar botensial enfawr y sector addysg drydyddol i gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwr**, a thrwy hynny gyfrannu at greu unigolion sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith ac yn eu cymunedau. Ni fydd modd gwneud hyn heb gynllunio strategol uchelgeisiol a sicrhau buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dros y cyfnod nesaf.

Un peth sy'n amlwg o'r dystiolaeth yw **bod ymdrechion hyd yma wedi llwyddo'n bennaf mewn perthynas â chynyddu'r niferoedd sy'n astudio cyfran gymharol fechan o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg**. Bydd cyflawni polisi ehangach y Llywodraeth hefyd yn gofyn am gynyddu'n sylweddol y niferoedd sy'n gadael y sector addysg drydyddol yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae dilyniant ieithyddol yn her yn y sector dysgu Cymraeg gydol oes hefyd. Mae gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cynyddu'n sylweddol y niferoedd sy'n dod i gysylltiad cychwynnol â'r Gymraeg a'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ymhellach, a hynny drwy weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau mewn sectorau arwyddocaol.

Mae nifer o argymhellion eraill yr adroddiad yn tystio i bwysigrwydd adeiladu ar y gwaith hwn dros y cyfnod nesaf a sianelu adnoddau yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn dysgu Cymraeg gydol oes yn datblygu siaradwyr hyderus fydd yn cwrdd ag anghenion y gweithlu ac yn gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, yn arbennig mewn sectorau allweddol megis y sector addysg, a'r sector iechyd a gofal. Mae'n gadarnhaol, wrth gwrs, bod mwy o bobl wedi cael cyfleoedd cychwynnol i ddysgu'r Gymraeg ar lefel mynediad ac mewn cyrsiau blasu tymor byr ond mae'r data yn **dangos yn glir bod angen i lawer mwy o'r unigolion hyn symud yn eu blaenau i lefelau uwch os am greu gwahaniaeth gwirioneddol yn y niferoedd sy'n caffael y Gymraeg y tu hwnt i gyfnod addysg statudol. Datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr ar lefel uwch sydd hefyd fwyaf tebygol o greu siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol yn ein cymunedau a'n gweithleoedd.**

Blaenoriaeth



Rhaid sicrhau bod cyfle i bob dysgwr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. I wneud hyn, mae angen buddsoddi'n briodol, a rhoi rhagor o bwyslais strategol ar sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn cyfran uwch o'u haddysg a'u hyfforddiant drwy'r Gymraeg. Rhaid i'r sector flaenoriaethu cynyddu'r ganran o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

Rhan 3: Cynyddu defnydd



Er mor bwysig yw cynyddu nifer y siaradwyr, rhaid peidio ag anghofio ail thema strategol *Cymraeg 2050*, sef cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Wedi'r cyfan, does dim pwynt creu siaradwyr Cymraeg oni bai bod yr unigolion hynny yn gallu, ac yn dewis, defnyddio'r iaith. Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, mae angen iddi gael ei defnyddio'n rheolaidd ac yn naturiol ar hyd a lled Cymru ac mewn cyd-destunau amrywiol.

Er nad yw'r cyfrifiad yn casglu data uniongyrchol am ddefnydd iaith, **mae perthynas agos rhwng materion fel dwysedd siaradwyr mewn ardal, neu ruglder siaradwyr Cymraeg, a defnydd o'r iaith.** Un o'r prif ffynonellau sy'n darparu tystiolaeth uniongyrchol am y defnydd o'r Gymraeg yw Arolwg Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru.¹ Cafodd yr arolwg diwethaf ei gynnal rhwng Gorffennaf 2019 a Mawrth 2020, a chyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg mewn cyfres o fwletinau ystadegol rhwng 2022 a 2024. Nid yw data'r arolwg yn perthyn yn uniongyrchol i'r pum mlynedd diwethaf felly, ond hyd nes y cawn ni arolwg diweddarach, ymdrinnir â data Arolwg Defnydd Iaith 2019–20 fel pe bai'n disgrifio'r sefyllfa heddiw.

Bydd y penodau sy'n dilyn yn rhoi sylw i'r data meintiol sy'n deillio o'r arolwg hwn ac o arolygon eraill fel Arolwg Cenedlaethol Cymru,² yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth,³ a'n hymchwil ninnau yn swyddfa'r Comisiynydd ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.⁴ Byddwn hefyd yn edrych ar y datblygiadau polisi perthnasol dros y cyfnod adrodd, gan amlygu eto'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd mae'r Comisiynydd yn eu hadnabod ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Prif nod statudol Comisiynydd y Gymraeg yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Yma felly, **fe ystyriwn y dystiolaeth a gasglwn am ddefnydd iaith wrth inni weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac wrth weithio â'r sector preifat a'r trydydd sector.** Trwy arolygon gwirio (siopwr cudd), grwpiau trafod, arolygon barn a chyswllt rheolaidd â sefydliadau, ceir darlun manwl o brofiadau defnyddwyr ac o gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau. Mae hyn yn rhoi mewnwleidiad uniongyrchol inni o gyfraniad sefydliadau at greu Cymru lle mae modd byw yn Gymraeg ac hefyd o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Yn yr adran hon, ceir trosolwg o'r dystiolaeth sydd gennym ac amlygir y blaenoriaethau a'r cyfleoedd i waith y Comisiynydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

¹ Arolwg defnydd iaith | LLYW.CYMRU.

² Gallu siarad yn y Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU.

³ Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | LLYW.CYMRU.

⁴ Comisiynydd y Gymraeg, *Y defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc* (Medi 2025).


1. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a chynllunio ieithyddol cymunedol

Mae'r cyfrifiad yn dangos mai un o'r prif heriau sy'n bodoli i'r Gymraeg heddiw yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cadw gafael ar eu Cymraeg ar ôl gadael y system addysg. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod nifer sylweddol o blant a phobl ifanc sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol yn colli gafael ar eu sgiliau wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'n debygol mai un o'r prif resymau dros hyn yw diffyg defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu allan a thu hwnt i'r gyfundrefn addysg. Nid yw'n syndod felly fod cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn ganolog i ymdrechion cynllunio ieithyddol yng Nghymru heddiw.

1.1 Y dystiolaeth

Ail darged Strategaeth Cymraeg 2050 yw dyblu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, o 10% yn 2013–15 i 20% erbyn 2050. Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2019–20, roedd 10% o bobl tair oed neu hŷn yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau. Nid oes newid wedi bod ers 2013–15 felly. Wrth edrych ar boblogaeth Cymru gyfan, waeth beth fo lefelau eu rhuglder, gwelir bod 12% yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, sef union yr un ffigur ag a adroddwyd yn 2013–15.

Siart 1: Amllder siarad Cymraeg ymhlith y boblogaeth tair oed neu hŷn





Mae'r ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob wythnos (4%) a'r rheini sydd byth yn siarad Cymraeg (1%) hefyd wedi aros yn gyson â chanlyniadau arolwg 2013–15. Gostyngodd y rhai oedd yn adrodd eu bod yn siarad Cymraeg yn llai aml na phob wythnos o un pwynt canran i 4%.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am ba mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith, ac yn adrodd patrymau tebyg i'r Arolwg Defnydd Iaith. Adroddodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025 fod 13.8% o bobl tair oed neu hŷn yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, 5.3% yn wythnosol a 6.7% yn llai aml, â 1.2% yn dweud nad ydynt byth yn siarad Cymraeg er eu bod yn gallu gwneud.⁵

Ymhlith siaradwyr Cymraeg, mae'r ganran sy'n siarad yr iaith bob dydd wedi gostwng ers 2004–06, ond wedi cynyddu rhywfaint ers 2013–15. Yn 2019–20 roedd dros hanner y siaradwyr Cymraeg yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Siart 2: Amllder siarad Cymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg tair oed neu hŷn

Amllder



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2004–06, 2013–15, a 2019–20)

Casgliadau allweddol

- Nid oes fawr ddim newid wedi bod ym mha mor aml mae'r boblogaeth gyfan yn defnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r ganran o **siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r iaith bob dydd wedi cynyddu ychydig ers 2013–15**, ond wedi **gostwng ers 2004–06**.

⁵ Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Amllder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn.


Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn dangos yn glir bod patrymau defnydd iaith yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ffactorau megis oedran siaradwyr, eu rhuglder a'u hyder yn y Gymraeg, lle a phryd wnaethon nhw ddysgu'r iaith, a ble maen nhw'n byw.

Oedran

Wrth edrych ar y defnydd o'r Gymraeg yn ôl oedran, gwelir bod plant a phobl ifanc 3–15 oed yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae'n debygol fod hyn yn dangos pwysigrwydd yr ysgol yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Siart 3: Amllder siarad Cymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

O gymharu â chanlyniadau Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 gwelir **bod y ganran o blant a phobl ifanc 3–15 oed sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd wedi cynyddu o 59% i 67%, a chanran yr unigolion 16–29 oed sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd wedi cynyddu o 39% i 45%**. Mae defnydd dyddiol o'r Gymraeg wedi aros yn gymharol gyson yn y grwpiau oedran eraill.

Rhuglder a hyder yn y Gymraeg


Nid yw'n syndod bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. Er enghraifft, yn arolwg 2019–20 roedd 85% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. 42% o'r rhai oedd yn nodi eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, 24% o'r rhai oedd yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, ac 17% o'r rhai oedd yn gallu dweud ychydig o eiriau yn unig.

Fel y gwelir yn Siart 4, mae canran y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi aros yn gymharol gyson rhwng 2013–15 a 2019–20, wedi gostyngiad o 10 pwynt canran rhwng 2004–06 a 2019–20. Mae'r ganran sy'n siarad cryn dipyn o Gymraeg wedi aros yn gymharol gyson ers 2004–06, ac mae cynnydd wedi bod yn y ganran sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg ac yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig. Yn 2019–20 roedd 48% o siaradwyr Cymraeg yn disgrifio eu hunain yn rhugl, 20% yn nodi eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, 24% yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, ac 8% yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig.

Siart 4: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed neu hŷn yn ôl rhuglder

Rhuglder


- Rwy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg
- Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg
- Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2004–06, 2013–15, a 2019–20)

Ceir hefyd gysylltiad clir rhwng hyder i siarad Cymraeg a rhuglder ac amllder defnyddio'r iaith. Fel y gwelir yn Siart 5, ymhlith holl siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn, roedd 40% yn nodi eu bod yn hyderus iawn yn siarad Cymraeg. Roedd 24% yn eithaf hyderus, 23% ddim yn hyderus iawn, ac 11% ddim yn hyderus o gwbl. O'r rhai sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd, roedd 68% ohonynt yn nodi eu bod yn hyderus iawn wrth siarad Cymraeg. Roedd 77% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn hyderus iawn wrth siarad Cymraeg.


Siart 5: Hyder siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn wrth siarad yr iaith, yn ôl siaradwyr sy'n defnyddio'r iaith bob dydd a'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn rhugl yn yr iaith



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Ble mae unigolion wedi dysgu'r Gymraeg

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2019–20 yn dangos bod 43% o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r iaith gartref yn blant ifanc, 20% wedi dysgu'r iaith mewn ysgol feithrin neu ddarpariaeth gofal plant, 20% mewn ysgol gynradd, 6% yn yr ysgol uwchradd, ac 11% fel oedolion.

Siart 6: Pryd y dechreuodd siaradwyr Cymraeg ddysgu siarad yr iaith

(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Fel sydd eisoes wedi'i grybwyll yn Rhan 2, mae shift sylweddol wedi bod dros yr hanner canrif diwethaf o'r cartref i'r ysgol fel prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg newydd. Felly, mae canran sylweddol lai o blant ifanc heddiw wedi dysgu'r iaith ar yr aelwyd, a chanran sylweddol fwy wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol.



Mae **69%** o siaradwyr Cymraeg 65 oed neu hŷn wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd.


Y ffigwr cyfatebol ar gyfer siaradwyr Cymraeg 3–15 oed yw **31%**: mae **69%** o'r grŵp oedran hwn felly wedi dysgu'r Gymraeg yn y gyfundrefn addysg.

Fel yn achos siaradwyr Cymraeg rhugl, mae'r unigolion sydd wedi dysgu'r Gymraeg gartref fel plant ifanc hefyd yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg, â 82% o'r unigolion hynny'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mewn cymhariaeth, gwelir mai 32% o unigolion oedd wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol gynradd oedd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Lleoliad

Fel y gwyddom, mae dwysedd a chanran siaradwyr Cymraeg yn amrywio rhwng ardaloedd gwahanol yng Nghymru, ac mae hyn yn cael eu amlygu mewn patrymau defnydd iaith hefyd. Er enghraifft, roedd siaradwyr Cymraeg dros 16 oed yng ngogledd-orllewin Cymru yn llawer mwy tebygol na siaradwyr Cymraeg gweddill Cymru o fod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Siart 7: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd, yn ôl rhanbarth




(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd iaith 2019–20)

Er nad yw Arolwg Defnydd iaith 2019–20 yn adrodd ar ganlyniadau fesul awdurdod lleol, mae modd gweld data am ddefnydd y Gymraeg fesul awdurdod lleol yn yr arolygon blynyddol o'r boblogaeth. Mae'r arolwg ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ym Mehefin 2025 yn dangos mai'r siroedd â'r canrannau uchaf o bobl yn adrodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol oedd Gwynedd (64%), Ynys Môn (48%), Ceredigion (38%) a Sir Gaerfyrddin (32%). Mae'r ystadegau'n adlewyrchu'r tueddiadau rhanbarthol a welwn yn yr Arolwg Defnydd iaith.

Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn ategu rhai o ganfyddiadau Prosiect Bro ynghylch arwyddocâd ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg o ran y potensial ar gyfer defnydd cymdeithasol o'r iaith. Fel sydd wedi'i nodi eisoes, mae canlyniadau'r cyfrifiad, a dadansoddiad manwl Prosiect Bro o'r canlyniadau hyn, yn dangos bod sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr yn gwanhau.

Siart 8: Amllder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol



Awdurdod lleol

Gwynedd

Ynys Môn

Ceredigion

Sir Gaerfyrddin

Conwy

Sir Ddinbych

Powys

Wrecsam

Bro Morgannwg

Casnewydd

Castell-nedd Port Talbot

Caerdydd

Sir Fynwy

Sir Benfro

Abertawe

Torfaen

Pen-y-bont ar Ogwr

Rhondda Cynon Taf

Caerffili

Merthyr Tudful

Sir y Fflint

Blaenau Gwent

0

10

20

30

40

50

60

70

80

Canran

(Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ym Mehefin 2025)

Casgliadau allweddol



- Mae'r **defnydd o'r Gymraeg** mewn gwahanol gyd-destunau **yn llawer uwch ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl**, ymysg y **rhai sydd wedi dysgu'r Gymraeg gartref fel plant ifanc**, ac mewn **ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr**.
- Mae newidiadau arwyddocaol wedi bod yn nemograffeg siaradwyr Cymraeg. Mae **llai o siaradwyr Cymraeg rhugl heddiw nag oedd yna ddeng mlynedd yn ôl**, er enghraifft. Mae **shifft amlwg wedi bod o'r cartref i'r ysgol fel prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg** newydd. Gwyddom hefyd fod **dwysedd siaradwyr yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn lleihau**. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o greu **amodau llai ffafriol** ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg.

Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn gofyn i siaradwyr Cymraeg am allu eu teulu estynedig, eu ffrindiau, ac aelodau o'r gymdeithas leol i siarad Cymraeg. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi darlun defnyddiol o'r cyfleoedd sy'n bodoli i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith.

Siart 9: Gallu grwpiau cymdeithasol siaradwyr Cymraeg yn y Gymraeg

Gallu yn y Gymraeg




(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Fel y gwelir yn Siart 9, mae 52% o siaradwyr Cymraeg yn nodi bod o leiaf hanner eu teulu estynedig yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd 56% o siaradwyr Cymraeg bod o leiaf hanner eu ffrindiau yn gallu siarad Cymraeg, a dywedodd 53% bod o leiaf hanner y bobl yn eu cymuned leol yn gallu siarad Cymraeg.

Gellir cymharu'r cyfleoedd hyn sydd gan siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ag ystadegau am ba iaith mae siaradwyr Cymraeg yn ei defnyddio fel arfer â'r grwpiau cymdeithasol hyn. Gwelir bod unigolion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf â'u teulu (28%) o gymharu â'u ffrindiau (21%) a'r gymuned leol (19%). Yn gyffredinol felly, **mae'r data yn awgrymu nad yw siaradwyr Cymraeg wastad yn manteisio ar gyfleoedd i defnyddio'r Gymraeg â'u teulu, eu ffrindiau, a'u grwpiau cymdeithasol ehangach.**

Siart 10: Yr iaith a siaredir fel arfer gan siaradwyr Cymraeg â grwpiau cymdeithasol




Roedd siaradwyr Cymraeg dros 16 oed yng ngogledd-orllewin Cymru yn llawer mwy tebygol na siaradwyr Cymraeg yng ngweddill Cymru i ddweud bod o leiaf hanner eu grwpiau cymdeithasol yn gallu siarad Cymraeg (teulu estynedig: 77% ohonynt, ffrindiau: 81% ohonynt, a phobl yn y gymuned leol: 85% ohonynt). Mae'r ffigyrau hefyd yn dangos bod **siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u grwpiau cymdeithasol**. Er enghraifft, mae 51% o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru yn siarad Cymraeg yn bennaf neu bob amser â'u teulu estynedig, 44% â'u ffrindiau, a 46% â phobl yn eu cymuned leol.

Nid yw'n syndod chwaith bod siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai sy'n siarad Cymraeg bob dydd, a'r rhai oedd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd fel plant ifanc yn llawer mwy tebygol o ddweud bod o leiaf hanner nifer eu grwpiau cymdeithasol yn gallu siarad Cymraeg, a'u bod yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd â'u grwpiau cymdeithasol.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith hefyd yn gofyn i blant a phobl ifanc (3–15 oed) am eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol. Fel y gwelir yn Siart 11, roedd plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o nodi bod eu ffrindiau'n gallu siarad Cymraeg (69%) o gymharu â'r ganran o oedolion oedd yn nodi bod eu ffrindiau yn gallu siarad Cymraeg (56%).

Siart 11: Gallu ffrindiau plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg





(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

O ran defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg â'u ffrindiau, gwelir eu bod yn llawer mwy tebygol o siarad Cymraeg â'u ffrindiau yn yr ysgol nag y tu allan i'r ysgol. Er bod 36% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf â'u ffrindiau yn yr ysgol, dim ond 16% oedd yn gwneud hynny y tu allan i'r ysgol.

Mae defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg â'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol yn is na defnydd oedolion o'r Gymraeg â'u ffrindiau, a hynny er gwaethaf y ffaith bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o nodi bod eu ffrindiau yn gallu siarad Cymraeg.

Siart 12: Defnydd plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg o'r Gymraeg gyda ffrindiau


Defnydd



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Ym mis Mai 2025 cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ymchwil ynghylch defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Ymatebodd dros 1,600 o blant a phobl ifanc (11–21 oed) ar hyd a lled Cymru i'r holiadur. Yn rhan o'r ymchwil holwyd plant a phobl ifanc pa iaith roedden nhw'n ei siarad bennaf â gwahanol grwpiau cymdeithasol.

Siart 13: Defnydd iaith gyda theulu a ffrindiau



O edrych ar yr holl ymatebion gwelir mai ag athrawon neu ddarlithwyr roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg. Roedd dros 40% o'r ymatebwyr yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf ag athrawon neu ddarlithwyr. **Y tu allan i'r ysgol gwelir bod ymatebwyr fwyaf tebygol o siarad Cymraeg â'u teulu, ac mae'n drawiadol bod taid/tad-cu a nain/mam-gu ar frig y rhestr.**

Mae'r canrannau sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn arolwg y Comisiynydd yn sylweddol is na'r hyn a geir yng nghanlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith, a hynny yn rhannol adlewyrchu gwahaniaethau yn sampl a methodoleg yr arolygon hyn.⁶

Mae'r patrwm defnydd iaith yn newid yn sylweddol wrth edrych ar yr ymatebion yn ôl nodweddion eraill. Gwelir bod y ganran sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf â theulu neu ffrindiau yn cynyddu'n sylweddol ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Er enghraifft, er mai 9% o'r sampl cyfan oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf â'u ffrindiau yn yr ysgol/coleg, roedd y ganran hon yn cynyddu i 18% ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, ac i 28% ymysg y rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd.

Casgliadau allweddol

- Mae'r dystiolaeth yn **amlygu'n glir bod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn her sylweddol**. Mae hyn yn arbennig o wir o ran defnydd **plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol**.
- Mae unigolion sy'n siarad Cymraeg yn **fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u teulu** o gymharu â'u ffrindiau ac yn y gymuned.
- Mae'r dystiolaeth yn dangos fod **plant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u ffrindiau yn yr ysgol nag y tu allan i'r ysgol**.
- Mae **defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg â'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol yn is na defnydd oedolion o'r Gymraeg â'u ffrindiau**, a hynny er gwaetha'r ffaith bod cyfran uwch o ffrindiau pobl ifanc yn gallu siarad Cymraeg.


Defnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau a gweithgareddau

Ar y cyfan mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd a gynhaliwyd yn Saesneg nag yn Gymraeg. **Yr unig eithriad yw gŵyl neu Eisteddfod, lle'r oedd 20% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi mynychu digwyddiad o'r fath yn Gymraeg yn ystod y 12 mis blaenorol**. Unwaith eto, roedd siaradwyr Cymraeg o ogledd-orllewin Cymru, siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd, a'r rhai a ddechreuodd siarad Cymraeg gartref yn blant ifanc, yn fwy tebygol o fod wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd oedd wedi'i gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

⁶ Mae sampl yr Arolwg Defnydd Iaith yn seiliedig ar y rhai sydd wedi nodi yn Arolwg Cenedlaethol Cymru eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ac a gytunodd i gwblhau'r Arolwg Defnydd Iaith. Rhannwyd holiadur y Comisiynydd â phlant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol, ac mae'n debygol bod nifer sylweddol o'r ymatebion wedi'u cwblhau mewn ysgolion. Rhaid hefyd gofio'r posibilrwydd mai rhiant neu warcheidwad oedd yn ateb yr Arolwg Defnydd Iaith ar ran eu plant, ond mai'r plant a phobl ifanc eu hunain oedd yn ateb holiadur y Comisiynydd.


Mae'r patrymau uchod yn weddol gyson ymysg y digwyddiadau neu weithgareddau a fynychwyd gan siaradwyr Cymraeg dros 16 oed (Siart 14), ac ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg (Siart 15).

Siart 14: Digwyddiadau neu weithgareddau a drefnwyd yr aeth siaradwyr Cymraeg dros 16 oed iddynt yn ystod y 12 mis blaenorol, yn ôl iaith y digwyddiad




Siart 15: Presenoldeb plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg mewn digwyddiadau neu weithgareddau y tu allan i'r ysgol a drefnwyd dros y 12 mis blaenorol

Iaith



Digwyddiad neu weithgaredd






53% o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.

Mae hyn **ddwywaith yn uwch** na'r ganran oedd yn nodi eu bod yn gwneud unrhyw fath o weithgaredd arall.

Roedd adroddiad ymchwil y Comisiynydd yn manylu ymhellach ynghylch y mathau o weithgareddau roedd plant a phobl ifanc yn eu gwneud y tu allan i'r ysgol, a hefyd y graddau roeddent yn defnyddio'r Gymraeg â'u ffrindiau yn ystod y gweithgareddau hyn.

Roedd ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o fod yn aelod o glwb chwaraeon neu'n mynychu gweithgareddau chwaraeon na'r un o'r opsiynau eraill, â 53% o'r sampl yn nodi eu bod yn mynychu gweithgaredd chwaraeon y tu allan i'r ysgol. **Dengys y data hefyd mai wrth wneud gweithgareddau chwaraeon y mae plant a phobl ifanc fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u ffrindiau.**

Siart 16: Defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc sy'n mynychu gwahanol weithgareddau



(Ffynhonnell: Arolwg defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Mae'r canrannau hyn yn cynyddu'n sylweddol o ddadansoddi'r data yn ôl nodweddion eraill. Er enghraifft, canran y sampl cyfan oedd yn defnyddio rhywfaint o'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon oedd 34%, tra oedd y ganran yn 53% ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, a 71% ar gyfer y rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd.

Casgliadau allweddol

- Ac eithrio gwyliau fel yr Eisteddfod, mae **siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Saesneg** na'r Gymraeg.
- Mae plant a phobl ifanc yn llawer **mwya tebygol o fynychu gweithgareddau chwaraeon** yn rheolaidd nag unrhyw fath arall o weithgaredd. Mae plant a phobl ifanc hefyd **yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â ffrindiau a hyfforddwyr mewn gweithgareddau chwaraeon** nag ydynt mewn digwyddiadau a gweithgareddau eraill.

1.2 Prif ddatblygiadau

Grantiau hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg

Dros y cyfnod adrodd mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu **grant i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i sefydliadau amrywiol**. Er enghraifft, yn 2023–24, dyrannwyd grantiau i 43 sefydliad er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol ac yn genedlaethol. Ymhlith y sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant mae'r Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Urdd Gobaith Cymru, y mentrau iaith, Merched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, papurau bro, a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Y grantiau hyn sy'n galluogi gwaith amrywiol sefydliadau sy'n datblygu a darparu cyfleoedd pwysig i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd hanfodol i blant a phobl ifanc dderbyn profiadau diwylliannol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er nad oes llawer wedi newid yn sefyllfa'r grantiau hyn dros y cyfnod adrodd, rhaid cydnabod eu cyfraniad at gefnogi gwaith sefydliadau allweddol fel yr Urdd, y mentrau iaith, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, sy'n chwarae rhan gwbl ganolog yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru. Mae hyn yn cynnwys **rôl yr Urdd yn cynnig gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i filoedd o blant a phobl ifanc** ar draws y wlad. Yn yr un modd, mae **Mentrau iaith Cymru a'r mentrau iaith lleol yn cynnig ystod hynod eang o weithgareddau a digwyddiadau amrywiol, ar raddfa leol a chenedlaethol**, sydd i gyd yn rhannu'r nod o gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Fel y dengys ystadegau'r Cyfrifiad mae dwyster uchel o siaradwyr Cymraeg mewn mannau gwledig, ac mae gweithgareddau Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, yn arbennig yn yr ardaloedd hynny, **yn cynnig cyfleoedd anhepgor i bobl ifanc gymdeithasu a chymryd rhan mewn llu o weithgareddau amrywiol yn y Gymraeg. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd yn genedlaethol i rai mewn ardaloedd lle mae niferoedd is o siaradwyr gael clywed a defnyddio'r Gymraeg.** Mae digwyddiadau diwylliannol mawr fel Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfodau Genedlaethol ynghyd â gwyliau Tafwyl a Gŵyl Tawe yn ofodau pwysig i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Trwy ddathlu'r Gymraeg a'i diwylliant mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi delwedd gadarnhaol o'r Gymraeg ac yn gwneud gwaith arbennig o hyrwyddo'r iaith a chreu ymdeimlad o falchder ynddi mewn cymunedau, all arwain at ragor o weithgareddau cymunedol Cymraeg ac ysgogi pobl i ddysgu'r iaith.

Yn 2023 cyhoeddwyd Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg.⁷ Yn ogystal â chasglu bod y cynllun grantiau yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni amcanion strategol *Cymraeg 2050*, cafwyd cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru wrth iddi gynllunio model cyllido a strwythurau newydd i'r cynllun grant yn y dyfodol.

Datblygiad arall sy'n debygol o ddylanwadu ar y maes polisi hwn yn y dyfodol yw ail gam gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Er bod cyhoeddiadau'r Comisiwn hyd yma wedi canolbwyntio ar ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr, bydd cam nesaf y Comisiwn yn ystyried sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion polisi cyhoeddus i Lywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yn yr ardaloedd hyn yn 2026.

Chwaraeon

Does dim amheuaeth o **bwysigrwydd y maes chwaraeon yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol** fel aelodau o dîm neu glwb, boed wrth chwarae, cefnogi, hyfforddi, gwirfoddoli neu ddyfarnu. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn fwy nag unrhyw weithgaredd arall y tu allan i'r ysgol. Dros y cyfnod adrodd **gwelwyd ymwybyddiaeth uwch o'r angen i roi rhagor o sylw i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector chwaraeon.** Pwysleisiodd adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg bod angen sicrhau bod clybiau chwaraeon a hamdden yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg wrth hyfforddi plant a phobl ifanc mewn ardaloedd o ddwysedd uwch. Mae'r un peth yn wir mewn ardaloedd dwysedd is lle mae llai o gyfleoedd i unigolion sy'n siarad Cymraeg ei defnyddio mewn chwaraeon oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'u dymuniad a'u gallu i siarad Cymraeg.

⁷ Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r gweithgareddau chwaraeon amrywiol a drefnir yn lleol ac yn genedlaethol gan yr Urdd yn hollbwysig yn hynny o beth. Mae swyddogaeth bwysig gan y cyrff llywodraethu chwaraeon sy'n derbyn nawdd gan Chwaraeon Cymru hefyd i ddylanwadu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn eu campau ar lawr gwlad. Bu Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio â'r cyrff llywodraethu a phartneriaid strategol eraill yn y maes chwaraeon i'w hannog i ddatblygu cynlluniau datblygu'r Gymraeg, ac erbyn diwedd y cyfnod roedd gan bedwar ohonynt gydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg. Ar lawr gwlad, gwelwyd camau tuag at atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol â Menter Iaith Gwynedd yn cynhyrchu pecyn i hyrwyddo'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon. Sefydlodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bartneriaeth arbennig â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Chlwb Pêl-droed Wrecsam i gynyddu sgiliau Cymraeg chwaraewyr, staff a chefnogwyr y clwb. I gefnogi dysgwyr, prentisiaid a gweithwyr sydd angen cymorth i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd proffesiynol sy'n ymwneud â chwaraeon, datblygwyd casgliad o adnoddau e-ddysgu chwaraeon wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr Lefel 2 â nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae pwysigrwydd y sector chwaraeon wrth gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlygu'r **angen i osod strwythurau mwy pendant yn eu lle i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn chwaraeon ar lawr gwlad**. Mae rôl Chwaraeon Cymru yn gosod amodau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhan o ddyrannu grantiau yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg yn yr amrywiol gampau yn ogystal ag ystyried sut mae cefnogi clybiau ymhellach ar lawr gwlad i hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd anffurfiol a hwyllog.



laith cymuned
a chymdeithasu



Hybu'r Gymraeg ar y maes chwarae yw nod Clwb hoci Ceredigion sydd wedi ei sefydlu gan grŵp o wirfoddolwyr yn ardal Aberystwyth. Mae'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc lleol fwynhau chwarae hoci mewn amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol a hynny drwy'r Gymraeg.

Dyma oedd y peth mwyaf naturiol i Gemma Cutter a'i chyfeillion.



Rwy'n gweithio ym maes chwaraeon o ddydd i ddydd ac yn gweld pa mor bwysig yw e o ran magu hyder a chyfeillgarwch ymysg pobl ifanc. Pan ddaethon ni at ein gilydd i sefydlu'r clwb yma roedd yna fwriad clir i greu lleoliad lle gallai'r Gymraeg fod yn iaith naturiol drwy chwaraeon. Ond ar yr un pryd gwnaeth e ddatblygu'n organig gan fod llawer o'r hyfforddwyr a'r plant eisoes yn defnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith.

Ein gobaith yw fod hynny'n cael effaith ar y plant hefyd a'u bod hwythau yn chwarae yn naturiol yn Gymraeg gan mai dyna yw'r iaith mae nhw'n glywed ganddon ni'r hyfforddwyr.

Yn naturiol, mae ambell her wedi codi ar hyd y daith. Weithiau mae'n anodd sicrhau bod yr holl hyfforddwyr yn siarad Cymraeg, ac mae hynny'n gallu creu bylchau yn yr iaith o bryd i'w gilydd. Ond rydym yn gweld hyn hefyd fel cyfle – mae'r hyfforddwyr sydd ddim yn hyderus yn y Gymraeg yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith ac i ddod yn rhan o'n diwylliant.

Rydym yn pwysleisio fod croeso i bawb, ac mae dysgwyr yn rhan bwysig o'r clwb. I lawer o'r plant, dyma'r tro cyntaf iddyn nhw fod yn rhan o amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol, ac maent yn dod o gefndiroedd ieithyddol amrywiol.

Mae'r amgylchedd Cymraeg naturiol drwy chwaraeon yn ffordd wych iddyn nhw ymarfer heb bwysau, a chael profiad positif o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn aml, mae dysgwyr yn elwa'n fawr o gael modelau rôl drwy'r hyfforddwyr, ac mae hyn yn helpu i adeiladu hyder ac ymdeimlad o berthyn i'r clwb a'r diwylliant Cymraeg.

Yn ôl Gemma, mae potensial mawr o ddefnyddio chwaraeon i hybu'r Gymraeg yn gymunedol.



Mae gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn helpu'r Gymraeg i fod yn iaith fyw, nid dim ond rhywbeth sy'n cael ei ddysgu mewn dosbarth. Gall chwaraeon chwarae rôl allweddol yn hyn, mae plant yn defnyddio'r iaith heb feddwl gormod, sy'n adeiladu hyder ac yn gwneud y Gymraeg yn rhan o sgysiau naturiol bob dydd.

Un sydd wedi bod yn aelod o'r clwb ers sawl blwyddyn bellach yw Leisi sydd yn 11 oed.



Fi wrth fy modd yn chwarae hoci ac mae'r clwb yma yn rhoi cyfle i fi wneud hynny bob wythnos a dysgu mwy am y gamp. Rwy'n siarad Cymraeg a Saesneg gyda fy ffrindiau ond mae'n grêt cael dod i'r clwb a gallu siarad Cymraeg gyda phawb.

Mae un o'r rhieni, Charlie Priddy, yn dysgu Cymraeg ac wedi ymuno yn ddiweddar er mwyn hyfforddi gyda'r clwb.



Rwy'n dysgu Cymraeg ac yn gweld y clwb fel cyfle gwyh i wneud hynny mewn awyrgylch hapus a chroesawgar. Mae gallu chwarae gyda'r bobl ifanc a'r oedolion yn llawer o hwyl, ac mae'n ymarfer corff da hefyd.

Diwylliant a'r celfyddydau

Mae sefydliadau fel yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd yn cynnig cyfleoedd hollbwysig i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wrth ymwneud â'r celfyddydau. Mae **Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn parhau i gyfrannu'n helaeth at y celfyddydau Cymraeg**, ac yn darparu cyfleoedd i ieuenctid ac oedolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth gystadlu ac ymweld. Drwy gefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru, bu modd i'r Urdd gynnig mynediad am ddim i deuluoedd incwm-isel i Eisteddfod yr Urdd 2025 ym Mharc Margam a'r Fro. **Dathlodd yr Urdd record o 119,593 o gofrestriadau i gystadlu mewn dros 400 o gystadlaethau yn 2025**, a bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr Cymraeg ifanc a gymerodd ran.

Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd y gwyliau hyn i siaradwyr newydd neu bobl sydd â diddordeb mewn dysgu rhagor am yr iaith a'i diwylliant. Yn ôl ymchwil yr Eisteddfod Genedlaethol **ymwelodd mwy o siaradwyr Cymraeg newydd ag Eisteddfod Wrecsam 2025 nag erioed o'r blaen**. Mae eu hymchwyl yn dangos bod nifer yr ymwelwyr am y tro cyntaf wedi mwy na dyblu ers Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016 bron i ddegawd yn ôl– y tro diwethaf i'r wyl gael ei chynnal ger y ffin. Nododd 17% o'r ymwelwyr fod **ymweld â'r Eisteddfod neu gymryd rhan yn y gweithgareddau cymunedol cyn yr wyl wedi'u helpu i ddysgu Cymraeg neu wedi'u hysbrydoli i ddechrau dysgu'r iaith**. Mae hyn yn cael ei ategu gan ddata'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol oedd yn dangos **bod y niferoedd oedd yn dechrau cwrs Cymraeg yn Wrecsam ar y lefel uchaf erioed**.⁸

Elfen ganolog o'r gwyliau cenedlaethol sy'n apelio at bob cenhedlaeth, ac sy'n bwysig iawn wrth geisio denu plant a phobl ifanc at y Gymraeg fel iaith gyfoes, yw'r cyfle i glywed cerddoriaeth gyfoes Gymraeg. Mae gigs llai yn lleol mewn lleoliadau ar draws Cymru hefyd yn rhoi cyfleoedd pwysig i bobl ddod at ei gilydd i gymdeithasu a mwynhau yn Gymraeg, a hefyd yn denu siaradwyr newydd at yr iaith. Mae cenhedlaeth newydd o bobl yn cyfansoddi ac yn canu yn Gymraeg yn ymuno â tho o gerddorion mwy profiadol. Mae poblogrwydd caneuon megis 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan yn sgil llwyddiant tîm pêl-droed Cymru hefyd yn tystio i sut gall cerddoriaeth Gymraeg agor drysau i'r Gymraeg i gynulleidfaoedd. Yn yr un modd mae penderfyniad pobl sy'n canu fel arfer yn Saesneg megis Aleighcia Scott i gyfansoddi a chanu yn Gymraeg yn dangos sut gall y Gymraeg bontio cymunedau a diwylliannau amrywiol Cymru.

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r prif sefydliad trydydd sector sy'n cyllido'r celfyddydau yng Nghymru, yn ariannu theatrau, orielau, canolfannau celfyddydol ac amryw brosiectau a digwyddiadau. Yn dilyn cyhoeddi ymchwyl pwysig yn 2020 ynghylch maint a chryfder gweithgarwch celfyddydol cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, mae'r Cyngor Celfyddydau wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd oedd wedi'u hadnabod.⁹ Un o brif ganfyddiadau'r ymchwyl oedd bod angen dull rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y celfyddydau, gan gynnwys gwell data, cefnogaeth i ddwyieithrwydd, a chydweithio strategol.

Cam **pwysig a strategol a gymerwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y cyfnod adrodd oedd ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cymwys oedd yn derbyn grant ganddynt ddatblygu cynlluniau datblygu'r Gymraeg**. Golyga hyn fod gan 34 sefydliad celfyddydol

⁸ Galw mawr am wersi Cymraeg yn Wrecsam wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei chynnal | Welsh Government News

(Cyrchwyd: Ionawr 2026).

⁹ Cyngor Celfyddydau Cymru, *Prosiect Mapio Cymraeg* (Mai 2020).

bellach gynlluniau strwythuredig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith. O 2027 ymlaen **bydd yn ofynnol i bob un mudiad cymwys dderbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn derbyn grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.** Bydd hyn yn adeiladu ar y 29 mudiad ar draws Cymru ym maes y celfyddydau sydd eisoes â'r Cynnig Cymraeg. Mae'r Cynnig Cymraeg yn darparu dull strwythuredig o adrodd a datblygu'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn y Gymraeg. Nid yw'r sefydliadau sydd o dan y safonau yn gymwys i weithio tuag at y Cynnig Cymraeg.

Datblygiad pwysig arall yn ystod y cyfnod adrodd oedd ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021–26 i ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth yng Nghymru i ddatblygu **strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru.** Mae cynnig gweithgareddau diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol er mwyn creu rhagor o gyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae sectorau fel y celfyddydau, llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r diwydiannau perfformio yn hanfodol o safbwynt addysgu pobl Cymru am dreftadaeth a diwylliant Cymru, ac o safbwynt twf economaidd a chyfleodd i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae **sicrhau bod strategaeth a buddsoddiad digonol mewn diwylliant yng Nghymru felly'n hanfodol ar gyfer sicrhau hyfywedd y Gymraeg.**

Wedi oedi sylweddol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y blaenoriaethau ar gyfer diwylliant 2024–30. Yn sgil yr ymgynghoriad rhannodd Pwyllgor Diwylliant y Senedd eu pryderon ynghylch diffyg manyldeb y ddogfen ymgynghori, gan gyfeirio at ddiffyg eglurder ynghylch cyllideb, cyfrifoldebau ac amserlenni.¹⁰ Nododd y pwyllgor fod y pryderon hyn yn ategu pryderon ehangach ynghylch diffyg buddsoddiad strategol mewn diwylliant yng Nghymru. Mae ffigyrau'r Llywodraeth yn dangos bod **gwariant ar ddiwylliant yng Nghymru yn sylweddol is nag ydyw ym mwyafrif helaeth o wledydd Ewrop.**¹¹

Mae **toriadau yng nghyllideb y Cyngor Llyfrau, fel yn achos Cyngor y Celfyddydau, y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru,** wedi arwain at bryderon ynghylch hyfywedd y sector cyhoeddi llyfrau yn y Gymraeg, sector y mae arian cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau ei ffyniant. Mae llyfrau Cymraeg yn rhoi mynegiant i ddiwylliant Cymraeg a phrofiadau ei siaradwyr ac yn hanfodol er mwyn atgyfnerthu sgiliau pobl yn yr iaith. Mae'r sector yn ogystal yn gyflogwr pwysig ac yn darparu gweithleoedd Cymraeg ar draws Cymru. Mae'r cyfeiriad polisi yn y sector hwn yn **awgrymu nad yw cyfraniad y diwydiant cyhoeddi at gynllunio ieithyddol yn cael ystyriaeth ddigonol ar hyn o bryd.**

¹⁰ Llythyr y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Jane Hutt AS ynghylch Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030 (Medi 2024).

¹¹ Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant: Pryd nad yw strategaeth yn strategaeth?

Strategaethau Hybu 5-mlynedd

Er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, rhaid i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol lunio **strategaethau 5-mlynedd sy'n egluro sut byddant yn hybu'r Gymraeg a hwyluso ei defnyddio** yn eu hardaloedd. Rhaid i'r strategaethau hyn gynnwys targedau i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ac esboniad o sut maent yn bwriadu cyrraedd y targedau hynny. Bob pum mlynedd mae'n rhaid iddynt adolygu'r strategaethau a chyhoeddi fersiynau diwygiedig ohonynt.

Y bwriad yw bod y strategaethau hybu yn fframweithiau clir ar gyfer gweithredu'n lleol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'r nifer sy'n ei siarad, gan gysylltu polisiâu lleol â blaenoriaethau cenedlaethol. Dylent fod yn gerbydau ar gyfer cynllunio gweithgareddau cymunedol, diwylliannol a chwaraeon yn lleol i gwrdd â sefyllfa ieithyddol cymunedau amrywiol Cymru. Eu **prif amcan yw creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn weladwy, hygyrch ac yn rhan naturiol o fywyd bob dydd, gan sicrhau bod cynnydd yn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith.**

Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am sicrhau bod y strategaethau hyn yn cael eu llunio. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen gyngor i gefnogi sefydliadau¹² ac wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o sut mae sefydliadau wedi asesu cyrhaeddiad eu strategaethau 5-mlynedd.¹³ Roedd y gwerthusiad yn amlygu peth arfer da wrth lunio'r strategaethau ond yn nodi bod amrywiaeth yn y dulliau o fynd ati i asesu eu llwyddiant. Amlygodd yr **angen am ragor o arweiniad a hyfforddiant penodol ar asesu cyrhaeddiad strategaethau** ac ar gasglu a defnyddio data meintiol ac ansoddol i lunio'r strategaethau a phennu targedau realistig.

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r safonau hybu gan benderfynu a oes lle i'w diwygio er mwyn hwyluso cyflawni targedau'r Llywodraeth ynghylch cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. **Dyma gyfle felly i ystyried sut y byddai modd datblygu a chryfhau rôl y strategaethau hybu fel offerynnau strategol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol cadarn yng Nghymru.**

Er bod y safonau hybu wedi gosod sylfaen ar gyfer cynllunio ieithyddol, nid ydynt ar hyn o bryd yn pennu disgwyliadau clir o ran cynnwys y strategaethau, nac yn darparu proses benodol ar gyfer monitro a chraffu arnynt. O ganlyniad, nid yw potensial y strategaethau hyn fel cerbyd ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol wedi'i gyrraedd yn llawn eto. Mae adroddiad diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn argymhell adolygu ac ychwanegu at y safonau er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

¹² Comisiynydd y Gymraeg, **Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg: Strategaethau 5 mlynedd: canllaw arfer da i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.**

¹³ Comisiynydd y Gymraeg, **Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd, dogfen gyngor arferion effeithiol** (Ebrill 2021).

1.3 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos **nad oes llawer wedi newid o ran pa mor aml mae'r boblogaeth yn siarad Cymraeg dros y degawd diwethaf a bod cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn parhau'n her sylweddol.** Ymddengys nad yw siaradwyr Cymraeg bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu â'u teulu estynedig, eu ffrindiau, nac yn eu cymuned leol.

Mae hyn yn arbennig o wir o ran defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos fod plant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, ac ymddengys bod defnydd cymdeithasol o'r iaith tu allan i giatiau'r ysgol yn gyfyngedig.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod **defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn llawer uwch ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl**, ymysg y rhai sydd wedi **dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd**, ac mewn **ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr.**

Mae llai o siaradwyr Cymraeg rhugl heddiw nag oedd yna ddeng mlynedd yn ôl, mae shiftt sylweddol wedi bod o'r cartref i'r ysgol fel prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg newydd, a gwyddom fod dwysedd siaradwyr yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn lleihau. Nid yw'r **tueddiadau hyn yn nemograffeg siaradwyr Cymraeg heddiw yn cefnogi ymdrechion i gynyddu defnydd o'r iaith.**

Er bod y rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg, rhaid pwysleisio bod **perthynas annatod rhwng cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd.** Bydd cynyddu'r defnydd o'r iaith yn dasg llawer haws mewn sefyllfa lle mae trwch y boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Mae'n bwysig cofio felly, berthnasedd datblygiadau arwyddocaol ym maes addysg a sgiliau dros y cyfnod adrodd i'r ymdrechion sy'n bodoli i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Er gwaethaf yr hyn mae'r dystiolaeth yn ei amlygu, **mae'n bwysig cydnabod y gwaith sylweddol a phwysig sy'n cael ei wneud gan ystod o sefydliadau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.** Byddai sefyllfa'r Gymraeg yn sicr yn fwy bregus yn absenoldeb gwaith allweddol sefydliadau fel y mentrau iaith, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol er enghraifft. Ond does dim dwywaith bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos unwaith eto faint a chymhlethdod yr her sy'n bodoli i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw sy'n cael ei defnyddio yn rhan naturiol o fywyd cymunedol ar hyd a lled Cymru. Mae **perygl gwirioneddol bod cyfran gynyddol o blant a phobl ifanc yn gweld y Gymraeg fel iaith addysg yn unig**, ac mae gwir angen ymyraethau mwy beiddgar ac uchelgeisiol ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol.

Blaenoriaeth



Rhaid cynnig llawer mwy o gyfleoedd, yn arbennig i blant a phobl ifanc, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon. I wneud hyn, ac fel mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ei argymhell, rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau fframweithiau cynllunio ieithyddol cymunedol a chynyddu'r cyllid a'r adnoddau i bartneriaid allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gweithgareddau a'r digwyddiadau hyn yn Gymraeg.

O ran cryfhau fframweithiau cynllunio ieithyddol cymunedol mae **potensial amlwg i gryfhau'r safonau hybu fel cerbyd mwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol**. Er bod gofyn eisoes i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol Cymru lunio strategaethau 5-mlynedd ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg, nid yw potensial y strategaethau hyn yn cael ei wireddu'n llawn hyd yma. Mae gan y **strategaethau hyn botensial i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn cael eu cynllunio a'u gweithredu**.

Dylid felly roi mwy o gyfrifoldebau i'r Comisiynydd i fonitro ac asesu strategaethau, darparu argymhellion i gyrff, rhannu arfer da ac adolygu llwyddiant y strategaethau yn flynyddol, ynghyd â llunio adroddiad ag argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd cyfnod y strategaethau.

Yn ogystal â chryfhau'r fframwaith cynllunio, **dylid hefyd ddarparu adnodd ychwanegol i bartneriaid allweddol fel y mentrau iaith, yr Urdd, Mudiad Meithrin, yr Eisteddfod Genedlaethol a chlybiau chwaraeon** – i'w galluogi i weithredu elfennau allweddol o'r strategaethau hyn.

2. Darlledu, y cyfryngau, a thechnoleg

Mae'r cyfryngau torfol yn eithriadol o bwysig o safbwynt amlygrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i bobl glywed a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Nid yn unig mae darlledu a'r cyfryngau Cymraeg yn rhoi drych a mynegiant i ddyheadau a bywydau'r bobl hynny sy'n siarad yr iaith, maent hefyd yn denu siaradwyr newydd.


Mae'r rôl honno'n gwbl allweddol o ystyried amlygrwydd y cyfryngau digidol a thechnoleg yn ein bywydau bellach. Mae'n anorfod y bydd meysydd fel y cyfryngau cymdeithasol, creu a defnyddio cynnwys ar-lein, a deallusrwydd artiffisial yn dod hyd yn oed yn fwy arwyddocaol yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol yn y dyfodol.

2.1 Y dystiolaeth

Defnyddio'r Gymraeg wrth wyllo, darllen, a gwrando


Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu gwybodaeth am y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarllen, ysgrifennu, gwyllo a gwrando. Gwelir yn Siart 17 fod siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy tebygol o ddarllen, ysgrifennu, gwyllo a gwrando yn Saesneg nag yn Gymraeg.

Siart 17: Cyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio sgiliau Cymraeg neu Saesneg y tu allan i'r gwaith



Roedd adroddiad ymchwil Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn mewn rhagor o fanylder am ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. O blith yr holl ymatebwyr, gwelwyd bod tua 32% yn nodi eu bod yn ysgrifennu yn Gymraeg, 28% yn darllen yn Gymraeg a 27% yn gwrando ar gerddoriaeth a gwyllo teledu yn Gymraeg. Roedd cyfran is o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn gwyllo fideos neu gynnwys ar-lein yn Gymraeg (15%), lawrlwytho apiau neu gemau yn Gymraeg (10%), neu'n gwrando ar bodlediadau yn Gymraeg (8%).

Siart 18: Canran yr ymatebwyr sy'n gwneud y gweithgareddau canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol



(Ffynhonnell: Arolwg defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Fel yn achos canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith, gwelir bod y canrannau sy'n gwneud y gweithgareddau yn Siart 18 drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'n sylweddol wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai a ddysgodd y Gymraeg gartref yn blant ifanc. Er enghraifft, tra mai 27% o'r sampl cyfan oedd yn gwyllo teledu yn Gymraeg, roedd hyn yn cynyddu i 42% ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, ac i 61% ymysg y rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd.

Casgliadau allweddol



- Mae siaradwyr Cymraeg yn **llawer mwy tebygol o ddarllen, ysgrifennu, gwyllo a gwrando yn Saesneg** nag yn Gymraeg.
- Mae **plant a phobl ifanc** yn adrodd eu bod yn **fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg** wrth **ysgrifennu, darllen, gwyllo'r teledu a gwrando ar gerddoriaeth** o gymharu â defnyddio'r Gymraeg **ar-lein, wrth lawrlwytho apiau neu gemau, neu wrth wrando ar bodlediadau.**

Defnydd digidol o'r Gymraeg

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith hefyd yn darparu peth tystiolaeth ynghylch y defnydd digidol o'r Gymraeg. Fel y gwelir yn Siart 19, roedd ychydig yn llai na thraean o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth anfon neges destun neu e-bost at ffrind oedd yn siarad Cymraeg. Roedd cyfran is o'r ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Siart 19: Yr iaith a ddefnyddir ar y cyfryngau digidol gan siaradwyr Cymraeg


Iaith



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Fel yn achos defnydd oedolion o'r Gymraeg, roedd plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn fwy **tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth anfon neges destun nag wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**. Er hyn, dim ond 12% o blant a phobl ifanc oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth anfon neges destun at ffrind sy'n siarad Cymraeg, o'i gymharu â 33% o oedolion. Roedd cyfran is o blant a phobl ifanc hefyd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol.

Siart 20: Defnydd plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg o'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol




(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Mae'r canlyniadau yn Siart 20 ynghylch defnydd plant a phobl ifanc o gyfryngau digidol drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymharol gyson â chasgliadau adroddiad ymchwil Comisiynydd y Gymraeg. Er enghraifft, gwelir bod 14% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth anfon neges destun at deulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg.

Siart 21: Pa iaith mae'r ymatebwyr yn ei defnyddio ar y cyfryngau digidol wrth gyfathrebu â theulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg

Iaith

- Cymraeg bob amser neu'n bennaf
- Cymraeg a Saesneg yn gyfartal
- Saesneg bob amser neu'n bennaf
- Iaith arall




(Ffynhonnell: Arolwg defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Mae adroddiad y Comisiynydd hefyd yn cynnig tystiolaeth fanylach am y defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelir yn Siart 22 fod y ganran o'r ymatebwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf yn isel iawn ar y cyfan, ac yn sylweddol is na'r ganran sy'n defnyddio'r iaith yn fwy cyffredinol, ac wrth gyfathrebu drwy neges destun, er enghraifft.

Siart 22: Defnydd iaith ymatebwyr wrth ddefnyddio gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol

Iaith

- Cymraeg bob amser neu'n bennaf
- Cymraeg a Saesneg yn gyfartal
- Saesneg bob amser neu'n bennaf
- Iaith arall




(Ffynhonnell: Arolwg defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

O safbwynt defnyddio'r Gymraeg ar y platfformau hyn, WhatsApp oedd ar frig y rhestr, â 17% o'r rhai oedd yn defnyddio'r platfform yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg. Yn dilyn hynny roedd Instant Messenger (14%) a Snapchat (14%).

Mae'r canrannau sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ar wahanol blatfformau yn cynyddu yn sylweddol ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Er enghraifft, mae'r ganran sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg ar WhatsApp yn 17% ar gyfer y sampl cyfan, yn 34% ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn 60% ar gyfer y rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd.

Mae'r tueddiadau hyn hefyd i'w gweld wrth edrych ar y ddefnydd ehangach o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc wrth gyfathrebu a chreu neu ddefnyddio cynnwys ar-lein.

Siart 23: Defnydd iaith ymatebwyr wrth gyfathrebu ar-lein ac ar gyfryngau cyrffdeithasol



Fel y gwelir yn Siart 23, canran gymharol isel o'r ymatebwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu ar-lein ac wrth greu a defnyddio cynnwys ar-lein. Mae patrymau defnyddio'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol wrth ddehongli'r data uchod yn ôl nodweddion penodol eraill. Er enghraifft, mae'r defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein yn cynyddu'n sylweddol wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig. Yn wir, gwelir bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig.

Mae'r cynnydd cyffredinol hwn i'w weld fwyaf amlwg wrth edrych ar yr unigolion hynny sydd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd fel plant ifanc. Wrth edrych ar y categori 'creu cynnwys ysgrifenedig fy hun' fel enghraifft, gwelir mai'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg yw 17% ar gyfer y sampl yn ei gyfanrwydd; mae'r ganran yn cynyddu i 32% ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, ac yn cynyddu i 48% ar gyfer y rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd.

Casgliadau allweddol

- Mae siaradwyr Cymraeg yn **llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol** o gymharu â defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb neu wrth anfon neges destun.
- Mae'r tueddiadau hyn i'w gweld yn **gliriach fyth ymysg plant a phobl ifanc**. Ymddengys bod **shifft digidol tuag at y Saesneg fel yr iaith ddiofyn** i'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ar-lein ac wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Prif ddatblygiadau

Darlledu a'r cyfryngau

Yn 2023 cyhoeddodd y **Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad ar Ddarlledu yng Nghymru**.¹⁴ Er bod yr adroddiad yn casglu bod darlledu yng Nghymru wedi bod yn stori o lwyddiant rhyfeddol, mae'r pwyllgor yn rhybuddio bod **darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn addasu'n rhy araf i ddatblygiadau'r chwyldro darlledu byd-eang**. Mae rhai o'r datblygiadau hyn yn cynnwys newidiadau sylweddol yn arferion gwyllo pobl a phoblogrwydd ffrydio digidol. Nododd y pwyllgor hefyd bryderon ynghylch sicrhau bod digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol yn cael eu darlledu yn rhad ac am ddim. Rhybuddia'r pwyllgor y byddai **diffyg diwygio a buddsoddiad yn arwain at 'ddifodiant digidol' i ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg**.

Roedd pasio **Deddf Darlledu 2024** yn un o'r diwygiadau mwyaf arwyddocaol i gyfraith darlledu'r DU ers degawdau, ac yn ymateb i nifer o'r heriau a amlinellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig. Nod y ddeddf oedd moderneiddio'r fframwaith darlledu, gan gyflwyno mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ymateb i batrymau gwyllo cyfoes a

¹⁴ Y Pwyllgor Materion Cymreig, **Darlledu yng Nghymru** (Hydref 2023).

datblygiadau ym maes darlledu digidol. Am y tro cyntaf, **mae cyfraith darlledu yn sefydlu'r Gymraeg yn rhan hanfodol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU**. Mae'r ddeddf yn cynnwys nifer o ddarpariaethau pwysig o ran darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys:

- ehangu cylch gwaith statudol S4C i gynnwys llwyfannau digidol ac ar-lein
- dileu'r cyfyngiad daearyddol blaenorol fydd yn galluogi cynnwys Cymraeg S4C i gyrraedd cynulleidfaoedd ledled y DU a thu hwnt yn haws
- sicrhau bod apiau ac arlwy cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n well ac yn cael lle amlwg ar deledu clyfar a llwyfannau ffrydio
- diogelu digwyddiadau chwaraeon rhestredig
- darparu eglurder ar allu S4C i gynhyrchu incwm masnachol ac i fuddsoddi mewn cynnwys a thechnoleg newydd
- cryfhau atebolrwydd a llywodraethu'r sianel
- cyflwyno mwy o hyblygrwydd i drefniadau cydweithio rhwng y BBC ac S4C.

Er bod y ddeddf yn cryfhau'n sylweddol sail gyfreithiol darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg, **un o sgilleffeithiau llai cadarnhaol y ddeddf yw nad oes gan Ofcom bellach y gallu i fynnu bod gwasanaethau radio masnachol yn cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg**. Canlyniad hyn yw bod rhai gwasanaethau radio masnachol wedi dewis rhoi'r gorau i ddarlledu drwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf.

Datblygiad mwy cadarnhaol o safbwynt darlledu ar y radio oedd penderfyniad Bwrdd y BBC i **ehangu darpariaeth gwasanaeth Radio Cymru 2**. Yn dilyn cyfnod o beilota'r ddarpariaeth estynedig ers 2022, cymeradwyodd Ofcom gais gan y BBC i'r sianel dderbyn statws fel Gwasanaeth Darlledu Cyhoeddus yn ei hawl ei hun yn 2024.

Mae'r enghraifft uchod yn dystiolaeth bellach fod darlledu Cymraeg ei iaith yn ddibynnol ar wasanaethau darlledu a ariennir gan y pwrs cyhoeddus. Er gwaethaf pwysigrwydd Ddeddf Darlledu 2024, **mater ar wahân yw model ariannu darlledu cyhoeddus yn y DU**. Mae'n aneglur ar hyn o bryd sut y bydd y BBC, gan gynnwys ei wasanaethau Cymraeg ac S4C, yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Mae'r ansicrwydd ynghylch dyfodol trefniadau cyllido darlledu cyhoeddus drwy'r ffi drwydded yn cyflwyno peryglon real i ffyniant diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur gwyrdd ar ei **hadolygiad o Siarter nesaf y BBC sy'n cynnwys ystyriaeth i ddyfodol cyllido'r BBC ac S4C**.

Technoleg ddigidol

Mae technoleg ddigidol yn gynyddol bwysig i bob agwedd ar fywyd, ac mae deallusrwydd artiffisial (DA) yn faes sy'n datblygu ar garlam ac sy'n rhwym o newid yn sylfaenol sut y byddwn ni'n cyfathrebu â'n gilydd a'r byd o'n cwmpas. Prin bod angen dweud felly fod **technoleg iaith yn faes sydd wedi cynyddu mewn perthnasedd, pwysigrwydd a phroffil dros y cyfnod adrodd**.

Llywodraeth Cymru sy'n arwain yr ymdrechion strategol i wella technoleg iaith Gymraeg a bu'r **Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg** a gyhoeddwyd yn 2018 yn sail i ddatblygiadau arwyddocaol dros y cyfnod adrodd. Roedd y cynllun yn amlinellu cyfres o gamau gweithredu ymarferol ar draws prif feysydd technoleg iaith, gan gynnwys technoleg lleferydd, cyfieithu peiranyddol, a DA, â'r bwriad o greu seilwaith ieithyddol cadarn i'r Gymraeg yn y byd digidol.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar weithrediad y cynllun yn 2024¹⁵ sy'n rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd i sicrhau bod y Gymraeg mewn sefyllfa i ymateb yn chwim i ddatblygiadau yn y byd digidol, gan gynnwys DA. Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn y cyswllt hwn oedd bod Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor wedi cydweithio â chwmni OpenAI ar fodelau iaith Gymraeg ar gyfer GPT-4. Y bwriad yw sicrhau bod platfformau DA fel ChatGPT yn gweithio yn hwylus drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grant i Brifysgol Bangor weithio ym maes technoleg Gymraeg sy'n cynnwys gwella eu lleisiau dwyieithog testun-i-leferydd, eu trawsgrifiwr, ac adnabod lleferydd Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi eu blaenoriaethau Technoleg Gymraeg a DA sy'n canolbwyntio ar wella technoleg Gymraeg, gwella mynediad at dechnoleg Gymraeg, a gwella DA Gymraeg a thechnolegau lleferydd.¹⁶ Mae'r Comisiynydd wedi cytuno i gydweithio â Llywodraeth Cymru i gyflawni'r blaenoriaethau hyn gan gynnwys drwy wneud y logo iaith Gwaith hyd yn oed yn fwy amlwg yn y byd digidol, fel bod pobl yn teimlo'n fwy hyderus i ddechrau mwy o sgysiau a defnyddio mwy o wasanaethau digidol yn Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithio â Microsoft er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg yn ddirwystr ar draws ei gynnyrch, gan gynnwys datblygu adnodd i alluogi cyfieithu ar y pryd dynol mewn cyfarfodydd ar Microsoft Teams, a datblygu Copilot yn Gymraeg. Maent hefyd yn cydweithio ar achos busnes ehangach sy'n cynnwys dros 30 nodwedd i wella sut mae cynnyrch Microsoft yn gweithio yn Gymraeg. O ystyried pwysigrwydd cyfarfodydd rhithiol a photensial DA fel Copilot yn y byd gwaith bellach, mae'r datblygiadau hyn yn gamau hynod bwysig i hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi rhannu casgliad o gofau cyfieithu Llywodraeth Cymru am ddim ar BydTermCymru ac wedi rhyddhau Cysgliad (sef pecyn meddalwedd sy'n cynnwys gwirydd sillafu a chasgliad geiriaduron) yn rhad ac am ddim i sefydliadau sydd â llai na deg aelod o staff, ac i'r holl sector addysg a'r trydydd sector.

Datblygiad arwyddocaol arall yn ystod y cyfnod adrodd oedd sefydlu'r **Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol** yn 2020. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am gefnogi pobl, timau a sefydliadau i adeiladu gwasanaethau digidol cyhoeddus o safon. Mae'r ganolfan wedi cyhoeddi Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru, sef fframwaith sy'n diffinio beth yw gwasanaeth cyhoeddus digidol da yng Nghymru. Cadarnhaol oedd gweld fod **dylunio gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg wedi'i gynnwys fel un o'r 12 safon**, a bod **diwallu anghenion siaradwyr Gymraeg yn rhan annatod o ddylunio gwasanaethau digidol o ansawdd yng Nghymru**. Maent hefyd wedi cyhoeddi methodoleg ysgrifennu triawd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, llyfryn sy'n disgrifio dull o gydweithio i greu cynnwys yn effeithiol yn y ddwy iaith mewn modd sy'n canolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr.¹⁷

¹⁵ Cynllun gweithredu technoleg Gymraeg: adroddiad terfynol 2018 i 2024 | LLYW.CYMRU.

¹⁶ Technoleg Gymraeg a deallusrwydd artifisial (AI) | LLYW.CYMRU.

¹⁷ Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, **Sut i ysgrifennu triawd** | Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Cyrchwyd Ionawr 2026).

2.3 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Does **dim amheuaeth bod technoleg yn newid y modd y mae pobl yn treulio'u hamser ac yn cyfathrebu â'i gilydd**. Mae datblygiadau ym maes technoleg a deallusrwydd artiffisial yn digwydd ar garlam ac yn sicr o gael dylanwad pellach ar sut y byddwn ni'n cyfathrebu, yn cymdeithasu ac yn gweithio yn y dyfodol.

Ni ellir gwadu'r ffaith bod y dystiolaeth sy'n bodoli am **ddefnydd y Gymraeg ym maes cyfryngau torfol a technoleg ddigidol yn destun pryder**. Er bod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn her sylweddol ynddo'i hun, mae'r her hon yn fwy sylweddol fyth ym maes y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau digidol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod **siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein, ac ar y cyfryngau digidol**, o gymharu â defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol eraill.

Mae'r tueddiadau hyn o ran defnydd iaith yn amlycach fyth ymysg plant a phobl ifanc. Gwyddom fod cyfryngau digidol yn gynyddol ganolog ac amlwg ym mywydau plant heddiw, ond i'r mwyafrif, Saesneg yw'r iaith y byddant yn ei defnyddio gan amlaf. Mae **tystiolaeth eglur fod shift digidol tuag at ddefnyddio'r Saesneg fel iaith cyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol**. Yn anffodus, nid yw'r tueddiadau hyn yn syndod o ystyried bod y Gymraeg yn bodoli ochr yn ochr ag iaith sydd drechaf yn niwylliant poblogaidd byd-eang, a hynny'n arbennig wrth ystyried dylanwad darlledu a'r cyfryngau Saesneg.

Er bod rhwystrau amlwg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar-lein, ar y cyfryngau digidol, ac ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'n wir hefyd fod **datblygiadau yn y maes hwn yn cynnig cyfleoedd cyffrous i gynyddu defnydd o'r Gymraeg**. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn datblygiadau technoleg a deallusrwydd artiffisial yn allweddol, ond mae hefyd angen mwy o sylw ar **newid agweddau ac ymddygiad** plant a phobl ifanc. Mae angen gweithredu i newid agweddau ac arferion siaradwyr Cymraeg ar-lein gan gynnwys addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth o sut mae defnyddio'r Gymraeg ar wahanol blatfformau, yn ogystal ag annog a **hwyluso creu a defnyddio cynnwys o bob math** yn y Gymraeg.

Yn hytrach na gweld technoleg a deallusrwydd artiffisial fel bygythiad i'r Gymraeg, dylid manteisio ar y ffaith y **gall y dechnoleg yma ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau**, gan gynnwys wrth gyfathrebu â ffrindiau a chynulleidfaoedd sydd efallai ddim yn siarad Cymraeg.

Blaenoriaeth



Rhaid i bartneriaid allweddol gydweithio i ddeall yn llawn yr heriau a'r cyfleoedd sydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyfryngau digidol a darlledu. Gan adeiladu ar y cydweithio hwn, dylid datblygu strategaeth ddigidol genedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru a fydd yn amlygu cyfraniad allweddol pob partner yn y maes.

3. Economi, tai, a chynllunio gwlad a thref

Mae'r berthynas rhwng tai, gwaith ac iaith wedi bod yn thema ganolog i ymdrechion cynllunio ieithyddol yng Nghymru ers degawdau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg.

Mae atgyfnerthu seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg yn gwbl greiddiol i'r ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr a chynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith. Yr her yw sicrhau fod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd deniadol, a chartrefi digonol er mwyn iddynt allu aros, neu ddychwelyd, i'r cymunedau hynny. Dyma yn y pen draw yw'r prif ffactor sydd am ddylanwadu ar faterion allweddol fel cyfraddau trosglwyddo a defnydd cymdeithasol o'r iaith yn ein cymunedau Cymraeg.

3.1 Y dystiolaeth a phrif ddatblygiadau


Fel sydd eisoes wedi'i nodi, mae canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf yn profi bod **ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg o dan bwysau cynyddol**. Er enghraifft, yn y pedwar awdurdod lleol sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, gwelir bod gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghanran siaradwyr Cymraeg rhwng 1981–2021.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 9.5 pwynt canran yng Ngwynedd, 5.2 pwynt canran yn Ynys Môn, 17.9 pwynt canran yng Ngheredigion, a 19.1 pwynt canran yng Sir Gaerfyrddin.

Er bod cynnydd wedi bod ym mhoblogaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru rhwng 2011 a 2021, gwyddom fod **poblogaeth Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion wedi lleihau yn yr un cyfnod**. Nid yw'n syndod felly bod gostyngiad wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Er bod poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ers 2011, dyma'r sir lle gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg ers 2011.

Mae dadansoddiad Prosiect Bro¹⁸ yn darparu darlun manylach i ni o'r tueddiadau hyn yn yr ardaloedd dan sylw.


¹⁸ Compendium Prosiect BRO o Ystadegau Iaith Cyfrifiad 2021.



Yn y pedwar awdurdod lleol sydd â'r **dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg**, roedd cyfanswm o **268 ardal fach** sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o gartrefi ym mhob un.

Yn 252 (sef 94%) o'r ardaloedd bach hyn bu gostyngiad o rhwng 1 a 21 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021.

Siart 24: Canran y siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol rhwng 1981–2021



Er bod poblogaeth Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion wedi gostwng ers 2011, gwyddom hefyd fod cyfran poblogaeth yr ardaloedd hyn sydd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod 71% o boblogaeth Cymru wedi'u geni yng Nghymru, y ffigwr ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn yw 66%, ac ar gyfer Ceredigion y ffigwr yw 53%. Mae'n amlwg felly bod **mewnfudo sylweddol o'r tu allan i Gymru i'r ardaloedd hyn**, a gwyddom fod cyfran uchel iawn o'r rhai sydd wedi mudo i Gymru yn nodi nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Yng Ngwynedd er enghraifft, mae 87% o'r rhai a anwyd yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, tra mai dim ond 21% o'r rhai gafodd eu geni tu allan i Gymru sy'n gallu siarad yr iaith.

Mae'r drafodaeth ar ganlyniadau'r cyfrifiad a dadansoddiad o'r dystiolaeth ynghylch defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn dangos yn glir **arwyddocâd yr ardaloedd hyn o safbwynt dyfodol y Gymraeg**. Nid yn unig dyma'r ardaloedd lle mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, dyma hefyd yr ardaloedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r iaith a'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf.

Er bod y **rhesymau dros ddirywiad y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn** yn ddrys ac amlweddol, does dim dwywaith fod **heriau strwythurol sylweddol o safbwynt yr economi, tueddiadau allfudo a mudo, ail gartrefi a diffyg tai digonol yn chwarae rhan ganolog**.

Economi a'r Gymraeg

Er bod consensws ynghylch arwyddocâd y cyswllt rhwng iaith a'r economi, teg nodi mai prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos effaith uniongyrchol polisïau a thueddiadau economaidd ar hyfywedd iaith leiafrifol.

Serch hyn, dadleua'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg mai un o'r rhesymau bod cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn gweld gostyngiad cyson yn nifer a chanran y siaradwyr yw eu bod 'yn **wynebu heriau strwythurol sylweddol**, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, ac allfudo cyson o bobl ifanc'.¹⁹

Mae'r Comisiwn wedi pwysleisio arwyddocâd y ffaith bod **nifer sylweddol o bobl ifanc yn allfudo o'r ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr, a bod hyn yn her economaidd a strwythurol i gymunedau Cymraeg**. Yn ôl y Comisiwn mae'r heriau hyn yn cynnwys:

- isadeiledd trafnidiaeth gwan
- marchnad lafur nad yw wastad yn bodloni anghenion diwydiant
- lefelau cynhyrchiant sy'n is na'r rhan fwyaf o weddill y DU
- tangyflogaeth a chyflogau isel.

Mae'r heriau hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd economaidd i ddenu pobl ifanc i aros neu i ddychwelyd i'r cymunedau hyn, sydd yn ei dro, yn dwysau ymhellach yr heriau i greu economi deniadol a ffyniannus.

Nid yw'r ffaith fod mwy na chwarter yr israddedigion o Gymru yn astudio y tu allan i Gymru yn help i sicrhau bod pobl ifanc sydd â sgiliau lefel uchel yn dychwelyd i'w cymunedau ac yn cyfrannu at yr economi leol.

Mae cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg yn un o amcanion craidd *Cymraeg 2050*. Pwysleisia'r strategaeth bwysigrwydd datblygu economi ffyniannus a chynaliadwy i gynnal a chryfhau'r cymunedau hynny lle mae dwysedd uchel o siaradwyr.

Yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ym mis Hydref 2022 **cyhoeddwyd buddsoddiad pellach o £11m ar gyfer cam 2 Rhaglen ARFOR**. Y bwriad oedd adeiladu ar gam cyntaf y rhaglen, ynghyd â chanfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o raglen ARFOR 1. Prif nod y rhaglen yw cefnogi economi yr ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg o fewn ffiniau awdurdodau lleol Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn. Mae rhai o lwyddiannau ARFOR 2 hyd yma yn cynnwys:

- 1951 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa
- 19 o fentrau newydd yn derbyn cefnogaeth, a 64 menter bresennol yn derbyn cefnogaeth
- 73 o fusnesau yn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg

¹⁹ Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg* (Awst 2024).

Cyhoeddwyd adolygiad cychwynnol o ARFOR 2 yn Hydref 2024, ac mae rhai o'r canfyddiadau cynnar yn casglu bod y rhaglen yn llwyddo i gyflawni rhai o'i phrif amcanion, ond bod hefyd angen ystyried targedu busnesau a sectorau penodol mewn ffordd fwy strategol.

Er gwaethaf pwysigrwydd rhaglen ARFOR, rhaid cydnabod hefyd fod y buddsoddiad hwn yn fychan iawn o ystyried cyllideb datblygu economaidd ehangach Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r **Bargeinion Dinesig a Thwf yn darparu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd** ac yn cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer datblygiadau economaidd drwy Gymru gyfan am gyfnod o 15 mlynedd. Mae'n ddadlennol mai canfyddiad adroddiad ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth oedd mai ystyriaeth ymylol iawn fu i'r Gymraeg wrth ddatblygu bargeinion twf yn y gogledd, y canolbarth a'r de-orllewin.²⁰ Yn ôl yr adroddiad, bydd effaith hirdymor y Bargeinion Dinesig a Thwf yn sylweddol iawn o ystyried y lefelau uchel o fuddsoddi cyhoeddus a phreifat sydd ynghlwm â hwy, **ond ymddengys nad ydynt yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i raglen ARFOR, nac ychwaith i'r Gymraeg.**

Ers haf 2024 mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar y cydbwyllgorau corfforedig, sy'n gweithredu'r Bargeinion Dinesig a Thwf, i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Dylai'r gofyniad hwn sicrhau bod y **cydbwyllgorau yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol a chyllidebol.** Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried nad yw strategaethau a strwythurau datblygu economaidd y gorffennol wedi canolbwyntio llawer ar anghenion cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Un diwydiant pwysig sydd wedi gweld newidiadau sylweddol dros y cyfnod adrodd yw'r sector amaeth. Dyma'r sector cyflogaeth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac mae **busnesau amaethyddol yn cynnal llawer o gymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd.**

Yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd, daeth cymorth i ffermwyr trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i ben, oedd yn fygythiad amlwg i gynaliadwyedd y diwydiant. Mewn ymateb i'r newid pellgyrhaeddol yma pasiwyd **Deddf Amaeth (Cymru) 2023. Yn rhan o'r ddeddf mae'r Llywodraeth wedi bod yn datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n manylu sut bydd ffermwyr yn derbyn cymorth ariannol o 2026 ymlaen.**

Roedd asesiad effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar y Gymraeg yn cydnabod pwysigrwydd y sector amaeth i hyfywedd y Gymraeg, ac yn cydnabod y gallai newidiadau i'r system gymorth effeithio'n negyddol ar y cymunedau hynny. Yn dilyn gwrthwynebiad eang i'r fersiwn cyntaf o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, penderfynwyd gohirio cyflwyno'r cynllun am flwyddyn, a chyflwynwyd fersiwn newydd oedd yn cynnig llai o newidiadau, ac felly mwy o sefydlogrwydd, i'r diwydiant yng Ngwanwyn 2025.

Cynllunio, tai a chymunedau Cymraeg

Amlygodd cyfnod pandemig COVID-19 **broblemau tai mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.** Mae cyfuniad o ffactorau megis y cynnydd mewn niferoedd o ail gartrefi a llety gwyliau, y cynnydd mewn prisiau tai, a'r lefelau uwch o fewnfudo **wedi cyfrannu at ei gwneud yn anodd i bobl leol, yn enwedig pobl ifanc, brynu neu rentu tai yn eu cymunedau.** Yn ôl y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, mae Cymru gyfan yn wynebu argyfwng


²⁰ Huw Lewis, **Tu hwnt i ARFOR: strategaethau datblygu economaidd a'r Gymraeg** (2025).

tai, â diffyg sylweddol yng nghyflenwad tai cymdeithasol yng Nghymru.²¹ Mae'r cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu wedi arafu adeiladu tai fforddiadwy, sy'n ychwanegu at yr heriau sydd eisoes yn wynebu cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mewn ymateb i'r argyfwng, dyfarnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol grant i Academi Hywel Teifi i graffu ar bolisi cyhoeddus ar ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw, a chomisiynwyd Dr Simon Brooks i arwain y gwaith. Cyhoeddwyd **Ail Gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru** ym mis Mawrth 2021.²² Prif gasgliad yr adroddiad oedd bod ail gartrefi yn broblem sy'n effeithio'n ddwys ar rai ardaloedd yng Nghymru **gan danseilio cynaliadwyedd cymunedol ac ieithyddol y cymunedau hyn**. Yn ôl yr adroddiad mae'r newidiadau economaidd a chymdeithasol yn sgil Brexit a COVID-19 wedi dwysáu'r broblem, gan greu'r angen am ymyraethau polisi brys.

Drwy ddefnyddio data Llywodraeth Cymru ynghylch nifer yr ail gartrefi y gellid codi premiwm y dreth gyngor arnynt fel ail gartrefi yn ystod 2020–21 mae'r adroddiad yn dangos yn glir iawn mai problem ranbarthol yw ail gartrefi yng Nghymru.

Siart 25: Nifer yr ail gartrefi yr amcangyfrifwyd y gellid codi premiwm y dreth gyngor arnynt fel ail gartrefi yn ystod 2020–21 fesul awdurdod lleol²³




(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2020)

²¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Y cyflenwad o dai cymdeithasol (Tachwedd 2024).
²² Simon Brooks, Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru (Mawrth 2021).
²³ Llywodraeth Cymru, Council Tax Dwellings in Wales, 2020-21 (Ionawr 2020).

Er mwyn deall faint o'r stoc dai sy'n cael ei defnyddio at ddibenion hamdden neu wyliau, ac felly ddim ar gael i'r boblogaeth leol, mae'r adroddiad hefyd yn cyfrifo canran y stoc dai mewn awdurdod lleol sydd naill ai yn ail gartref neu'n uned llety gwyliau. Fel y gwelir ym Map 1, mae'r canlyniadau yn amlygu'n gliriach fyth mai ffenomenon ranbarthol yw nifer uchel o ail gartrefi.

Map 1: Ail gartrefi a llety gwyliau yng Nghymru fel canran o'r stoc dai fesul ardal cyngor sir²⁴



(Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd, 2020)

²⁴ Cyngor Gwynedd, Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020).

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**.²⁵ Cyflwynodd y cynllun fesurau i gyfyngu ar effaith negyddol ail gartrefi drwy gynnig cefnogaeth i brosiectau tai dan arweiniad cymunedau. Roedd y cynllun hefyd yn **cyflwyno diwygiadau i Reoliadau'r Dreth Gyngor** (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiannir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022. Mae'r diwygiadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i godi premiwm treth cyngor hyd at 300% ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Pwrpas y premiwm yw annog perchnogion ail gartrefi neu eiddo gwag hirdymor i roi'r eiddo ar y farchnad i'w werthu neu ei osod, gan gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i bobl lleol. Roedd y polisi felly'n **ceisio mynd i'r afael ag effaith negyddol gormod o ail gartrefi, megis gostwng nifer y trigolion parhaol, cau ysgolion, ac effaith hyn ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith**.

Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod lleol cyntaf i gymryd mantais ar y rheoliadau newydd pan gynyddwyd y premiwm i 150% yn Ebrill 2023. Adroddwyd ym Medi 2024 fod nifer yr ail gartrefi trethadwy yng Ngwynedd wedi gostwng o 5% rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2025. Bellach, mae 21 awdurdod lleol yn codi premiwm treth cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag.

I ategu'r polisi uchod, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddiwygiadau i ddeddfwriaeth cynllunio yn 2022 er mwyn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyflwyno **Cyfarwyddiadau Erthygl 4** i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau. Mae gan awdurdodau cynllunio bellach yr hawl i ofyn i berchnogion wneud cais am ganiatâd cynllunio cyn newid defnydd eiddo preswyl i fod yn ail gartref, llety gwyliau tymor byr, neu ddefnydd cymysg penodol. Hyd yn hyn mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau o fewn eu ffiniau.²⁶

I fonitro effaith y polisiau uchod ac i beilota ymyraethau polisi pellach, **lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Peilot Dwyfor ym mis Mehefin 2022**. Mae'r Llywodraeth yn cydweithio â Chyngor Gwynedd a'r cymdeithasau tai sy'n gweithredu yn ardal y peilot. Ynghyd â monitro effaith cyfarwyddyd cynllunio Erthygl 4 a threthi uwch ar ail gartrefi ac eiddo gwag, mae'r peilot hefyd yn gweithredu'r prosiect Prynu Cartref, sy'n cynnig cymorth ariannol i brynwyr lleol sydd â chysylltiad â'r ardal.

Sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol ym mholisi iaith y Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf oedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i **sefydlu Comisiwn Cymunedau Cymraeg ym mis Awst 2022**. Er nad yw'r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn newydd, dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru **gydnabod yn ffurfiol yr angen i ystyried datblygu ymyraethau polisi neilltuol i ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr**. Sefydlwyd y Comisiwn, â chylch gorchwyl i archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau a gwneud argymhellion polisi i gefnogi'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

²⁵ [Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg \[HTML\] | LLYW.CYMRU.](#)

²⁶ Ym mis Tachwedd 2025 dyfarnodd yr Uchel Lys bod rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ddiddymu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan eu bwriad i apelio i'r Llys Apêl.

Ym mis Awst 2024 cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol, **Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg**.²⁷ Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ac yn dangos yn glir bod sefydlogrwydd y Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae'r dwysedd uchaf o'i siaradwyr yn dirywio. **Barn y Comisiwn yw bod bygythiad sylweddol i hyfywedd y Gymraeg, nid yn unig yn yr ardaloedd hynny, ond hefyd ar lefel genedlaethol.**

Prif argymhelliad y Comisiwn yw bod angen i Lywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn rhoi statws swyddogol i ardaloedd yng Nghymru lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl y Comisiwn byddai **sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch** yn galluogi datblygu polisiau cyhoeddus sydd wedi'u teilwra i anghenion penodol yr ardaloedd hyn.

Mae'r adroddiad yn manylu ar sut y gellid amrywio polisi cyhoeddus er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd hyn. Cyniga'r Comisiwn nifer helaeth o argymhellion polisi mewn meysydd amrywiol gan gynnwys addysg, cynllunio a thai, datblygu economaidd, a chynllunio ieithyddol cymunedol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen gwaith pellach ar ddatblygu'r cynigion polisi pendant yn y meysydd hyn, ond mai'r cam cyntaf allweddol yw sefydlu'r ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai hyn yn creu'r fframwaith ar gyfer datblygu a gweithredu polisiau arwyddocaol mewn meysydd allweddol fel tai, cynllunio a'r economi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion yn yr adroddiad mewn egwyddor, gan gynnwys y prif argymhelliad o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Er bod y Llywodraeth wedi sefydlu fforwm ar gyfer ystyried sut y byddai modd gweithredu'r argymhellion hyn, **nid yw'n ymddangos y bydd unrhyw benderfyniadau pendant yn cael eu gwneud cyn diwedd cyfnod y Chweched Senedd.**

Mae'r Comisiwn wedi **pwysleisio na fyddai sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn golygu israddio statws y Gymraeg mewn rhannau eraill o Gymru.** Yn hytrach, mae angen cydnabod yr angen i ddatblygu a gweithredu polisiau sydd wedi eu teilwra i gyd-destunau ieithyddol amrywiol. Yn y cyd-destun hwn mae'r Comisiwn bellach wedi symud ymlaen i gam 2 y Comisiwn, fydd yn ystyried ymyraethau polisi sydd eu hangen mewn ardaloedd lle mae dwysedd is o siaradwyr Cymraeg.

²⁷ Comisiwn Cymunedau Cymraeg, **Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg** (Awst 2024).

3.2 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Mae'r dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos yn glir bod y **Gymraeg yn colli ei thir yn yr ardaloedd hynny lle mae hi'n draddodiadol wedi bod ar ei chryfaf**. Yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin y mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, ac mae'r dystiolaeth yn amlygu bod sefyllfa'r Gymraeg yn gwanhau yn yr ardaloedd hyn. Mae graddfa a chyflymder y gostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn arbennig yn destun pryder, ac yn **amlygu'r angen i weithredu ar fyrder i gefnogi'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd**.

Mae'r dystiolaeth ynghylch y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg hefyd yn amlygu arwyddocâd yr ardaloedd hyn o safbwynt defnydd iaith, yn ogystal â throsglwyddo iaith. Os am **sicrhau bod y Gymraeg yn parhau yn iaith fyw sy'n cael ei defnyddio'n naturiol** gan drwch y boblogaeth, rhaid atal dirywiad pellach yn sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle mae dwysedd y siaradwyr yn parhau'n gymharol uchel.

Er gwaetha'r ffaith bod y dystiolaeth ystadegol yn destun pryder, **mae rhai datblygiadau arwyddocaol dros y cyfnod adrodd yn gosod cyfeiriad llawer cliriach i ddatblygiad polisi cyhoeddus yn y dyfodol**. Y pwysicaf o'r rhain oedd sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Roedd sefydlu'r Comisiwn yn adlewyrchu shiftt polisi sylweddol ar ran Llywodraeth Cymru, ac **am y tro cyntaf ceir cydnabyddiaeth o'r angen i ffocysu'n benodol ar gefnogi ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr**, a lle mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei defnyddio a'i throsglwyddo'n naturiol rhwng y cenedlaethau.

Blaenoriaeth



Rhaid atal dirywiad pellach y Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae ei sefyllfa ar ei chryfaf ar hyn o bryd os ydym am gryfhau ei sefyllfa drwy Gymru gyfan. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno papur gwyn ar fyrder i weithredu prif argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Nid yw sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ynddo'i hun yn ateb terfynol i'r amrywiol heriau sy'n bodoli, ond **byddai gweithredu'r prif argymhelliad hwn yn gam sylweddol i'r cyfeiriad cywir**. Byddai sefydlu'r ardaloedd hyn yn creu fframwaith a mecanwaith cadarn ar gyfer datblygu, cyflwyno a gwerthuso ymyraethau polisi mewn meysydd allweddol fel tai, cynllunio, yr economi, a chynllunio ieithyddol cymunedol. Law yn llaw â diwygio'r gyfundrefn safonau hybu a'r strategaethau hybu lleol (gweler argymhelliad 6), dyma'r **cerbyd a'r cam cyntaf ar gyfer datblygu a chyflwyno'r ymyraethau polisi hanfodol fydd eu hangen i warchod a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn a thu hwnt**.

4. Gwasanaethau, gweithleoedd a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Un o'r prif heriau i'r Gymraeg heddiw yw sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r iaith y tu hwnt i'r cartref neu'r ystafell ddosbarth. Er bod nifer cynyddol yn medru'r Gymraeg, mae gallu pobl i'w defnyddio yn dibynnu ar ddarparu yn ymarferol sefyllfaoedd lle gall yr iaith gael ei defnyddio'n naturiol. Mae **Cymraeg 2050** yn cydnabod rôl ganolog Comisiynydd y Gymraeg a dylanwad Mesur y Gymraeg i yrru newid yng nghyd-destun y gweithle a gwasanaethau: dau faes sy'n darparu cyfleoedd hollbwysig i ddefnyddio'r Gymraeg. Pan nad yw'r cyfleoedd hyn ar gael, mae sgiliau'n gwanhau ac mae hyder yn gwegian.

Mae cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg – nid yn unig drwy ehangu gwasanaethau, ond hefyd drwy greu gweithleoedd Cymraeg a chynllunio gweithluoedd cynyddol ddwyieithog – yn gwbl greiddiol i oresgyn yr her honno ac i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw a gweithredol yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw'r cyd-gynllunio a chydweithio sy'n digwydd rhwng y Comisiynydd a phartneriaid allweddol eraill fel Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

4.1 Y dystiolaeth


Defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau

Mae'r Comisiynydd yn cynnal arolwg blynyddol o farn siaradwyr Cymraeg am wasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus, ac am y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yr arolwg diweddaraf a gynhaliwyd ddiwedd 2025 yn cynnwys sampl o 737 o siaradwyr Cymraeg o bob rhan o Gymru.

Gan ddibynnu ar y cyd-destun, mae rhwng 19% a 30% o siaradwyr Cymraeg o'r farn bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Siart 26: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch a yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol wedi cynyddu, lleihau, neu aros yr un peth dros y flwyddyn ddiwethaf


Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg



Mae cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg o'r farn **bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cynyddu yn y gwaith ac yn y gymuned ehangach** o gymharu â chyfleoedd wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal neu gyda busnesau ac elusennau.

Fel y gwelir yn Siart 27, er bod **93% o'r ymatebwyr yn credu ei bod hi'n bwysig cael gwasanaeth Cymraeg pan yn delio â chyrff cyhoeddus**, canran lai (75%) oedd yn hyderus eu bod yn gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg. **Yn achos apwyntiadau meddygol, roedd 88% o'r sampl yn credu ei bod yn bwysig gallu cael gwasanaeth Cymraeg**, a 56% yn hyderus eu bod yn gallu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg petaent yn dymuno. Roedd **89% o'r sampl yn credu ei bod hi'n bwysig cael gwasanaeth Cymraeg pan yn delio â busnesau ac elusennau**, ac roedd 55% yn hyderus eu bod yn gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg.

Siart 27: Y graddau y mae siaradwyr Cymraeg yn cytuno neu anghytuno â'r datganiadau canlynol



Busnesau ac elusennau

Rwy'n hyderus y gallaf gael gwasanaeth yn Gymraeg

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig cael gwasanaeth yn Gymraeg

Gwasanaethau iechedd a gofal


Rwy'n hyderus y gallaf gael gwasanaeth yn Gymraeg

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig cael gwasanaeth yn Gymraeg

Sector cyhoeddus

Rwy'n hyderus y gallaf gael gwasanaeth yn Gymraeg

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig cael gwasanaeth yn Gymraeg



(Ffynhonnell: Arolwg Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2019–20 hefyd yn darparu peth gwybodaeth am y graddau mae siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg, a'r graddau maent yn defnyddio'r gwasanaethau hyn.


Fel y gwelir yn Siart 28, mae siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy tebygol o adrodd eu bod wedi cael cynnig ac wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg y tro diwethaf iddynt gysylltu â'r awdurdod lleol o gymharu â phob math arall o ddarparwr gwasanaeth. Roedd 85% o siaradwyr Cymraeg yn dweud eu bod wedi cael cynnig gwasanaeth Cymraeg y tro diwethaf iddynt gysylltu â'r awdurdod lleol, a 53% ohonynt wedi defnyddio'r Gymraeg.

Ar gyfer meddygfa neu ysbyty, roedd 56% yn nodi eu bod wedi cael cynnig gwasanaeth yn Gymraeg, a 36% yn dweud eu bod wedi defnyddio'r Gymraeg. Roedd siaradwyr Cymraeg yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael cynnig gwasanaeth yn Gymraeg gan ddarparwyr nwy, trydan neu ddŵr (28%) neu gan gwmnïau ffôn neu ryngrwyd (14%).

Mae siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai oedd yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol a'r rhai oedd wedi dysgu'r iaith gartref fel plant ifanc yn fwy tebygol o ddewis a defnyddio'r Gymraeg ar gyfer pob math o wasanaeth.

Siart 28: Canran y siaradwyr Cymraeg oedd yn adrodd bod gwasanaethau Cymraeg wedi'u cynnig a'u defnyddio wrth ddelio â darparwyr gwasanaethau²⁸

- Y Gymraeg wedi'i chynnig a'i defnyddio
- Y Gymraeg wedi'i chynnig ond heb ei defnyddio
- Y Gymraeg heb ei chynnig ond wedi'i defnyddio
- Y Gymraeg heb ei chynnig na'i defnyddio



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd iaith 2019–20)

Mae arolwg y Comisiynydd hefyd yn gofyn pa iaith y defnyddiodd siaradwyr Cymraeg gan amlaf mewn sefyllfaoedd gwahanol dros y flwyddyn ddiwethaf. Er bod y cwestiynau yn yr Arolwg Defnydd iaith yn wahanol i gwestiynau arolwg barn y Comisiynydd, mae'r ganran sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg â'r sector cyhoeddus yn gymharol gyson. Mae arolwg y Comisiynydd yn dangos bod 44% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, gan amlaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg wrth ddelio â'r sector cyhoeddus. Adroddad'r Arolwg Defnydd iaith hefyd bod tua hanner y siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio ag awdurdodau lleol.

Yn ogystal â gofyn pa iaith yr oeddent yn ei defnyddio gan amlaf mewn sefyllfaoedd gwahanol, mae arolwg y Comisiynydd yn gofyn pa iaith fyddai'n well ganddynt ei defnyddio yn y sefyllfaoedd hyn. Fel y gwelir yn siart 29 **mae'r canrannau sy'n datgan y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg bob tro neu gan amlaf yn gyson uwch na'r canrannau sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd hyn ar hyn o bryd**. Diddorol yw nodi y byddai'n well gan bron i deirgwaith cymaint o siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg bob amser neu gan amlaf wrth gael gwasanaethau iechyd a gofal (28%), o'i gymharu â'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd (10%). Mae'r un peth yn wir mewn perthynas â busnesau ac elusennau.

²⁸ Nid yw'r ystadegau hyn yn cynnwys y siaradwyr Cymraeg oedd wedi nodi nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â'r darparwyr gwasanaeth yn ystod y 12 mis blaenorol.

Siart 29: Pa iaith mae siaradwyr Cymraeg wedi ei defnyddio gan amlaf yn y sefyllfaoedd canlynol, a pha iaith fyddai'n well ganddynt ei defnyddio yn y sefyllfaoedd canlynol

Iaith

- Cymraeg bob amser neu amlaf
- Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal
- Saesneg bob amser neu amlaf
- Iaith arall
- Amherthnasol

Yn y gwaith

Iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd

Iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio

Yn fwy eang yn y gymuned

Iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd

Iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio

Sector cyhoeddus

Iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd

Iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio

Wrth gael gwasanaethau iechyd a gofal


Iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd

Iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio

Busnesau ac elusennau

Iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd

Iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio




(Ffynhonnell: Arolwg Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Mae'r canlyniadau hyn yn gyson â chanlyniadau arolwg ymchwil arall a gynhaliwyd gan y Comisiynydd ynghylch defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.²⁹ Roedd canlyniadau'r arolwg hwnnw hefyd yn dangos bod canran y plant a phobl ifanc oedd yn datgan y byddent yn *dymuno* defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn sylweddol uwch na'r ganran oedd yn nodi eu bod nhw yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio amrywiol wasanaethau ar hyn o bryd.

Yn ôl yr Arolwg Defnydd Iaith, y prif resymau mae siaradwyr Cymraeg yn eu rhoi dros ddewis defnyddio'r Saesneg wrth dderbyn gwasanaethau yw bod yn well ganddynt ddefnyddio'r Saesneg, neu eu bod yn poeni nad yw eu Cymraeg yn ddigon da.


Siart 30: Prif resymau a roddwyd gan siaradwyr Cymraeg oedd wedi dweud eu bod yn defnyddio'r Saesneg yn bennaf, bron bob amser, neu bob amser, dros ddefnyddio'r Gymraeg



Roedd y Comisiynydd yn troi'r cwestiwn hwn ar ei ben i raddau, ac yn gofyn i siaradwyr Cymraeg beth fyddai yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach.

²⁹ Comisiynydd y Gymraeg, Y defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc (Medi 2025).

Siart 31: Beth fyddai'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach?



(Ffynhonnell: Arolwg Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Gwelir yn glir o'r canlyniadau hyn **mai'r prif beth fyddai'n annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg fyddai pe bai pobl eraill yn cychwyn sgwrs yn Gymraeg**, neu pe bai nhw eisoes yn gwybod bod rhywun yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Arolwg Defnydd Iaith hefyd yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle mae staff yn ei gwneud yn amlwg eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Siart 32: Iaith a ddewisir fel arfer gan siaradwyr Cymraeg yn ôl y math o wasanaeth³⁰

Iaith

- Cymraeg bob amser, bron bob amser, neu'n bennaf
- Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal
- Saesneg bob amser, bron bob amser, neu'n bennaf


I siarad â staff sy'n ei gwneud yn amlwg eu bod yn gallu siarad Cymraeg

I gael arian o dwll yn y wal

Ar wefannau gwasanaethau cyhoeddus

Ar beiriant talu hunan-wasanaeth

I lenwi ffurflenni swyddogol




(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Mae'n drawiadol mai'r **gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio amlaf o lawer yw'r rhai lle mae aelod o staff yn ei gwneud hi'n amlwg eu bod yn gallu siarad Cymraeg**, a gellid dyfalu mai gwasanaethau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn fyddai'r rhain. Mae hi hefyd yn ddiddorol mai gwasanaethau twll yn y wal sy'n cael eu defnyddio nesaf, â dros chwarter siaradwyr Cymraeg yn dewis defnyddio'r gwasanaeth cyffredin hwn, sydd wedi hen sefydlu.

³⁰ Nid yw'r data hwn yn cynnwys y rhai oedd wedi nodi nad oeddent wedi defnyddio'r gwasanaeth. Ar gyfer y dadansoddiad hwn mae'r categorïau bob amser/bron bod amser yn Gymraeg a Cymraeg yn bennaf wedi'u cyfuno. Mae'r categorïau bob amser/bron bob amser yn Saesneg a Saesneg yn bennaf hefyd wedi'u cyfuno.


Mae arolwg y Comisiynydd hefyd yn dangos yn glir bwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, ac nad oes rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg:



82% o siaradwyr Cymraeg yn nodi eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os ydyn nhw ar gael yn hawdd ac yn ddi-rwystr.

81% yn nodi eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau yn ei gwneud yn glir eu bod ar gael.

Un dull amlwg o gyfathrebu'r gallu i siarad Cymraeg yw gwisgo bathodyn oren laith Gwaith. Â'r logo yn dathlu 20 mlwyddiant yn 2025, mae wedi hen ennill ei blwyf. Mae data arolwg y Comisiynydd yn ategu hyn â 75% o siaradwyr Cymraeg yn datgan eu bod yn ymwybodol o'r logo a'i ystyr. Dywedodd 77% o'r ymatebwyr hefyd y byddai gweld y logo hwn yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg.



75% o ymatebwyr yn datgan eu bod yn ymwybodol o'r logo a'i ystyr.

77% o ymatebwyr yn nodi y byddai gweld y logo hwn yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg.

65% wedi cychwyn sgwrs yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl gweld y logo.


Argaeledd gwasanaethau Cymraeg

O dderbyn y byddai **82% o siaradwyr Cymraeg yn nodi eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os ydyn nhw ar gael yn hawdd ac yn ddi-rwystr**, teg yw archwilio'r data sydd gennym am argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Comisiynydd yn gwirio gwasanaethau Cymraeg sefydliadau yn systematig a chyson, gan gasglu tystiolaeth am brofiadau defnyddwyr a sut mae sefydliadau'n perfformio mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol. Mae hyn yn rhoi mewnwelediad uniongyrchol i ni i brofiadau siaradwyr Cymraeg a throsolwg o'r sicrwydd y gall defnyddwyr dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Cyhoeddir y canfyddiadau hyn drwy amrywiaeth o adroddiadau perfformiad rheolaidd.³¹

³¹ Adroddiadau perfformiad (Cyrchwyd: Ionawr 2026).

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Comisiynydd wedi mesur gallu sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau drwy gynnal arolygon oedd yn canolbwyntio ar naw maes gwasanaeth allweddol. Mae'r canlyniadau yn Siart 33 yn dangos bod lefelau cydymffurfio yn gyson uchel ar draws y gwasanaethau hynny lle mae elfen gref o reolaeth ganolog o fewn sefydliadau, gan gynnwys meysydd fel hunaniaeth gorfforaethol a gwefannau.

Siart 33: Canran y sefydliadau a arolygwyd oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau perthnasol (2021–25)




(Ffynhonnell: Data sy'n deillio o weithgareddau monitro Comisiynydd y Gymraeg)

Mae Siart 33 yn dangos y lefelau uchaf o gydymffurfiaeth yn 2024–25 ym mhob un o'r meysydd dan sylw. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein hadroddiad diweddaraf ar berfformiad sefydliadau, **Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn**.³² Pwysleisiwyd yn yr adroddiad hwnnw fod nifer sylweddol o sefydliadau wedi bod yn gweithredu'r safonau ers sawl blwyddyn bellach, a bod y cynnydd cyson mewn lefelau cydymffurfiaeth dros y blynyddoedd diwethaf **yn awgrymu bod ymwybyddiaeth o'r gofynion wedi gwreiddio a'u bod yn rhan annatod o weithgareddau'r sefydliadau**.

Mae gwerth nodi, fodd bynnag, y cynnydd cymharol araf yng nghanran y sefydliadau i allu delio â galwadau ffôn a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Siart 34 yn dangos i'r ganran godi o 56% yn 2021–22 i 61% yn 2022–23, cyn disgyn eto yn 2023–4 a chyrraedd 63% yn 2024–25. Mae hyn yn awgrymu fod peth cynnydd ond bod y cynnydd yn rhy araf ac ansefydlog o ystyried hyd y cyfnod dan sylw.


Siart 34: Canran y sefydliadau a arolygwyd oedd yn delio â galwadau ffôn yn Gymraeg (2021–25)



³² Comisiynydd y Gymraeg, **Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn** (Gorffennaf 2025).

Casgliadau allweddol

- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y graddau y **mae gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn amrywio yn sylweddol yn dibynnu ar y math o wasanaeth**. Er bod canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau Cymraeg gan awdurdodau lleol, er enghraifft, canran isel iawn sy'n cael cynnig gwasanaeth yn Gymraeg mewn sectorau eraill fel cwmnïau ffôn a rhyngrwyd.
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n **datgan y byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn sylweddol uwch na'r ganran sy'n nodi eu bod nhw yn defnyddio'r Gymraeg** wrth dderbyn gwahanol wasanaethau.
- Er bod cyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn dewis defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau, mae **cyfran sylweddol hefyd sy'n dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg**.
- Y **prif resymau a nodwyd dros beidio â defnyddio'r Gymraeg** oedd bod yn **well gan unigolion ddefnyddio'r Saesneg**, neu bod **diffyg hyder ganddynt yn eu sgiliau Cymraeg**.
- Mae tystiolaeth glir y **byddai unigolion yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe bai'r gwasanaethau hynny'n cael eu cynnig yn rhagweithiol**, e.e. drwy gyfarch yn Gymraeg neu ddefnyddio logo Iaith Gwaith i amlygu cynnig Cymraeg, a bod defnyddio'r Gymraeg yn **ddewis hawdd a hwylus**.
- Mae'r data sy'n codi o waith arolygu'r Comisiynydd yn dangos bod **perfformiad sefydliadau yn gwella'n gyson ond bod rhagor o waith i'w wneud**. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â darparu gwasanaethau ffôn yn Gymraeg, sydd yn bwysig o ystyried **mai siarad Cymraeg ag aelod o staff yw'r gwasanaeth Cymraeg y mae siaradwyr Cymraeg fwyaf tebygol o'i ddefnyddio**.



laith gwasanaethau
cyhoeddus



Yn sgil datblygu a gweithredu cynllun iaith, mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn sicrhau bod pob cwsmer, ble bynnag y maent yn byw, yn gallu defnyddio gwasanaethau Cymraeg o safon. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad CThEF i hygyrchedd a chynhwysiant, gan wneud y sefydliad yn agored i bawb.

Wrth drawsnewid i fod yn wasanaeth digidol modern, mae angen mynediad cyflym a syml i gwsmeriaid. Mae ap newydd CThEF yn galluogi cwsmeriaid i reoli eu harian a'u treth mewn un lle, gan leihau'r angen am gyswllt ffôn neu bost.

Fel pennaeth gwasanaethau Cymraeg CThEF mae Lee Jones yn teimlo'n gryf am gynnig yr un cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg



Wrth i opsiynau digidol ddod yn fwy poblogaidd, mae CThEF wedi trawsnewid ein gwasanaethau lle mae galw mawr amdanynt fel dod o hyd i'ch Rhif Yswiriant Gwladol, hawlio ad-daliad treth, gwirio eich cod treth a hawlio budd-dâl plant, i alluogi cwsmeriaid i hunan wasanaethu. Rhan annatod o hyn oedd datblygu ein holl wasanaethau ar-lein yn Gymraeg.

Mae'r ap yn galluogi defnyddwyr i reoli eu materion treth mewn un man yn ddwyieithog, gan ei wneud y ffordd fwyaf cyflym a hwylus i ddelio â llawer o weithredoedd a chwestiynau syml.

Mae'r ap hefyd yn torri tir newydd, yn ôl Lee.



Drwy ddysgu o'n hymchwil defnyddwyr Cymraeg a'n hegwyddorion dylunio gwasanaeth dwyieithog, yr ap hwn yw'r cyntaf o'i fath ar draws Llywodraeth y DU i gynnig yr opsiwn i newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ddi-dor, heb fod angen i ddefnyddwyr newid gosodiadau eu ffôn.

Mae'r nodwedd arloesol hon wedi profi'n hynod boblogaidd gyda chwsmeriaid, gan fod nifer yn awyddus i allu newid rhwng y ddwy iaith tra'n gweithio yn yr ap.

Mae dros 36,500 o ddefnyddwyr wedi dewis yr opsiwn Cymraeg eisoes, a hynny'n profi llwyddiant yr ap. Mae hyn yn lleihau'r pwysau ar wasanaeth cwsmeriaid a fyddai fel arfer yn gorfod ymdrin ag ymholiadau sylfaenol ac mae'n galluogi staff i ganolbwyntio ar ymholiadau fwy cymhleth.

Ond mae Lee yn awyddus hefyd i sicrhau bod y staff mewnol yn ymwybodol o bwysigrwydd y gwasanaethau dwyieithog.



Mae pob ymgyrch, fel yr un sydd wedi datblygu a hyrwyddo'r ap, yn cynnwys cyfathrebu mewnol i staff, gyda'r nod eu bod hwythau yn llawn ymwybodol o'r rhesymeg dros gyflenwi gwasanaeth dwyieithog.

Mae'n wych gallu datblygu'r dechnoleg ond mae'n hollbwysig mynd yr ail filltir a'i hyrwyddo yn effeithiol i'n defnyddwyr – ac mae hynny yn waith parhaus.





30% o ymatebwyr yn nodi bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

27% yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob tro neu gan amlaf yn eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, a **30%** ychwanegol yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal.




38% yn nodi y byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg bob tro neu gan amlaf yn eu gwaith, a **30%** yn ychwanegol yn datgan y byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.

Defnyddio'r Gymraeg wrth weithio

Nodwyd eisoes bod 30% o'r bobl a ymatebodd i arolwg barn y Comisiynydd yn teimlo bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y cyd â'r gymuned, dyma'r lleoliad a welodd y cynnydd mwyaf. Gwelwyd eisoes yn Siart 29 fod 27% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn rhan o arolwg y Comisiynydd wedi defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth eu gwaith, a bod 30% pellach wedi defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn weddol gyfartal. Roedd arolwg barn y Comisiynydd hefyd yn gofyn pa iaith fyddai'r ymatebwyr yn dymuno ei defnyddio yn y gwaith, **a dywedodd 38% y byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg bob tro neu gan amlaf yn y gwaith.**

Mae canlyniadau arolwg barn y Comisiynydd hefyd yn rhoi mewnwelediad manylach i ni ynghylch *sut* mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, hynny yw pa sgiliau iaith maen nhw'n eu defnyddio a gyda phwy. Er enghraifft, **mae'n ddiddorol nodi mai ar lafar mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gan amlaf**, ac yn benodol felly wrth siarad â chydweithwyr (boed hynny wrth drafod gwaith neu wrth sgwrsio'n fwy anffurfiol).


Siart 35: Pa iaith mae siaradwyr Cymraeg yn ei defnyddio'n bennaf i wneud y canlynol?



(Ffynhonnell: Arolwg Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg, 2025)

Er nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â'r Arolwg Defnydd Iaith oherwydd amrywiaeth yr ymatebion posibl, mae'r canlyniadau hyn yn gymharol gyson â chanlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith a gynhaliwyd yn 2019–20. Nododd 30% o siaradwyr Cymraeg bryd hynny eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu fel arfer yn y gwaith i drafod gwaith â chydweithwyr. Ac roedd 54% yn defnyddio'r Gymraeg i sgwrsio am bethau nad oeddent yn ymwneud â'r gwaith, o leiaf weithiau.

Siart 36: Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg yn y gwaith



(Ffynhonnell: Arolwg Defnydd Iaith 2019–20)

Mae modd darllen dadansoddiad pellach o ganlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith ac o agweddau tuag at yr iaith yn y bwletin ystadegol sydd wedi'i neilltuo i drafod **Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle**.³³ Mae hefyd yn adrodd ar farn pobl am argaeledd technolegau a chyfleoedd hyfforddi i gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Rhaid pwysleisio nad yw canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith yn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi bod i drefniadau gweithio ers y pandemig mewn rhai sectorau, â nifer yn mabwysiadu trefniadau gweithio hybrid â defnydd helaeth o gyfarfodydd rhithiol. **Bydd angen felly sefydlu gwaelodlin data newydd ar lefel genedlaethol er mwyn canfod pa effaith mae dulliau newydd o weithio – a thechnolegau newydd – yn eu cael ar amlder defnydd yn y gweithle, yn ogystal â hyder siaradwyr i ddefnyddio eu hystod sgiliau.**

Casgliadau allweddol

- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod **y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ar gynnydd**.
- Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu **y byddai siaradwyr Cymraeg yn hoffi rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith** â 38% yn nodi y byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg *bob tro neu gan amlaf* yn y gweithle a 30% pellach yn dweud y byddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, hynny yw gweithio'n gwbl ddwyieithog.

4.2 Prif ddatblygiadau

Mae'r dystiolaeth ystadegol uchod yn darparu gwybodaeth bwysig am brofiadau a dyheadau siaradwyr Cymraeg o ran defnyddio'r iaith wrth dderbyn gwasanaethau ac wrth weithio, gan hefyd amlygu'r heriau ymarferol a seicolegol sy'n dylanwadu ar eu dewisiadau iaith. Mae'r wybodaeth hon yn sail i waith y Comisiynydd wrth hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd

Pwrpas gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau. Mae'r gwaith yn mynd ymhell y tu hwnt i ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi yn unig; mae'n cynnwys gosod dyletswyddau, monitro cydymffurfiaeth, ymchwilio i gwynion, hyrwyddo arfer da, a darparu arweiniad a chefnogaeth. Gyda'i gilydd, **mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.**

Cafwyd adroddiad manwl o sut roedd sefydliadau'n perfformio yn Rhan 3 yr adroddiad 5-mllynedd diwethaf.³⁴ Daethpwyd i'r casgliad bryd hynny fod **cyflwyno'r safonau wedi gwella profiadau**

³³ Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle (Arolwg Defnydd Iaith): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 [HTML] | LLYW.CYMRU.

³⁴ Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20: Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg.

siaradwyr Cymraeg yn sylweddol ond bod lle i wella cysondeb perfformiad rhai sefydliadau. Wrth adolygu perfformiad sefydliadau yn 2019–20, rhybuddiodd y Comisiynydd fod rhai sefydliadau'n dal i fethu â chyrraedd y safon, gan greu risg o fwllch rhwng y sefydliadau oedd yn cydymffurfio'n dda ac yn gwella'n barhaus, a'r rhai heb drefniadau digonol ar waith.

Roedd perfformiad yn amrywio'n sylweddol rhwng sectorau: perfformiodd y sefydliadau a dderbyniodd y safonau gyntaf – awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r Parciau Cenedlaethol – orau, tra roedd y sectorau ieuchyd ac addysg yn wannach ac yn anghyson. Dengys yr arolygon hefyd nad oedd gwasanaethau sefydliadau annatganoledig, sy'n dal i weithredu cynlluniau iaith, ar gael yn Gymraeg i'r un graddau â gwasanaethau sefydliadau sy'n gweithredu safonau.

Mae lefelau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg wedi gwella dros y cyfnod adrodd, ond mae cynnydd mewn rhai meysydd yn dal yn araf neu'n anghyson, fel y caiff ei nodi yn yr adroddiad **Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn**.³⁵ Er bod sefydliadau cyhoeddus yn ymgorffori safonau'r Gymraeg yn raddol mewn meysydd fel brandio corfforaethol, gwefannau, dogfennau, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion swyddi – mae diffygion parhaus mewn gwasanaethau rheng flaen – dros y ffôn ac mewn derbynfeydd, er enghraifft – ac wrth hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Er gwaetha'r cynnydd cadarnhaol dros y cyfnod adrodd, mae'r dystiolaeth yn amlygu bod **gormod o enghreifftiau yn parhau lle nad yw siaradwyr Cymraeg bob amser yn derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg a lle mae diffyg cynnig rhagweithiol** yn tanseilio hyder ddefnyddwyr i ddefnyddio'r iaith.

Er mwyn mynd i'r afael â'r her, **mabwysiadwyd dull o gyd-reoleiddio** yn ystod y cyfnod adrodd, gan roi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth a hunan-reoleiddio gan sefydliadau. Mae llwyddiant y dull yn dibynnu ar ddiwylliant agored ac onest sy'n galluogi deialog adeiladol a chydweithio. Mae arwyddion cynnar fod y dull hwn yn dechrau dwyn ffrwyth, gan **symud y pwyslais o gydymffurfiaeth ffurfiol yn unig i'r hyn sy'n wirioneddol bwysig, sef sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr** y Gymraeg, yn enwedig wrth dderbyn gwasanaethau.

Yn unol â'r dull cyd-reoleiddio, cyhoeddwyd cyfres o ddeilliannau rheoleiddio yn 2024 er mwyn **gosod safonau'r Gymraeg a'r gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith**, a sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn cael yr effaith fwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Y nod yw sicrhau bod rheoleiddio yn arwain at ganlyniadau go iawn i ddefnyddwyr y Gymraeg, gan osgoi sefyllfa lle mae sefydliad yn cydymffurfio'n arwynebol yn unig.

Mae'r dyhead hwn i fabwysiadu dull rheoleiddio mwy rhagweithiol, strategol a deinamig yn cael ei grisialu yng **Nghynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2025–30**.³⁶ Mae'r cynllun strategol hefyd yn amlinellu blaenoriaethau a themâu arbennig ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys ffocws penodol ar weithleoedd a'r sector ieuchyd a gofal, ochr yn ochr â meysydd megis plant a phobl ifanc, y safonau hybu, a chynllunio ieithyddol cymunedol.

³⁵ Comisiynydd y Gymraeg, *Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn* (Gorffennaf 2025).


³⁶ Comisiynydd y Gymraeg, *Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2025–30*.

Deilliannau rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg



Deilliant 1:

Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur.



Deilliant 2:

Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.



Deilliant 3:

Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.



Deilliant 4:

Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd.



Deilliant 5:

Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.



Deilliant 6:

Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.

Gweithleoedd a'r Gymraeg

Fel y nodwyd eisoes, mae gan y system addysg, a'r system addysg drydyddol yn benodol, rôl allweddol yn sicrhau bod mwy o unigolion yn gadael addysg a hyfforddiant yn hyderus i allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â'r ffocws hwn ar greu gweithluoedd cynyddol ddwyieithog, mae hefyd **angen canolbwyntio ar rôl cyflogwyr wrth gynllunio ar gyfer recriwtio staff, defnyddio a datblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu** ac wrth gynnig cyfleoedd ystyrlon i unigolion ddefnyddio'r iaith wrth weithio. Mae hyn yn hanfodol hefyd er mwyn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd i ddefnyddwyr.

Mae'r Comisiynydd, wrth weithio gyda sefydliadau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn chwarae rôl ganolog yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd. Mae cyfundrefn **safonau'r Gymraeg yn cynnig fframwaith bwerus i annog sefydliadau i symud ar hyd continwmm ieithyddol**. Yn ogystal â safonau sy'n ymwneud â materion fel **asesu sgiliau ieithyddol y gweithlu, cynnig hyfforddiant ieithyddol, a recriwtio, mae gofyn i sefydliadau fabwysiadu polisi ynghylch eu defnydd mewnol o'r Gymraeg**. Datblygiad pwysig yn y cyd-destun hwn oedd yr ymrwymiad yn Neddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i adolygu'r safonau sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu, ochr yn ochr â'r cod arfaethedig ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. **Dyma ddatblygiad pwysig a all rymuso gwaith y Comisiynydd yn y maes strategol hwn.**

Er bod y mwyafrif o sefydliadau wedi mabwysiadu polisïau mewnol ar ddefnyddio'r Gymraeg, yn unol â gofynion y safonau, **mae tystiolaeth yn dangos bod y polisïau hyn yn aml yn rhy gyffredinol ac nad ydynt yn arwain at gynnydd gwirioneddol yn y defnydd dyddiol o'r iaith**. Mae hyn yn awgrymu bod nifer o sefydliadau yn cael trafferth cynllunio'n strategol a bwriadol ar gyfer newid diwylliant wrth ddefnyddio'r iaith yn y gweithle, ac o ran mesur cynnydd yn effeithiol.

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i gydweithio â sefydliadau i ddatblygu polisïau ac adnoddau ymarferol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Er bod nifer o sefydliadau wedi manteisio ar y cymorth hwn, nid yw'r adnoddau sydd ar gael wedi'u defnyddio'n gyson ar draws sectorau. Mae hyn yn **tanlinellu'r angen am gefnogaeth ganolog fwy strwythuredig ac anogaeth i sefydliadau fabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth**.

Mae cael darlun clir o sgiliau Cymraeg y gweithlu yn hanfodol er mwyn i sefydliadau gynllunio recriwtio a hyfforddiant, ac er mwyn iddynt allu annog eu siaradwyr Cymraeg presennol i ddefnyddio mwy o'r iaith, a hynny er mwyn gwella gwasanaethau. Er bod rhai sefydliadau wedi dechrau asesu sgiliau eu staff, mae diffyg data dibynadwy yn parhau i rwystro nifer o sefydliadau rhag gallu cynllunio'u gweithluoedd, ac nid oes gan y mwyafrif waelodlin gynhwysfawr i fapio sgiliau yn erbyn galw na nodi bylchau mewn capasiti.

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i gydweithio â phartneriaid cenedlaethol allweddol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – â'r nod o ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Coleg yn arwain ar gynllunio addysg a hyfforddiant trydyddol yn y Gymraeg i gwrdd ag anghenion gweithlu'r dyfodol tra bo'r Ganolfan, trwy ei rhaglen Cymraeg Gwaith, yn datblygu sgiliau iaith y gweithlu presennol ac yn darparu hyfforddiant ieithyddol i weithluoedd mewn sawl sector. Mae'r ddau sefydliad yn canolbwyntio ar feysydd strategol megis iechyd a gofal, chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus.

Does dim dwywaith fod y sefydliadau uchod i gyd yn rhannu gweledigaeth ynghylch potensial y gweithle fel maes allweddol ar gyfer datblygu siaradwyr newydd ac ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith. Mae gan y partneriaid allweddol hyn gyfraniad strategol unigryw i'w gynnig i'r maes cynllunio gweithleoedd dwyieithog, ac mae parhau i gryfhau'r cydweithio hwn yn hanfodol.



Iaith gweithio ac
ehangu gorwelion



Mae Charmine Smikle yn ddylunydd gwasanaethau i Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n falch o fod mewn gweithle lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol ac yn cael ei annog.

Cafodd Charmine ei geni a'i magu yng Nghaerdydd ar aelwyd ddi-Gymraeg, ac er i'w brodyr fynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, penderfynodd ei mam ei hanfon i ysgol Gymraeg ac mae Charmine wedi gwerthfawrogi hynny erioed.



Mae fy mrodyr ychydig yn hŷn na fi ac roedden nhw wedi cychwyn mewn addysg cyfrwng Saesneg. Ond erbyn iddi hi ddod yn amser i fi fynd i'r ysgol gynradd, roedd mam yn ffrindiau gyda rhai rhieni, oedd hefyd yn ddi-Gymraeg, a oedd wedi penderfynu anfon eu plant i ysgol Gymraeg a dyna, felly, ddigwyddodd i fi.

Alla' i ddim cofio dysgu'r Gymraeg a dweud y gwir, wnaeth e ddigwydd yn ddigon naturiol ond rwy mor falch mod i wedi achos mae wedi bod yn help mawr i fi yn ddiweddarach yn fy mywyd

Wedi gadael addysg uwchradd, aeth Charmine i Lundain i'r brifysgol i wneud gradd mewn gwyddoniaeth fiolegol, cyn mynd i deithio am ychydig i'r Unol Daleithiau, Mecsico, Guatemala a Belize â'r bwriad o ddysgu Sbaeneg.



Bues i'n byw gyda theulu ym Mecsico ac roedd eu Saesneg yn brin iawn felly roedd rhaid trio siarad Sbaeneg ac roedd y Gymraeg yn gymorth wrth ddysgu'r iaith. Prin oedd y cyfleoedd i siarad Cymraeg tra yn y brifysgol ond wrth geisio dysgu iaith arall roeddwn yn teimlo fod gen i fantais fawr o fod yn ddwyieithog yn barod.

Wedi dychwelyd i Gymru, cafodd amryw o swyddi cyn setlo yn ei swydd bresennol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a dyna lle y gwnaeth hi werthfawrogi gallu siarad Cymraeg yn naturiol yn y gweithle am y tro cyntaf.



Fe wnaeth fy nharo yn syth fod y defnydd o'r Gymraeg yma yn rhywbeth hollol naturiol. Mae sgysiau dwyieithog yn cael eu hannog ac mae 'na gyfleoedd hefyd i ddatblygu eich sgiliau iaith e.e. drwy ddigwyddiadau anffurfiol paned a chlonc.

Fi ddim yn credu i fi werthfawrogi ynghynt fod y Gymraeg mor bwysig i fi ond o edrych yn ôl nes i sylweddoli fod y Gymraeg wedi bod yn fanteisiol i fi ymhob swydd rwy wedi ei chael.

Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle wedi codi fy hyder o ran ei defnyddio yn gymdeithasol hefyd ac mae'r ddwy elfen honno yn plethu'n naturiol gyda'i gilydd.

Rwy'n ymwybodol mod i ychydig yn ddihyder o hyd os yn gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg ond mae yna gymorth cyson wrth law ac mae'r ffaith fod y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwaith bob dydd yn gwneud popeth yn haws.



Defnyddio'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn hollbwysig, yn enwedig gan fod unigolion yn aml mewn sefyllfaoedd bregus wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

Cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf o gynllun **Mwy na geiriau** gan Lywodraeth Cymru yn 2022.³⁷ Dyma'r fframwaith cenedlaethol sy'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu dewis iaith. Wrth wraidd y cynllun mae **egwyddor y Cynnig Rhagweithiol**, sy'n gosod y cyfrifoldeb ar ddarparwyr i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn hytrach na disgwyl i'r unigolyn ofyn amdanynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwelwyd **newid sylweddol yn y tirwedd polisi a deddfwriaeth, â safonau'r Gymraeg bellach wedi gwreiddio'n ddyfnach yn y sector iechyd a gofal**. Mae hyn wedi arwain at osod disgwyliadau cliriach ar sefydliadau cyhoeddus i ddarparu ystod eang o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg – gan gynnwys gohebiaeth, gwefannau, digwyddiadau cyhoeddus a ffurflenni.

Er bod y safonau'n gosod dyletswyddau ar gyrff i ddarparu rhai gwasanaethau Cymraeg, nid ydynt yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau clinigol. Yn hytrach, mae **gofynion penodol ar gyrff i lunio polisi ar ddarparu gwasanaeth gofal sylfaenol a chynllun 5-mllynedd sy'n amlinellu sut y byddant yn cynyddu capasiti i gynnal ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg**. Ystyrir mai'r gwasanaethau clinigol hyn yw prif ffocws cynllun *Mwy na geiriau* wrth geisio gwella darpariaeth iechyd a gofal drwy'r Gymraeg.

Daeth cyfnod 5-mllynedd cynlluniau clinigol y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i ben yn ystod y cyfnod adrodd. Teg dweud mai **araf oedd y cynnydd yn ystod y cyfnod cyntaf** hwn. Cyhoeddwyd y cynlluniau'n hwyr, ac mae tystiolaeth gadarn o gynnydd mewn capasiti ieithyddol yn ystod y cyfnod 5-mllynedd cyntaf yn gyfyngedig. Fodd bynnag, ystyrir bod seilwaith sylfaenol bellach wedi'i osod, gan greu sail i'r sector adeiladu arni. Mabwysiadodd y sector gynlluniau 5-mllynedd newydd yn ystod 2025, ac mae'n hanfodol i'r sector weithredu â momentwm ac ar fyrder os ydym am weld gwelliannau pendant ym mhrofiadau defnyddwyr Cymraeg o wasanaethau clinigol.

Rhan allweddol o sicrhau gwell profiadau i siaradwyr Cymraeg yw cynyddu capasiti gweithlu'r sector iechyd a gofal i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma enghraifft benodol o'r cydweithio strategol sy'n digwydd rhwng y Comisiynydd, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae datblygu cyrsiau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes iechyd a gofal wedi bod yn flaenoriaeth i'r Coleg dros y cyfnod adrodd. Yn yr un modd gwelir cyfraniad sylweddol y Ganolfan wrth iddynt ddatblygu hyfforddiant ieithyddol penodol i'r sector iechyd a gofal. Mae'r gwaith hwn yn gwbl greiddiol i gyflawni rhai o amcanion craidd cynllun *Mwy na geiriau*, a hefyd i alluogi'r Comisiynydd i weithredu ei bwerau rheoleiddio er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd yn gwella eu gwasanaethau a'u profiadau i siaradwyr Cymraeg.

³⁷ *Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol* | LLYW.CYMRU.

Ers 2019, mae **dyletswyddau penodol wedi'u gosod ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol** i gyd-fynd â dyfodiad safonau'r Gymraeg i'r sector iechyd. Un o gamau gweithredu cynllun *Mwy na geiriau* yw cynnal arolwg er mwyn deall effaith y dyletswyddau iaith hyn ar ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd yr ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth bwysig er mwyn deall y graddau mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu gweithredu yn effeithiol ac a oes angen cryfhau'r fframwaith monitro ac atebolrwydd. Dylid hefyd ystyried y graddau y mae angen adolygu'r gofynion presennol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau clinigol eu darparu yn y blynyddoedd i ddod.

Y tu hwnt i wasanaethau clinigol, nodwyd yn ein hadroddiad ar berfformiad sefydliadau yn 2024, *Cyflawni newid gyda'n gilydd*,³⁸ fod angen i'r sector iechyd adeiladu ar y momentwm y mae wedi llwyddo i'w greu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a sicrhau bod y cynnydd yn parhau i'r cyfnod nesaf. Mae canlyniadau **arolygon 2024–25 yn dangos bod y sector wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her honno ac mae gwelliannau sylweddol i'w gweld**, gan gynnwys:

- Cynnydd o 68% i 80% yn nifer y dogfennau sydd ar gael yn Gymraeg mewn blwyddyn – sy'n cynnydd o 42 pwynt canran o gymharu â data 2021, pan gynhaliwyd yr arolygon gwirio cyntaf
- Cynnydd o 74% i 87% yn nifer y tudalennau gwe sydd ar gael yn Gymraeg mewn blwyddyn
- Cynnydd o 64% i 72% yn y gyfran o bostiadau cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael yn Gymraeg mewn blwyddyn.

Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o ran darparu gwasanaethau derbynfeydd a gwasanaethau dros y ffôn. **Dylid pwysleisio nad yw'r heriau hyn yn unigryw i'r sector iechyd.**

³⁸ Comisiynydd y Gymraeg, *Cyflawni newid gyda'n gilydd* (Awst 2024).



laith gofal



Mae gan Ceri Innes-Parry brofiad personol o aelodau'r teulu yn dioddef â dementia ac erbyn hyn mae'n un o aelodau is-grŵp gofal dementia a'r Gymraeg sy'n ceisio gwella'r sefyllfa i gleifion a'u teuluoedd ar draws Cymru.

Yn 2020 cafodd mam Ceri ddiagnosis o dementia a phedair blynedd yn ddiweddarach cafodd ei mam-yng-nghyfraith yr un diagnosis. Felly mae hi'n gwybod o brofiad personol yr heriau sylweddol sydd i dderbyn triniaeth a chymorth drwy'r Gymraeg. Mae hi hefyd yn deall pa fath o gyfleoedd a newidiadau fyddai'n gwneud gwahaniaeth.

Yn gyn-bennaeth ysgol, gadawodd Ceri ei swydd er mwyn gallu cynnig gofal i'w mam a cheisio sicrhau fod y Gymraeg yn rhan annatod o'i gofal.



Cymraeg yw iaith gyntaf fy mam ac fel nifer sy'n byw â'r cyflwr dementia, maen nhw'n cyfathrebu yn bennaf yn eu mamiaith ac mae eu hatgofion yn gysylltiedig â'u diwylliant Cymraeg, boed hynny'n ddarnau o farddoniaeth o ddyddiau ysgol, eu Beibl, yr Eisteddfod, eu teuluoedd, yn wir popeth sydd yn eu gwneud nhw'n unigolion cyflawn.

Pan ddaw diagnosis o dementia, yr hyn sydd wedi fy nharo yn bennaf yw'r diffyg ymwybyddiaeth o'r effaith y mae cyfeirio'n bositif at y Gymraeg a'r diwylliant yn ei gael ar unigolyn. Yn fy marn i, mae diystyru hunaniaeth person yn diystyru'r person.

Deallaf yn llwyr nad oes modd darparu asesiadau a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ardal o Gymru, ond hoffwn weld hyfforddiant pwrpasol yn cael ei gynnig trwy'r sector gofal er mwyn pwysleisio pwysigrwydd iaith a diwylliant person i'r ffordd y maent yn ymateb ac i'w lles meddyliol.

Yn anffodus, o fy mhrofiad i, nid yw'r Gymraeg yn cael ei chynnig yn rhagweithiol bob tro, ac yn fwy na hyn, nid oes wir ddealltwriaeth am effaith hynny ar yr unigolyn.

Yn dilyn cyswllt ag Alzheimer's Cymru, gofynnwyd i Ceri roi adborth am ei phrofiadau ac arweiniodd hynny ati'n dod yn aelod o is-grŵp gofal dementia a'r Gymraeg sy'n rhoi cyngor ac adborth i'r Llywodraeth wrth iddyn nhw lunio cynllun gweithredu newydd.



Roedd ymuno â'r grŵp hwn yn fendithiol iawn i fi gan i fi ddysgu llawer a chasglu gwybodaeth bellach am y gefnogaeth sydd ar gael. Roedd yn braf hefyd gweld nad oeddwn ar fy mhen fy hun a bod gen i, ac felly mam a fy mam-yng-nghyfraith, lais o hyd.

Ar un lefel mae'r grŵp yn gweithredu yn strategol iawn ond yr hyn gallaf i gynnig, ar sail fy mhrofiad personol, yw awgrymiadau am bethau bach y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith. Er enghraifft sicrhau bod cartrefi gofal yn chwarae cerddoriaeth Cymraeg, yn gofyn i artistiaid ganu yn Gymraeg, bod arwyddion dwyieithog yn bodoli, a bod cardiau fflach dwyieithog yn helpu. Yn fwy na dim, i gofio bod "Bore da" syml yn gallu gwneud byd o wahaniaeth.

Er ei bod hi'n dymuno bod yn gadarnhaol ac yn obeithiol am y dyfodol, mae Ceri yn bryderus nad yw pethau yn symud yn gynt.



Rwy'n teimlo'n aml fy mod i'n gorfod codi'r un materion a rhwystrau dro ar ôl tro. Rwy'n meddwl bod sefyllfa wedi ei datrys ond oherwydd diffyg cyfathrebu, yn gorfod ailadrodd yr un peth dro ar ôl tro. Ond fy ngobaith i yw, ymhen pum mlynedd, y byddwn mewn sefyllfa iachach o ran y Gymraeg a dementia ac y bydd hyfforddiant, dealltwriaeth a gweithredu ar bwysigrwydd iaith a diwylliant yn y byd ieched ar draws Cymru gyfan.



Safonau llunio polisi a phrif-ffrydio'r Gymraeg

Nid oes amheuaeth fod y **safonau llunio polisi yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth sicrhau lle canolog i'r Gymraeg yn y broses o lunio polisiâu cyhoeddus**. Maent yn gosod gofyniad i ystyried effaith polisiâu ar yr iaith mewn modd ystyrlon gan ystyried effeithiau uniongyrchol ar wasanaethau Cymraeg, ac effeithiau ehangach ar gymunedau, cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a'r seilwaith addysg, er enghraifft.

Nid mater o gydymffurfio technegol yn unig yw hyn felly, ond yn hytrach mae'n gam strategol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel pwnc prif ffrwd wrth i sefydliadau benderfynu sut i weithredu eu swyddogaethau. Mae'r disgwyliad yn glir: **rhaid i sefydliadau cyhoeddus wneud ymdrech gydwybodol a rhesymol i ystyried effaith eu penderfyniadau ar y Gymraeg**, nid fel ystyriaeth eilaidd ond fel rhan annatod o'r broses. Ac mae'r egwyddor hon bellach wedi'i hatgyfnerthu mewn dyfarniad diweddar gan Dribiwnlys y Gymraeg.

Mae'r safonau'n gosod dau ofyniad wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori: ystyried effaith ar y Gymraeg a cheisio barn am y Gymraeg. Mae ein gwaith monitro yn ystod y cyfnod adrodd yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r gofynion hyn, a'r graddau y cânt eu bodloni, yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau. Er bod rhai yn gweithredu trefniadau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth, mae eraill yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig neu'n methu â chwrdd â'r safonau'n llawn.

Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran sefydliadau'n rhoi trefniadau gweinyddol ar waith i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Mae templedi, canllawiau a hyfforddiant wedi'u datblygu i hwyluso'r broses. Fodd bynnag, **mae'r dystiolaeth yn dangos bwlch amlwg rhwng y trefniadau hyn a'u gweithrediad ymarferol**. Yn aml, mae asesiadau effaith yn cynnwys datganiadau ffeithiol am y Gymraeg heb nodi effeithiau penodol, sy'n golygu nad yw'r gofyniad i wneud ymdrech gydwybodol yn cael ei gyflawni'n llawn.

Mae cyd-destun neu faes pwnc y polisi dan sylw yn allweddol wrth ystyried yr hyn sy'n ofynnol er mwyn gallu arddangos ymdrech gydwybodol. Mae penderfyniadau sy'n sensitif o safbwynt ieithyddol, megis ad-drefnu addysg, yn galw am ystyriaeth ddyfnach, wrth reswm. Nid yw'r ystyriaeth honno'n cael ei harddangos ymhob achos.

Mae hyn yn pwysleisio'r angen i wella dealltwriaeth ac i weithredu'n fwy ystyrlon, er mwyn cau'r bwlch rhwng polisi a gweithredu, a chyflawni'r deilliant rheoleiddio rydym wedi'i osod: **sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg**.

Tribiwnlys y Gymraeg

Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys statudol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg. Swyddogaeth y Tribiwnlys yw ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau'r Gymraeg a dod i benderfyniad ynghylch yr apeliadau hynny. Mae blwyddyn olaf y cyfnod adrodd hwn yn nodi carreg filltir arwyddocaol **deng mlynedd ers sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg**. Dros y degawd hwn, mae'r Tribiwnlys wedi datblygu'n gorff statudol cadarn ac annibynnol, gan chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau tegwch a chysondeb wrth weithredu'r gyfundrefn safonau.

Tabl 1: Nifer y ceisiadau i Dribiwnlys y Gymraeg (2020–25)

Blwyddyn	Nifer y ceisiadau newydd a dderbyniwyd
2020–21	13
2021–22	3
2022–23	1
2023–24	4
2024–25	3
Cyfanswm	24

(Ffynhonnell: Adroddiadau Blyneddol Tribiwnlys y Gymraeg)

Fel y gwelir yn Nhabl 1, isel yw nifer y ceisiadau a dderbyniodd y Tribiwnlys yn ystod y cyfnod adrodd mewn gwirionedd, â gostyngiad amlwg ers 2020/21. Yn y flwyddyn honno cofnodwyd 13 achos, â cheisiadau am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio yn cyfrif am 70% o'r achosion. Ond erbyn 2024/25 dim ond tair achos a gyflwynwyd i'r Tribiwnlys. Mae'r darlun hwn yn **awgrymu hinsawdd gynyddol sefydlog o ran cydymffurfio â safonau a derbyn dyfarniadau statudol y Comisiynydd**.

Nid yw'r Tribiwnlys wedi derbyn unrhyw apêl o dan Adran 58 y Mesur yn ystod y cyfnod adrodd. Dyma'r adran sy'n caniatáu i sefydliadau apelio os ydynt yn ystyried bod gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur. Mae'r ffaith nad oes apeliadau wedi codi yn y maes hwn, ynghyd â'r gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion, yn arwydd o gadernid ac effeithlonrwydd y broses o osod safonau. Mae hefyd yn awgrymu bod y safonau'n cael eu hystyried yn gymesur ac yn briodol gan y sefydliadau sy'n ddarostyngedig iddynt.

Er bod nifer yr achosion sydd wedi ymddangos gerbron y Tribiwnlys yn gymharol isel yn ystod y cyfnod adrodd, **mae'r dyfarniadau a roddwyd wedi gosod cynseiliau pwysig ac wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion sefydliadau**. Heb os, yr achos mwyaf arwyddocaol a aeth gerbron Tribiwnlys y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd oedd apêl Cyngor Castell-nedd Port Talbot ynghylch penderfyniad i ad-drefnu tair ysgol gynradd a'u methiant i ystyried effaith y penderfyniad ar yr iaith Gymraeg.

Gellid darllen manylion yr achos yn llawn ar wefan y Tribiwnlys,³⁹ ond canlyniad yr achos oedd i'r Tribiwnlys gytuno â'r Comisiynydd: nid oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. **Nid yw datganiadau arwynebol mewn dogfennau ymgynghori na gohirio asesiad tan ar ôl cyfnod ymgynghori yn ddigonol.** Mae'r dyfarniad hwn yn un pwysig gan ei fod yn gosod cysail clir: rhaid i sefydliadau cyhoeddus wneud ymdrech gydwybodol a rhesymol i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg

Yn rhan o'r cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (2021), ymrwymwyd i weithredu safonau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr iechyd, cyrff cyhoeddus nad ydynt eto yn ddarostyngedig i'r safonau, a chwmnïau dŵr. Cytunwyd hefyd i ddechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai yn ystod tymor y Senedd.

Yn ystod y cyfnod hwn, **gwelwyd cynnydd sylweddol yn y broses o ymestyn a diwygio safonau'r Gymraeg, gan gryfhau ymhellach y fframwaith statudol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o reoliadau newydd a diwygiedig, gan ymestyn y safonau i'r mwyafrif o'r sectorau a'r sefydliadau yr ymrwymwyd iddynt. Diwygiodd y Llywodraeth hefyd bum cyfres o reoliadau presennol i'w gwneud yn berthnasol i ragor o sefydliadau gan alluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiadau cydymffurfio statudol i'r sefydliadau a sicrhau eu bod yn gweithredu'r safonau.

Dyma drosolwg o'r sectorau a'r sefydliadau hynny:

Grŵp o sefydliadau	Sefydliadau penodol	Dyddiad cymeradwyo rheoliadau	Dyddiad gweithredu'r safonau
Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021	Cyd-bwyllgorau Corfforedig (4 sefydliad)	1 Ebrill 2021	30 Hydref 2024 ⁴⁰
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021			
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022	Cynghorau Proffesiynau Iechyd (9 sefydliad)	31 Hydref 2022	6 Rhagfyr 2023
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023	Ymgymerywyr Dŵr a Charthffosiaeth (2 sefydliad)	31 Hydref 2023	13 Awst 2025
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025	Amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus (10 sefydliad)	28 Mawrth 2025	Nid yw'r safonau hynny wedi dod i rym eto.

³⁹ TyG/WLT/22/01: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Tribiwnlys y Gymraeg (Cyrchwyd: Ionawr 2026).
⁴⁰ Noder bod y safonau a osodwyd ar Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru wedi dod i rym ar 28 Chwefror 2025.

Erbyn diwedd 2025, roedd y Senedd wedi cymeradwyo wyth set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, pob un yn berthnasol i grŵp penodol o sefydliadau, ynghyd â dau set o reoliadau diwygio. **O ganlyniad, mae 133 o sefydliadau bellach yn gweithredu'r safonau.**⁴¹

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar Reoliadau drafft ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Byddai hyn yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau iaith ar y sefydliadau hyn, gan gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â nhw.

Er bod ymrwymiad i weithredu safonau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus wedi'i gynnwys yn y cytundeb cydweithio, mae'n destun siom na lwyddwyd i gyflwyno rheoliadau ar gyfer y sector yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dylid nodi bod Trafnidiaeth Cymru – prif ddarparwr trenau cyhoeddus yng Nghymru, a chwmni cyfyngedig heb elw sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru – eisoes yn ddarostyngedig i'r safonau a osodwyd ar Lywodraeth Cymru.

Er bod nifer sylweddol o'r sefydliadau a enwir yn Atodlenni Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bellach yn ddarostyngedig i'r safonau, mae rhai cyrff a sectorau'n parhau y tu allan i'r gyfundrefn. Mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i ymestyn y safonau i sectorau a sefydliadau ychwanegol drwy ehangu cwmpas y Mesur, gan sicrhau bod rhagor o gyrff yn dod o dan y drefn orfodol o gydymffurfio. Ymhlith y rhain mae cyrff y Goron ac adrannau Llywodraeth y DU, darparwyr gwasanaethau nwy a thrydan, post a thelathrebu. Ar hyn o bryd, mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 – **cyfundrefn wahanol nad yw'n rhoi'r un pwerau gorfodi i'r Comisiynydd.**

Defnyddio'r Gymraeg â busnesau ac elusennau

Mae **busnesau ac elusennau yn ddarparwyr gwasanaethau pwysig** sydd â'r potensial i ddylanwadu'n fawr ar brofiadau ieithyddol beunyddiol defnyddwyr a chwsmeriaid, wrth grwydro'r stryd fawr, siopa mewn archfarchnadoedd, gael cyngor gan elusen neu roi trefn ar faterion ariannol mewn banc. Mae'r **rhain hefyd yn sectorau lle nad oes gan y Comisiynydd bwerau gorfodi**, wrth gwrs. Rhaid dibynnu ar bŵer perswâd a dylanwad.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio â busnesau a sefydliadau trydydd sector er mwyn dangos manteision defnyddio'r Gymraeg ac yn gweithio'n agos â nhw er mwyn llunio cynlluniau datblygu cyffrous sy'n arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi pob math o sefydliadau – o archfarchnadoedd mawr ac elusennau rhyngwladol i fusnesau a sefydliadau trydydd sector llai sy'n gweithredu'n lleol.

⁴¹ Daw'r safonau i rym ar gyfer y sefydliadau hynny a enwir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025 yn ystod 2026.

Datblygiad pwysig yn ystod y cyfnod adrodd oedd **lansio cynllun y Cynnig Cymraeg ym mis Mehefin 2020**. Mae'r Cynnig Cymraeg yn gydnabyddiaeth swyddogol gan y Comisiynydd sy'n rhoi **cyfle i fusnesau ac elusennau ddangos i'r cyhoedd eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio**. I dderbyn y Cynnig Cymraeg, mae'n rhaid i sefydliadau greu cynllun datblygu'r Gymraeg ar y cyd â'r Comisiynydd a'i weithredu'n llwyddiannus am gyfnod. Rhaid i'r sefydliadau hefyd dynnu sylw at o leiaf bum gwasanaeth maent yn falch o allu eu cynnig yn Gymraeg, fel tiliau hunanwasanaeth, gwefannau a thudalennau cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Rhwng lansio'r cynllun a diwedd y cyfnod adrodd, **derbyniodd 169 o sefydliadau y Cynnig Cymraeg**, gan gynnwys Ymchwil Canser Cymru, Aldi, Ffilm Cymru, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Boots ac NSPCC Cymru.

Tabl 2: Nifer y sefydliadau sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd

Blwyddyn ariannol	Sefydliad
2020–21	12
2021–22	28
2022–23	26
2023–24	45
2024–25	48
2025–26	10 (hyd yn hyn)

(Ffynhonnell: Data Tîm Hybu'r Comisiynydd)

Wrth i sefydliadau weithio tuag at ennill cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg, mae nifer y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i ddefnyddwyr wedi cynyddu.

Mae nifer y sefydliadau sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol ers 2023, yn rhannol yn sgil y **cydweithio â phartneriaid strategol megis Cyngor Celfyddydau Cymru ac ARFOR**. Mae'r arianwyr hyn yn annog sefydliadau i weithio tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg drwy amodau cytundebol eu grantiau ac mae'r cydweithio hwn â phartneriaid strategol wedi bod yn allweddol er mwyn cyrraedd a dylanwadu ar sefydliadau newydd.

Mae sefydliadau'n gweld gwerth o weithio â'r Comisiynydd er mwyn derbyn y Cynnig Cymraeg.

Un fantais amlwg o weithio tuag at y gydnabyddiaeth swyddogol hon yw bod cyfle i ffurfioli'r gwasanaethau Cymraeg ar draws sefydliad a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut mae sefydliad yn cynllunio ac yn datblygu'r gweithlu i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Bydd y sefydliadau yn darparu adroddiad blynyddol ar y gweithgareddau sydd yn eu cynlluniau datblygu a'u Cynnig Cymraeg ac, mewn cydweithrediad â'r Comisiynydd, byddant yn adolygu eu Cynnig Cymraeg bob tair blynedd.

Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwil yn 2023 oedd yn edrych ar sut mae'r Gymraeg yn helpu elusennau i godi arian. Dangoswyd bod gwerth ariannol i ddefnyddio'r Gymraeg a bod defnyddio'r Gymraeg yn galluogi elusennau i:

- ymweld â digwyddiadau neu fudiadau sy'n gweithredu yn Gymraeg
- gwerthu nwyddau Cymraeg
- hysbysebu yn Gymraeg
- creu templedi a phecynnau codi arian Cymraeg
- ymgysylltu â'r cyfryngau Cymraeg.

Dangoswyd bod defnyddio'r Gymraeg yn galluogi elusennau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, sydd yn ei dro yn ennyn cefnogaeth ariannol iddynt. Wrth ddefnyddio'r Gymraeg a gallu ymweld â mudiadau Cymraeg, bu British Heart Foundation Cymru ar eu hennill wrth i Ferched y Wawr ddewis yr elusen fel 'elusen y flwyddyn' yn dilyn un o'r ymweliadau hyn, gan godi tua £30,000 i'r elusen.

Mae modd darllen yr ymchwil yn llawn a gweld enghreifftiau eraill o sut mae elusennau yn manteisio'n ariannol wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar wefan y Comisiynydd.⁴²

⁴² Comisiynydd y Gymraeg, Y Gymraeg – eich arf codi arian.



laith cymorth
a chyfle



Wedi ei sefydlu yn 1985, mae GISDA yn elusen sy'n cefnogi pobl ifanc fregus o dan 25 oed yng Ngwynedd. Mae'n cynnig ystod eang o wasanaethau ond y prif wasanaeth yw cynnig cymorth â digartrefedd ac mae ganddynt dai a hosteli o amgylch y sir.

Mae Gwynedd yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac felly mae gallu sgwrsio â phobl ifanc, sy'n wynebu heriau sylweddol, yn eu dewis iaith, yn bwysig iawn yn ôl y Prif Weithredwr, Siân Tomos.



Mae'r bobl ifanc y byddwn ni'n ymwneud â nhw yn gallu cyfathrebu'n well yn eu hiaith gyntaf nhw, yn arbennig os ydyn nhw'n trafod materion anodd, sensitif, emosiynol. Mae gallu trafod yn Gymraeg yn hollbwysig a dyna pam 'da ni'n credu'n gryf bod o'n bwysig i ddarparu'r cynnig hwnnw.

Pan mae pobl ifanc eisiau symud o hostel i dŷ, er enghraifft, mae gallu cyfathrebu'n union beth maen nhw eisiau a sut maen nhw'n teimlo yn gwneud andros o wahaniaeth.

Mae'r Gymraeg yn rhan o'n gwerthoedd ni, mae ein gweithlu ni i gyd yn gyfan gwbl ddwyieithog a 'da ni'n cefnogi dysgwyr newydd hefyd.

Mae gennym ni lawer o dystiolaeth i ddangos bod cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig – mae o'n rhan annatod o beth 'da ni'n gynnig i bobl ifanc. Felly mi fydd y Gymraeg efo GISDA tra byddan ni'n bodoli.

Un o'r bobl ifanc sydd wedi derbyn cymorth gan GISDA yw Reece.



Dwi'n byw yng Nghaernarfon ac yn un o bobl ifanc GISDA sy'n cael eu cefnogi gan y cymorth tai. Dwi'n teimlo mae'n bwysig bod y gwasanaethau ar gael yn Gymraeg oherwydd y ffaith mai Cymraeg ydi fy iaith gyntaf i. Ac er mod i ddim yn siarad o bob dydd, dyna ydi fy iaith i.

Os ti'n edrych ar sefydliadau fel GISDA sy'n rhoi cefnogaeth i bobl ifanc, yn aml iawn ti ddim yn cael hynna'n Gymraeg. Felly dwi'n meddwl ei fod o mor bwysig bod y gwasanaethau yma ar gael yn Gymraeg.

Perthnasedd safonau'r Gymraeg

Mae safonau'r Gymraeg yn ofynion manwl, rhagnodol a bennwyd drwy is-ddeddfwriaeth. Cryfder y dull hwn yw bod â dyletswyddau statudol sy'n rhoi eglurder i sefydliadau a defnyddwyr fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae **perygl y gall safonau o'r fath ddyddio mewn byd sy'n newid ar garlam, yn enwedig wrth i dechnoleg ail-lunio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.**

Ers eu cyflwyno yn 2016, ac yn wir yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae gwasanaethau pob sector wedi newid yn sylweddol, gyda datblygiadau megis platfformau digidol, awtomeiddio a defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial (DA). **Mae DA bellach yn gallu prosesu iaith naturiol yn effeithiol, gan greu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn systemau digidol yn fwy naturiol ac effeithlon nag erioed.** Mae hyn yn galluogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau mwy personol, hygyrch ac effeithlon, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n berthnasol mewn byd digidol.

Fodd bynnag, **wrth fabwysiadu technolegau newydd, rhaid i sefydliadau o dan safonau'r Gymraeg barhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau,** gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn cynnig arweiniad ar gymhwyso DA i ddyletswyddau iaith Gymraeg, cyhoeddodd y Comisiynydd ddatganiad polisi rheoleiddiol yn 2025.⁴³

Mae'n hanfodol bod y safonau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu arferion defnyddwyr a datblygiadau technolegol. Wrth i ddarparwyr fabwysiadu systemau hunanwasanaeth ac atebion a gynhyrchir gan DA, rhaid sicrhau bod y gofynion yn parhau'n berthnasol, yn ymarferol ac yn effeithiol – gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rhyngwynebau digidol, gwasanaethau awtomataidd a phrosesau sy'n defnyddio data deallus – fel bod defnydd o'r Gymraeg yn parhau'n hawdd, naturiol ac yn ddiogel i'r defnyddiwr.

⁴³ Comisiynydd y Gymraeg, **Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg: Datganiad Polisi Rheoleiddiol Comisiynydd y Gymraeg** (Awst 2025).

4.3 Blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf

Wrth edrych tua'r pum mlynedd nesaf, mae cyfleoedd a blaenoriaethau strategol clir yn dod i'r amlwg, **cyfleoedd sydd â'r potensial i ysgogi newid sylfaenol yn ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg, ac i ehangu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith.**

Ers eu cyflwyno yn 2016, mae safonau'r Gymraeg wedi cryfhau statws yr iaith ac wedi darparu lefel o sicrwydd i sefydliadau a defnyddwyr fel ei gilydd, gan greu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Does dim dwywaith mai **safonau'r Gymraeg yw'r mecanwaith mwyaf effeithiol ar gyfer gwella darpariaeth a sicrhau cysondeb gwasanaethau Cymraeg.**

Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd hyn ymhellach, mae'r gwaith parhaus o ymestyn y safonau i sefydliadau a sectorau newydd yn gam strategol allweddol. Mae'r blynyddoedd nesaf felly'n cynnig cyfle sylweddol i ymestyn safonau'r Gymraeg i sectorau a sefydliadau newydd. Er bod sylfeini cryf wedi'u gosod â nifer o reoliadau newydd wedi'u cyflwyno yn ystod 2021–25, mae bylchau yn parhau.

Mae **ehangu'r safonau** i adrannau gweinidogol ac anweinidogol Llywodraeth y DU, darparwyr gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â sefydliadau a sectorau eraill sydd wedi eu henwi yn y Mesur yn gam sydd â'r potensial i ehangu defnydd y Gymraeg ar raddfa genedlaethol. **Bydd y gwaith hwn yn allweddol i sicrhau cysondeb a chyfleoedd newydd i ddefnyddwyr.**

Mae potensial hefyd i greu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg â busnesau ac elusennau. Cynyddodd nifer y sefydliadau a dderbyniodd y Cynnig Cymraeg yn sylweddol rhwng 2023 a 2025, yn rhannol yn sgil cydweithio â phartneriaid strategol i ddylanwadu ar sefydliadau newydd ac mae'n bwysig parhau â'r cydweithio hwn dros y blynyddoedd nesaf.

Dylid pwysleisio hefyd fod nifer o'r sefydliadau a dderbyniodd y Cynnig Cymraeg rhwng 2023 a 2025 yn sefydliadau llai o ganlyniad i berthynas weithio strategol. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y sefydliadau llai hyn i brofiadau ieithyddol cymunedol, **rhaid rhoi pwyslais mwy ar dargedu busnesau ac elusennau mawr sy'n gweithredu'n genedlaethol yn y cyfnod nesaf gan mai dyma'r rhai mae'r cyhoedd yn ymwneud â nhw amlaf.**

Mae angen **ymateb yn rhagweithiol hefyd i fydd digidol sy'n newid yn gyflym.** Wrth i ymatebion awtomataidd, rhyngwynebau hunanwasanaeth a deallusrwydd artifisial ddod yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau, **mae angen i safonau a chanllawiau gael eu diweddarau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal a'i chryfhau yn y gofod digidol.**

Blaenoriaeth



Rhaid adolygu safonau'r Gymraeg i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac yn adlewyrchu modelau darparu gwasanaethau'r presennol a'r dyfodol. Rhaid hefyd i Lywodraeth Cymru hwyluso cynnydd yn y cyfleoedd i gynnig gwasanaethau Cymraeg drwy:

- gyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer Gweinidogion y Goron; byddai angen cydsyniad Ysgrifenyddion Gwladol er mwyn eu henwi mewn rheoliadau
- cyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer adrannau anweinidogol Llywodraeth y DU
- datblygu amserlen benodol ar gyfer sefydliadau a sectorau a enwir yn y Mesur, ac ystyried ehangu i sectorau pwysig eraill.

Er bod llawer o sefydliadau bellach yn cynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd da, **mae anghysondebau yn parhau i danseilio profiad y defnyddiwr**, yn enwedig mewn sectorau fel iechyd, gofal ac addysg. Ceir gwelliannau amlwg mewn dogfennau, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, ond mae mynediad at wasanaethau wyneb yn wyneb a dros y ffôn yn parhau i fod yn her. Mae'r cyfnod nesaf, felly, **yn gyfle i weithredu'n fwy strategol, gan dargedu'r bylchau hynny mewn gwasanaethau sy'n effeithio fwyaf ar brofiad defnyddwyr.**

Wrth edrych ymlaen, bydd y cyfnod nesaf yn gyfle i gryfhau ein dull o gyd-reoleiddio ymhellach. Mae'r deilliannau a gyhoeddwyd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer partneriaeth, ac rydym yn awyddus i barhau i feithrin deialog agored, rhannu arferion da, a chefnogi sefydliadau i weithredu'n uchelgeisiol gan sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr. Drwy'r dull hwn, **bydd rheoleiddio'n parhau i fod yn offeryn i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni disgwyliadau defnyddwyr ac yn cyfrannu at y weledigaeth genedlaethol.**

Yn y cyd-destun hwn, **mae cynllunio gweithlu a recriwtio strategol yn dod i'r amlwg fel un o'r cyfleoedd mwyaf trawsnewidiol.** Y tu hwnt i'r system addysg, dyma'r maes sydd â'r potensial mwyaf i ddylanwadu ar gyfleoedd i unigolion ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, gan gyfrannu'n uniongyrchol at amcanion craidd *Cymraeg 2050*. Mae cyfle gwirioneddol i adeiladu ar yr hyn mae'r system addysg yn ei gyflawni drwy sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol wrth weithio. **Dwy gynyddu'r defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle mae potensial i ddylanwadu ar ganfyddiadau pobl o bwysigrwydd yr iaith, i feithrin hyder ieithyddol, ac i sbarduno defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.**

Os yw sefydliadau am gynyddu eu capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg – ac felly ehangu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd – **mae angen mwy o ffocws a buddsoddiad** ar gynllunio sut y gellid defnyddio'r iaith o fewn gweithleoedd. **Bydd datblygu dulliau cyson i fesur defnydd, sefydlu gwaelodlin gadarn o sgiliau iaith, adnabod bylchau rhwng sgiliau a'r galw am wasanaeth, ac adolygu a gwella arferion recriwtio yn gamau hanfodol i alluogi sefydliadau i weithio drwy'r Gymraeg.** Yn y pen draw, dyma'r prif fecanweithiau ar gyfer cynyddu capasiti a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn ystod y pum mlynedd nesaf wrth adeiladu gweithlu hyderus a chynaliadwy, sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.

Blaenoriaeth



Rhaid galluogi Comisiynydd y Gymraeg i ddwysáu ein gwaith mewn gweithleoedd drwy ddarparu buddsoddiad ychwanegol i hwyluso llunio ac arwain gweithrediad strategaeth gydlynol yn y maes. Byddai'r strategaeth hon yn targedu ac yn cefnogi sefydliadau o bob sector i gynllunio'n strategol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd. Byddai strategaeth yn cydlynu gweithgarwch cynllunio gweithleoedd cenedlaethol gan adeiladu ar y cydweithio strategol sydd eisoes yn digwydd rhwng partneriaid allweddol eraill yn y maes.

O bwysleisio'r angen am ganlyniadau i siaradwyr Cymraeg, does dim amheuaeth ynghylch pwysigrwydd darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Er gwaethaf rhai datblygiadau arwyddocaol a chadarnhaol yn ystod y cyfnod adrodd, y **realiti yw nad yw siaradwyr Cymraeg bob amser yn gallu derbyn gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.** Er bod y cynnig rhagweithiol yn cael ei dderbyn a'i drafod fel cysyniad polisi, nid yw wastad yn cael effaith ymarferol ar y ffordd y caiff gofal ei gynllunio, ei ddarparu a'i ariannu. Yn rhy aml o lawer mae siaradwyr Cymraeg yn gorfod bodloni ar wasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Saesneg. Yn syml **nid yw darpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru ar hyn o bryd yn bodloni anghenion gwlad ddwyieithog.**

Dros y pum mlynedd nesaf **mae'n rhaid cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau iechyd a gofal**, yn enwedig yn y cyd-destun clinigol lle gall yr iaith wneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad pobl mewn sefyllfaoedd bregus. Er bod seilwaith clir bellach ar waith drwy *Mwy na geiriau* a chynlluniau clinigol pum mlynedd y sector, mae'r dystiolaeth yn dangos **angen parhaus i gynyddu capasiti ieithyddol yn y gwasanaethau clinigol craidd y mae defnyddwyr yn dibynnu arnynt o ddydd i ddydd.** Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau, asesiadau a gofal gan therapyddion, nyrsys arbenigol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Dyma'r meysydd lle mae'r galw mwyaf ac, yn ei dro, y risg mwyaf o fethu â diwallu anghenion defnyddwyr os nad yw gwasanaethau'n adlewyrchu eu hanghenion ieithyddol. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd, canlyniadau a diogelwch clinigol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon mae **angen sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol, y safonau statudol a'r strategaethau cenedlaethol yn ategu ei gilydd, ac yn cryfhau'r ffocws ar wasanaethau clinigol**. Mae'r cyfnod nesaf yn gyfle i drosglwyddo o gyfnod o sefydlu i gyfnod o weithredu effeithiol, gan sicrhau bod y buddsoddiad mewn cynllunio strategol yn arwain at ganlyniadau mesuradwy a chadarnhaol i'r defnyddiwr.

Blaenoriaeth



Rhaid trawsnewid gofal clinigol i siaradwyr Cymraeg drwy ganolbwyntio adnoddau ac ymdrechion mewn meysydd blaenoriaeth cydnabyddedig. Dylid cynyddu buddsoddiad canolog Gwasanaeth Iechyd Cymru yn y Gymraeg drwy ariannu adran o swyddogion arweiniol arbenigol fydd yn sicrhau bod gofal yn y Gymraeg yn rhan annatod o bob elfen o lwybrau gofal yn y meysydd hyn.

Byddai ariannu adran o swyddogion arweiniol arbenigol yn eu galluogi i weithio o fewn a rhwng adrannau a rhannu arfer da ar draws y gwasanaeth iechyd a gofal gan weithio gyda chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, arolygiaethau, byrddau iechyd a chyrff iechyd, arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, elusennau ac eraill sy'n rhan o lwybrau gofal cleifion. Gallent hefyd fod yn rhan allweddol o ddatblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu yn y meysydd hyn, yn enwedig o safbwynt **cyflawni amcanion cynllun *Mwy na geiriau* a gweithrediad llwyddiannus cynlluniau 5-mllynedd y byrddau iechyd** ar gyfer cynyddu capasiti i ddarparu gofal clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blaenoriaethau'r Comisiynydd

1

Rhaid gwella cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall. I wneud hyn mae'n hanfodol cryfhau sefyllfa'r iaith mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr lle mae cyfraddau trosglwyddo yn parhau'n gymharol gadarn. Yn ogystal â gweithredu argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol uwch, rhaid darparu buddsoddiad ychwanegol i Mudiad Meithrin, y mentrau iaith ac eraill yn y maes i'w galluogi i dargedu ymyraethau yn fwy effeithiol ac ar raddfa ehangach.

2

Rhaid buddsoddi ar raddfa llawer ehangach i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu blynnyddoedd cynnar drwy gynyddu'r hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n rhan o gyrsiau hyfforddiant a phrentisiaethau'r sector, a datblygiad proffesiynol parhaus pob gweithiwr. Er mwyn gwireddu cynnydd mewn sgiliau Cymraeg, rhaid hwyluso recriwtio a chadw staff drwy gynyddu adnoddau ehangach y sector.

3

Rhaid mynd i'r afael yn uchelgeisiol ac ar fyrder â'r her o greu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Mae angen ymyrraeth gadarn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yn hyderus. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg yn rhan orfodol o hyfforddi, sefydlu a datblygu proffesiynol pob athro.

4

Rhaid sicrhau bod cyfle i bob dysgwr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. I wneud hyn, mae angen buddsoddi'n briodol, a rhoi rhagor o bwyslais strategol ar sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn cyfran uwch o'u haddysg a'u hyfforddiant drwy'r Gymraeg. Rhaid i'r sector flaenoriaethu cynyddu'r ganran o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

5

Rhaid cynnig llawer mwy o gyfleoedd, yn arbennig i blant a phobl ifanc, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon. I wneud hyn, ac fel mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ei argymhell, rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau fframweithiau cynllunio ieithyddol cymunedol a chynyddu'r cyllid a'r adnoddau i bartneriaid allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gweithgareddau a'r digwyddiadau hyn yn Gymraeg.

6

Rhaid i bartneriaid allweddol gydweithio i ddeall yn llawn yr heriau a'r cyfleoedd sydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyfryngau digidol a darlledu. Gan adeiladu ar y cydweithio hwn, dylid datblygu strategaeth ddigidol genedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru a fydd yn amlygu cyfraniad allweddol pob partner yn y maes.

7

Rhaid atal dirywiad pellach y Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae ei sefyllfa ar ei chryfaf ar hyn o bryd os ydym am gryfhau ei sefyllfa drwy Gymru gyfan. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno papur gwyn ar fyrder i weithredu prif argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

8

Rhaid adolygu safonau'r Gymraeg i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac yn adlewyrchu modelau darparu gwasanaethau'r presennol a'r dyfodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd hwyluso cynnydd yn y cyfleoedd i gynnig gwasanaethau Cymraeg drwy:

- gyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer Gweinidogion y Goron; byddai angen cydsyniad Ysgrifenyddion Gwladol er mwyn eu henwi mewn rheoliadau
- cyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer adrannau anweinidogol Llywodraeth y DU
- datblygu amserlen benodol ar gyfer sefydliadau a sectorau a enwir yn y Mesur, ac ystyried ehangu i sectorau pwysig eraill.



Rhaid galluogi Comisiynydd y Gymraeg i ddwysáu ein gwaith mewn gweithleoedd drwy ddarparu buddsoddiad ychwanegol i hwyluso llunio ac arwain gweithrediad strategaeth gydlynol yn y maes. Byddai'r strategaeth hon yn targedu ac yn cefnogi sefydliadau o bob sector i gynllunio'n strategol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd. Byddai strategaeth yn cydlynu gweithgarwch cynllunio gweithleoedd cenedlaethol gan adeiladu ar y cydweithio strategol sydd eisoes yn digwydd rhwng partneriaid allweddol eraill yn y maes.



Rhaid trawsnewid gofal clinigol i siaradwyr Cymraeg drwy ganolbwyntio adnoddau ac ymdrechion mewn meysydd blaenoriaeth cydnabyddedig. Dylid cynyddu buddsoddiad canolog Gwasanaeth Iechyd Cymru yn y Gymraeg drwy ariannu adran o swyddogion arweiniol arbenigol fydd yn sicrhau bod gofal yn y Gymraeg yn rhan annatod o bob elfen o lwybrau gofal yn y meysydd hyn.



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Beth nesaf?

Os hoffech chi drafod neu wneud sylw ar gynnwys yr adroddiad mae croeso i chi gysylltu â ni ar e-bost post@cyg-wlc.cymru. Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn a chael mwy o wybodaeth ar ein gwefan comisiynyddygyymraeg.cymru.

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Facebook, Instagram a LinkedIn, a chofiwch ddefnyddio #Adroddiad5Mlynedd os byddwch yn cyfrannu ac yn rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.



ComyGymraeg



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

